# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 30/04/2014

Cynnwys Contents

[Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer]

[Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Questions to the Minister for Natural Resources and Food]

[Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio
Questions to the Minister for Housing and Regeneration]

[Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol
Questions to the Counsel General]

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Yr Undeb Ewropeaidd
Welsh Conservatives Debate: The European Union]

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Tafarnau
Welsh Conservatives Debate: Public Houses]

[Dadl Plaid Cymru: Cyflogaeth Ieuenctid
Plaid Cymru Debate: Youth Employment]

[Cyfnod Pleidleisio
Voting Time]

[Dadl Fer: 200,000 o Blant Tawel?
Short Debate: 200,000 Silent Children?]

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Prynhawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order.

13:30

## Datganiad gan y Llywydd

## Statement by the Presiding Officer

Senedd.tv [Fideo] [Video]

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Before we move to questions, I would just like to say that Members will note that a total of seven tabled questions have been withdrawn from today's agenda.

Cyn i ni symud at y cwestiynau, hoffwn i'r Aelodau nodi bod cyfanswm o saith cwestiwn a gyflwynwyd wedi'u tynnu'n ôl oddi ar yr agenda heddiw.

Withdrawing tabled questions seriously reduces the Assembly's ability to scrutinise the Government. Members who table a question for a session when they are not going be present are depriving other Members of the opportunity to ask questions that hold the Government to account, and to represent their constituents. [Interruption.] This is quite an important statement. Tabled questions should be withdrawn only in unforeseen and unavoidable circumstances, and I have reminded business managers of the importance of this on several occasions of late. I do not consider attendance at events that have been arranged some time in advance to be an unforeseen circumstance.

Mae tynnu cwestiynau a gyflwynwyd yn ôl yn cyfyngu'n ddifrifol ar allu'r Cynulliad i graffu ar y Llywodraeth. Mae aelodau sy'n cyflwyno cwestiwn ar gyfer sesiwn nad ydynt yn mynd i fod yn bresennol ynddi yn amddifadu Aelodau eraill o'r cyfle i ofyn cwestiynau sy'n dwyn y Llywodraeth i gyfrif, ac i gynrychioli eu hetholwyr. [Torri ar draws.] Mae hwn yn ddatganiad go bwysig. Dim ond dan amgylchiadau annisgwyl, neu rai na ellir eu hosgoi, y dylai cwestiynau a gyflwynwyd gael eu tynnu'n ôl, ac rwyf wedi atgoffa rheolwyr busnes o bwysigrwydd hyn ar sawl achlysur yn ddiweddar. Nid wyf yn ystyried bod mynychu digwyddiadau a drefnwyd beth amser ymlaen llaw yn amgylchiadau annisgwyl.

To be called to speak in the Assembly is a privilege, not a right. I will exercise my discretion as Presiding Officer not to call Members who, through their own actions, deprive others of the opportunity to ask questions.

To be called to speak in the Assembly is a privilege, not a right. I will exercise my discretion as Presiding Officer not to call Members who, through their own actions, deprive others of the opportunity to ask questions.

# Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

# Questions to the Minister for Natural Resources and Food

## Coedwigo Cyfuchlin

## Contour Forestation

13:31 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fanteision coedwigo cyfuchlin? OAQ(4)0141(NRF)*

*1. Will the Minister make a statement on the benefits of contour forestation? OAQ(4)0141(NRF)*

13:31 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

Contour planting is a practice that has been mainly used in arid zones across the world to intercept water for tree growth, and to control erosion. Its benefits will be considered alongside established afforestation techniques as part of the review of woodland planting opportunities in Wales.

Mae plannu cyfuchlin yn arfer sydd wedi cael ei ddefnyddio'n bennaf mewn parthau cras ar draws y byd i gasglu dŵr ar gyfer tyfiant coed, ac i reoli erydiad. Bydd ei fanteision yn cael eu hystyried ochr yn ochr â thechnegau coedwigo sefydledig fel rhan o'r adolygiad o gyfleoedd plannu coetiroedd yng Nghymru.

13:32 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister. I think that contour planting has been done, and I think that the Pontbren case study, which started all this off, has shown some benefits towards flood risk—a reduction in flood risks. As you know—because you have visited several times, for which the community of St Asaph is very grateful—the river banks of the river Elwy flooded in St Asaph, which resulted in a death, unfortunately, in 2012. Residents are now looking at what is happening there with flood defences. However, based on what the Pontbren case study is about, I wonder whether you would not consider this as a way forward, as an additional way in which we could tackle the flood risks from flooding from river beds, or flooding from valleys.

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Credaf fod plannu cyfuchlin wedi cael ei wneud, a chredaf fod astudiaeth achos Pontbren, a roddodd gychwyn i hyn oll, wedi dangos rhai manteision o ran risg llifogydd—a lleihau peryglon llifogydd. Fel y gwyddoch—am eich bod wedi ymweld sawl gwaith, ac mae cymuned Llanelwy yn ddiolchgar i chi am hynny—gorlifodd afon Elwy ei glannau yn Llanelwy, gan arwain at farwolaeth person yn 2012 yn anffodus. Mae'r trigolion bellach yn edrych ar beth sy'n digwydd yno gydag amddiffynfeydd rhag llifogydd. Fodd bynnag, ar sail astudiaeth achos Pontbren, tybed oni fyddech chi'n ystyried hyn fel ffordd ymlaen, fel ffordd ychwanegol o fynd i'r afael â'r perygl o welyau afonydd yn gorlifo, neu lifogydd o ddyffrynnoedd.

13:32 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the Member, and to her colleague, Chris Ruane, of course, who have both worked extremely hard on a lot of these issues, and have contacted me regularly to raise issues around the flooding issue in St Asaph. I think that the Pontbren example is a very good example of how we can take forward sustainable land management, and sustainable water management, in the future. Natural Resources Wales today published the second part of its review of the coastal flooding that we experienced over Christmas, in December and over the new year, and I will be responding to that in due course. However, I think that one lesson that we need to learn is that we need to manage water in totality—we need to manage water in the uplands, as well as in terms of flood defences in the lowlands. I think that the example that was given by the Member is an excellent example of how we can take that forward.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod, ac i'w chydweithiwr, Chris Ruane, wrth gwrs. Mae'r ddau wedi gweithio'n galed iawn ar lawer o'r materion hyn, ac wedi cysylltu â mi'n rheolaidd ynglŷn â materion yn ymwneud â'r llifogydd yn Llanelwy. Credaf fod achos Pontbren yn enghraifft dda iawn o sut y gallwn symud gwaith yn ei flaen i reoli tir a dŵr yn gynaliadwy yn y dyfodol. Heddiw, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru ail ran ei adolygiad o'r llifogydd arfordirol a welsom dros y Nadolig, ym mis Rhagfyr a thros y flwyddyn newydd, a byddaf yn ymateb i hwnnw maes o law. Fodd bynnag, credaf mai un wers sy'n rhaid inni ei dysgu yw'r angen inni reoli dŵr yn gyffredinol—rhaid i ni reoli dŵr yn yr ucheldir, yn ogystal ag amddiffyn rhag llifogydd yn yr iseldiroedd. Credaf fod yr enghraifft a roddodd yr Aelod yn enghraifft ardderchog o sut y gallwn fwrw ymlaen i wneud hynny.

13:33 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, Kronospan, which is based in Chirk in my region, is one of the world's largest producers of wood-panel products and laminate flooring. You will be aware that it has recently highlighted its concerns around the lack of suitable Welsh-grown timber for its businesses. Of course, all timber has the capacity for absorbing water and for helping with flood prevention. I know that the Welsh Government provides considerable support for the planting of native species, but what assurances can you give Kronospan, and other wood products businesses in my region, that the Welsh Government will be looking at supporting commercial planting, so that these businesses can continue to produce here in Wales, using Welsh products?

Weinidog, cwmni Kronospan, sydd wedi'i leoli yn y Waun yn fy ardal i, yw un o gynhyrchwyr nwyddau pren a lloriau laminedig mwyaf y byd. Gwyddoch ei fod yn ddiweddar wedi lleisio pryderon ynglŷn â'r prinder coed addas wedi'u tyfu yng Nghymru sydd ar gael ar gyfer ei fusnesau. Wrth gwrs, gall pob pren amsugno dŵr a helpu i atal llifogydd. Rwy'n gwybod bod Llywodraeth Cymru yn rhoi cefnogaeth sylweddol i blannu rhywogaethau brodorol, ond pa sicrwydd allwch chi ei roi i Kronospan, a busnesau cynhyrchion pren eraill yn fy ardal, y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried cefnogi plannu masnachol, fel y gall y busnesau hyn barhau i gynhyrchu yma yng Nghymru, gan ddefnyddio cynnyrch o Gymru?

13:34 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I had an excellent meeting with representatives of the timber production sector just before the Easter recess, when we discussed a lot of the issues that the Member raised, as well as other issues. We have agreed on a way forward, and on how we will continue to support the timber industry in Wales. Part of the consultation exercise that we have just concluded on the rural development plan, of course, was to provide exactly that sort of support for that industry.

Cefais gyfarfod ardderchog gyda chynrychiolwyr o'r sector cynhyrchu pren yn union cyn toriad y Pasg, pan fuom yn trafod llawer o'r materion a godwyd gan yr Aelod, yn ogystal â materion eraill. Rydym wedi cytuno ar ffordd ymlaen, ac ar sut y byddwn yn parhau i gefnogi'r diwydiant coed yng Nghymru. Wrth gwrs, roedd darparu'n union y math yma o gefnogaeth i'r diwydiant coed yn rhan o'r ymarfer ymgynghori rydym newydd ei gwblhau ar y cynllun datblygu gwledig.

13:34 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, Pontbren is, of course, an exemplar in the planting of trees to prevent flooding and can be copied elsewhere. Is there any truth in the rumour that the Welsh Government is considering stopping tree planting grants, and will you ensure that your policies do not prevent the use of methods that would mitigate flooding?

Weinidog, mae Pontbren, wrth gwrs, yn esiampl o ran plannu coed i atal llifogydd a gellir ei hefelychu mewn mannau eraill. A oes unrhyw wirionedd yn y sibrydion fod Llywodraeth Cymru yn ystyried rhoi'r gorau i grantiau plannu coed, ac a wnewch chi sicrhau nad yw eich polisïau yn atal y defnydd o ddulliau a fyddai'n lliniaru llifogydd?

13:35 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, there is not truth in this. I have heard similar rumours myself and I am glad that the Member has given me the opportunity to confirm that the Welsh Government is committed, and will remain committed, to extensive afforestation and planting—planting to support the timber industry and also planting woodland for other reasons, such as land or water management and also to sustain biodiversity. We will be continuing that and I hope that the new Glastir scheme will provide further opportunities for that as well.

Na, nid oes gwir yn hyn. Rwyf wedi clywed sibrydion tebyg fy hun ac rwy'n falch fod yr Aelod wedi rhoi cyfle i mi gadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo, ac yn mynd i barhau'n ymrwymedig, i goedwigo a phlannu helaeth—plannu i gefnogi'r diwydiant pren a hefyd, plannu coetiroedd am resymau eraill, fel rheoli tir neu ddŵr, a hefyd i gynnal bioamrywiaeth. Byddwn yn parhau i wneud hynny a gobeithiaf y bydd y cynllun Glastir newydd yn cynnig cyfleoedd pellach yn y maes hwn hefyd.

## Cofrestru Tir yn Faes Pentref

## Registering Land as a Village Green

13:35 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn annog cymunedau i wneud ceisiadau i gofrestru tir yn faes pentref? OAQ(4)0143(NRF)*

*2. How does the Welsh Government encourage communities to make applications to register land as a village green? OAQ(4)0143(NRF)*

13:35 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Members will be aware that section 15 of the Commons Act 2006 means that an individual may make an application to their commons registration authority to register land as a green, providing it meets the statutory criteria, in that it has been used by local people for recreation, as a right, for at least 20 years.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fod adran 15 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 yn golygu y gall unigolyn wneud cais i'w awdurdod cofrestru tir comin i gofrestru tir yn fan gwyrdd, ar yr amod ei fod yn bodloni'r meini prawf statudol, gan ei fod wedi cael ei ddefnyddio gan bobl leol ar gyfer gweithgareddau hamdden, fel hawl, ers o leiaf 20 mlynedd.

13:36 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister; I was asking really about what the Welsh Government could do to encourage that. In my own ward in Swansea, for example, there is competition over a piece of land that has been used for casual leisure by the local community for many years. Residents want it to be designated a village green and the council wants to appropriate it for public use, which leaves it open to development. I appreciate that you cannot speak about a particular instance, but in the absence of a Welsh localism Act, local residents will always be at a disadvantage in those competitions. In order to help to secure green spaces in communities, will you consider whether the future generations Bill, or even the planning Bill, might be a place to consider introducing a presumption in favour of village greens in those circumstances?

Diolch i chi, Weinidog; gofyn oeddwn i mewn gwirionedd beth y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i annog hynny. Yn fy ward hun yn Abertawe, er enghraifft, mae cystadleuaeth dros ddarn o dir sydd wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer hamdden achlysurol gan y gymuned leol ers blynyddoedd lawer. Mae'r trigolion am iddo gael ei ddynodi'n faes pentref ac mae'r cyngor am ei ddefnyddio at ddefnydd y cyhoedd, sy'n ei adael yn agored i'w ddatblygu. Sylweddolaf na allwch drafod achos penodol, ond yn absenoldeb Deddf Lleoliaeth i Gymru, bydd trigolion lleol bob amser dan anfantais mewn cystadlaeth o'r fath. Er mwyn helpu i ddiogelu mannau gwyrdd mewn cymunedau, a wnewch chi ystyried a allai Bil cenedlaethau'r dyfodol, neu hyd yn oed y Bil cynllunio, gyflwyno rhagdybiaeth o blaid meysydd pentref yn yr amgylchiadau hynny?

13:36 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I hope that local people who are in that situation would not be put off by the current situation. Clearly, if there is an area of land, an area of green, that has been used for 20 years as a recreation area, then they have the right to have that registered. Members will also be aware that my colleague the Minister for planning has issued a consultation paper, 'Positive Planning', where he tries to strike a balance between maintaining the need to preserve land used as town and village greens and providing developers with a greater degree of certainty in bringing forward appropriate developments. Certainly, each individual community will have different needs and requirements and will require different solutions. Certainly, speaking in my role, ensuring that children, for example, have an environment within which they can play and exercise and enjoy recreation is something that I would want to encourage in communities up and down Wales.

Rwy'n gobeithio na fydd pobl leol yn y sefyllfa hon yn cael eu digalonni gan y sefyllfa bresennol. Yn amlwg, lle ceir darn o dir, man gwyrdd, sydd wedi cael ei ddefnyddio ers 20 mlynedd fel ardal hamdden, yna mae ganddynt hawl i'w gael wedi'i gofrestru. Bydd yr Aelodau yn ymwybodol hefyd fod fy nghydweithiwr, y Gweinidog Cynllunio wedi cyhoeddi papur ymgynghori, 'Cynllunio Cadarnhaol', lle mae'n ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng cynnal yr angen i warchod tiroedd sy'n cael eu defnyddio fel meysydd tref a phentref a rhoi mwy o sicrwydd i ddatblygwyr wrth gyflwyno datblygiadau priodol. Yn sicr, bydd gan bob cymuned unigol ei gwahanol anghenion a gofynion a bydd angen atebion gwahanol. Yn bendant, o ran fy rôl i, mae sicrhau bod plant, er enghraifft, yn cael amgylchedd lle gallant chwarae, gwneud ymarfer corff a mwynhau hamdden yn rhywbeth y byddwn am annog ei mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru.

13:37 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In England, the right of local inhabitants to apply to have land registered as a town or village green has been seriously curtailed. For example, an application for planning permission can result in the right to apply for registration ceasing altogether, which is really to the benefit of property developers. Is the Minister aware of any plans to follow suit in Wales?

Yn Lloegr, cyfyngwyd yn ddifrifol ar hawl trigolion lleol i wneud cais i gael tir wedi'i gofrestru'n faes tref neu bentref. Er enghraifft, gall cais am ganiatâd cynllunio arwain at golli'r hawl i wneud cais i gofrestru yn gyfan gwbl, sydd o fantais wirioneddol i ddatblygwyr eiddo. A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau i wneud yr un modd yng Nghymru?

13:38 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do need to tread carefully because these are areas for which I have some responsibilities in terms of the planning Act, but my colleague the Minister for planning takes primary responsibility for these matters. The 'Positive Planning' consultation is being considered at the moment, and there are balances being struck in terms of development and the need to protect village greens and urban green spaces. I would hope that in communities up and down Wales—. I know that the Member for Cardiff North has taken a great interest in ensuring that there are green spaces. I think that Llanishen reservoir is an example in her constituency where she has worked extraordinarily hard to maintain those sorts of spaces. I hope that all of us in different parts of the Chamber, from different parts of the country, can ensure that that balance is struck in different places.

Mae angen i mi droedio'n ofalus am fod y rhain yn feysydd y mae gennyf rai cyfrifoldebau ynddynt o ran y Ddeddf cynllunio, ond fy nghydweithiwr, y Gweinidog Cynllunio, sydd â'r prif gyfrifoldeb am y materion hyn. Mae'r ymgynghoriad 'Cynllunio Cadarnhaol' dan ystyriaeth ar hyn o bryd, ac mae ymdrechion ar y gweill i sicrhau cydbwysedd o ran datblygu a'r angen i ddiogelu meysydd pentref a mannau gwyrdd trefol. Byddwn yn gobeithio, mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru—. Gwn fod gan yr Aelod dros Ogledd Caerdydd ddiddordeb mawr mewn sicrhau bod mannau gwyrdd ar gael. Credaf fod cronfa ddŵr Llanisien yn enghraifft yn ei hetholaeth lle mae hi wedi gweithio'n hynod o galed i gynnal y mathau hynny o leoedd. Rwy'n gobeithio y gall pob un ohonom mewn gwahanol rannau o'r Siambr, o wahanol rannau o'r wlad, sicrhau cydbwysedd o'r fath yn y gwahanol ardaloedd.

13:39 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae cymunedau yn aml yn gwneud cais i gofrestru mannau gwyrdd fel meysydd pentref—'village greens'—pan fydd cais cynllunio tai yn cael ei osod ar y darn gwyrdd yna. Mae hynny yn sicr wedi digwydd yn Nhal-y-bont ac ym Maesglas yn Aberteifi, yng Ngheredigion, yn fy ardal i. A ydych yn cytuno â mi y dylai unrhyw awdurdod lleol ystyried unrhyw gais gan gymuned leol am gofrestru maes pentref cyn bod yr awdurdod lleol yna yn ystyried unrhyw gais cynllunio ar gyfer tai newydd yn yr ardal honno, fel bod y gymuned yn cael yr hawl gyntaf i gael y drafodaeth ynglŷn â chofrestru man gwyrdd fel maes pentref?

Communities often apply to register green spaces as village greens when a housing planning application is placed on that green land. That has certainly happened in Tal-y-bont and in Maesglas in Cardigan, in Ceredigion, in my constituency. Do you agree with me that any local authority should consider any application by a local community for the registration of a village green before that local authority considers any planning application for the construction of new houses in that area, so that the community has the first opportunity to have the discussion as regards the registration of a village green?

13:39 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n ymwybodol o'r sefyllfa yn Nhal-y-bont, ym Maes-y-Deri, rwy'n meddwl, lle mae'r maes chwarae wedi cael ei gofrestru fel maes pentref. Rwy'n credu bod hynny yn enghraifft dda iawn o sut y gall pentrefwyr sicrhau bod lleoedd gwyrdd yn ein pentrefi ac yn ein trefi. Nid wyf eisiau camu mewn i benderfyniadau llywodraeth leol. Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth yn ei lle ac wedi clywed y cwestiwn. Ambell waith, rwy'n meddwl ei bod yn briodol i Weinidogion adael i awdurdodau lleol weithredu fel y maent yn dewis.

I am aware of the situation in Talybont, in Maes-y-Deri, I believe, where the playground has been registered as a village green. I think that that is a very good example of how villagers can ensure that there are green spaces available in our towns and villages. I do not want to step in to decisions taken by local government. The Minister for Local Government and Government Business is in her place and has heard the question. Occasionally, I think that it is appropriate for Ministers to allow local authorities to act as they choose.

13:40 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, is it not the case that the scenario of what is happening in England that Julie Morgan has just painted is in fact what is being proposed for Wales, whereby he will make it more difficult to register village greens and will aid developers in that way? I have two areas in my region, by St Helen's and in Newton, that residents are anxious to register as village greens because of the threat of development. May I ask, therefore, that the Government actually sticks with your rhetoric about trying to protect green spaces and sticks to the present regime whereby villagers are able to go and get these green spaces registered?

Weinidog, onid yw'n wir fod yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr, fel y mae Julie Morgan newydd ei ddarlunio, yr un fath mewn gwirionedd â'r hyn sy'n cael ei gynnig i Gymru? Bydd yn ei gwneud hi'n anos cofrestru meysydd pentref a hynny'n ei dro yn cynorthwyo datblygwyr. Mae gen i ddwy ardal yn fy rhanbarth—ger Sain Helen ac yn Newton—y mae trigolion yn awyddus i'w cofrestru fel meysydd pentref oherwydd y bygythiad y cânt eu datblygu. A gaf fi ofyn, felly, i'r Llywodraeth lynu at ei rhethreg ynglŷn â cheisio diogelu mannau gwyrdd a glynu at y drefn bresennol lle gall pentrefwyr gael y mannau gwyrdd hyn wedi'u cofrestru?

13:41 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would say that I am explaining the policy of a Government rather than just employing rhetoric. Let me say this to the Member: the Minister for planning has heard what you had to say and will take that into consideration in terms of his consideration of the 'Positive Planning' consultation. However, there are no proposals to do what you say. I have no proposals at all to amend the Commons Act in this way. So, the registration under the Commons Act will continue as at present.

Hoffwn ddweud mai egluro polisi'r Llywodraeth rwy'n ei wneud yn hytrach na dim ond defnyddio rhethreg. A gaf fi ddweud hyn wrth yr Aelod: mae'r Gweinidog Cynllunio wedi clywed yr hyn a oedd gennych i'w ddweud a bydd yn rhoi sylw i hynny wrth ystyried yr ymgynghoriad ar 'Cynllunio Cadarnhaol'. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gynigion i wneud yr hyn a ddywedwch. Nid oes gennyf unrhyw gynigion o gwbl i ddiwygio'r Ddeddf Tiroedd Comin yn y modd hwn. Felly, bydd y cofrestriad o dan y Ddeddf Tir Comin yn parhau fel y mae ar hyn o bryd.

### Ffermwyr yn Sir Benfro

### Farmers in Pembrokeshire

13:41 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynorthwyo ffermwyr yn Sir Benfro? OAQ(4)0139(NRF)*

*3. Will the Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to support farmers in Pembrokeshire? OAQ(4)0139(NRF)*

13:41 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau diwydiant cynaliadwy sydd wedi'i foderneiddio ac yn broffidiol, ledled Cymru.

The Welsh Government is committed to achieving a sustainable, modernised and profitable agricultural industry across Wales.

13:41 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, fe gwrddais i â ffermwyr ac aelodau Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr sir Benfro yn ddiweddar i drafod rhai o'u pryderon ynglŷn ag effaith y rheolau sydd mewn lle i daclo TB mewn gwartheg. Dywedodd un ffarmwr wrthyf fod y gost ychwanegol i'w fusnes ef yn rhyw £200,000 o achos y rheolau, a dim ond nifer bach iawn o'i wartheg sydd wedi profi yn bositif. Mae'n bwysig bod y mesurau sydd ar waith i daclo TB mewn gwartheg yn gymesur ac mae'n amlwg yn yr achos hwn nad ydynt. Beth ydych chi fel Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod y mesurau sydd mewn lle i daclo TB mewn gwartheg yn gymesur?

Minister, I met with farmers and members of Pembrokeshire National Farmers Union recently to consider some of their concerns about the impact of the regulations that are in place to tackle bovine TB. One farmer told me that the additional cost to his business was approximately £200,000 because of these regulations, and only very few of his cattle have actually tested positive. It is important that the measures in place to tackle TB are proportionate and it is obvious from this tale that they are not. What are you doing as a Government to ensure that the measures that are in place to tackle bovine TB are proportionate?

13:42 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Darllenais eich datganiad i'r wasg ar ôl y cyfarfod amboutu hynny, ac rwy'n mawr obeithio eich bod wedi esbonio i ffermwyr sir Benfro eu bod yn lwcus iawn i gael Llywodraeth Cymru sy'n delio â diciâu ac nad yw'n gweithredu fel Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn Lloegr lle nid ydynt yn delio â'r afiechyd.

I read your press release after that meeting about that, and I very much hope that you explained to the farmers of Pembrokeshire that they are very fortunate to have a Welsh Government that is dealing with bovine TB and is not taking the steps taken by the Department for Environment, Food and Rural Affairs in England, where they are not dealing with this disease.

Rydym wedi gweld TB yn lleihau gan dros draean yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae hynny'n cael impact yn awr. Yr hyn y buaswn i'n ei ddweud wrth y diwydiant yw: nid yw'n bosibl i ddweud wrthyf a phobl eraill, ar un llaw, mai TB yw'r peth mwyaf peryglus i ffermydd gwartheg ac wedyn dweud bod y rheolau yn rhy gryf. Mae'n rhaid bod cydbwysedd; rwy'n cydnabod hynny. Rwy'n credu bod yn rhaid i ni sicrhau ein bod yn cael gwared ar TB o Gymru a dyna beth rwy'n gobeithio ei wneud—bwriadu ei wneud.

We have seen a reduction in TB by over a third in Wales over the past few years and that is having an impact now. What I would tell the industry is this: it is not possible to tell me and others that, on the one hand, TB is the greatest risk facing cattle farmers and then to say that, on the other hand, the rules are too restrictive. There has to be a balance struck; I do acknowledge that. I believe that we have to ensure that we eradicate TB from Wales and that is what I hope to do—what I intend to do.

13:43 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The FUW has expressed concern that the dairy industry voluntary code of practice is not working for farmers, and Dairy Crest has said that it is not working for processors either. Both have particular concerns as far as the 30-day notice of price changes is concerned. What discussions have you had with the UK Government on this? What is your assessment of the efficacy of the code and do you think that it is time to legislate?

Mae UAC wedi mynegi pryder nad yw cod ymarfer gwirfoddol y diwydiant llaeth yn gweithio ar gyfer ffermwyr, ac mae Dairy Crest wedi dweud nad yw'n gweithio i broseswyr chwaith. Mae gan y naill a'r llall bryderon penodol ynglŷn â'r hysbysiad 30 diwrnod cyn newid prisiau. Pa drafodaethau a gawsoch gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â hyn? Beth yw eich asesiad o effeithiolrwydd y cod ac a ydych yn meddwl ei bod hi'n bryd deddfu?

13:43 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I do not think that it is time to legislate at the moment. I know that the farming unions have a habit of responding to every change downwards in prices by saying that there needs to be a complete review of everything and all of the structures that we have. I would say to them that we have a structure in place within the dairy code where a review is currently taking place. It was established in September two years ago with a commitment to review the workings of that code within two years. Alex Fergusson—not the former football manager, but the single Conservative Member of the Scottish Parliament for Galloway—is leading that inquiry. He will report in due course on the effectiveness of the code and I will consider our position when we have had that review. I have to say to those people who are making these comments that the dairy code is reviewed on a regular basis in Wales by way of our dairy taskforce and it has not been raised as an issue by any of the farming union representatives at those meetings.

Nid wyf yn credu ei bod yn bryd deddfu ar hyn o bryd. Gwn ei bod hi'n arfer gan yr undebau ffermio i ymateb i bob gostyngiad mewn prisiau drwy ddweud bod angen cynnal adolygiad cyflawn o bopeth a phob un o'r strwythurau sydd gennym. Byddwn yn dweud wrthynt fod gennym strwythur ar waith o fewn y cod llaeth lle y mae adolygiad ar y gweill ar hyn o bryd. Fe'i sefydlwyd ym mis Medi ddwy flynedd yn ôl gydag ymrwymiad i adolygu gwaith y cod o fewn dwy flynedd. Alex Fergusson—nid y cyn reolwr pêl-droed, ond unig Aelod Ceidwadol Senedd yr Alban, yr Aelod dros Galloway—sy'n arwain yr ymchwiliad hwnnw. Bydd yn adrodd maes o law ar effeithiolrwydd y cod a byddaf yn ystyried ein sefyllfa pan fydd yr adolygiad hwnnw wedi'i gynnal. Mae'n rhaid i mi ddweud wrth y bobl sy'n gwneud y sylwadau hyn fod y cod llaeth yn cael ei adolygu'n rheolaidd yng Nghymru drwy gyfrwng ein tasglu llaeth ac nid yw wedi cael ei godi fel mater i'w drafod mewn unrhyw gyfarfod â chynrychiolwyr yr undebau ffermio.

13:44 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, rydych chi'n gofyn i ffermwyr yn sir Benfro i edrych ar y dystiolaeth ynglŷn â thaclo diciáu yn y sir honno, ac mae'n wir i ddweud fod y dystiolaeth yn ddiddorol ac mae eisiau ei hystyried yn ofalus iawn. Fodd bynnag, mae yr un mor wir i ddweud fod y dystiolaeth am y gost i ffermwr pan ei fod yn colli buches neu wartheg yr un mor gryf. Rydych chi'n cynnig tablau prisio nawr sydd yn mynd i fod yn wahanol i raddau helaeth. Ym mha ffordd yr ydych chi'n gallu gwneud yn siŵr bod y tablau prisio, gwerth y buchesi, neu'r gost ehangach i'r ffermwr o golli'r anifeiliaid, yn cael eu hadlewyrchu fel, efallai, eich bod yn ennill mwy o ffrindiau yn y frwydr sydd gennych chi?

Minister, you have asked farmers in Pembrokeshire to look at the evidence in terms of tackling TB in that county, and it is true to say that the evidence is interesting and it needs to be considered very carefully, but it is just as true to say that the evidence of the cost to farmers when they lose a herd or some of their cattle is just as strong. You are proposing price tables now that will be very different in some cases. So, can you ensure that these tables, the value of herds, or the wider cost to the farmer of losing those cattle, is actually reflected so that you perhaps get more friends for the battle that you are currently fighting?

13:45 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Pan ydych chi'n trafod sut rydym ni'n delio â'r diciáu, mae'n bwysig ein bod yn dilyn polisi sydd yn cael ei arwain gan y wyddoniaeth a hefyd sy'n taro'r cydbwysedd rydych chi wedi ei disgrifio. Nid wyf yn cynnig y system tablau fel rydych chi wedi awgrymu. Yr hyn yr wyf wedi ei ddweud yw bod yn rhaid ystyried y ffordd ymlaen. Yr hyn yr wyf wedi ei ddweud o'r dechrau yw bod yn rhaid bod yn deg—yn deg â ffermwyr, ond yn deg hefyd â threthdalwyr a'r bobl sy'n delio â'r afiechyd hwn. Dyna pam rwy'n credu bod angen rheolau sydd yn gryf iawn iawn i sicrhau ein bod yn stopio'r afiechyd hwn a chael gwared ohono o Gymru ac wedyn fod gennym y system yn ei lle sy'n gwneud hynny ac sy'n helpu gyrru'r polisi hwnnw. Nid oes modd i bobl gwyno am y diciáu ac wedyn cwyno am y rheolau rydym ni'n eu rhoi mewn lle ac rydym yn gwybod sydd yn llwyddo cael gwared ar yr afiechyd o Gymru.

When you are discussing how we tackle TB, it is important that we pursue a policy that is science-led and also strikes the balance that you have described. I am not proposing the tables system as you have suggested. What I have said is that we should consider the way forward. What I have stated from the very outset is that we must be fair—fair to farmers but also fair to taxpayers and the people who are dealing with this disease. That is why I believe that we need regulations that are exceptionally robust to ensure that we stop this disease and eradicate it from Wales and then that we have the system in place that does that and that helps to drive that policy. People cannot complain about TB and then complain about the regulations that we have put in place and that we know are succeeding in eradicating the disease from Wales.

## Bioamrywiaeth

## Biodiversity

13:46

### Alun Ffred Jones [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

*4. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am y gronfa a sefydlwyd i atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru? OAQ(4)0144(NRF)*

*4. Will the Minister update the Assembly on the fund set up to prevent the decline in biodiversity in Wales? OAQ(4)0144(NRF)*

13:46

### Alun Davies [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

Rydym wedi derbyn dros 460 o syniadau, ac wedi'u defnyddio yn sail ar gyfer datblygu'r gronfa natur i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth ac yn cefnogi'r gwaith o reoli tir yn gynaliadwy yn y dyfodol. Byddaf i'n cyhoeddi manylion y cyllid a'r meysydd gweithredu wythnos nesaf.

We have received over 460 ideas, which have shaped our development of the nature fund to ensure that it will address the decline in biodiversity and support sustainable land management going forward. I will be announcing the details of the funding and the areas for action next week.

13:47

### Alun Ffred Jones [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

Un llwyddiant mawr sydd wedi bod, wrth gwrs, ydy gwaredu'r wiwer lwyd o Ynys Môn drwy eu lladd nhw, fel mae'n digwydd bod, ac mae'r wiwer goch bellach wedi ailsefydlu ei hun. Fodd bynnag, maen nhw'n croesi'r bont, mae'n debyg—neu'r pontydd, fe ddylwn ddweud—i sir Fôn o Arfon. Felly, y cynllun diweddaraf ydy gwaredu'r wiwer lwyd o Arfon hefyd a dod â'r wiwer goch yn ôl. A fyddech chi'n fodlon ystyried cefnogi'r ymgyrch honno drwy'r gronfa rydych chi'n mynd i'w chyhoeddi wythnos nesaf?

One great success story, of course, is the eradication of the grey squirrel from Anglesey, by culling them, as it happens, and the red squirrel is re-established there now. However, grey squirrels are crossing the bridge, apparently—or bridges, I should say—from Arfon to Anglesey. So, the latest plan is to eradicate the grey squirrel from Arfon too and to reintroduce the red squirrel. Would you be willing to consider supporting that campaign through the fund that you are to announce next week?

13:47

### Alun Davies [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

Mae Arfon wastad wedi achosi problemau i bobl sir Fôn. [Chwerthin.] Efallai y bydd yn rhaid i ni ystyried ehangu'r prosiect hwn yn bellach. Os wyf yn cael cyngor y byddai hynny'n helpu sefyllfa sir Fôn, byddaf yn hapus iawn i'w gefnogi.

Arfon has always caused problems for the people of Anglesey. [Laughter.] Possibly, we will have to consider expanding this project further. If I am given the advice that that might assist the position in Anglesey, I will be very happy to help.

13:48

### Mick Antoniw [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

Minister, last month the UK Minister Owen Paterson completed two u-turns on the issue of badgers. First, he stopped the cull, and then he said, 'No, it's not stopped, it's only postponed'. However, it appears now that what he is doing is pitting badgers against hedgehogs. He is now blaming badgers for the decline in the hedgehog population. Do you agree with me that this sectarian approach to the animal kingdom is not helpful and that the UK Minister would do well to take up your invitation last month to come here and see how, in Wales, we are dealing with the control of bovine TB?

Weinidog, y mis diwethaf cwblhaodd Owen Paterson, Gweinidog y DU, ddau dro pedol ar fater moch daear. Yn gyntaf, daeth â'r rhaglen ddifa i ben, cyn dweud, 'Na, nid yw'n dod i ben, dim ond wedi'i ohirio'. Fodd bynnag, ymddengys yn awr mai'r hyn y mae'n ei wneud yw gosod moch daear benben â draenogod. Mae bellach yn beio'r moch daear am y gostyngiad yn nifer draenogod. A ydych yn cytuno â mi nad oes gwerth yn y dull bratiog hwn o ymdrin ag anifeiliaid ac y byddai'n well i'r Gweinidog fanteisio ar eich gwahoddiad y mis diwethaf i ddod yma i weld sut rydym ni yng Nghymru yn ymdrin â rheoli TB mewn gwartheg?

13:48

### Alun Davies [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

Sometimes, there are things that you hesitate to get involved with, are there not? May I say this? I do not think that anybody takes pleasure in seeing the chaotic approach of DEFRA in England towards dealing with bovine TB. The reports that were published last month on its culls last year demonstrated that that policy did not work and will not work. I have invited DEFRA and UK Ministers to Wales to see how an effective bovine TB policy works, and I would be very happy to extend that invitation again this afternoon.

Weithiau, mae yna bethau rydych yn oedi rhag cymryd rhan ynddynt, onid oes? A gaf fi ddweud hyn? Ni chredaf fod unrhyw un yn falch o weld dull di-drefn DEFRA yn Lloegr o ymdrin â TB mewn gwartheg. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd y mis diwethaf ar ei rhaglen ddifa y llynedd yn dangos nad yw'r polisi'n gweithio ac na fydd yn gweithio. Gwahoddais DEFRA a Gweinidogion y DU i Gymru i weld sut y mae polisi effeithiol ar gyfer dileu TB mewn gwartheg yn gweithio, a byddwn yn hapus iawn i estyn yr un gwahoddiad eto y prynhawn yma.

13:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the opposition spokesperson, Russell George.

Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Russell George.

13:49 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. You committed yourself in committee to making an announcement on biodiversity and I am pleased that you will be making that announcement next week, Minister. I am interested in how the nature fund review process operates and what the synergies or links are to the Wales biodiversity evidence gaps register.

Diolch i chi, Lywydd. Gwnaethoch ymrwymiad mewn pwyllgor i wneud cyhoeddiad ar fioamrywiaeth ac rwy'n falch y byddwch yn gwneud y cyhoeddiad hwnnw yr wythnos nesaf, Weinidog. Mae gennyf ddiddordeb yn y ffordd y mae proses adolygu'r gronfa natur yn gweithredu a beth yw'r synergeddau neu'r cysylltiadau â chofrestr Cymru o'r bylchau yn y dystiolaeth ar fioamrywiaeth.

13:50 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I spoke this morning at Cardiff University, launching that gaps register. I think that it was you who identified that at a committee meeting last summer. You were absolutely right to do that at the time. In terms of where we are at the moment, among the more shocking aspects, I felt, of the 'State of Nature' report were the paucity and depth of information and data available to us. I hope that we will be able to plug those gaps and strengthen our database and our knowledge base through the project that we launched this morning. Certainly, when I make my announcement next week on the nature fund and the decisions that I have taken on how that will operate, that will answer many of the questions that Members have raised this afternoon.

Y bore yma, bûm yn siarad ym Mhrifysgol Caerdydd yn ystod lansiad y gofrestr bylchau. Rwy'n meddwl mai chi a nododd hynny mewn cyfarfod o'r pwyllgor yr haf diwethaf. Roeddech yn llygad eich lle i wneud hynny ar y pryd. O ran lle'r ydym ar hyn o bryd, teimlaf fod prinder y wybodaeth a'r data sydd ar gael i ni, a diffyg dyfnder y wybodaeth honno, ymhlith yr agweddau mwy brawychus o'r adroddiad 'Cyflwr Natur'. Gobeithiaf y gallwn lenwi'r bylchau hynny a chryfhau ein cronfa ddata a'n sylfaen wybodaeth drwy gyfrwng y prosiect a lansiwyd gennym y bore yma. Yn sicr, pan fyddaf yn gwneud fy nghyhoeddiad yr wythnos nesaf ar y gronfa natur a'r penderfyniadau a gymerwyd gennyf ynglŷn â sut y bydd yn gweithredu, bydd hynny'n ateb llawer o gwestiynau'r Aelodau y prynhawn yma.

13:50 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. I appreciate your answer, Minister. In relation to the creation of the national data hub, I would be grateful if you could just set out what progress you have made in collating and bringing together all of those different pieces of data. Is it your intention to have the evidence gaps from the gaps register project within the hub itself?

Diolch yn fawr. Rwy'n gwerthfawrogi eich ateb, Weinidog. Mewn perthynas â chreu'r ganolfan ddata genedlaethol, byddwn yn ddiolchgar pe gallech nodi pa gynnydd a wnaethoch yn casglu a dwyn ynghyd yr holl wahanol ddata. Ai eich bwriad yw cynnwys y bylchau yn y dystiolaeth o'r prosiect cofrestr bylchau yng ngwaith y ganolfan ei hun?

13:51 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We are launching a number of pieces of work in order to fill those gaps. The hub that you referred to has been largely something that Natural Resources Wales has been leading on. The work that we launched this morning is led by Cardiff University's Sustainable Places Research Institute, and it continues the work that Terry Marsden and others have been leading for some time now. I hope that what we will be able to do, using different forms of research and different forms of data analysis, data collection and data gathering, is to have as comprehensive a knowledge base as is possible. That will clearly come from different sources but it will need to be co-ordinated in exactly the way that you suggest. I hope that the hub will be able to fulfil at least a part of that role. If it does not, then, clearly, we will have to take measures and take actions to ensure that that does happen.

Rydym yn lansio nifer o ddarnau o waith er mwyn llenwi'r bylchau. I raddau helaeth, rhywbeth y bu Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain arno yw'r ganolfan y cyfeiriwch ati. Mae'r gwaith a lansiwyd gennym y bore yma yn cael ei arwain gan Sefydliad Ymchwil Mannau Cynaliadwy Prifysgol Caerdydd, ac mae'n parhau gwaith y bu Terry Marsden ac eraill yn ei arwain ers peth amser bellach. Rwy'n gobeithio mai'r hyn y gallwn ei wneud, gan ddefnyddio gwahanol fathau o ymchwil a gwahanol ffyrdd o ddadansoddi a chasglu, fydd cael sylfaen wybodaeth mor gynhwysfawr â phosibl. Yn amlwg, daw hynny o wahanol ffynonellau ond bydd angen ei gyd-drefnu yn yr un ffordd yn union ag yr awgrymwch. Rwy'n gobeithio y bydd y ganolfan yn gallu cyflawni o leiaf ran o'r rôl honno. Os nad yw'n gwneud hynny, yna'n amlwg, bydd yn rhaid inni roi camau ar waith i sicrhau bod hynny'n digwydd.

13:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Welsh Liberal Democrat spokesperson, William Powell.

Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, William Powell.

13:52 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Llywydd. Minister, one way in which we measure biodiversity loss, of course, is through the physical counting of species and the monitoring of their levels over time. As such, there has been considerable alarm within the environmental community recently over Natural Resources Wales's decision to end support for the monitoring of guillemots on Skomer—a programme that has been operational now for some 40 years. I have had chapter and verse from NRW on the reason for that decision, which is largely around budgetary considerations. Fortunately, the Wildlife Trust and Sheffield University have stepped into the breach in the short term. However, do you share my concerns that, if the results of these surveys are lost, there will be a residual lack of robustness in the data sets going forward, which will make it very difficult for our future planning?

Diolch, Lywydd. Weinidog, un ffordd o fesur faint o fioamrywiaeth sy'n cael ei cholli, wrth gwrs, yw drwy gyfrif rhywogaethau yn ymarferol a monitro eu lefelau dros amser. Fel y cyfryw, cafwyd cryn dipyn o bryder o fewn y gymuned amgylcheddol yn ddiweddar ynglŷn â phenderfyniad Cyfoeth Naturiol Cymru i roi terfyn ar gymorth tuag at fonitro gwylogod ar Sgomer—rhaglen a fu ar waith ers tua 40 mlynedd. Cefais esboniad trwyadl gan CNC o'r rheswm dros y penderfyniad, sy'n ymwneud i raddau helaeth ag ystyriaethau cyllidebol. Yn ffodus, mae'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt a Phrifysgol Sheffield wedi camu i'r adwy yn y tymor byr. Fodd bynnag, a ydych yn rhannu fy mhryderon y bydd colli canlyniadau'r arolygon hyn yn arwain at ddiffyg trylwyredd yn y setiau data yn y dyfodol, gan ei gwneud hi'n anodd iawn cynllunio ar gyfer y dyfodol?

13:53 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would say to the Member that he needs to be careful not to believe everything that he reads on the internet. The decisions were taken around that particular project, which was quite a small project, in fact, and which does not provide the in-depth analysis and data that is required—I accept that; I think that you are absolutely right about that. That is one particular project that was ended. There are in place, of course, much more comprehensive data monitoring and data capturing in Pembrokeshire in the areas that you have described that do capture the information on the species that you have also described, and they are not ending.

Efallai y dylai'r Aelod fod yn ofalus rhag credu popeth y mae'n ei ddarllen ar y rhyngrwyd. Gwnaed penderfyniadau ynglŷn â'r prosiect penodol hwnnw, a oedd yn brosiect eithaf bach mewn gwirionedd, ac nid yw'n darparu'r dadansoddiad a'r data manwl sydd ei angen—rwy'n derbyn hynny; credaf eich bod yn llygad eich lle ynglŷn â hynny. Un prosiect penodol a ddaeth i ben oedd hwnnw. Wrth gwrs, mae gwaith monitro a chasglu data llawer mwy cynhwysfawr ar waith yn Sir Benfro yn y meysydd rydych wedi'u disgrifio sy'n casglu gwybodaeth am y rhywogaeth a ddisgrifiwch, ac nid yw'r rheini'n dod i ben.

13:53 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for that for that answer. Linked to that response, the Environment and Sustainability Committee's marine inquiry recently reported, as you will recall, that the marine strategy framework directive has indicated that it will use current work as a basis for taking forward funded breeding surveys such as the one on Skomer. Given that the last full census was carried out in 2000—the next is due to be completed by 2015, I think—there is some concern that it will not be completed in time to inform the MSFD. In this context, Minister, what measures would you propose to take to alleviate the situation?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Yn gysylltiedig â'ch ymateb, byddwch yn cofio fod ymholiad morol Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi adrodd yn ddiweddar fod cyfarwyddeb fframwaith y strategaeth forol wedi nodi y bydd yn defnyddio gwaith presennol yn sail ar gyfer datblygu arolygon bridio a ariennir fel yr un ar Ynys Sgomer. O ystyried mai yn 2000 y cynhaliwyd y cyfrifiad llawn diwethaf—rwy'n credu bod y nesaf i'w gwblhau erbyn 2015—mae peth pryder na fydd wedi'i gwblhau mewn pryd i allu cyfrannu at Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Yn y cyd-destun hwn, Weinidog, pa fesurau y byddech yn eu hargymell i wella'r sefyllfa?

13:54 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not accept the basis of your analysis or your question. I think that we do have, in this instance, quite robust data collection structures in place. If it becomes apparent that that is not the case, then, clearly, we will have to take action at that time. However, I have to say that I do not share your concerns at present, and those concerns are not ones that have been presented to me.

Nid wyf yn derbyn sail eich dadansoddiad na'ch cwestiwn. Yn yr achos hwn, credaf fod gennym strwythurau casglu data eithaf cadarn ar waith. Os daw'n amlwg nad yw hynny'n wir, yna, yn amlwg, bydd yn rhaid inni gymryd camau bryd hynny. Fodd bynnag, rhaid i mi ddweud nad wyf yn rhannu eich pryderon ar hyn o bryd, ac nid yw'r pryderon hynny'n rhai a gyflwynwyd i mi.

### Dŵr Cymru

### Dŵr Cymru/Welsh Water

13:54 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog yn eu cael gyda Dŵr Cymru? OAQ(4)0145(NRF)*

*5. What discussions does the Minister have with Dŵr Cymru/Welsh Water? OAQ(4)0145(NRF)*

13:54 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

I meet regularly with the Welsh water industry to discuss all aspects of water and sewerage services, as do my officials. I am next meeting Dŵr Cymru Welsh Water in June.

Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â'r diwydiant dŵr yng Nghymru i drafod pob agwedd ar y gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth, fel y mae fy swyddogion. Mae fy nghyfarfod nesaf â Dŵr Cymru ym mis Mehefin.

Senedd.tv Fideo Video

13:55 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Thank you, Minister. You will know that the 'Blueprint for Water' coalition of environmental groups recently assessed the environmental impact of the business plans of the various water companies. As you will know, Dŵr Cymru had a fair set of results: good for sewage and water taken from the environment; poor for development of tariffs that promote water efficiency. In your discussions with the chief executive, will you be discussing how the results could be improved, or what best practice could be taken from companies that had better outcomes? Also, what role do you think that the Welsh Government's water strategy could play in achieving this?

Diolch i chi, Weinidog. Gwyddoch fod y gynghrair o grwpiau amgylcheddol, 'Glasbrint ar gyfer Dŵr', wedi asesu effaith amgylcheddol cynlluniau busnes y cwmnïau dŵr amrywiol yn ddiweddar. Fel y gwyddoch, cafodd Dŵr Cymru gyfres weddol o ganlyniadau: da o ran carthion a dŵr wedi'i gymryd o'r amgylchedd; gwael o ran datblygu tariffau sy'n hyrwyddo defnydd effeithlon o ddŵr. Yn eich trafodaethau â'r prif weithredwr, a fyddwch yn trafod sut y gellid gwella'r canlyniadau, neu ba arferion gorau y gellid eu dysgu gan gwmnïau a gafodd ganlyniadau gwell? Hefyd, yn eich barn chi pa rôl allai strategaeth ddŵr Llywodraeth Cymru ei chwarae yn y broses o gyflawni hyn?

Senedd.tv Fideo Video

13:55 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Thank you for that. I have read the 'Blueprint for Water' report. I thought that it was quite unfair in some aspects, actually, on Dŵr Cymru Welsh Water, in terms of its analysis. I did not think that its analysis was as robust as it could have been in some areas, and that is certainly something that I will take forward. However, I expect the water strategy that we launched at the beginning of this month to be a holistic strategy for the management of water in Wales and throughout the country. May I say this? We always see water in Wales as something that we have in excess. However, I want us to change our attitude towards water, so that we value it in a way that we do not at the moment, so that we manage water in a more intelligent way, from the uplands through to its use for industrial or domestic purposes, and do so in a holistic way. I hope that the water strategy will do that. I certainly see Dŵr Cymru Welsh Water and Dee Valley Water in north Wales as partners in helping us to achieve that.

Diolch i chi. Darllenais yr adroddiad 'Glasbrint ar gyfer Dŵr'. Â dweud y gwir, teimlwn fod rhai agweddau ohono'n eithaf annheg tuag at Dŵr Cymru o ran ei ddadansoddiad. Ni chredwn fod ei ddadansoddiad mor gadarn ag y gallai fod mewn rhai meysydd, ac mae hynny'n sicr yn rhywbeth y byddaf yn edrych arno eto. Fodd bynnag, rwy'n disgwyl y bydd y strategaeth ddŵr a lansiwyd gennym ar ddechrau'r mis yn strategaeth gyfannol ar gyfer rheoli dŵr yng Nghymru a ledled y wlad. A gaf fi ddweud ein bod ni yng Nghymru bob amser yn gweld dŵr fel rhywbeth y mae gennym fwy na digon ohono. Fodd bynnag, carwn ein gweld yn newid ein hagwedd tuag at ddŵr, fel ein bod yn ei werthfawrogi mewn ffordd nad ydym yn ei wneud ar hyn o bryd, i ni allu rheoli dŵr yn fwy deallus, o'r ucheldiroedd hyd at ei ddefnydd at ddibenion diwydiannol neu ddomestig, a gwneud hynny mewn ffordd gyfannol. Rwy'n gobeithio y bydd y strategaeth ddŵr yn gwneud hynny. Rwy'n sicr yn gweld Dŵr Cymru a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy yn y gogledd yn bartneriaid yn y gwaith o'n helpu i gyflawni hynny.

Senedd.tv Fideo Video

13:56 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Minister, I am sure that you have had extensive discussions with Welsh Water regarding metering. If you decide to progress with a plan to meter all homes in Wales, what would be the potential cost implication for Welsh Water, and what would be the likely timescale for a phased rollout?

Weinidog, rwy'n siŵr eich bod wedi cael trafodaethau helaeth â Dŵr Cymru ynglŷn â mesuryddion. Os byddwch yn penderfynu symud ymlaen ar gynllun i osod mesuryddion ym mhob cartref yng Nghymru, beth fyddai'r gost bosibl i Dŵr Cymru, a beth fyddai'r amserlen debygol ar gyfer cyflwyno'r cynllun gam wrth gam?

Senedd.tv Fideo Video

13:57 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

The metering issue was one of those issues that the media focused on when we launched the water strategy at the beginning of the month. The water strategy, as I have just explained in answer to the Member for the Cynon Valley, is designed to be a holistic strategy that looks at all aspects of the management of water. The management of domestic use and metering are aspects of that. If we take a decision to proceed with metering in any way, clearly that will be the subject of further consultation and further consideration.

Roedd mesuryddion yn un o'r materion hynny y canolbwyntiodd y cyfryngau arnynt pan aethom ati i lansio'r strategaeth ddŵr ar ddechrau'r mis. Mae'r strategaeth ddŵr, fel yr eglurais yn fy ateb i'r Aelod dros Gwm Cynon, wedi'i chynllunio i fod yn strategaeth gyfannol sy'n edrych ar bob agwedd ar reoli dŵr. Mae rheoli defnydd domestig a mesuryddion yn agweddau ar hynny. Os byddwn yn penderfynu bwrw ymlaen â defnyddio mesuryddion mewn rhyw ffordd, bydd hynny'n amlwg yn destun ymgynghori ac ystyriaeth bellach.

Senedd.tv Fideo Video

13:57 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Rwy'n falch iawn o glywed y Gweinidog yn dweud ei fod am weld Cymru i gyd yn gosod gwerth ar ddŵr o Gymru. Wrth gwrs, pe bai'r Blaid Lafur wedi gosod gwerth ar ddŵr o Gymru yn y 1960au, byddai economi Cymru wedi elwa'n sylweddol am y pum degawd diwethaf.

I am very pleased to hear the Minister say that he wants to see all of Wales placing value on Welsh water. Of course, if the Labour Party had placed value on Welsh water in the 1960s, the economy of Wales would have greatly benefited in the last five decades.

Senedd.tv Fideo Video

13:58 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Rwy'n ddiolchgar am yr hanes.

I am grateful for the history lesson.

Senedd.tv Fideo Video

13:58 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Minister, last summer, I had the pleasure of visiting the Dŵr Cymru RainScape scheme in Llanelli, which aims to capture and store water before its release into the town's historically problematic drainage and sewerage system. I believe that you then went on to launch the scheme formally a little later in the year. Will you please outline what discussions you have had with Dŵr Cymru so as to roll out this success story potentially in other sites across Wales where it would be of benefit? Also, have you had any discussions with fellow Ministers as to the potential for introducing innovative finance in order to deliver such schemes, such as through the European Investment Bank?

Weinidog, yr haf diwethaf, cefais y pleser o ymweld â chynllun GlawLif Dŵr Cymru yn Llanelli, sy'n anelu i gasglu a storio dŵr cyn ei ryddhau i mewn i system ddraenio a charthffosiaeth hanesyddol broblemus y dref. Rwy'n credu eich bod chi wedi mynd ymlaen wedyn i lansio'r cynllun yn ffurfiol ychydig yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Os gwelwch yn dda, a wnewch chi amlinellu pa drafodaethau a gawsoch gyda Dŵr Cymru er mwyn gallu cyflwyno'r llwyddiant hwn mewn mannau eraill ledled Cymru lle y byddai o fudd? Hefyd, a ydych wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'ch cyd-Weinidogion ynglŷn â photensial cyflwyno cyllid arloesi er mwyn cyflawni cynlluniau o'r fath, er enghraifft drwy Fanc Buddsoddi Ewrop ?

Senedd.tv Fideo Video

13:58 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

I have not had those discussions yet, but they are certainly discussions that I would welcome. The Minister for Finance is in her place and will have heard your question, and I am sure that she would wish to join me in conversations about those matters. In terms of the question that you asked, I think that you are absolutely right. We do need to look at more intelligent management of water in Wales. The first question this afternoon from Ann Jones referred to Pontbren, water management and forestry in the uplands. We do need to look at how we manage water in urban areas as well. I thought that the Llanelli example, which we have both visited, is one that is very good and can be replicated elsewhere. I hope that we will certainly do so in the future.

Nid wyf wedi cael trafodaethau o'r fath eto, ond maent yn sicr yn drafodaethau y byddwn yn croesawu. Mae'r Gweinidog Cyllid yma a bydd wedi clywed eich cwestiwn. Rwy'n siŵr y byddai am ymuno â mi mewn trafodaethau ar y materion hynny. O ran y cwestiwn a ofynnoch, credaf eich bod yn llygad eich lle. Mae angen i ni edrych ar reoli dŵr yn fwy deallus yng Nghymru. Cyfeiriodd y cwestiwn cyntaf y prynhawn yma gan Ann Jones at Pontbren, rheoli dŵr a choedwigaeth yn yr ucheldir. Mae angen i ni edrych ar y modd yr awn ati i reoli dŵr mewn ardaloedd trefol hefyd. Roeddwn i'n credu fod enghraifft Llanelli, yr ydym ein dau wedi ymweld â hi, yn un dda iawn a gellir ei hefelychu mewn mannau eraill. Rwy'n bendant yn gobeithio gwneud hynny yn y dyfodol.

Senedd.tv Fideo Video

### Bwyd a Diod o Gymru

### Welsh Food and Drink

13:59 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

*6. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gynlluniau i hyrwyddo bwyd a diod o Gymru? OAQ(4)0151(NRF)*

*6. Will the Minister provide an update on his plans to promote Welsh food and drink? OAQ(4)0151(NRF)*

Senedd.tv Fideo Video

13:59 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Byddaf yn cyhoeddi'r cynllun gweithredu ar gyfer bwyd yng nghanol fis Mehefin. Yno, byddaf yn nodi fy nghynlluniau i hyrwyddo bwyd a diodydd o Gymru. Mae'n hollbwysig datblygu hunaniaeth newydd bwyd a diod Cymru ymhellach er mwyn gallu eu marchnata a'u hybu'n effeithiol.

I will be publishing the action plan for food in the middle of June, which will include my plans to promote Welsh food and drink. It is all-important to further develop the new identity for Welsh food and drink in order to have effective promotion and marketing.

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Roeddwn yn darllen yn ddiweddar bod cynhyrchwyr yn Iwerddon yn defnyddio'r iaith Wyddeleg i hysbysebu eu cynnyrch a'u bwyd a'u diod, a bod hynny wedi bod yn llwyddiant mawr. A yw'r Gweinidog yn credu y dylem ni fod yn gwneud yr un peth yng Nghymru?

I read recently that producers in Ireland are using the Irish language to advertise their produce and their food and drink, and that that has been a great success. Does the Minister believe that we should be doing the same in Wales?

14:00 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwyf yn meddwl y dylem ni wneud hynny, ac ymfalchïo yn y Gymraeg a'n hunaniaeth. Byddwch yn ymwybodol o'r ffaith bod Dug Caeredin ddoe yn ymweld â Puffin Produce yn Hwlffordd, sydd wedi datblygu'r brand 'Blas y Tir'. Rwy'n credu bod hynny wedi bod yn llwyddiant ac wedi ei helpu i gynhyrchu a chynyddu ei gynnyrch. Felly, rwyf yn gweld lle pwysig i'r Gymraeg, ac mae hynny'n mynd i barhau i chwarae rôl ganolog yn y ffordd yr ydym yn marchnata bwydydd a diodydd o Gymru.

I do think that we should do that, and take pride in the Welsh language and our identity. You will be aware of the fact that the Duke of Edinburgh yesterday visited Puffin Produce in Haverfordwest, which has developed the 'Blas y Tir' brand. I believe that that has been a success and has helped it to generate and increase its produce. So, I see an important place for the Welsh language, and that will continue to play a central role in the way that we market food and drink from Wales.

14:00 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, Monday evening saw me and other AMs attending the prestigious Welsh Curry House Awards. This annual competition, and the event itself, showcases and demonstrates the very best in cooking and ethnic culinary skills using Welsh local produce. Some 280 restaurants competed from across Wales, and I was indeed very proud when the Tŷ Asha Balti House in Llanrwst won the north Wales regional award, and was named as the overall national winner for 2014. Minister, I have since realised, however, that the Welsh Government has withdrawn the funding for this event—£10,000. Minister, my question is this: will you re-evaluate this decision and recognise the true benefit of supporting such an event, and will you join me in congratulating the overall winners and all those who took part?

Weinidog, nos Lun mynychais i ac ACau eraill seremoni wobrwyo lewyrchus y Tŷ Cyri Cymreig. Mae'r gystadleuaeth flynyddol, a'r digwyddiad ei hun, yn arddangos y gorau mewn coginio a sgiliau coginio ethnig gan ddefnyddio cynnyrch lleol Cymru. Ymgeisiodd tua 280 o dai bwyta o bob cwr o Gymru, ac roeddwn i'n falch dros ben pan enillodd Tŷ Asha Balti House yn Llanrwst wobr ranbarthol gogledd Cymru, a'i enwi wedyn yn enillydd cenedlaethol ar gyfer 2014. Weinidog, sylweddolais wedyn, fodd bynnag, fod Llywodraeth Cymru wedi tynnu'r cyllid yn ôl ar gyfer y digwyddiad hwn—£10,000. Weinidog, dyma fy nghwestiwn: a wnewch chi ailystyried y penderfyniad a chydnabod gwir werth cefnogi digwyddiad o'r fath, ac a wnewch chi ymuno â mi i longyfarch yr enillwyr cenedlaethol a phawb a gymerodd ran?

14:01 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I certainly will join you in congratulating the winner of the Welsh curry awards—I have been fully briefed on the event by the Minister for planning, who I think enjoyed the event. I will say that, in terms of supporting food production in Wales, and also developing a food culture in Wales, as well as supporting food festivals, which we already do, we need to support other events and activities that celebrate the diversity of food produced in Wales.

Rwy'n sicr yn ymuno â chi i longyfarch enillydd gwobrau cyri Cymru—cefais wybod am y digwyddiad gan y Gweinidog Cynllunio, a gafodd gryn fwynhad o'r digwyddiad rwy'n credu. O ran cefnogi cynhyrchu bwyd, a datblygu diwylliant bwyd yng Nghymru, yn ogystal â chefnogi gwyliau bwyd fel rydym eisoes yn ei wneud, mae angen inni gefnogi digwyddiadau a gweithgareddau eraill sy'n dathlu amrywiaeth y bwyd a gynhyrchir yng Nghymru.

14:02 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Plaid Cymru spokesperson, Rhun ap Iorwerth.

Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Rhun ap Iorwerth.

14:02 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Lywydd. I ba raddau y mae'r Gweinidog yn meddwl y gall bwyd a diod o Gymru gael eu hyrwyddo drwy sicrhau bod polisi caffael sector cyhoeddus yng Nghymru yn blaenoriaethu cynnyrch lleol a chynnyrch Cymreig?

Thank you, Presiding Officer. To what extent does the Minister believe that food and drink from Wales can be promoted by ensuring that public sector procurement policy in Wales prioritises local produce and Welsh produce?

14:02 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n credu bod gan bolisi caffael y potensial i chwarae rôl bwysig yn y ffordd yr ydym yn hyrwyddo bwydydd ac yn eu defnyddio i greu marchnad ar gyfer bwydydd o Gymru. Mae hyn yn rhywbeth yr wyf wedi ei drafod â'r Gweinidog Cyllid yn yr wythnosau diwethaf.

I believe that procurement policy has the potential to play an important role in the way that we promote food and use our food to create a market for food from Wales. This is something that I have discussed with the Minister for Finance in the last few weeks.

14:03 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rydym ni'n credu y gellid creu 50,000 o swyddi drwyddi draw drwy gynyddu yn sylweddol y cytundebau Cymreig sy'n aros yng Nghymru, a hynny, wrth gwrs, yn cynnwys swyddi yn y sector bwyd a diod. A yw'r Gweinidog yn meddwl y gallai Bil caffael newydd fod yn ffordd effeithiol o sicrhau bod hyn yn gweithio a bod cynnyrch Cymreig yn cael ei hyrwyddo yn y ffordd honno?

We believe that some 50,000 jobs could be created as a whole by significantly increasing the Welsh contracts that remain in Wales, and that, of course, includes jobs in the food and drink sector. Does the Minister think that a new procurement Bill could be an effective way of ensuring that this works and that Welsh produce is promoted in that way?

14:03 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae polisi caffael, wrth gwrs, yn gyfrifoldeb i'r Gweinidog Cyllid, ac mae hi yn ei lle ac wedi clywed eich cwestiwn chi. Hoffwn ddweud hyn am y sector bwyd yr wyf i'n gyfrifol amdano: rwyf wedi gosod targedau uchel iawn ar gyfer twf yn y blynyddoedd nesaf. Rwyf wedi dweud fy mod am weld y sector yn tyfu 30% cyn 2020, ac rydym wedi rhoi ar waith y pecyn cefnogaeth mwyaf 'comprehensive' a welwyd erioed i gefnogi datblygu'r sector bwydydd o Gymru. Rwy'n gwybod bod hynny'n cael impact ar hyn o bryd, oherwydd rwyf yn siarad â'r cynhyrchwyr yn rheolaidd, ac rwy'n gweld bod y gefnogaeth honno'n mynd i barhau i gynyddu.

Procurement policy is, of course, the responsibility of the Minister for Finance, and she is in her place and has heard your question. I would like to say this about the food sector that I am responsible for: I have set very high targets for growth in the coming years. I have said that I want to see the sector growing by 30% before 2020, and we have implemented the most comprehensive support package that has ever been seen to support the development of the food from Wales sector. I know that that is having an impact currently, because I speak to the producers on a regular basis, and I see that that support is going to continue to increase.

14:04 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 7, OAQ(4)0142(NRF), has been withdrawn.

Tynnwyd cwestiwn 7, OAQ (4) 0142 (NRF), yn ôl.

## Pysgota Cregyn Gleision

## Mussel Fishing

14:04 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drwyddedau pysgota cregyn gleision? OAQ(4)0146(NRF)*

*8. Will the Minister make a statement on permits for mussel fishing? OAQ(4)0146(NRF)*

14:04 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae fy swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn trafod ag ymgeiswyr ac yn ystyried ceisiadau am Orchmynion pysgodfa unigol i bysgodfeydd cregyn gleision.

My officials are actively engaged with applicants in considering applications for several Orders for mussel fisheries.

14:04 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr iawn, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Dywedodd y Prif Weinidog yn ôl ym mis Chwefror ei fod yn gobeithio y byddai cytundeb yn gallu cael ei gyrraedd erbyn diwedd y mis hwnnw. Rwyf yn gresynu at y ffaith nad oes cytundeb wedi'i gyrraedd eto. Mae angen trwyddedau hirach na rhai saith mlynedd er mwyn i bysgotwyr cregyn gleision allu buddsoddi yn eu busnesau a pharatoi at y dyfodol. A wnaiff y Gweinidog roi addewid yn awr y bydd ef a'i swyddogion yn bwrw ymlaen ar fyrder i sicrhau bod cytundeb yn gallu dod a fydd yn rhoi cynaliadwyedd i'r diwydiant ac a fydd hefyd, wrth gwrs, yn gwarchod yr amgylchedd?

Thank you very much, Minister, for that answer. The First Minister said back in February that he hoped that an agreement could be reached by the end of that month. I regret the fact that no agreement has been reached yet. Licences for longer than seven years are required so that mussel fishermen can invest in their businesses and prepare for the future. Will the Minister give an undertaking now that he and his officials will proceed with more urgency to ensure that an agreement can be reached that will provide sustainability for the industry and that will, of course, protect the environment as well?

14:05

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Bydd y cyfarfod nesaf rhwng swyddogion a physgotwyr wythnos nesaf ac rwyf yn gobeithio y bydd cytundeb bryd hynny. Y rheswm y mae problemau ar hyn o bryd, a'r rheswm pam nad oes modd estyn y Gorchymyn yn fwy na saith mlynedd, yw bod yn rhaid cael cynllun rheoli er mwyn agor y pysgodfeydd, ac nid yw'n bosibl gwneud hynny am fwy na saith mlynedd ar hyn o bryd. Pan fyddwch yn gweld y Bil amgylchedd pan gaiff ei gyhoeddi yn nes ymlaen y flwyddyn hon, byddwch yn gweld bod cynigion ynddo sy'n ein galluogi i gynnig Gorchymyn am fwy na saith mlynedd. Rwy'n cytuno â'r dadansoddiad fod angen mwy na saith mlynedd er mwyn i bobl gwneud y buddsoddiadau y mae angen iddynt eu gwneud. Byddwn yn gwneud hynny drwy newid y gyfraith flwyddyn nesaf.

The next meeting between officials and fishermen will take place next week and I hope that there will be agreement then. The reason for the problems at the moment, and the reason why it is not possible to extend the Order for longer than seven years, is that there must be a management plan in place in order to open up the fisheries, and it is not possible to do that for more than seven years at present. When you see the environment Bill when it is published later this year, you will see that it contains proposals that enable us to offer an Order for longer than seven years. I agree with the analysis that more than seven years are needed for people to make the investments that need to be made. We will do that by changing the law next year.

14:06

## Byron Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, what consideration have you given, or, indeed, would you give, to supporting a new inquiry into parasitology in the Burry inlet, with particular reference to establishing the cause of high mortality rate for native cockles and the possible effect on the mussel industry, given that the incidence of parasites has tripled in recent years, coinciding with the increased mortality of shellfish in the area?

Weinidog, a ydych chi wedi ystyried, neu a fyddech chi'n ystyried cefnogi ymchwiliad newydd i barasitoleg yng Nghilfach Tywyn, gan gyfeirio'n benodol at bennu beth sy'n achosi'r gyfradd farwolaethau uchel ymhlith cocos brodorol a'r effaith bosibl ar y diwydiant cregyn gleision, o ystyried bod nifer yr achosion o barasitiaid wedi treblu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gyd-daro â lefelau marwolaeth cynyddol ymhlith pysgod cregyn yn yr ardal?

14:06

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This has been a significant issue for some years. When I represented Mid and West Wales in the last Assembly, I spent some considerable time talking to cockle gatherers in the Burry inlet and I am very familiar with the situation and aware of it. The science review that was commissioned by the then Minister, Elin Jones, along with Jane Davidson, reported four years ago. I have no reason to believe that the science has changed fundamentally since then, so we do need to continue the work that was established then. A report from University of Hull sets a very good basis for that. I know that Natural Resources Wales continues to engage with the cockle gatherers in the Burry inlet—I am told that it does—and with the Three Rivers fishery as well. If we are unable to resolve these matters in the coming years, we will need to consider how we will support the very important industry in that area.

Mae hyn wedi bod yn fater arwyddocaol ers rhai blynyddoedd. Pan oeddwn yn cynrychioli Canolbarth a Gorllewin Cymru yn y Cynulliad diwethaf, treuliais gryn amser yn siarad â chasglwyr cocos yng Nghilfach Tywyn ac rwy'n gyfarwydd iawn â'r sefyllfa ac yn ymwybodol ohoni. Cyflwynodd yr adolygiad gwyddonol a gomisiynwyd gan Elin Jones, y Gweinidog ar y pryd, ynghyd â Jane Davidson, ei adroddiad bedair blynedd yn ôl. Nid oes gennyf unrhyw reswm i gredu bod y wyddoniaeth wedi newid yn sylfaenol ers hynny, felly mae angen i ni barhau â'r gwaith a roddwyd ar y gweill ar y pryd. Mae adroddiad o Brifysgol Hull yn gosod sylfaen dda iawn ar gyfer gwneud hyn. Gwn fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i ymgysylltu â'r casglwyr cocos yng Nghilfach Tywyn—dyna a ddywedwyd wrthyf—ac â physgodfa'r Tair Afon hefyd. Os na allwn ddatrys y materion hyn yn y blynyddoedd nesaf, bydd angen i ni ystyried sut yr awn ati i gefnogi'r diwydiant pwysig hwn yn yr ardal dan sylw.

14:07

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 9, OAQ(4)0137(NRF), has been withdrawn.

Tynnwyd 9, OAQ (4) 0137 (NRF), yn ôl.

### Cyfrifoldebau Statudol

### Statutory Responsibilities

14:07

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfrifoldebau statudol Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Tiroedd Comin 2006? OAQ(4)0148(NRF)*

*10. Will the Minister make a statement on the Welsh Government's statutory responsibilities under the Commons Act 2006? OAQ(4)0148(NRF)*

14:07 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Llywodraeth Cymru yw'r awdurdod cenedlaethol sydd â'r cyfrifoldeb statudol dros weithredu Deddf Tiroedd Comin 2006. Mae'r Ddeddf yn cael ei gweithredu mewn camau ar hyn o bryd.

The Welsh Government is the national authority in Wales with statutory responsibility for the implementation of the Commons Act 2006. The Act is currently being implemented in stages.

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Weinidog, ysgrifennodd eich Llywodraeth yn ddiweddar at etholwr i mi yng Nghastell-nedd Port Talbot yn egluro amodau a allai arwain at gamau gorfodi o dan adran 41 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 ac y byddai camau o'r fath yn cael eu cymryd yn y llys sirol a allai arwain at y llys hwnnw yn gwneud gorchymyn i adfer y tir. Yn anhygoel, mae'r llythyr yn dweud hyn:

Minister, your Government recently wrote to a constituent of mine in Neath Port Talbot explaining the conditions that could lead to enforcement action under section 41 of the Commons Act 2006 and that such action would be taken in the county court that could lead to that court making an order to restore the land. Incredibly, the letter says this:

'As to anyone informing the Welsh Government that unauthorised works had been undertaken, action could be taken by the Welsh Ministers but, in their view, action should be taken by those whose rights have been directly affected.'

'O ran unrhyw un sy'n rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru fod gwaith anawdurdodedig wedi'i wneud, gallai Gweinidogion Cymru gymryd camau, ond yn eu barn hwy, y rhai y mae eu hawliau wedi'u heffeithio'n uniongyrchol a ddylai roi camau ar waith.'

A yw Llywodraeth Cymru wir yn meddwl fod gan bobl yn fy ardal yr arian i allu gwrthsefyll cwmnïau, fel Celtic Energy, yn y llys? Os felly, a ydych yn credu nad yw hyn werth y papur y mae wedi'i ysgrifennu arno?

Does the Welsh Government really believe that the people in my area have the money to withstand companies, such as Celtic Energy, in the court? If so, do you think that this is not worth the paper that it is written on?

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Yn amlwg, nid wyf yn gallu ymateb yn y man hwn i unrhyw gais unigol, fel yr un yr ydych wedi'i ddisgrifio. Os ydych yn fodlon ysgrifennu ataf, byddaf yn hapus iawn i ystyried y sefyllfa ac ymateb ichi.

Evidently, I cannot respond here to any individual application, such as the one that you have described. If you are willing to write to me, I would be very happy to consider the situation and respond to you.

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Weinidog, fel y gwyddoch eisoes, rwyf wedi derbyn sylwadau ar y mater hwn sy'n peri pryder i rai pobl sydd wedi gweld eu tir yn cael ei gofrestru ar gam fel tir comin. Rwyf yn deall bod y Llywodraeth y gweithio i gyflwyno'r Ddeddf hon yn llawn yn y Cynulliad hwn, ond o ystyried nad ydych wedi ymateb i fy ngohebiaeth i yn ôl ym mis Medi'r llynedd ar ran etholwr, a allwch ein diweddaru, o ran Llywodraeth Cymru, beth yw'r sefyllfa mewn perthynas â chyflwyno'r Ddeddf?

Minister, as you already know, I have received representations on this issue that causes concern to some people who have seen their land registered incorrectly as common land. I understand that the Government is working to introduce this Act fully in the Assembly, but given that you have not responded to my correspondence back in September of last year on behalf of a constituent, can you give us an update, in terms of the Welsh Government, on what the situation is in relation to implementing this Act?

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Yn amlwg, os oes darn o ohebiaeth nad yw wedi cael ymateb, byddwn yn hoffi gofyn i chi ei anfon ataf eto ac fe wnâi sicrhau eich bod yn cael ymateb yn syth. Ymddiheuraf i chi os nad ydych wedi cael ymateb ers mis Medi. Nid yw hynny'n dderbyniol. Rydym ar hyn o bryd yn gweithredu'r Ddeddf Tiroedd Comin. Yr un peth yr wyf yn gobeithio ei sicrhau yw y byddwn yn gallu delio yn rhwyddach â'r problemau yr ydych wedi eu disgrifio, gan sicrhau bod gennym gofrestr electronig ar gael a fydd yn ein helpu i reoli tir comin yng Nghymru. Rwyf wedi awdurdodi'r gwaith hwn ac rydym wedi creu cyllid ar ei gyfer. Bydd y gwaith yn dechrau eleni.

Obviously, if there is a piece of correspondence that has not received a response, I would like to ask you to send it to me again and I will ensure that you receive an immediate response. I apologise to you if you have not received a response since September. That is unacceptable. At present, we are implementing the Commons Act. The one thing that I hope to ensure is that we will be able to deal more easily with the problems that you have described, by ensuring that we have an electronic register available that will assist us in managing common land in Wales. I have authorised this work and we have created funding for it. The work will start this year.

Senedd.tv Fideo Video

## Y Diwydiant Ffermio

## The Farming Industry

14:10 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

*11. Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn 2014 i helpu newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant ffermio? OAQ(4)0135(NRF)*

*11. What action will the Welsh Government take in 2014 to help new entrants into the farming industry? OAQ(4)0135(NRF)*

Senedd.tv Fideo Video

14:10 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

All industries, including agriculture, require a constant supply of new blood bringing fresh ideas. I have extended the successful young entrants support scheme, ensuring continuing support until the new rural development plan, with specific measures for new entrants, is in place. I also await Malcolm Thomas's next generation report, which I commissioned last year.

Mae pob diwydiant, gan gynnwys amaethyddiaeth, angen cyflenwad cyson o waed newydd a syniadau ffres. Rwyf wedi ymestyn y cynllun cymorth llwyddiannus i newydd-ddyfodiaid, gan sicrhau cefnogaeth barhaus nes y daw'r cynllun datblygu gwledig newydd, gyda mesurau penodol ar gyfer newydd-ddyfodiaid, yn weithredol. Rwyf i hefyd yn aros am adroddiad Malcolm Thomas ar y genhedlaeth nesaf, a gomisiynwyd gennyf y llynedd.

Senedd.tv Fideo Video

14:11 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Thank you for that reply, Minister. Start-up aid for new entrants is vital if the farming industry in Wales is to enjoy a viable future. NFU Cymru has stressed the importance of new entrants having designated monitoring to support entry, with a specific focus on managing the process of succession within the industry. What plans does the Minister have to improve mentoring services to assist and encourage new entrants into the farming industry?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Mae cymorth cychwyn busnes i newydd-ddyfodiaid yn hanfodol os yw'r diwydiant ffermio yng Nghymru yn mynd i gael dyfodol hyfyw. Mae NFU Cymru wedi datgan pa mor bwysig yw monitro dynodedig i newydd-ddyfodiaid er mwyn hwyluso mynediad, gyda ffocws penodol ar reoli'r broses olyniaeth o fewn y diwydiant. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella gwasanaethau mentora er mwyn cynorthwyo ac annog newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant ffermio?

Senedd.tv Fideo Video

14:11 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

I want to ensure that we have a support package in place that is generous, comprehensive and intelligent, to support people who are inheriting a farming business but also those who wish to go into farming for the first time. The current young entrants scheme tends to support those who are born into the industry rather than those who come into the industry for the first time. I have commissioned work from Malcolm Thomas on how we can support new entrants in a much more comprehensive way. I expect that report to be with me before the end of May, and I will publish both it and my response, I hope, before the summer recess.

Carwn sicrhau bod gennym becyn cymorth ar waith sydd yn hael, yn gynhwysfawr ac yn ddeallus, i gefnogi pobl sy'n etifeddu busnes ffermio, ond hefyd y rhai sy'n dymuno mynd i ffermio am y tro cyntaf. Mae'r cynllun newydd-ddyfodiaid cyfredol yn tueddu i gefnogi'r rhai sy'n cael eu geni o fewn y diwydiant yn hytrach na rhai sy'n dod iddo am y tro cyntaf. Rwyf wedi comisiynu gwaith gan Malcolm Thomas ar sut y gallwn gefnogi newydd-ddyfodiaid mewn ffordd sy'n llawer mwy cynhwysfawr. Rwy'n disgwyl y daw'r adroddiad i law cyn diwedd mis Mai, a byddaf yn ei gyhoeddi, gyda fy ymateb, cyn toriad yr haf gobeithio.

I would like to emphasise that succession planning in agriculture is different to most other industries because of the role that the farm plays in people's life, self-esteem, identity and sense of place. We need to ensure that people can both come into the industry and retire with financial security and dignity.

Hoffwn bwysleisio bod cynllunio ar gyfer olyniaeth mewn amaethyddiaeth yn wahanol i'r rhan fwyaf o ddiwydiannau eraill oherwydd rôl y fferm ym mywydau pobl, eu hunan-barch, eu hunaniaeth a'u hymdeimlad o le. Mae angen i ni sicrhau y gall pobl ddod i mewn i'r diwydiant ac ymddeol yn ddiogel yn ariannol a chydag urddas.

Senedd.tv Fideo Video

### Y Rhaglen Datblygu Gwledig

### The Rural Development Programme

14:12 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

*12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw benderfyniad y mae wedi ei wneud yn dilyn ei ymgynghoriad diweddar ar y Rhaglen Datblygu Gwledig? OAQ(4)0140(NRF)*

*12. Will the Minister make a statement on any decision he has made following his recent consultation on the Rural Development Programme? OAQ(4)0140(NRF)*

Senedd.tv Fideo Video

14:13 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cawsom drafodaeth ddoe ar y rhaglen datblygu gwledig nesaf a'r cynlluniau yr wyf yn bwriadu eu rhoi yn lle. Byddaf yn gwneud fy mhenderfyniadau terfynol ar ôl ystyried yr adroddiad annibynnol a fydd yn dadansoddi'r adborth o'r ymgynghoriad diweddar.

We had a discussion yesterday on the next rural development programme and the initiatives that I intend to put in place. I will make my final decisions after considering the independent report that will analyse the feedback from the recent consultation.

14:13 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr i'r Gweinidog. Yn dilyn y drafodaeth a gawsom ddoe, a yw'r Gweinidog wedi ystyried sut y gallai esbonio yn gliriach i arweinwyr y diwydiant amaethyddol ac, yn wir, i rai o'n cyfeillion yn y Senedd hon, y manteision economaidd a fydd yn deillio i ardaloedd o Gymru wledig, megis Dwyfor Meirionnydd, o'r buddsoddiad ychwanegol a ddaw drwy gynllun datblygu gwledig oherwydd y trosglwyddo cyllid rhwng y ddau biler y mae ef wedi'i sicrhau?

I thank the Minister. Following the discussion that we had yesterday, has the Minister considered how he could explain more clearly to the leaders of the agriculture industry and, indeed, to some of our colleagues in the Senedd, the economic benefits that will accrue to the rural areas of Wales, such as Dwyfor Meirionnydd, from the additional investment that comes through the rural development plan because of the transfer of funding between the two pillars that he has secured?

14:13 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolchaf i Dafydd Elis-Thomas am y cwestiwn. Rwy'n credu bod ffermwyr yn deall y posibiliadau a'r potensial o gael y buddsoddiad mwyaf mewn hanes yn y diwydiant amaethyddol. Rwy'n credu bod ffermwyr yn gweld hynny. Byddwn yn annog Aelodau ar draws y Siambr hon i beidio â jest darllen datganiadau'r wasg, ond i fynd mas i ffermydd i siarad â ffermwyr a'r bobl sydd eisiau buddsoddi yn y diwydiant ac yn y busnes, ac i wrando ar yr hyn y maent yn ei ddweud. Rwyf wedi bod yn gwneud hynny ers i mi gael fy mhenodi, ac rwy'n gwybod bod ffermwyr Cymru yn edrych ymlaen at y cyfleoedd sydd ganddynt fel rhan o'r RDP nesaf.

I thank Dafydd Elis-Thomas for the question. I think that farmers understand the possibilities and the potential of having the biggest investment in the agriculture industry in history. I believe that farmers can see that. I would encourage Members across the Chamber not just to read press releases, but to go out to farms to speak with farmers and the people who want to invest in the industry and in the business, and listen to what they say. I have been doing that since my appointment, and I know that the farmers of Wales are looking forward to the opportunities that they have as part of the next RDP.

14:14 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, the farmers I speak to say completely different things. They are upset that the so-called level playing field has been made less level. In fact there seem to be some very big bumps being put into the playing field. They are upset that investment decisions for their own businesses are being taken out of their hands and being made by a Government that they do not perceive as understanding or representing their interests. Minister, I appreciate that you need time to consider the independent monitoring report in relation to the responses that you have received on the consultation. How long do you anticipate that that is going to take, because farmers cannot plan their business for the future without knowing what your decisions are in relation to the rural development plan and the consultation that you have undertaken?

Wel, mae'r ffermwyr rwy'n siarad â hwy'n dweud pethau hollol wahanol. Maent yn ofidus fod y cae chwarae honedig wastad wedi'i wneud yn llai gwastad. Yn wir, mae'n ymddangos bod rhai twmpathau mawr iawn wedi'u gosod ar y cae. Maent yn gofidio bod penderfyniadau buddsoddi ynglŷn â'u busnesau eu hunain wedi'u tynnu allan o'u dwylo ac yn cael eu gwneud gan Lywodraeth nad ydynt yn dirnad ei bod yn deall nac yn cynrychioli eu buddiannau. Weinidog, rwy'n gwerthfawrogi fod angen amser arnoch i ystyried yr adroddiad monitro annibynnol mewn perthynas â'r ymatebion rydych wedi'u derbyn ynglŷn â'r ymgynghoriad. Pa mor hir rydych yn rhagweld y bydd hyn yn ei gymryd, oherwydd nid yw ffermwyr yn gallu cynllunio eu busnes ar gyfer y dyfodol heb wybod beth yw eich penderfyniadau mewn perthynas â'r cynllun datblygu gwledig a'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gennych?

14:15 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

All of the announcements will be made before the summer recess. However, I attended two packed meetings of farmers in north Wales—in Llysfasi and Glynllifon—and there was not any of the talk that you have just described. What people there were asking was, 'How can I use these investment funds to invest in my business? I want to farm successfully in future and I want to know what the Government is going to do to help me to do that'. Let me tell you now that those meetings were good, positive meetings. What farmers want from this Government is backing and support, and they see that they are getting that.

Bydd yr holl gyhoeddiadau'n cael eu gwneud cyn toriad yr haf. Fodd bynnag, mynychais ddau gyfarfod i ffermwyr yn y Gogledd, gyda llond y lle'n bresennol ar y ddau achlysur—yn Llysfasi a Glynllifon—ac ni chafwyd dim o'r math o sgwrs rydych newydd ei disgrifio. Yr hyn roedd pobl yno'n ei ofyn oedd, 'Sut y gallaf ddefnyddio'r cronfeydd buddsoddi hyn i fuddsoddi yn fy musnes? Rwyf am ffermio'n llwyddiannus yn y dyfodol ac rwyf am wybod beth y mae'r Llywodraeth yn mynd i'w wneud i fy helpu i wneud hynny'. Gadewch i mi ddweud wrthych yn awr fod y cyfarfodydd hynny'n gyfarfodydd da a chadarnhaol. Yr hyn y mae ffermwyr ei eisiau gan y Llywodraeth hon yw cefnogaeth a chymorth, ac maent yn gweld eu bod yn cael hynny.

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Minister, as a result of the consultation, do you have any indication at this early stage that you will increase the moneys available for investment in physical infrastructure on farm holdings, such as electronic identification equipment, cattle handling equipment and equipment to improve soil quality?

Weinidog, o ganlyniad i'r ymgynghori, a oes gennych unrhyw syniad mor gynnar â hyn pa un a fyddwch yn cynyddu'r arian sydd ar gael ar gyfer buddsoddi yn seilwaith ffisegol daliadau fferm, fel offer adnabod electronig, offer trin gwartheg a chyfarpar i wella ansawdd pridd?

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Those are the issues that the NFU has identified in its response to the consultation, and I will be considering all of those different options. I will say that we will now have the biggest fund possible to invest in agriculture. That funding has been made available because of the decisions that I have taken and you have opposed.

Dyna'r materion y mae'r NFU wedi'u nodi yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, a byddaf yn ystyried yr holl wahanol opsiynau. Yn awr, bydd gennym y gronfa fwyaf posibl ar gyfer buddsoddi mewn amaethyddiaeth. Mae'r cyllid hwnnw ar gael oherwydd penderfyniadau a wnaed gennyf ac a wrthwynebwyd gennych chi.

Senedd.tv Fideo Video

## Yr Amgylchedd Naturiol

## The Natural Environment

14:16 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

*13. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl Cyfoeth Naturiol Cymru o ran diogelu'r amgylchedd naturiol, yn enwedig pan fydd ceisiadau cynllunio yn ei fygwth? OAQ(4)0150(NRF)*

*13. Will the Minister make a statement on the role of Natural Resources Wales in protecting the natural environment, particularly when planning applications threaten it? OAQ(4)0150(NRF)*

Senedd.tv Fideo Video

14:17 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Natural Resources Wales is a statutory consultee for planning applications, and provides advice to ensure that the enviroment and natural resources of Wales are sustainably maintained, enhanced and used.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghorai statudol ar gyfer ceisiadau cynllunio, ac yn darparu cyngor i sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio mewn modd cynaliadwy.

Senedd.tv Fideo Video

14:17 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, Minister. There has been a rapid recent expansion in applications for solar farms in my region. While people are supportive of renewables for environmental reasons, my constituents are concerned about the cumulative impact of having several such developments in close proximity.

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Yn ddiweddar, cafwyd cynnydd cyflym yn nifer y ceisiadau am ffermydd solar yn fy ardal. Tra bod pobl yn cefnogi ynni adnewyddadwy am resymau amgylcheddol, mae fy etholwyr yn pryderu am effaith gronnus cael nifer o ddatblygiadau o'r fath yn agos at ei gilydd.

Senedd.tv Fideo Video

Cumulative impact is assessed by NRW in its environmental impact assessments under that statutory duty, but they are not required for solar photovoltaic arrays of less than half a hectare. So, where there are several small applications in one local area, the cumulative impact on the environment is not assessed on a statutory basis. Outside of the planning guidance, what assistance can NRW offer to local authorities on managing and assessing the cumulative impact of small developments? Could it develop, perhaps, environmental best-practice guidelines for developers, as some local authorities in the south-west of England have joined together to do?

Mae CNC yn asesu effaith gronnus yn ei asesiadau o'r effaith amgylcheddol o dan y ddyletswydd statudol, ond nid ydynt yn ofynnol ar gyfer araeau ffotofoltaidd solar o lai na hanner hectar. Felly, lle mae nifer o geisiadau bach mewn un ardal leol, ni chaiff yr effaith gronnus ar yr amgylchedd ei hasesu ar sail statudol. Ar wahân i'r canllawiau cynllunio, pa gymorth y gall CNC ei gynnig i awdurdodau lleol ar reoli ac asesu effaith gronnus datblygiadau bach? Tybed a allai ddatblygu canllawiau arfer gorau amgylcheddol ar gyfer datblygwyr, fel y mae rhai awdurdodau lleol yn ne-orllewin Lloegr wedi ymuno gyda'i gilydd i wneud?

14:18 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister for planning will have heard your question on the planning aspects of that, and I am sure that he will respond in due course. In terms of where we are, NRW was created to ensure that we streamline not just planning applications, but decisions on permitting and consents, and to ensure that people have access to a single authoritative source of information and knowledge on these matters.

Bydd y Gweinidog Cynllunio wedi clywed eich cwestiwn ar yr agweddau cynllunio, ac rwy'n siŵr y bydd yn ymateb maes o law. O ran lle rydym ni nawr, ffurfiwyd CNC i sicrhau ein bod yn symleiddio nid yn unig ceisiadau cynllunio, ond penderfyniadau ar drwyddedu a chaniatadau hefyd, ac i sicrhau bod gan bobl fynediad at un ffynhonnell awdurdodol o wybodaeth am y materion hyn.

I hope that we will be able to encourage renewables; I want to see more renewables producing more energy from renewable sources across Wales. Whatever the technology happens to be will be dependent on the location and place at the time. However, I would like to see NRW ensuring that we are able to progress with more schemes for renewable energy generation in future than we have seen in the past.

Rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu annog ynni adnewyddadwy; rwyf am weld mwy o ynni adnewyddadwy yn cynhyrchu mwy o ynni o ffynonellau adnewyddadwy ledled Cymru. Bydd y dechnoleg yn dibynnu ar y lleoliad a'r lle ar y pryd. Fodd bynnag, hoffwn weld CNC yn sicrhau ein bod yn gallu symud ymlaen gyda mwy o gynlluniau ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn y dyfodol nag y gwelsom yn y gorffennol.

14:19 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you will be aware that, as a result of £1.5 million funding from your Government provided for reinstatement of coastal defence works on Llandudno beach, it is now considered by many that the natural environment of our beach has been destroyed, and it is now likened to that of a quarry. A campaign group of 4,000 people, Restore our Beach, and I wish to ask some very pertinent questions. We have asked NRW to inspect the works in relation to full compliance with the marine licences and permits. In particular, this work was carried out without any consultation with affected hotels, businesses and residents, and it was advised to the town council only two days before numerous lorries arrived—they are still arriving now. What terms and conditions do you place on local authorities when granting these moneys to ensure that full consultation is carried out and that considerations are in place to protect our natural environment when undertaking such dramatic works?

Weinidog, o ganlyniad i gyllid o £1.5 miliwn gan eich Llywodraeth ar gyfer adfer gwaith amddiffyn yr arfordir ar draeth Llandudno, gwyddoch fod llawer o bobl bellach yn ystyried bod amgylchedd naturiol ein traeth wedi cael ei ddinistrio, ac mae bellach yn edrych yn debycach i chwarel. Hoffwn i, a grŵp ymgyrchu o 4,000 o bobl, Restore our Beach, ofyn rhai cwestiynau perthnasol iawn. Rydym wedi gofyn i CNC archwilio'r gwaith mewn perthynas â chydymffurfio'n llawn â'r trwyddedau morol. Yn benodol, cyflawnwyd y gwaith hwn heb ymgynghori â gwestai, busnesau a thrigolion sydd wedi'u heffeithio, a dim ond dau ddiwrnod cyn i nifer o lorïau gyrraedd y cafodd cyngor y dref wybod am y gwaith—maent yn dal i gyrraedd nawr. Pa delerau ac amodau rydych yn eu rhoi i awdurdodau lleol wrth roi'r arian yma er mwyn sicrhau bod ymgynghori llawn yn digwydd a bod sylw'n cael ei roi i warchod ein hamgylchedd naturiol wrth ymgymryd â gwaith mor ddramatig?

14:20 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I see the Member is reading out a press release. I will say to the Member that this is a matter for the local authority, and I am surprised that she does not understand that.

Rwy'n gweld fod yr Aelod yn darllen datganiad i'r wasg. Dywedaf wrth yr Aelod mai mater i'r awdurdod lleol yw hwn, ac rwy'n synnu nad yw'n deall hynny.

## Morlyn Llanw

## Tidal Lagoon

14:20

**Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

*14. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael ynglyn â'r morlyn llanw arfaethedig yn Abertawe? OAQ(4)0138(NRF)*

*14. What discussions has the Minister had regarding the proposed tidal lagoon in Swansea? OAQ(4)0138(NRF)*

Senedd.tv Fideo Video

14:20

**Alun Davies** Bywgraffiad Biography

I met the developers in September 2013 and I will continue to review the proposal that has been made.

Cyfarfûm â'r datblygwyr ym mis Medi 2013 a byddaf yn parhau i adolygu'r cynnig sydd wedi cael ei wneud.

Senedd.tv Fideo Video

14:20

**Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Does the Minister believe that this has the potential to be a reliable source of renewable energy?

A yw'r Gweinidog yn credu bod potensial i hon fod yn ffynhonnell ddibynadwy o ynni adnewyddadwy?

Senedd.tv Fideo Video

14:20

**Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Yes, I do believe that it has the potential to be a very important source of renewable energy. When we look at the use of our marine resources for renewable energy generation, we need to be both creative and imaginative and also, possibly, courageous in taking decisions that will support a move to a low-carbon energy generation economy.

Ydw, rwy'n credu bod ganddi'r potensial i fod yn ffynhonnell bwysig iawn o ynni adnewyddadwy. Pan edrychwn ar y defnydd o'n hadnoddau morol ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy, mae angen i ni fod yn greadigol a dychmygus, a hefyd o bosibl, yn ddewr wrth wneud penderfyniadau a fydd yn cefnogi symudiad tuag at economi cynhyrchu ynni carbon isel.

Senedd.tv Fideo Video

14:21

**Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Minister, you will also be aware of the interest of the same company that is developing the Swansea bay scheme in the north Wales coast, particularly around Colwyn Bay. Do you accept that schemes such as this also have the potential benefit of reducing flood risk in some vulnerable parts of the coast of north Wales? What support might the Welsh Government be able to give, given that there may be a flood protection benefit in the future?

Weinidog, gwyddoch fod gan yr un cwmni ag sy'n datblygu cynllun bae Abertawe ddiddordeb hefyd yn arfordir y Gogledd, yn enwedig o amgylch Bae Colwyn. A ydych yn derbyn y gallai cynlluniau o'r fath fod o fudd hefyd o ran lleihau perygl llifogydd mewn rhai mannau o arfordir y Gogledd sy'n agored i niwed? Pa gymorth fyddai Llywodraeth Cymru yn gallu ei roi, o ystyried y gallai fod budd o ran amddiffyn rhag llifogydd yn y dyfodol?

Senedd.tv Fideo Video

14:21

**Alun Davies** Bywgraffiad Biography

I am aware that there are additional benefits to some of these schemes, and they will be different in different places. I accept that. I have not discussed the development in north Wales, of course—and the Member for Cardiff Central has raised this on a number of occasions in the Chamber as well. I am happy to support it in principle and to put in place incentives to continue to support the development of tidal resources around Wales. Tidal resources have the potential to provide base load supply for us, and that is something that we need to explore. I hope that we will, over the coming years, be able to complete our transition to a low-carbon energy generation economy.

Rwy'n ymwybodol fod manteision ychwanegol i rai o'r cynlluniau hyn, a byddant yn wahanol mewn gwahanol leoedd. Rwy'n derbyn hynny. Nid wyf wedi trafod y datblygiad yn y Gogledd, wrth gwrs—ac mae'r Aelod dros Ganol Caerdydd wedi codi hyn ar sawl achlysur yn y Siambr hefyd. Rwy'n hapus i gefnogi'r datblygiad mewn egwyddor a rhoi cymhellion ar waith i barhau i gefnogi datblygiad adnoddau llanw o gwmpas Cymru. Mae potensial gan adnoddau'r llanw i ddarparu cyflenwad sylfaenol ar ein cyfer, ac mae hynny'n rhywbeth y mae angen inni edrych arno. Dros y blynyddoedd nesaf, rwy'n gobeithio y gallwn gwblhau'r newid i economi cynhyrchu ynni carbon isel.

Senedd.tv Fideo Video

14:22

**Peter Black** Bywgraffiad Biography

Minister, do you share my concern regarding the fact that, as it is currently proposed, the sewage outfall is proposed to come out within the lagoon of the new Swansea tidal barrage? Can you make representations to the relevant parties in terms of extending that sewage outfall so that it goes past the lagoon area, in the interests of ensuring that we have good-quality water within that lagoon?

Weinidog, a ydych yn rhannu fy mhryder ynglŷn â'r ffaith fod yr argymhelliad ar hyn o bryd yn cynnwys gollyngfa garthion i mewn i forlyn y morglawdd llanw newydd yn Abertawe? A allwch chi bwyso ar y partïon perthnasol i symud yr ollyngfa garthion y tu hwnt i'r morlyn, er mwyn sicrhau bod gennym ddŵr o ansawdd da o fewn y morlyn?

Senedd.tv Fideo Video

14:22 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, we need to ensure the quality of the water around our coast, and I am sure those technical issues will be taken into consideration at the relevant time.

Yn amlwg, mae angen i ni sicrhau ansawdd dŵr ein harfordir, ac rwy'n siŵr y caiff y materion technegol hynny eu hystyried ar yr adeg berthnasol.

14:22 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 15, OAQ(4)0136(NRF), has been withdrawn.

Tynnwyd 15, OAQ (4) 0136 (NRF), yn ôl.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio

## Questions to the Minister for Housing and Regeneration

### Adfywio'r Stryd Fawr

### High Street Regeneration

14:23 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei bolisïau i gynorthwyo adfywio'r stryd fawr? OAQ(4)0385(HR)*

*1. Will the Minister outline his policies to support high street regeneration? OAQ(4)0385(HR)*

14:23 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration*

Thank you for your question. Our 'Vibrant and Viable Places: New Regeneration Framework' sets the policy for the regeneration of town centres in Wales. We are also providing business improvement district support, supporting and developing a town centre loan fund, and will lead a high street support campaign this autumn, along with many other actions.

Diolch am eich cwestiwn. Mae ein 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid: Fframwaith Adfywio Newydd' yn gosod y polisi ar gyfer adfywio canol trefi yng Nghymru. Rydym hefyd yn darparu cymorth gwella busnes ar sail ardal, yn cefnogi ac yn datblygu cronfa fenthyciadau ar gyfer canol trefi, a byddwn yn arwain ymgyrch i gefnogi'r stryd fawr yr hydref hwn, ynghyd â llawer o waith arall.

14:23 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yet again, I return to the 'Vibrant and Viable Places' strategy that you pledged to launch in a campaign in June 2013, urging people to support Welsh high streets. We are still waiting, and the First Minister indicated, as you have just said, that it will be launched in the autumn of this year. Why is there such a delay, Minister? Perhaps you could enlighten us as to whether the delivery unit has had any input to this.

Unwaith eto, dychwelaf at y strategaeth 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' yr addawsoch ei lansio mewn ymgyrch ym Mehefin 2013 yn annog pobl i gefnogi'r stryd fawr yn nhrefi Cymru. Rydym yn dal i aros, a nododd y Prif Weinidog, fel rydych chi newydd ei ddweud, y bydd yn cael ei lansio yn yr hydref eleni. Pam yr oedi, Weinidog? Efallai y gallech ein goleuo a yw'r uned gyflawni wedi cael unrhyw ran yn hyn.

14:23 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Your question started quite well, until the slight at the end. The fact of the matter is that the high street support campaign will be launched in the autumn of this year.

Dechreuodd eich cwestiwn yn eithaf da, hyd nes y sarhad ar y diwedd. Y ffaith amdani yw y bydd yr ymgyrch i gefnogi'r stryd fawr yn cael ei lansio yn yr hydref eleni.

14:24 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, we the Welsh Conservatives have set out our policies quite clearly and have encouraged you, indeed, to plagiarise them. We are happy to deliver them ourselves if you are unable to do so. However, nearly 18 months on, this Government is still dithering. Can you outline exactly the involvement and role of the Government delivery unit in your department, given that you cannot get the key launch of this on time?

Weinidog, rydym ni'r Ceidwadwyr Cymreig wedi nodi ein polisïau yn eithaf clir ac wedi eich annog, yn wir, i'w dwyn. Rydym yn hapus i'w cyflwyno ein hunain os na allwch chi wneud hynny. Fodd bynnag, bron 18 mis yn ddiweddarach, mae'r Llywodraeth hon yn dal i din-droi. A allwch chi amlinellu'n union beth yw cyfraniad a rôl uned gyflawni'r Llywodraeth yn eich adran, o ystyried na allwch chi sicrhau bod y lansiad allweddol hwn yn digwydd ar amser?

14:24 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member is clearly mistaken. The delivery unit is not in my department; my department is that of housing, regeneration and planning, and, as I said earlier, we will be delivering the high street support campaign in the autumn. In fact, the Member raised questions on the delivery unit the other week with the First Minister, who was very clear in responding to his questions.

Mae'r Aelod yn amlwg yn camgymryd. Nid yr uned gyflawni yw fy adran i; tai, adfywio a chynllunio yw fy adran i, ac fel y dywedais yn gynharach, byddwn yn cyflwyno'r ymgyrch i gefnogi'r stryd fawr yn yr hydref. Yn wir, cododd yr Aelod gwestiynau am yr uned gyflawni yr wythnos o'r blaen gyda'r Prif Weinidog a roddodd ymateb eglur iawn i'w gwestiynau.

14:24 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There is still uncertainty in Anglesey about the future of two Crown post offices in Llangefni and Holyhead, with the Post Office having consulted for several months now about their future, and discussions being held about partnerships with the private sector. Does the Minister agree that to rip post offices out of the heart of our high streets will be nothing other than detrimental to efforts to regenerate those high streets?

Mae ansicrwydd o hyd yn Ynys Môn am ddyfodol dwy o swyddfeydd post y Goron yn Llangefni a Chaergybi, a bu Swyddfa'r Post yn ymgynghori ers sawl mis bellach ynglŷn â'u dyfodol. Mae trafodaethau ar y gweill ynglŷn â chreu partneriaethau â'r sector preifat. A yw'r Gweinidog yn cytuno y bydd rhwygo swyddfeydd post allan o galon ein stryd fawr yn niweidiol i'r ymdrechion i adfywio'r stryd fawr yn y trefi hynny?

14:25 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The local development of an area is down to the local authority, but I share the Member's concerns that there are certain aspects of town-centre life, such as the post office, that are an important part of the community. I would welcome it if the Member would write to me with detail of this, and I will look at this further for him.

Mater i'r awdurdod lleol yw datblygiad lleol ardal, ond rwy'n rhannu pryderon yr Aelod fod rhai agweddau ar fywyd canol trefi, fel y swyddfa bost, yn rhan bwysig o'r gymuned. Byddwn yn croesawu pe bai'r Aelod yn ysgrifennu ataf gyda'r manylion, a byddaf yn edrych ymhellach ar hyn.

14:25 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, when the Enterprise and Business Committee looked at town-centre regeneration, we heard evidence that encouraging more people to live in town centres can encourage day-to-evening economy development, and improve footfall and vibrancy, particularly in depressed high streets. Would you agree with that assessment and, if so, what barriers are currently preventing the redevelopment of empty spaces in our town centres for things such as housing developments?

Weinidog, pan edrychodd y Pwyllgor Menter a Busnes ar adfywio canol trefi, clywsom dystiolaeth y gallai annog mwy o bobl i fyw yng nghanol trefi ysgogi economi o ddydd i nos, a gwella nifer yr ymwelwyr a hyfywedd, yn enwedig mewn trefi lle mae'r stryd fawr yn dioddef. A fyddech yn cytuno â'r asesiad hwn ac os felly, pa rwystrau sy'n atal ailddatblygu mannau gwag yng nghanol ein trefi ar hyn o bryd ar gyfer pethau fel datblygiadau tai?

14:26 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I share the view of the committee, and that is why our 'Vibrant and Viable Places' regeneration framework included the development of housing and homes within town centres. That was one of the criteria in the development of the framework in that policy.

Rwy'n rhannu barn y pwyllgor, a dyna pam roedd ein fframwaith adfywio 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' yn cynnwys datblygu tai a chartrefi o fewn canol trefi. Dyna oedd un o'r meini prawf wrth ddatblygu fframwaith y polisi hwnnw.

## Grŵp Gorchwyl a Gorffen Diwygio Lles

## The Welfare Reform Task and Finish Group

14:26 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pryd y bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r argymhellion a wnaed gan y Grwp Gorchwyl a Gorffen Diwygio Lles? OAQ(4)0389(HR)*

*2. Will the Minister provide an update on when the Welsh Government will be responding to the recommendations made by the Welfare Reform Task and Finish Group? OAQ(4)0389(HR)*

14:26 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for the Cynon Valley for her question. I have made available additional money to support the recommendations, including £1.3 million to the discretionary housing payments fund. My officials are working with stakeholders to consider the other details on the outstanding issues.

Diolch i'r Aelod dros Gwm Cynon am ei chwestiwn. Rwyf wedi sicrhau bod arian ychwanegol ar gael i gefnogi'r argymhellion, gan gynnwys £1.3 miliwn i'r gronfa taliadau tai yn ôl disgresiwn. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ystyried manylion y materion sydd heb eu datrys.

14:26 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, like all Assembly Members, I am seeing on a disturbingly regular basis the impact of the UK Government's draconian welfare changes, which were described just last week by Oxfam Cymru as 'creating a perfect storm'. I welcome the Welsh Government's sympathetic and sensible approach in setting up this group to monitor the impact on the social rented sector. Do you agree that it is important that we know what the Welsh Government's response is to the group's recommendations as soon as possible, so that we can make sure that everything is being done to help people affected through no fault of their own?

Weinidog, fel holl Aelodau'r Cynulliad, rwy'n gweld effaith newidiadau lles llym Llywodraeth y DU yn ddychrynllyd o reolaidd. Yr wythnos diwethaf, disgrifiodd Oxfam Cymru y newidiadau hyn fel rhai sy'n creu storm berffaith. Rwy'n croesawu dull cydymdeimladol a synhwyrol Llywodraeth Cymru yn sefydlu'r grŵp hwn i fonitro'r effaith ar y sector rhentu cymdeithasol. A ydych yn cytuno ei bod hi'n bwysig inni wybod beth yw ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y grŵp cyn gynted ag y bo modd, fel y gallwn wneud yn siŵr fod popeth yn cael ei wneud i helpu pobl sy'n cael eu heffeithio heb fod unrhyw fai arnynt hwy?

14:27 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I share the Member's concern and that of Oxfam Cymru. I set up the task and finish group to look at these issues. There were 16 recommendations, of which five were specific to Welsh Government, and action has already been taken on those. I will write to the Member with further details on the outstanding elements of the recommendations for her perusal in the near future.

Rwy'n rhannu pryder yr Aelod a gwaith Oxfam Cymru. Sefydlais y grŵp gorchwyl a gorffen i edrych ar y materion hyn. Roedd 16 o argymhellion, pump ohonynt yn benodol i Lywodraeth Cymru, ac mae camau eisoes wedi'u cymryd ar y rheini. Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod gyda manylion pellach ar yr elfennau o'r argymhellion sy'n dal heb eu datrys iddi gael golwg arnynt yn y dyfodol agos.

14:27 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Westminster Government has made discretionary housing payments available to help people cope with the changes made to housing benefit. Will you confirm, Minister, that, when responding to the recommendations of the task and finish group, you will take into account the need to ensure that the availability of these payments is widely promoted in Wales?

Mae Llywodraeth San Steffan wedi sicrhau bod taliadau tai yn ôl disgresiwn ar gael i helpu pobl i ymdopi â'r newidiadau a wnaed i fudd-dal tai. A wnewch chi gadarnhau, Weinidog, wrth ymateb i argymhellion y grŵp gorchwyl a gorffen, y byddwch yn ystyried yr angen i sicrhau bod y taliadau hyn yn cael eu hyrwyddo'n eang yng Nghymru?

14:28 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I recognise the fact that the UK Government has provided discretionary housing payment, but the best thing that the UK Government could do would be to scrap the bedroom tax that is having an effect on people across all communities in Wales.

Rwy'n cydnabod y ffaith fod Llywodraeth y DU wedi darparu taliadau tai yn ôl disgresiwn, ond y peth gorau y gallai Llywodraeth y DU ei wneud fyddai cael gwared â'r dreth ystafell wely sy'n cael effaith ar bobl yn holl gymunedau Cymru.

### Tenantiaeth Fyrddaliol Sicr

### Shorthold Tenancy

14:28 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i gynyddu'r isafswm cyfnod lle y mae'n rhaid rhoi tenantiaeth fyrddaliol sicr? OAQ(4)0391(HR)*

*3. Does the Minister have any plans to increase the minimum period for which an assured short hold tenancy must be granted? OAQ(4)0391(HR)*

14:28 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Our proposals to reform tenancy law, which are based on recommendations from the Law Commission, do not include extending the minimum period of an assured shorthold tenancy.

Nid yw ein cynigion i ddiwygio cyfraith tenantiaeth, sy'n seiliedig ar argymhellion gan Gomisiwn y Gyfraith, yn cynnwys ymestyn terfyn isaf ar gyfer hyd tenantiaeth fyrddaliol sicr.

14:28 **Julie Morgan** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

I thank the Minister for that response. Last year, I worked with a constituent with children in education in assured shorthold tenancies who had to move five times in seven years. If the Welsh Government legislates to abolish the minimum period before a landlord of an assured shorthold tenancy can recover possession instead of lengthening it, how does the Minister foresee providing essential stability for family life and continuity in schooling for children, which are provided by longer term residential security of tenure?

Diolch i'r Gweinidog am ei ymateb. Y llynedd, gweithiais gydag etholwr â phlant ysgol a oedd yn byw mewn tenantiaeth fyrddaliol sicr ac a orfodwyd i symud bum gwaith mewn saith mlynedd. Os bydd Llywodraeth Cymru yn deddfu i gael gwared ar derfyn isaf hyd y cyfnod y gall landlord tenantiaeth fyrddaliol sicr adennill meddiant yn lle ei ymestyn, sut y mae'r Gweinidog yn rhagweld y gellir darparu'r sefydlogrwydd hanfodol ar gyfer bywyd teuluol a pharhad mewn addysg i blant, sy'n deillio o ddiogelwch deiliadaeth breswyl yn y tymor hwy?

14:29 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

I think the Member raises a very important issue, and she will be aware that the renting homes Bill will be coming through the statute books to the Assembly. However, the proposals are based on extensive work that was carried out by the Law Commission, but I will welcome further debate on this particular issue as we move forward in shaping the drafting of this Bill.

Credaf fod yr Aelod yn codi mater pwysig iawn, a bydd yn gwybod fod y Bil rhentu cartrefi yn mynd i ddod drwy'r llyfrau statud i'r Cynulliad. Fodd bynnag, mae'r cynigion yn seiliedig ar y gwaith helaeth a gyflawnodd Comisiwn y Gyfraith, ond byddaf yn croesawu trafodaeth bellach ar y mater penodol hwn wrth i ni symud ymlaen i ddrafftio'r Bil.

14:29 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

Minister, would you agree that there is a flipside to this coin, in that scrapping a minimum six-month private landlord tenancy could prevent investment by private landlords and mortgage lenders in housing supply for vulnerable tenants, so that what starts off as very good intentions, as espoused by Julie Morgan, could have a detrimental effect? Shelter Cymru research shows that only 4% of tenants have been threatened with eviction because they raised problems with landlords, whereas around a tenth of tenants are worried about rogue landlords. Do you not believe that rogue landlords should be the focus of your efforts in trying to solve this problem?

Weinidog, a fyddech yn cytuno fod ochr arall i'r geiniog hon, gan y gallai cael gwared ar y terfyn isaf o chwe mis o denantiaeth landlord preifat atal landlordiaid preifat a benthycwyr morgeisi rhag buddsoddi yn y cyflenwad tai i denantiaid sy'n agored i niwed. Gallai hyn olygu bod yr hyn sy'n cychwyn fel bwriad da, fel y mae Julie Morgan yn ei grybwyll, yn arwain at effaith andwyol. Dengys ymchwil Shelter Cymru mai dim ond 4% o denantiaid sydd wedi wynebu bygythiad o gael eu troi allan yn sgîl problemau gyda landlordiaid, ond mae tua un o bob deg tenant yn poeni am landlordiaid diegwyddor. A ydych yn credu mai canolbwyntio eich ymdrechion ar landlordiaid diegwyddor yw'r ffordd i ddatrys y broblem hon?

14:30 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

I think that that is a very balanced question from the Member, in terms of his view. As I said to Julie Morgan, the fact is that we need to look at how the legislation will be drafted in future. There is a balance between landlord risk and tenancy risk, and that is where I am looking to ensure that we get the right balance in shaping the way forward. However, we will take all these points on board, as we move forward on the Bill.

Credaf fod cwestiwn yr Aelod yn gytbwys iawn, o ran ei farn ef. Fel y dywedais wrth Julie Morgan, mae'n wir fod angen inni edrych ar sut y caiff y ddeddfwriaeth ei drafftio yn y dyfodol. Ceir cydbwysedd rhwng risg landlord a risg tenantiaeth, a dyna lle rwyf am sicrhau ein bod yn cael y cydbwysedd cywir wrth lunio'r ffordd ymlaen. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried yr holl bwyntiau hyn wrth inni symud ymlaen ar y Bil.

14:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

I call on the Plaid Cymru spokesperson, Jocelyn Davies.

Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Jocelyn Davies.

14:30 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad] [Biography] Senedd.tv [Fideo] [Video]

Minister, I can tell from the answer that you gave to Julie Morgan that you have concerns about repeated homelessness, and that it is very damaging, especially for children. So, how will you ensure that families who have to take up, or have no choice but to take up, shorthold tenancies are given opportunities to settle at some point?

Weinidog, gallaf ddweud wrth yr ateb a roesoch i Julie Morgan eich bod yn pryderu am ddigartrefedd mynych, a'i fod yn niweidiol iawn, yn enwedig i blant. Felly sut y gallwch sicrhau bod teuluoedd sy'n gorfod cymryd, neu heb ddewis ond cymryd, tenantiaeth fyrddaliol yn cael cyfle i setlo ar ryw bwynt?

14:30 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that that is what we have to do. That is what part of the housing Bill is looking at with the homelessness prevention model, in terms of establishing not just a house for an individual, but making sure that we give them a secure pathway in terms of the way that they live their lives. So, the housing Bill currently—and looking at the homelessness provision—is about supporting people, not just with a home, but with general support. The renting homes Bill will also include the elements that Members have raised with me today, around the length of the shorthold tenancy agreement that will be in place.

Credaf mai dyna sy'n rhaid i ni ei wneud. Dyna beth y mae rhan o'r Bil tai yn anelu i'w wneud drwy'r model atal digartrefedd, nid yn unig o ran cael tŷ i unigolyn, ond drwy wneud yn siŵr ein bod yn rhoi llwybr diogel iddynt o ran y ffordd y maent yn byw eu bywydau. Felly mae'r Bil tai ar hyn o bryd—gan edrych ar y ddarpariaeth i'r digartref—yn ymwneud â chefnogi pobl, nid yn unig o ran dod o hyd i gartref, ond â chymorth yn gyffredinol. Bydd y Bil Rhentu Cartrefi hefyd yn cynnwys yr elfennau y mae Aelodau wedi'u codi gyda mi heddiw ynglŷn â hyd y cytundeb tenantiaeth fyrddaliol a fydd ar waith.

14:31 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, and as we heard from Nick Ramsay, the flexibility of the shorthold tenancy might be convenient for some tenants, and may very well be convenient for some landlords. However, would you consider extending the length of tenancies that are offered to those who are found to be owed a statutory duty under your new homelessness rules?

Wrth gwrs, ac fel y clywsom gan Nick Ramsay, mae'n bosibl y bydd hyblygrwydd y denantiaeth fyrddaliol yn gyfleus i rai tenantiaid, ac mae'n bosibl iawn y bydd yn gyfleus i rai landlordiaid. Ond a fyddech yn ystyried ymestyn hyd tenantiaethau sy'n cael eu cynnig i bobl y gwelir bod dyletswydd statudol yn ddyledus iddynt o dan eich rheolau digartrefedd newydd?

14:31 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It will be something that I will consider.

Bydd yn rhywbeth y byddaf yn ei ystyried.

## Cyfleoedd Adfywio i'r Sector Preifat

## Regeneration Opportunities for the Private Sector

14:31 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfleoedd adfywio i'r sector preifat? OAQ(4)0384(HR)*

*4. Will the Minister make a statement on regeneration opportunities for the private sector? OAQ(4)0384(HR)*

14:31 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

'Vibrant and Viable Places' encourages the working together of the private, public and third sector.

Mae 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' yn annog cydweithio rhwng y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

14:32 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This Government has sidelined the private sector in terms of regeneration opportunities funded by European Union moneys. The Welsh European Funding Office lists 287 projects for the 2007-13 period and those projects account for a combined allocation of almost £2 billion. The private sector sponsors 10 projects, with a combined allocation of £21 million under this Government. The private sector accounts for 1.1% of project spending, and 3.5% of overall projects. Can you give an explanation as to why this unforgivable state of affairs exists, please, Minister?

Mae'r Llywodraeth hon wedi gyrru'r sector preifat i'r cyrion o ran cyfleoedd adfywio a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn rhestru 287 o brosiectau ar gyfer y cyfnod 2007-13 ac mae cyfanswm y dyraniad i'r prosiectau hynny bron yn £2 biliwn. Mae'r sector preifat yn noddi 10 o brosiectau, gyda dyraniad cyfunol o £21 miliwn dan y Llywodraeth hon. Y sector preifat sydd i gyfrif am 1.1% o wariant prosiect, a 3.5% o brosiectau cyffredinol. A allwch chi egluro pam y mae'r sefyllfa anfaddeuol hon yn bodoli, Weinidog?

14:32 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Member is clearly not in a very good mood today in the very negative questions that he asks me. The fact of the matter is that we are working very closely with the private sector. The Minister for business and enterprise is working very closely across all sectors, to ensure that we work to ensure the regeneration of many communities, across the length and breadth of Wales.

Mae'n amlwg nad yw'r Aelod mewn hwyliau da iawn heddiw yn ôl y cwestiynau negyddol iawn y mae'n eu gofyn. Y ffaith amdani yw ein bod yn gweithio'n agos iawn gyda'r sector preifat. Mae'r Gweinidog menter a busnes yn gweithio'n agos iawn gyda phob sector i wneud yn siŵr ein bod yn gweithio i adfywio llawer o gymunedau, ar hyd a lled Cymru.

14:33 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Minister, new home ownership in Wales is showing a decrease, and less than half of the 14,500 new homes that are needed are being built. The recently announced restrictions on people seeking a mortgage are likely to have a negative effect on home ownership and house building in Wales. What impact will the recently announced mortgage restrictions have on the Welsh Government's Help to Buy-Wales scheme?

Weinidog, mae gostyngiad i'w weld yn nifer y bobl sy'n berchen ar gartrefi newydd yng Nghymru, a llai na hanner y 14,500 o gartrefi newydd sydd eu hangen sy'n cael eu hadeiladu. Mae'r cyfyngiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar bobl sy'n ceisio am forgais yn debygol o gael effaith negyddol ar berchentyaeth ac adeiladu tai yng Nghymru. Pa effaith fydd y cyfyngiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar forgeisi yn ei chael ar gynllun Cymorth i Brynu Llywodraeth Cymru?

Senedd.tv Fideo Video

14:33 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

We are considering what the impact will be directly. However, we have to remember also that there are options other than house purchasing, and social housing is a priority of this Government. We will continue to increase the supply of social housing too.

Rydym yn ystyried beth fydd yr effaith uniongyrchol. Fodd bynnag, rhaid inni gofio hefyd fod dewisiadau ar wahân i brynu tŷ, ac mae tai cymdeithasol yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Byddwn yn parhau i gynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol hefyd.

Senedd.tv Fideo Video

14:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, Peter Black.

Galwaf ar lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

Senedd.tv Fideo Video

14:33 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Minister, a number of private and public sector developers have been reliant in the past on the money available from the Regeneration Investment Fund for Wales. May I have an update, please, on what is happening with the resources that were available to that body, and how you are spending them?

Weinidog, yn y gorffennol mae nifer o ddatblygwyr yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus wedi bod yn ddibynnol ar yr arian sydd ar gael o Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (CBCA). A gaf fi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd gyda'r adnoddau a oedd ar gael i'r corff hwnnw, a sut rydych yn eu gwario?

Senedd.tv Fideo Video

14:33 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I will update the Chamber at the appropriate time on RIFW, as the Member has requested.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am CBCA i'r Siambr ar yr adeg briodol, fel y mae'r Aelod wedi gofyn.

Senedd.tv Fideo Video

14:34 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, Minister. I would be grateful if you could indicate that that will be an oral statement, so that we can question you on it in some detail. A number of projects in my region were dependent on those loans, and I think that it is vital that we have an answer as to whether those projects can go ahead.

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ar ffurf datganiad llafar er mwyn inni allu eich holi'n fanwl yn ei gylch. Roedd nifer o brosiectau yn fy ardal yn dibynnu ar y benthyciadau hynny, a chredaf ei bod hi'n hollbwysig ein bod yn cael gwybod a all y prosiectau hynny fynd yn eu blaen.

Senedd.tv Fideo Video

14:34 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

As the Member is aware, there are investigations into that fund. When I am clear around those investigations, I will make a statement in the Chamber.

Fel y gŵyr yr Aelod, mae ymchwiliadau ar y gweill i'r gronfa honno. Pan fyddaf yn gwybod canlyniad yr ymchwiliadau hynny, byddaf yn gwneud datganiad yn y Siambr.

Senedd.tv Fideo Video

### Datblygiadau Ystadau Tai Anghyflawn

### Incomplete Housing Estate Developments

14:34 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

*5. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gydag awdurdodau lleol ynglŷn â datblygiadau ystadau tai anghyflawn? OAQ(4)0392(HR)*

*5. What discussions has the Minister had with local authorities regarding incomplete housing estate developments? OAQ(4)0392(HR)*

Senedd.tv Fideo Video

14:34 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his question. My officials are in regular contact with local planning authorities. The issue of incomplete housing developments has not been raised by any.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae fy swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd ag awdurdodau cynllunio lleol. Nid oes yr un ohonynt wedi codi mater datblygiadau tai anghyflawn.

14:34 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Wel, yn sicr, Weinidog, gallaf ddweud wrthych bod nifer o ystadau tai heb eu cwblhau yn Nwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, ac fe fyddwn i'n tybio bod hynny'n wir yn etholaethau y rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'r Aelodau sydd yma y prynhawn yma. Byddwn yn hapus iawn i fynd â chi o gwmpas Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr i ddangos y stadau yma i chi os ydych yn barod i dderbyn y gwahoddiad. Fodd bynnag, y cwestiwn sylfaenol yw: pwy sy'n gyfrifol yn y pen draw am y stadau yma, oherwydd mae'n creu problemau enfawr i'r bobl sy'n byw arnyn nhw? Nid yw'r hewlydd wedi'u cwblhau, nid yw pob math o wasanaethau wedi'u cwblhau, ac ar rai achlysuron yng Nghaerfyrddin, mae'r awdurdod lleol wedi caniatáu cynllunio pellach i gwmnïau nad ydynt wedi cwblhau ystadau presennol. A ydych chi fel Gweinidog yn derbyn cyfrifoldeb ac yn barod i gamu mewn yn y sefyllfa yma?

Well, certainly, Minister, I can tell you that there are a number of housing estates that are incomplete in Carmarthen East and Dinefwr, and I would assume that that would be the case in the constituencies of most, if not all, of the Members who are here this afternoon. I would be very happy to take you around Carmarthen East and Dinefwr to show you these estates if you are willing to accept the invitation. However, the fundamental question is: who is ultimately responsible for these estates, because it creates huge problems for the people residing on them? The roads have not been completed, not every type of service has been completed, and on some occasions in Carmarthenshire, the local authority has granted further planning permission to companies that have not completed existing estates. Do you as a Minister accept responsibility and are you willing to intervene in this situation?

14:35 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No. The planning function around this remains with the local authority, but I would be interested in hearing from the Member with regard to the specific sites he is raising with me today to see that local planning authorities are dealing with the issues that he raises.

Nac ydw. Mater i'r awdurdod lleol yw'r swyddogaeth gynllunio sy'n gysylltiedig â hyn, ond byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed gan yr Aelod ynglŷn â'r safleoedd penodol y mae'n cyfeirio atynt heddiw er mwyn gweld bod awdurdodau cynllunio lleol yn ymdrin â'r materion y mae'n eu codi.

14:36 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, what can be done to ensure that developers do not just make a small start, such as digging footings for one building, to meet the planning condition that development must start within five years of initial permission being granted?

Weinidog, beth y gellir ei wneud i sicrhau nad yw datblygwyr ond yn mynd ati i wneud gwaith cychwynnol bach, fel cloddio sylfeini ar gyfer un adeilad, er mwyn bodloni'r amod cynllunio fod yn rhaid i'r gwaith datblygu ddechrau o fewn pum mlynedd i roi caniatâd cychwynnol?

14:36 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I share the Member's concern in this regard. The courts have clarified the test that applies to whether development has commenced in these processes. However, if planning issues arise where there is slow speed of development, a local authority has a number of existing enforcement tools with which to address the amenity issues. However, it is something that I am conscious of and I will give it further consideration.

Rwy'n rhannu pryder yr Aelod ynglŷn â hyn. Mae'r llysoedd wedi egluro'r hyn sy'n profi a yw datblygiad wedi dechrau yn y prosesau hyn. Fodd bynnag, os bydd cwestiynau cynllunio'n codi lle mae'r gwaith datblygu'n araf, mae gan awdurdod lleol nifer o ddulliau gorfodi ar hyn o bryd i fynd i'r afael â materion amwynder. Ond mae hyn yn rhywbeth rwy'n ymwybodol ohono, a byddaf yn rhoi ystyriaeth bellach i'r mater.

14:36 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There are powers for local authorities to use with regard to this issue. However, surely part of the solution to this problem is for local authorities, especially those in rural areas, to release smaller parcels of land, which will encourage local builders to enter the market, stimulating more custom-built housing for the area. So, what encouragement or guidance is the Welsh Government providing to local authorities on this issue?

Mae yna bwerau y gall awdurdodau lleol eu defnyddio mewn perthynas â'r mater hwn. Ond yn sicr, rhan o'r ateb i'r broblem hon yw i awdurdodau lleol ryddhau darnau llai o dir, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, er mwyn annog adeiladwyr lleol i mewn i'r farchnad, a chodi mwy o dai addas ar gyfer yr ardal. Felly, pa anogaeth neu arweiniad y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i awdurdodau lleol ar y mater hwn?

14:37 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The local development plan is the process for development planning for a local authority. It is in their gift and the opportunities rest with them. There is an awful lot of guidance—some would suggest too much sometimes—for local authorities to develop LDPs and that is where the process lies.

Y cynllun datblygu lleol yw'r broses y dylai awdurdod lleol ei defnyddio ar gyfer cynllunio datblygu. Eu dewis hwy yw beth i'w wneud â'r cyfleoedd sy'n deillio ohono. Ceir llawer iawn o ganllawiau i awdurdodau lleol—byddai rhai'n awgrymu fod gormod weithiau—ar ddatblygu Cynlluniau Datblygu Lleol a dyna'r broses i'w dilyn.

14:37 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yesterday, I had the pleasure of accepting a petition calling upon the Welsh Government to investigate how devolved planning powers could be used to bring vacant or derelict sites across Wales into beneficial use. This has been promoted by a group of campaigners in St Mellons. However, this is very much a problem across Wales, as has already been referred to earlier. Those of us who are in this Chamber today will know that, just a few hundred metres away, there is a building on James Street that has been in a state of hibernation for years without it moving any further forward. To that end, Minister, will you highlight in what ways you are prepared to contemplate to incentivise developers to move forward on completing projects in a timely fashion to the benefit of the local environment, but also to reduce the danger of such sites becoming infested with Japanese knotweed and other non-native invasive species?

Ddoe, cefais y pleser o dderbyn deiseb yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio sut y gellid defnyddio pwerau cynllunio datganoledig i wneud defnydd buddiol o safleoedd gwag neu ddiffaith ledled Cymru. Grŵp o ymgyrchwyr yn Llaneirwg a fu'n hyrwyddo hyn. Fodd bynnag, mae'n sicr yn broblem ar draws Cymru, fel y soniwyd eisoes. Bydd y rheini ohonom yn y Siambr hon heddiw yn gwybod am adeilad ychydig gannoedd o fetrau i ffwrdd ar Stryd James sydd heb ei ddefnyddio ers blynyddoedd a dim byd yn cael ei wneud amdano. I'r perwyl hwnnw, Weinidog, a wnewch chi amlinellu sut rydych yn barod i ystyried cymell datblygwyr i symud ymlaen i gwblhau prosiectau mewn modd amserol er budd yr amgylchedd lleol, gan leihau'r perygl ar yr un pryd y bydd safleoedd o'r fath yn cael eu goresgyn gan bla Clymog Japan a rhywogaethau goresgynnol anfrodorol eraill?

14:38 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, derelict properties can become a blight on our community and that is why we made significant investment in our Houses into Homes scheme, which is something on which we are working very proactively with local authorities. However, it is the local planning authorities that have many enforcement tools to shape the way that their communities look. I look forward to receiving the petition at the appropriate time.

Wrth gwrs, gall eiddo gwag ddifwyno ein cymuned a dyna pam rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn ein cynllun Troi Tai'n Gartrefi, sy'n gynllun rydym yn cydweithio'n rhagweithiol iawn ag awdurdodau lleol arno. Fodd bynnag, mae gan yr awdurdodau cynllunio lleol lawer o ddulliau gorfodi ar gyfer llunio'u cymunedau. Edrychaf ymlaen at dderbyn y ddeiseb ar yr adeg briodol.

14:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Question 6, OAQ(4)0394(HR), is withdrawn.

Tynnwyd 6, OAQ (4) 0394 (AD), yn ôl.

### Prosiectau Adfywio

### Regeneration Projects

14:39 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd prosiectau adfywio yng Nghanol De Cymru? OAQ(4)0390(HR)*

*7. Will the Minister make a statement on the progress of regeneration projects in South Wales Central? OAQ(4)0390(HR)*

14:39 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his question. Since 2010, £11.9 million has been spent in Barry on 40 projects, including £2.1 million for the early completion of the Barry island link road.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Ers 2010, gwariwyd £11.9 miliwn yn y Barri ar 40 o brosiectau, gan gynnwys £2.1 miliwn am gwblhau ffordd gyswllt Ynys y Barri yn gynnar.

14:39 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister, for that answer. Sadly, Barry missed out on the new definition of regeneration status recently, but obviously the Vale of Glamorgan does have the benefit of being an enterprise zone, as does the centre of Cardiff. Is there work being done with your officials and the Minister for business's officials to see where regeneration moneys can work in those enterprise zones? Can you confirm that being designated an enterprise zone does not stop you benefiting from any regeneration monies that might be available to other parts of Wales?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Yn anffodus, methodd y Barri â manteisio ar y diffiniad newydd o statws adfywio yn ddiweddar, ond yn amlwg, mae mantais gan Fro Morgannwg o fod yn ardal fenter, fel canol Caerdydd. A oes gwaith yn cael ei wneud gyda'ch swyddogion a swyddogion y Gweinidog busnes i weld lle y gall arian adfywio weithio yn yr ardaloedd menter hynny? A allwch chi gadarnhau nad yw cael eich dynodi'n ardal fenter yn eich atal rhag elwa ar arian adfywio a allai fod ar gael i rannau eraill o Gymru?

14:39 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

With regard to the last part of the Member's question in terms of whether investment in regeneration in enterprise zones is prohibited, no, it is not. There are still opportunities there, and we work very closely across departments to ensure that we get the best outcome for the amount of money we invest, and we work together to ensure that we get best value.

O ran y rhan olaf o gwestiwn yr Aelod sy'n gofyn a yw buddsoddi mewn adfywio yn yr ardaloedd menter wedi'i wahardd—na, nid yw hynny'n wir. Mae cyfleoedd yno o hyd, ac rydym yn gweithio'n agos iawn ar draws adrannau i sicrhau ein bod yn cael y canlyniad gorau am y swm o arian a fuddsoddwn, ac rydym yn cydweithio i sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau.

14:40 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv Fideo Video

Minister, many individuals and businesses in Wales have benefited, and will continue to benefit, from funds from the European Union. Research carried out by your Government this week has estimated that more than £4 billion will come to Wales by 2020, which equates to more than £1,300 for every man, woman and child in this country. Can you tell me, therefore, why the Labour Party supports aspects of the repatriation of EU funding to London? Can you tell us whether it is official Labour policy? Will you distance yourself from—. Indeed, will you join me in condemning the MP for Caerphilly whose comments will not only play into the hands of UKIP, but end up hurting the families and businesses in Wales who can least afford to lose this support from the European Union?

Weinidog, mae llawer o unigolion a busnesau yng Nghymru wedi elwa, ac yn mynd i barhau i elwa, o arian gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae ymchwil a wnaed gan eich Llywodraeth yr wythnos hon wedi amcangyfrif y bydd mwy na £4 biliwn yn dod i Gymru erbyn 2020, sy'n cyfateb i fwy na £1,300 am bob dyn, dynes a phlentyn yn y wlad. A allwch ddweud wrthyf, felly, pam y mae'r Blaid Lafur yn cefnogi agweddau ar ddychwelyd arian yr UE i Lundain? A allwch ddweud wrthym a yw'n bolisi Llafur swyddogol? A wnewch chi ymbellhau oddi wrth—yn wir, a wnewch chi ymuno â mi i gondemnio'r AS dros Gaerffili y bydd ei sylwadau nid yn unig yn chwarae i mewn i ddwylo UKIP, ond yn y pen draw, yn brifo teuluoedd a busnesau yng Nghymru na allant fforddio colli'r cymorth hwn gan yr Undeb Ewropeaidd?

14:41 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very positive about the European funding that Wales has received and the changes it has made to our communities. That is why it is very important that we remain part of the European community in the near future. With regard to colleagues in other areas, I do not have an opinion on their views. However, the fact is that, in Wales, in this Government, we are very positive about the way we engage with the European structural funds.

Rwy'n gadarnhaol iawn ynglŷn â'r arian Ewropeaidd y mae Cymru wedi'i gael a'r newidiadau a wnaeth i'n cymunedau. Dyna pam ei bod yn bwysig iawn inni barhau'n rhan o'r gymuned Ewropeaidd yn y dyfodol agos. O ran cydweithwyr mewn meysydd eraill, nid oes gennyf farn ynglŷn â'u safbwyntiau. Fodd bynnag, mae'n wir ein bod yng Nghymru, yn y Llywodraeth hon, yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r ffordd rydym yn defnyddio'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd.

### Cynllun Swyddogion Galluogi Tai Gwledig

### Rural Housing Enablers Scheme

14:41 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun Swyddogion Galluogi Tai Gwledig yng Nghymru? OAQ(4)0379(HR)*

*8. Will the Minister make a statement on the Rural Housing Enablers scheme in Wales? OAQ(4)0379(HR)*

14:41 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

The evaluation report that I commissioned last year highlighted the positive work that rural housing enabler projects carry out across rural Wales. I have agreed further funding for this financial year to build on the work that is already in place.

Mae'r adroddiad gwerthuso a gomisiynwyd gennyf y llynedd yn tynnu sylw at y gwaith cadarnhaol y mae prosiectau swyddogion galluogi tai gwledig yn ei wneud ledled cefn gwlad Cymru. Rwyf wedi cytuno i ryddhau cyllid pellach ar gyfer y flwyddyn ariannol hon er mwyn adeiladu ar y gwaith sydd eisoes ar y gweill.

Senedd.tv Fideo Video

14:42 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Since 2004, the rural housing enabler scheme has produced only 186 affordable homes. There are a further 240 in the pipeline, but there is no timescale for delivery. Will the Minister advise us of the reason for the delay in the delivery of these much needed affordable homes in rural areas, and will you provide a timescale for delivery here in Wales?

Ers 2004, dim ond 186 o gartrefi fforddiadwy y mae'r cynllun swyddogion galluogi tai gwledig wedi'u cynhyrchu. Mae 240 arall yn yr arfaeth, ond ni cheir amserlen ar gyfer eu cwblhau. A wnaiff y Gweinidog roi gwybod beth yw'r rheswm dros yr oedi cyn darparu'r tai fforddiadwy hyn sy'n fawr eu hangen mewn ardaloedd gwledig, ac a fyddwch yn darparu amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith yma yng Nghymru?

Senedd.tv Fideo Video

14:42 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Yet again, the opposition benches seem very negative today in their questioning. He says 'only 186'; that is 186 more homes under Labour than you have produced since you have been here as part of this Assembly— [Interruption.]

Unwaith eto, mae cwestiynau meinciau'r wrthblaid i'w gweld yn negyddol iawn heddiw. Mae'n dweud 'dim ond 186'; hynny yw 186 yn fwy o gartrefi o dan Lafur nag a gynhyrchwyd gennych chi ers i chi fod yma'n rhan o'r Cynulliad hwn— [Torri ar draws.]

Senedd.tv Fideo Video

14:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Order. I call Alun Ffred Jones.

Trefn. Galwaf ar Alun Ffred Jones.

Senedd.tv Fideo Video

14:42 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Yn ôl y ffigurau hynny, mae'n ymddangos mai rhyw ddau neu dri o dai y flwyddyn—na, efallai fod ychydig yn fwy na hynny: tua 18 tŷ y flwyddyn sy'n cael eu codi drwy'r cynllun hwn. Mae nifer ohonynt ar hyd a lled Cymru ac yr wyf yn gwybod eu bod yn gwneud gwaith adeiladol a da. Ond, pam mae'r cynnydd wedi bod mor araf deg dros y blynyddoedd, o wybod am y galw sydd am dai mewn ardaloedd gwledig?

According to those figures, it appears that only two or three houses a year—no, it may be a little more than that: some 18 houses a year are built through this particular scheme. There are many of them the length and breadth of Wales and I know that they do some very good, constructive work. However, why has progress been so slow over the years, given the demand that exists for housing in rural areas?

Senedd.tv Fideo Video

14:43 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Well, of course, the Member will be aware of the difficulty in planning terms of getting local communities to accept schemes sometimes. I have visited many of the rural housing schemes and all of them have many stories about how they go through the planning system locally to try to determine the application. The Member will note that, in his particular area, although we have offered funding for the rural housing enabler programme in Gwynedd, I am still waiting on a response from Gwynedd to see whether it will be taking part in the programme in the coming year.

Wel, wrth gwrs, bydd yr Aelod yn ymwybodol o'r anhawster yn nhermau cynllunio o gael cymunedau lleol i dderbyn cynlluniau weithiau. Rwyf wedi ymweld â llawer o'r cynlluniau tai gwledig ac mae gan bob un ohonynt hanesion ynglŷn â sut y maent yn mynd drwy'r system gynllunio yn lleol i geisio penderfynu ar y cais. Bydd yr Aelod yn nodi yn ei ardal ei hun, er ein bod wedi cynnig arian ar gyfer y rhaglen swyddogion galluogi tai gwledig yng Ngwynedd, rwy'n dal i aros am ymateb o Wynedd i weld a fydd yn cymryd rhan yn y rhaglen yn ystod y flwyddyn i ddod.

Senedd.tv Fideo Video

14:44 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Minister, the rural housing enabler has been working alongside Presteigne town council to identify a site for the delivery of affordable local needs homes. Although a site outside the town has been found, the preference would be for a site in the centre of the town—the derelict Kaye factory site. What assistance can the Welsh Government give to persuade the private sector, which holds land such as this, to bring it forward for development, and what assistance can you give for land that is potentially contaminated by previous usage to bring it into a more positive use in future? Do you agree with me that, sometimes, the people who cause the delays in affordable housing applications are Conservative politicians who object to them?

Weinidog, mae'r swyddog galluogi tai gwledig wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â chyngor tref Llanandras i nodi safle ar gyfer darparu tai fforddiadwy a fydd yn diwallu anghenion lleol. Er bod safle y tu allan i'r dref wedi'i ganfod, safle ynghanol y dref fyddai orau—sef safle hen ffatri Kaye. Pa gymorth y gallai Llywodraeth Cymru ei roi i berswadio'r sector preifat, sy'n dal tir o'r fath, i'w gyflwyno ar gyfer ei ddatblygu, a pha gymorth y gallwch ei roi ar gyfer tir a allai fod wedi'i halogi yn sgîl defnydd blaenorol a wnaed ohono er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn modd mwy cadarnhaol yn y dyfodol? A ydych yn cytuno â mi mai'r bobl sydd weithiau'n achosi'r oedi mewn ceisiadau am dai fforddiadwy yw'r gwleidyddion Ceidwadol sy'n eu gwrthwynebu?

Senedd.tv Fideo Video

14:44 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

I am very grateful for the Member's question and, without being development specific, Presiding Officer, I share the view that we need to encourage the private and public sectors to enable their land to be used for new development. It is something that, working alongside the Minister for business, I am looking to see how programmes can be brought forward through innovative finance and other use of land in order to develop new sites.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn, a heb fynd i sôn am ddatblygiadau penodol, Lywydd, rwy'n rhannu'r farn bod angen i ni annog y sectorau preifat a chyhoeddus i'w gwneud hi'n bosibl defnyddio eu tir ar gyfer datblygiadau newydd. Gan weithio gyda'r Gweinidog busnes, rwy'n edrych i weld sut y gellir dwyn rhaglenni ymlaen trwy gyllid arloesi a defnydd arall o dir er mwyn datblygu safleoedd newydd.

Senedd.tv Fideo Video

14:45 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Minister, all of the previous questions have demonstrated some of the problems around rural housing. Of course, you will be aware that for young people, one of the ways on to the housing ladder is through the Help to Buy scheme, which you launched in January here in Wales. Clearly, youngsters in England have a huge advantage, because they are able to use that funding to buy what I would call second-hand homes or old homes—homes that have been previously lived in. In rural areas, that is the vast majority of housing.

Weinidog, dangosodd pob un o'r cwestiynau blaenorol rai o'r problemau sy'n codi ynglŷn â thai gwledig. Wrth gwrs, gwyddoch mai un o'r ffyrdd y gall pobl ifanc roi troed ar yr ysgol mewn perthynas â thai yw drwy'r cynllun Cymorth i Brynu a lansiwyd gennych ym mis Ionawr yma yng Nghymru. Yn amlwg, mae gan bobl ifanc Lloegr fantais enfawr am eu bod yn gallu defnyddio'r arian hwnnw i brynu'r hyn a alwn yn gartrefi ail-law neu'n hen gartrefi—cartrefi y mae rhywun wedi byw ynddynt o'r blaen. Mewn ardaloedd gwledig, dyna yw'r mwyafrif helaeth o dai.

Minister, will you commit to looking at the figures and seeing how many young people have been able to access that funding in rural areas after six months, and, if the figures are small, look at extending that scheme to allow people in rural areas to buy old housing rather than new build?

Weinidog, a wnewch chi ymrwymo i edrych ar y ffigurau a gweld faint o bobl ifanc sydd wedi gallu cael gafael ar y cyllid hwnnw mewn ardaloedd gwledig ar ôl chwe mis, ac os yw'r niferoedd yn fach, a wnewch chi ystyried ymestyn y cynllun i ganiatáu i bobl mewn ardaloedd gwledig brynu hen dai yn hytrach nag adeiladu o'r newydd?

Senedd.tv Fideo Video

14:46 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

We have a continuing evaluation of the scheme. I have looked at that only this week in terms of numbers. I will have another look to see whether we have any age profile in capturing the data. However, as I have said to the Member before, it is not my intention currently to introduce this into the second-hand home scenario to which she referred.

Mae gwerthusiad parhaus o'r cynllun ar waith gennym. Bûm yn edrych arno o ran y niferoedd yr wythnos hon. Edrychaf arno eto i weld a oes gennym broffil oedran ar gyfer casglu data. Fodd bynnag, fel y dywedais wrth yr Aelod yn gynharach, nid fy mwriad ar hyn o bryd yw cyflwyno hyn yn rhan o'r senario cartrefi ail-law y cyfeiriodd ati.

Senedd.tv Fideo Video

14:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Question 9, OAQ(4)0378(HR), is withdrawn. Question 10, OAQ(4)0386(HR), is withdrawn.

Tynnwyd cwestiwn 9, OAQ (4) 0378 (AD), yn ôl. Tynnwyd cwestiwn 10, OAQ (4) 0386 (AD), yn ôl.

Senedd.tv Fideo Video

## Y Strategaeth Cartrefi Gwag

## The Empty Homes Strategy

14:46 **Peter Black** [Bywgraffiad] [Biography]

*11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lwyddiant y strategaeth cartrefi gwag? OAQ(4)0376(HR)*

*11. Will the Minister make a statement on the success of the empty homes strategy? OAQ(4)0376(HR)*

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:46 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad] [Biography]

I welcome the opportunity to highlight the great work being carried out by local authorities to bring long-term empty homes back into use. We remain well on track to deliver on our commitment of bringing 5,000 homes back into use during this Government term.

Rwy'n croesawu'r cyfle i dynnu sylw at y gwaith gwych sy'n cael ei wneud gan awdurdodau lleol i ddod â chartrefi gwag hirdymor yn ôl i ddefnydd. Rydym yn parhau ar y trywydd iawn i gyflawni ein hymrwymiad i ddod â 5,000 o gartrefi yn ôl i ddefnydd yn ystod tymor y Llywodraeth hon.

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:47 **Peter Black** [Bywgraffiad] [Biography]

Thank you for that answer, Minister. I know and you know that local authorities' performance on this is fairly inconsistent in parts of Wales. Although there are some very good examples of work being carried out, there are also examples of local authorities that are not doing so well.

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Rydw i a chithau'n gwybod fod perfformiad awdurdodau lleol ar hyn yn weddol anghyson mewn rhannau o Gymru. Er bod rhai enghreifftiau da iawn o waith yn cael ei wneud, mae yna hefyd enghreifftiau o awdurdodau lleol nad ydynt yn gwneud cystal.

May I ask whether you will reconsider the need to have a national homes strategy to bring all of this together, particularly with the new measures in the housing Bill, to ensure that we have some consistency across Wales in trying to tackle this problem?

A gaf fi ofyn a fyddwch yn ailystyried yr angen i gael strategaeth dai genedlaethol i ddod â hyn i gyd at ei gilydd, yn enwedig gyda'r mesurau newydd yn y Bil tai, i sicrhau ein bod yn cael rhywfaint o gysondeb ledled Cymru o ran ceisio mynd i'r afael â'r broblem hon?

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:47 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad] [Biography]

Well, over 2,100 properties were brought back into use through a wide range of local authority interventions, including houses into homes loans in the first two years of the five-year Assembly term. This represents great progress towards the target of 5,000. People such as Michala Rudman, who is an empty homes officer in south Wales, and her colleagues, do excellent work. The empty homes strategy is something that I do not think that we need, but I am making sure that our target is reached by many uses of the tools that we have in place.

Wel, cafodd dros 2,100 o adeiladau eu dwyn yn ôl i ddefnydd trwy ystod eang o ymyriadau awdurdodau lleol, gan gynnwys benthyciadau troi tai'n gartrefi yn nwy flynedd gyntaf tymor y Cynulliad o bum mlynedd. Mae hyn yn gynnydd mawr tuag at y targed o 5,000. Mae pobl fel Michala Rudman, sy'n swyddog cartrefi gwag yn y De, a'i chydweithwyr, yn gwneud gwaith rhagorol. Nid wyf yn credu fod angen y strategaeth cartrefi gwag arnom, ond rwy'n gwneud yn siŵr fod ein targed yn cael ei gyrraedd drwy'r defnydd o'r gwahanol ddulliau sydd gennym ar waith.

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:48 **Mike Hedges** [Bywgraffiad] [Biography]

Minister, having spent much of the last three weeks delivering leaflets, I have noticed the large number of empty properties, often in sought-after areas. Does the Minister believe that we need to use council tax increases as a way of enthusing those with empty properties to rent or sell?

Weinidog, ar ôl treulio llawer o'r tair wythnos diwethaf yn dosbarthu taflenni, sylwais ar y nifer fawr o adeiladau gwag, yn aml mewn ardaloedd poblogaidd. A yw'r Gweinidog yn credu bod angen i ni ddefnyddio cynnydd yn y dreth gyngor fel ffordd o annog y rheini sydd ag eiddo gwag i'w rentu neu ei werthu?

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:48 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad] [Biography]

Yes.

Ydw.

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:48 **William Graham** [Bywgraffiad] [Biography]

Minister, what incentives can you give other than just penalising owners of empty properties? The Royal Institute of Chartered Surveyors in Wales reports that many owners are put off renovation because of red tape.

Weinidog, pa gymhellion y gallwch eu cynnig ar wahân i ddim ond cosbi perchnogion eiddo gwag? Mae Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig yng Nghymru yn dweud bod llawer o berchnogion yn cael eu digalonni rhag adnewyddu eiddo oherwydd biwrocratiaeth.

Senedd.tv [Fideo] [Video]

14:48 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is a very general term to use, 'red tape'. If the Member wishes to write to me with specifics about exactly what is stopping people from making renovations, I would be more than happy to investigate that for the future.

Mae 'biwrocratiaeth' yn derm cyffredinol iawn i'w ddefnyddio. Os yw'r Aelod yn dymuno ysgrifennu ataf gyda manylion ynghylch beth yn union sy'n atal pobl rhag gwneud gwaith adnewyddu, byddwn yn fwy na pharod i ymchwilio i hynny ar gyfer y dyfodol.

### Tai Amlfeddiannaeth

### Houses in Multiple Occupation

14:48 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*12. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella rheoliadau hysbysebu tai amlfeddiannaeth? OAQ(4)0393(HR)*

*12. What plans does the Minister have to improve the advertising regulations of HMOs? OAQ(4)0393(HR)*

14:48 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for her question. I will shortly be commissioning research that will provide a comprehensive review of the current powers available to control the adverse impacts of HMOs, including the advertising control regulations.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Cyn bo hir, byddaf yn comisiynu ymchwil a fydd yn darparu adolygiad cynhwysfawr o'r pwerau presennol sydd ar gael i reoli effeithiau andwyol tai amlfeddiannaeth, gan gynnwys y rheoliadau sy'n rheoli hysbysebu.

14:49 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, Minister, which is very welcome. As the Minister knows, in parts of my constituency, there are an enormous number of HMOs, many of which have year-round advertisements placed on them to the detriment of the community and to the detriment of proper policing, because it gives the impression of an empty community and a neglected community. Minister, will you join me in congratulating Swansea council, which has recently passed a policy that commits letting agents to a voluntary code whereby they can only put up 'To let' signs on their properties for limited periods and in a particular design that is flat against the building, and so on? Will he consider including the results of that pilot study as part of the research that he has just mentioned?

Diolch i chi am eich ateb, sydd i'w groesawu'n fawr. Fel y gŵyr y Gweinidog, mewn rhannau o fy etholaeth, ceir nifer enfawr o dai amlfeddiannaeth, ac mae hysbysebion wedi'u gosod ar nifer ohonynt drwy gydol y flwyddyn sy'n niweidiol i'r gymuned a phlismona priodol, am ei fod yn rhoi'r argraff o gymuned wag ac wedi'i hesgeuluso. Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i longyfarch cyngor Abertawe, sydd wedi pasio polisi yn ddiweddar yn ymrwymo asiantau gosod tai i god gwirfoddol sy'n golygu mai dim ond am gyfnodau cyfyngedig yn unig y caniateir iddynt roi arwyddion 'Ar osod' ar eu heiddo, ac ar ffurf cynllun penodol gwastad yn erbyn yr adeilad, ac yn y blaen? A fydd yn ystyried cynnwys canlyniadau'r astudiaeth beilot yn rhan o'r ymchwil y mae newydd ei grybwyll?

14:49 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think it sounds like an excellent idea and shows how local authorities can be positive in tackling these issues. It will be something that I will look at for inclusion and, of course, I know that the Member has recently written to me asking me for a meeting regarding HMOs and I will welcome that meeting very shortly, when my diary secretaries allow some time for that to take place.

Credaf ei fod yn syniad gwych ac yn dangos sut y gall awdurdodau lleol fod yn gadarnhaol wrth fynd i'r afael â'r materion hyn. Bydd yn rhywbeth y byddaf yn edrych arno gyda golwg ar ei gynnwys ac wrth gwrs, rwy'n gwybod bod yr Aelod wedi ysgrifennu ataf yn ddiweddar yn gofyn am gyfarfod ynglŷn â thai amlfeddiannaeth a byddaf yn croesawu cyfarfod yn fuan iawn, pan fydd fy ysgrifenyddion dyddiadur yn caniatáu rhywfaint o amser ar gyfer hynny.

14:50 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could I join in and endorse the sentiments of the Member from Swansea about the action that Swansea council has taken and perhaps suggest that the Minister considers bringing that forward in Cardiff? In the area that I represent in Cardiff—if you drive through the centre of Cardiff—the display of 'To let' notices is street long; it is not just one or two properties. It really creates a sense that you have a ghetto mentality, I would have to say, in many of those areas, which is far from the case. So, could I encourage the Minister to bring best practice to bear, especially where there is a high student community population, and to bring some order to the regulations that allow these signs to stay up, basically, 365 days of the year and 12 months long?

A gaf fi ategu sylwadau'r Aelod o Abertawe ynglŷn â'r camau y mae cyngor Abertawe wedi'u cymryd ac awgrymu efallai y dylai'r Gweinidog ystyried cyflwyno hyn yng Nghaerdydd? Yn yr ardal rwyf yn ei chynrychioli yng Nghaerdydd—os gyrrwch chi drwy ganol Caerdydd—mae arwyddion 'Ar osod' yn ymestyn dros strydoedd cyfan; nid dim ond un neu ddau adeilad. Mae'n bendant yn creu ymdeimlad o feddylfryd y geto, mae'n rhaid dweud, yn llawer o'r ardaloedd hynny, ac mae hynny ymhell o fod yn wir. Felly, a gaf fi annog y Gweinidog i roi arfer gorau ar waith, yn enwedig lle mae poblogaeth uchel o fyfyrwyr yn y gymuned, a dod â rhywfaint o drefn i'r rheoliadau sy'n caniatáu i'r arwyddion hyn aros i fyny 365 diwrnod y flwyddyn dros 12 mis i bob pwrpas?

14:51 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I certainly welcome the Conservative leader celebrating the success of the Labour-run Swansea council in the way that it operates. It is certainly something, within the toolkit that we will develop in the research, that we will look to ensure is spread through best practice across communities across Wales.

Rwy'n sicr yn croesawu'r ffaith fod arweinydd y Ceidwadwyr yn dathlu llwyddiant cyngor Llafur Abertawe o ran y ffordd y mae'n gweithredu. Mae'n sicr yn rhywbeth o fewn y pecyn cymorth y byddwn yn ei ddatblygu yn yr ymchwil, a byddwn yn ceisio sicrhau ei fod yn cael ei ledaenu drwy ymarfer gorau ar draws cymunedau ledled Cymru.

## Y Bil Cynllunio

## The Planning Bill

14:51 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*13. Pryd y mae'r Gweinidog yn bwriadu cyhoeddi testun cyflawn y Bil Cynllunio yn dilyn y papur gwyn 'Cynllunio Cadarnhaol'? OAQ(4)0383(HR)*

*13. When does the Minister intend to publish the complete text of the Planning Bill following the 'Positive Planning' white paper? OAQ(4)0383(HR)*

14:51 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his question. The consultation on the draft planning (Wales) Bill closed on 26 February. The responses to the consultation have been considered to inform the final planning (Wales) Bill to be introduced into the National Assembly later this year.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Daeth yr ymgynghoriad ar y drafft o'r Bil cynllunio (Cymru) i ben ar 26 Chwefror. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu hystyried ar gyfer llywio Bil cynllunio terfynol (Cymru) sydd i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ddiweddarach eleni.

14:51 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Pa mor ddiweddar, Weinidog? Rwy'n pryderu am y broses anodd a fydd gennym ni i graffu ar y Bil hwn. Wedi dweud hynny, y mae disgwyl mawr amdano yn Nwyfor Meirionnydd, ym mharc cenedlaethol Eryri ac mewn ardaloedd eraill sydd yn aros am ryddhad i'r broses gynllunio a'i throi hi'n broses o gynllunio cynaliadwy cymdeithasol atebol i anghenion busnesau a phobl leol, gan obeithio mai dyna fydd yn deillio o'r gwaith y mae'r Gweinidog a'i swyddogion yn ei wneud.

How late this year, Minister? I am concerned about the difficult process that we will have in scrutinising this Bill. Having said that, there is great expectation of the Bill in Dwyfor Meirionnydd, in Snowdonia national park and in other areas that are waiting for relief from the planning system so that it can be turned into a sustainable planning system responsive to the needs of local people and business, hoping that that is what will emerge from the work that the Minister and his officials are doing.

14:52 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member and also thank the Member for the work that he did as committee chair in the pre-scrutiny of the Bill that has been taken forward. The Member tries to tie me down to a date; I would say that possibly in autumn we will be introducing the Bill.

Diolch i'r Aelod a diolch hefyd i'r Aelod am y gwaith a wnaeth fel cadeirydd y pwyllgor yn y cyfarfod cyn craffu ar y Bil sydd wedi cael ei symud ymlaen. Mae'r Aelod yn ceisio fy nghlymu at ddyddiad; byddwn yn cyflwyno'r Bil yn yr hydref o bosibl.

14:52 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, earlier this afternoon, your colleague the Minister for Natural Resources and Food fielded a question about village greens. There have been a number of high-profile cases in my region recently where residents have applied for village-green status to block a development. There was a successful one in Talybont in Ceredigion, and a high court injunction has halted a process in Brecon. My question to you is whether you will consider the lessons and the outcomes of these cases before you publish the final Bill. In each case, local people had time to gather evidence and present their opposition after learning of the proposed development.

Weinidog, yn gynharach y prynhawn yma, atebodd eich cydweithiwr, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, gwestiwn am feysydd pentref. Bu nifer o achosion proffil uchel yn fy ardal yn ddiweddar lle mae trigolion wedi gwneud cais am statws maes pentref er mwyn rhwystro datblygiad. Roedd un llwyddiannus yn Nhalybont yng Ngheredigion, ac mae gwaharddeb uchel lys wedi atal proses yn Aberhonddu. Fy nghwestiwn i chi yw a fyddwch yn ystyried y gwersi a chanlyniadau'r achosion hyn cyn cyhoeddi'r Bil terfynol. Ym mhob achos, roedd gan bobl leol amser i gasglu tystiolaeth a chyflwyno eu gwrthwynebiad ar ôl clywed am y datblygiad arfaethedig.

14:53 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for her question. I did listen very carefully to the questions to Alun Davies too. The issue for me is making sure that we have a planning system fit for purpose for the future, and we have to take this forward through the local development plan, making sure that we have land allocated for development. What I do not want to see is village greens become the answer to blocking developments. If it is right to have a village green, there should be a process whereby we are able to protect them in their status. However, they should not be used as a means of blocking development from moving forward.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Gwrandewais innau'n astud iawn ar y cwestiynau i Alun Davies hefyd. Y mater i mi yw gwneud yn siŵr fod gennym system gynllunio addas i'r diben ar gyfer y dyfodol, a rhaid inni fwrw ymlaen â hyn drwy'r cynllun datblygu lleol, gan wneud yn siŵr fod gennym dir wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygu. Yr hyn nad wyf am ei weld yw meysydd pentref yn dod yn ateb ar gyfer rhwystro datblygiadau. Os yw'n iawn cael maes pentref, dylai fod proses ar gyfer diogelu eu statws. Fodd bynnag, ni ddylid eu defnyddio fel ffordd o rwystro datblygiad rhag symud ymlaen.

14:53 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am tempted to ask you whether it will be late autumn or early autumn, Minister, but I will not. I will ask how the Government will be building the protection of the Welsh language into the new planning Bill.

Caf fy nhemtio i ofyn i chi ai'n gynnar neu'n hwyr yn yr hydref, Weinidog, ond ni wnaf hynny. Gofynnaf sut y bydd y Llywodraeth yn cynnwys diogelwch i'r Gymraeg yn y Bil cynllunio newydd.

14:54 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am sorry, Presiding Officer, I did not quite hear.

Mae'n ddrwg gennyf, Lywydd, nid chlywais y cwestiwn yn iawn.

14:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

No, it does get very noisy here sometimes, does it not? Would you repeat that, please, Russell George?

Na, mae'n mynd yn swnllyd iawn yma weithiau, onid ydyw? A wnewch chi ailadrodd hynny, os gwelwch yn dda, Russell George?

14:54 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

My question was, Minister: how will the Government be protecting the Welsh language in the new planning Bill?

Dyma fy nghwestiwn, Weinidog: sut y bydd y Llywodraeth yn sicrhau diogelwch i'r Gymraeg yn y Bil cynllunio newydd?

14:54 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, the Welsh language receives protection and guidance through TAN 20. We will be issuing very shortly the guidance that goes alongside TAN 20, but the planning Bill is a procedural Bill, rather than a policy-led Bill, moving forward.

Wel, mae'r Gymraeg yn cael ei diogelu a chanllawiau wedi'u gosod yn ei chylch drwy TAN 20. Byddwn yn cyhoeddi'r arweiniad ar gyfer TAN 20 yn fuan iawn, ond gan edrych tua'r dyfodol, Bil trefniadol yw'r Bil cynllunio, yn hytrach na Bil wedi'i arwain gan bolisi.

### Rheoli Perygl Llifogydd

### Flood-risk Management

14:54 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddigonolrwydd y system gynllunio mewn perthynas â rheoli perygl llifogydd? OAQ(4)0381(HR)*

*14. Will the Minister make a statement on the adequacy of the planning system in relation to flood risk management? OAQ(4)0381(HR)*

14:54 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his question. We have a strong precautionary framework in TAN 15 that seeks to direct new development away from high-risk flooding areas.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae gennym fframwaith rhagofalus cryf yn TAN 15 sy'n ceisio cyfeirio datblygiad newydd i ffwrdd o ardaloedd lle ceir perygl mawr o lifogydd.

14:54 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you will be aware that there is concern in my constituency, in Kinmel Bay, where there are proposals to develop 100 new homes in a flood-risk area. Given that the local authority there gave the thumbs up to that particular development, and that the Welsh Government has now called it in, I appreciate that you will not want to comment on the particulars of that case, given that it is with the inspectorate at present, but do you think that that calls into question the need to update technical advice note 15, given that there are very often occasions when Natural Resources Wales will oppose development and local authorities will still give the green light for such developments to take place? You will be aware that there have been floods in my own constituency in areas that have recently been granted development. I am concerned that this will be a feature in communities across Wales in the future if we do not act now to improve on TAN 15.

Weinidog, gwyddoch am y pryder yn fy etholaeth i, ym Mae Cinmel, lle ceir cynigion i ddatblygu 100 o dai newydd mewn ardal lle ceir perygl llifogydd. O ystyried bod yr awdurdod lleol yno wedi cymeradwyo'r datblygiad penodol hwnnw, a bod Llywodraeth Cymru bellach wedi'i dynnu'n ôl, rwy'n sylweddoli na fyddwch am wneud sylwadau ar fanylion yr achos hwnnw o ystyried ei fod yn gyda'r arolygiaeth ar hyn o bryd, ond a ydych yn credu bod hynny'n bwrw amheuaeth ynglŷn â'r angen i ddiweddaru nodyn cyngor technegol 15, o gofio bod achlysuron yn aml iawn pan fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwrthwynebu datblygiad ac awdurdodau lleol yn dal i ganiatáu datblygiadau o'r fath? Gwyddoch fod llifogydd wedi digwydd yn fy etholaeth mewn ardaloedd lle caniatawyd datblygu yn ddiweddar. Rwy'n pryderu y bydd hyn yn nodwedd mewn cymunedau ledled Cymru yn y dyfodol os nad ydym yn gweithredu nawr i wella ar TAN 15.

14:55 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not believe that TAN 15 needs updating. I think that the implementation of that is to ensure that local authorities interpret that as it is meant to be interpreted. It is something that I ensure that my team is on top of, and I will ensure that I write to all local authorities in the next few weeks, reminding them of their duty around TAN 15 and how important it is.

Nid wyf yn credu bod angen diweddaru TAN 15. Credaf mai'r ffordd o'i weithredu yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn ei ddehongli fel y dylai gael ei ddehongli. Rwy'n gwneud yn siŵr fod fy nhîm yn gallu ymdrin â'r mater, a byddaf yn sicrhau fy mod yn ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn ystod yr wythnosau nesaf, i'w hatgoffa o'u dyletswydd mewn perthynas â TAN 15 a pha mor bwysig ydyw.

## Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig

## Registered Social Landlords

14:56 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*15. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn diwallu anghenion eu cymunedau? OAQ(4)0388(HR)*

*15. Will the Minister make a statement on how the Welsh Government can ensure Registered Social Landlords meet the needs of their communities? OAQ(4)0388(HR)*

14:56 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the member for Cynon Valley for her question. Registered social landlords are expected to deliver against a set of regulatory framework outcomes where we provide them with funding to help them to meet the housing needs of many.

Diolch i'r Aelod dros Gwm Cynon am ei chwestiwn. Disgwylir i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gyflawni yn erbyn set o ganlyniadau fframwaith rheoleiddio lle'r ydym yn rhoi cyllid i'w helpu i ateb anghenion tai llawer o bobl.

14:56 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

For registered social landlords to meet the needs of the communities, I think it is important that they also reflect those communities. I know that a lot of work is being done across the Welsh Government to improve the diversity of public life, but it is still disappointing that, for example, just three of the 13 members of the board of RCT Homes are women. How does the Minister think that we can encourage greater diversity among applicants and appointments to the boards of registered social landlords?

Er mwyn i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ateb anghenion y cymunedau, credaf ei bod yn bwysig eu bod hefyd yn adlewyrchiad o'r cymunedau hynny. Gwn fod llawer o waith yn cael ei wneud ar draws Llywodraeth Cymru ar wella amrywiaeth bywyd cyhoeddus, ond mae'n dal yn siomedig, er enghraifft, mai dim ond tri o'r 13 aelod o fwrdd Cartrefi RCT sy'n fenywod. Sut y mae'r Gweinidog yn credu y gallwn annog mwy o amrywiaeth ymhlith ymgeiswyr a phenodiadau i fyrddau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig?

14:57 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This is a very important question in terms of all types of governance, not just in RSLs. How we raise the gender balance and diversity on boards is really important, and important personally to me. I wrote to all of the chairs of the housing associations just before Christmas to ask them how they consider taking this proposal of gender balance on boards forward, and I expect all associations to respond to me very shortly. I have also met with Chwarae Teg, the Sports Council for Wales, and my regulation team to see how we can best support boards in the transition to a fairer, gender-diverse, balanced board.

Mae hwn yn gwestiwn pwysig iawn o ran pob math o drefniadau llywodraethu, nid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn unig. Mae sut y mae mynd ati i wella'r cydbwysedd rhwng y rhywiau ac amrywiaeth ar fyrddau yn fater pwysig iawn, ac yn bwysig i mi'n bersonol. Ysgrifennais at bob un o gadeiryddion y cymdeithasau tai ychydig cyn y Nadolig i ofyn iddynt sut y maent yn bwriadu symud ymlaen ar y cynnig hwn ynghylch cydbwysedd rhwng y rhywiau ar fyrddau, ac rwy'n disgwyl i bob cymdeithas ymateb yn fuan. Rwyf hefyd wedi cyfarfod â Chwarae Teg, Cyngor Chwaraeon Cymru, a fy nhîm rheoleiddio i weld sut y gallwn gefnogi byrddau i newid yn fyrddau mwy cytbwys sy'n cynrychioli'r rhywiau'n decach.

14:57 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you have said previously that it is important that as much as possible of the investment that you make in housing generates community benefits in line with your procurement approach. Therefore, can you tell us what work you have done with the Minister for Finance, for example, to ensure that any housing investment not only generates community benefits, but community benefits that actually deliver value for money for the Welsh taxpayer?

Weinidog, rydych wedi dweud o'r blaen ei bod yn bwysig bod cymaint ag y bo modd o'r buddsoddiad a wnewch mewn tai yn creu manteision i'r gymuned yn unol â'ch dull caffael. Felly, a allwch ddweud wrthym pa waith a wnaethoch gyda'r Gweinidog Cyllid, er enghraifft, i sicrhau bod unrhyw fuddsoddiad tai nid yn unig yn cynhyrchu manteision cymunedol, ond bod y manteision cymunedol hynny mewn gwirionedd yn rhoi gwerth am arian i drethdalwyr Cymru?

14:58 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course. That is a very important question. I have worked and am working with the Minister for Finance, and other Ministers, across portfolios, to see what work Value Wales, and other departments, can do in terms of making that the community benefit does benefit communities and offer the value for money that the Member talks about.

Wrth gwrs. Mae'n gwestiwn pwysig iawn. Rwyf wedi gweithio ac yn dal i weithio gyda'r Gweinidog Cyllid a Gweinidogion eraill ar draws portffolios, i weld pa waith y gall Gwerth Cymru ac adrannau eraill ei wneud o ran sicrhau bod y manteision cymunedol yn fuddiol i gymunedau ac yn cynnig y gwerth am arian y cyfeiriodd yr Aelod ato.

14:58 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the RSL Tai Cantref owns the housing complex Plas Morolwg in Aberystwyth. Due to severe structural problems, the flats require demolition and rebuilding. This was made even worse this winter when the complex was permanently evacuated during the storms over one weekend. This has left tenants and leasehold owners in a very difficult and uncertain situation and away from their homes. May I ask you, Minister, to ensure that your department offers Tai Cantref and Plas Morolwg residents every possible support to resolve the short-term uncertainties and also for the rebuilding of social housing on this important coastal site?

Weinidog, y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, Tai Cantref, sy'n berchen ar adeiladau Plas Morolwg yn Aberystwyth. Oherwydd problemau strwythurol difrifol, mae gofyn dymchwel ac ailadeiladu'r fflatiau. Gwaethygodd hyn fwyfwy'r gaeaf hwn pan fu'n rhaid gwacáu'r adeiladau yn barhaol yn ystod y stormydd dros un penwythnos. Mae hyn wedi gadael tenantiaid a pherchnogion prydlesau mewn sefyllfa anodd ac ansicr iawn, a heb allu mynd i'w cartrefi. Weinidog, a gaf fi ofyn i chi sicrhau bod eich adran yn cynnig pob cymorth posibl i breswylwyr Tai Cantref a Phlas Morolwg allu datrys yr holl ansicrwydd yn y tymor byr, a chymorth hefyd i ailadeiladu tai cymdeithasol ar y safle arfordirol pwysig hwn?

14:59

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will ask my officials to update me on the specific programme that the Members raises with me today. I will write to the Member after I have received that.

Byddaf yn gofyn i fy swyddogion roi'r wybodaeth ddiweddaraf imi ar y rhaglen benodol y cyfeiriodd yr Aelodau ati heddiw. Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod ar ôl i mi gael y wybodaeth honno.

14:59

# Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

# Questions to the Counsel General

Y

Senedd.tv Fideo Video

## Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

There was one question to the Counsel General, which has been withdrawn.

Yr oedd un cwestiwn i'r Cwnsler Cyffredinol a thynnwyd hwnnw yn ôl.

# Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Yr Undeb Ewropeaidd

# Welsh Conservatives Debate: The European Union

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts, a gwelliannau 2 a 3 yn enw Elin Jones.*

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts, and amendments 2 and 3 in the name of Elin Jones.*

14:59

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Byron Davies to move the motion.

Galwaf ar Byron Davies i gyflwyno'r cynnig.

Cynnig NDM5493 Paul Davies

Motion NDM5493 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi argymhellion adroddiad diweddar y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE.

1. Notes the recommendations of the recent Constitutional and Legislative Affairs Committee report into Wales' role in the EU decision-making process.

2. Yn nodi ymhellach bod Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn cael eu dyfarnu i ranbarthau â chynnyrch mewnwladol crynswth o lai na 75% o gyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd ac yn gresynu bod Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gymwys am drydedd rownd o gyllid.

2. Further notes that European Structural Funding is awarded to regions with a GDP of less than 75% of the European Union average and regrets that West Wales and the Valleys has qualified for a third round of funding.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cynlluniau a gyllidir gan yr UE yn cael eu diweddaru yn fwy cynhwysfawr ac yn fwy rheolaidd drwy WEFO.

3. Calls on the Welsh Government to ensure that EU-funded schemes are more comprehensively, and more regularly, updated through WEFO.

4. Yn gresynu at fethiant dramatig prosiectau proffil uchel gan gynnwys Genesis 2 Cymru.

4. Regrets the dramatic failure of high-profile projects including Genesis 2 Cymru.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y cyllid ar gyfer y cyfnod 2014-2020 yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i sicrhau nad yw Cymru yn gymwys am bedwaredd rownd.

5. Calls on the Welsh Government to ensure that the funding for the 2014-2020 period is utilised effectively to ensure that Wales does not qualify for a fourth round.

14:59

## Byron Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much indeed, Presiding Officer. I rise to move the motion tabled in the name of Paul Davies.

Diolch yn fawr iawn yn wir, Lywydd. Cynigiaf y cynnig yn enw Paul Davies.

It is particularly pleasing to participate in this debate as a member of the Enterprise and Business Committee, especially as the committee looked in some detail at the draft legislative proposals for the future of EU structural funds. We raised at the time, through the committee and previous debates, the issue of the use of EU funding programmes and how we can strengthen our economy through effective use of stronger conditionalities—better known to you and me, perhaps, as preconditions. This, of course, is key to using the funding for the next period, which we, sadly, again qualify for. We need to—and must—be effective in using the funding and ensure that Wales does not qualify for a fourth round.

Mae'n bleser arbennig cael cymryd rhan yn y ddadl hon fel aelod o'r Pwyllgor Menter a Busnes, yn enwedig gan fod y pwyllgor wedi edrych yn fanwl ar y drafft o'r cynigion deddfwriaethol ar ddyfodol cronfeydd strwythurol yr UE. Ar y pryd, drwy drafodaethau pwyllgor ac mewn dadleuon blaenorol, codwyd y defnydd o raglenni cyllid yr UE a sut y gallwn gryfhau ein heconomi drwy ddefnydd effeithiol o amodoldebau—sy'n fwy cyfarwydd i chi a fi efallai fel rhag-amodau. Mae hyn, wrth gwrs, yn allweddol er mwyn defnyddio'r cyllid ar gyfer y cyfnod nesaf, a ninnau, unwaith eto, yn gymwys i'w gael, yn anffodus. Mae angen i ni—ac mae'n rhaid i ni—ddefnyddio'r cyllid yn effeithiol a sicrhau na fydd Cymru yn gymwys i gael y cyllid yn y bedwaredd rownd.

At the outset of my contribution, I would like to note the recommendations of the recent Constitutional and Legislative Affairs Committee report on Wales's role in the EU decision-making process. In particular, I want to highlight recommendation 7, namely that the Welsh Government reviews its approach to engaging with Welsh MPs. This was evidenced in the report, as it was felt that the Welsh Government could do more to engage with, and provide relevant information to, all four Welsh MEPs. In particular, there was perceived to be a lack of information on Welsh Government positions on EU policy and legislative developments, with the exception of a number of key areas. The lack of systematic briefing by the Welsh Government to all Welsh MPs on some, but not all, dossiers was contrasted with the briefing by UK representatives to all UK MEPs.

Ar ddechrau fy nghyfraniad, hoffwn nodi argymhellion adroddiad diweddar y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar rôl Cymru ym mhroses yr UE o wneud penderfyniadau. Yn benodol, hoffwn dynnu sylw at argymhelliad 7, sef y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei dull o ymgysylltu ag Aelodau Seneddol Cymru. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn yr adroddiad, gan y teimlid y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i ymgysylltu â phob un o'r pedwar ASE o Gymru, a darparu gwybodaeth berthnasol ar eu cyfer. Yn benodol, ceid canfyddiad bod diffyg gwybodaeth am safbwyntiau Llywodraeth Cymru ar bolisïau a datblygiadau deddfwriaethol yr UE, ac eithrio nifer o feysydd allweddol. Mae diffyg briffio systematig gan Lywodraeth Cymru gogyfer ag Aelodau Seneddol Cymru ynghylch rhai coflenni, er nad pob un, yn cyferbynnu â'r gwaith briffio y mae cynrychiolwyr y DU yn ei wneud gogyfer ag Aelodau Senedd Ewrop y DU.

The UK Government is very clearly setting out its position. However, like with many issues, the Welsh Government either does not have a position or neglects to lobby, negotiate with or, indeed, inform decision makers. I know from my own experience in dealing with the Conservative MEP Kay Swinburne that her financial background, expertise and influence have led to a number of successes in the region of Wales that I represent. Most notable is her contribution to securing finance to build the new university campus in Swansea. This is a clear example of where teamwork delivers results for Wales. As set out in this report, the Welsh Government has to join the rest of us in this team Wales approach.

Mae Llywodraeth y DU yn gosod ei safbwynt yn eglur iawn. Fodd bynnag, fel gyda llawer o faterion, nid oes safbwynt gan Lywodraeth Cymru neu nid yw'n mynd ati i lobïo, negodi neu'n wir, i roi gwybod i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Gwn o fy mhrofiad fy hun wrth ymdrin â'r ASE Ceidwadol Kay Swinburne fod ei chefndir ariannol, ei harbenigedd a'i dylanwad wedi arwain at nifer o lwyddiannau yn y rhan o Gymru rwy'n ei chynrychioli—yn fwyaf nodedig, ei chyfraniad yn sicrhau cyllid i adeiladu'r campws prifysgol newydd yn Abertawe. Mae hon yn enghraifft glir o waith tîm yn sicrhau canlyniadau i Gymru. Fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn, rhaid i Lywodraeth Cymru ymuno â'r gweddill ohonom yn y dull 'tîm Cymru' hwn o weithredu.

Members, there can be no doubt that the current system of how the Welsh Government implements European structural funding is not working, and has certainly not worked. Aside from Jobs Growth Wales, which is one of almost 300 projects sponsored by structural funds—credit where is credit is due—what other project has achieved the key performance indicators? More worryingly, when set up, how many projects had any key performance indicators? The private sector has been sidelined in Europe by successive Welsh Labour Governments. Over 1 million people are employed in the private sector here in Wales. Earlier, I tried to explore with the Minister the fact that the Welsh European Funding Office lists 287 projects for the 2007-13 period. The private sector accounts for 1.1% of project spending and 3.5% of overall projects. In real terms, that is £21 million out of £2 billion—a point not missed by the Constitutional and Legislative Affairs Committee in its recommendation 2, with regard to business and third sector representation in Brussels. Needless to say, I did not get an answer, and I can assure you, Minister, that I am not in an angry mood today.

Aelodau, ni all fod unrhyw amheuaeth nad yw system bresennol Llywodraeth Cymru o ddefnyddio arian strwythurol Ewropeaidd yn gweithio, ac yn sicr nid yw wedi gweithio hyd yn hyn. Ar wahân i Twf Swyddi Cymru, sy'n un o bron 300 o brosiectau a noddir drwy gronfeydd strwythurol—i roi clod lle mae clod yn ddyledus—pa brosiect sydd arall wedi cyflawni'r dangosyddion perfformiad allweddol? Yr hyn sy'n peri mwy o bryder yw faint o brosiectau, ar ôl eu sefydlu, oedd ag unrhyw ddangosyddion perfformiad allweddol? Mae'r sector preifat wedi'i wthio o'r neilltu yn Ewrop gan Lywodraethau Llafur Cymreig olynol. Mae dros 1 filiwn o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector preifat yma yng Nghymru. Yn gynharach, ceisiais ofyn i'r Gweinidog ynglŷn â'r ffaith fod Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn rhestru 287 o brosiectau ar gyfer y cyfnod 2007-13. Y sector preifat sydd i gyfrif am 1.1 % o wariant prosiect a 3.5 % o brosiectau yn gyffredinol. Mewn termau real, mae hynny'n £21 miliwn allan o £2 biliwn—pwynt sy'n cael sylw gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn argymhelliad 2, o ran busnes a chynrychiolaeth y trydydd sector ym Mrwsel. Afraid dweud na chefais ateb, a gallaf eich sicrhau, Weinidog, nad wyf i mewn hwyliau blin heddiw.

Perish the thought that it suits Welsh Labour to do this. Without private sector support, we would be unable to regenerate our local or national economies. At the same time, I cannot avoid highlighting the fact that—and recent history supports this—to date, all of the financial support that comes over from the EU merely helps to prop up your own pet projects.

Gwae ni am feddwl ei bod hi'n gyfleus iawn i Lafur Cymru wneud hyn. Heb gefnogaeth y sector preifat, ni fyddem yn gallu adfywio ein heconomïau lleol a chenedlaethol. Ar yr un pryd, ni allaf osgoi tynnu sylw at y ffaith—ac mae hanes diweddar yn cefnogi hyn—nad yw'r holl gymorth ariannol a ddaeth o'r UE hyd yn hyn ond yn helpu i gynnal eich hoff brosiectau eich hunain.

Welsh Labour is forcing the country to rely on European aid grants. The Commission on Public Service Governance —

Mae Llafur Cymru yn gorfodi'r wlad i ddibynnu ar grantiau cymorth Ewropeaidd. Mae'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus—

*Rhodri Glyn Thomas a gododd—*

*Rhodri Glyn Thomas rose—*

15:03 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

May I just continue for a moment, please? Welsh Labour is forcing the country to rely on European aid grants. The Commission on Public Service Governance and Delivery reported in January, with recommendations for local government mergers. The options that were drawn up included proposals to condense the existing 22 authorities into 12, 11 or 10. However, each proposal refused to merge areas that qualified for convergence funding with those that qualified for competitiveness funding. Therefore, the Welsh Government clearly expects west Wales and the Valleys to qualify for a fourth round of funding. I ask simply: where is the Government's ambition for Wales?

A gaf fi barhau am funud, os gwelwch yn dda? Mae Llafur Cymru yn gorfodi'r wlad i ddibynnu ar grantiau cymorth Ewropeaidd. Cyflwynodd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ei adroddiad ym mis Ionawr, gydag argymhellion ar gyfer uno awdurdodau lleol. Roedd yr opsiynau a luniwyd yn cynnwys cynigion i gywasgu'r 22 awdurdod presennol yn 12, 11 neu 10. Fodd bynnag, roedd pob cynnig yn gwrthod uno meysydd a oedd yn gymwys am gyllid cydgyfeirio â rhai a oedd yn gymwys am gyllid cystadleurwydd. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn amlwg yn disgwyl i orllewin Cymru a'r Cymoedd fod yn gymwys ar gyfer pedwaredd rownd o gyllid. Gofynnaf yn syml: ble mae uchelgais y Llywodraeth ar gyfer Cymru?

Finally, Members, in opening this debate, let me end with one example of where this Labour Government not only lacks ambition, but managerial competence—

Yn olaf, Aelodau, wrth agor y ddadl hon, gadewch i mi orffen gydag un enghraifft o ble mae'r Llywodraeth Lafur hon nid yn unig yn brin o uchelgais, ond hefyd o gymhwysedd rheolaethol—

15:04 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Will the Member take an intervention?

A wnaiff yr Aelod dderbyn ymyriad?

15:04 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will do so in a moment. I will not focus on the Regeneration Investment Fund for Wales today. That is an issue that will certainly have its day. However, I will refer to Genesis Cymru Wales 2. The project had aimed to get 20,000 people into work on minimum-wage contracts. It was awarded, purely in EU funding, £36 million. Ultimately, the project ended up getting 800 people into work. It therefore cost £45,000 to get a single person into a minimum-wage job. I give way to Rhodri.

Byddaf yn gwneud hynny mewn munud. Nid wyf am ganolbwyntio ar y Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio heddiw. Mae hwnnw'n fater sy'n sicr o gael sylw haeddiannol. Fodd bynnag, carwn gyfeirio at Genesis Cymru 2. Roedd y prosiect wedi anelu at gael 20,000 o bobl i mewn i waith ar gontractau isafswm cyflog. Dyfarnwyd £36 miliwn o arian yr UE yn unig tuag ato. Yn y pen draw, llwyddodd y prosiect i gael gwaith i 800 o bobl. Felly mae'n costio £45,000 i gael un person i mewn i swydd isafswm cyflog. Ildiaf i Rhodri.

15:04 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Member point me to the way in which Wales could benefit from capital funding? Given the severe cut in capital funding from the coalition Government in London, where exactly is capital investment going to come from to Wales, other than from European funding?

A wnaiff yr Aelod ddangos i mi sut y gallai Cymru elwa o gyllid cyfalaf? O ystyried y toriad difrifol mewn cyllid cyfalaf gan y Llywodraeth glymblaid yn Llundain, o ble yn union y daw buddsoddiad cyfalaf i Gymru, ac eithrio o gyllid Ewropeaidd?

15:04 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You grow the economy.

Rydych yn tyfu'r economi.

15:04 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You stole my words, thank you. It is about growing the economy here in Wales through the private sector. That is where.

Rydych chi wedi dwyn fy ngeiriau, diolch i chi. Mae'n ymwneud â thyfu'r economi yma yng Nghymru drwy'r sector preifat. Dyna ble y daw.

Successive Labour Governments in Wales have allowed such failures to become the norm. It is failures such as these that have forced Wales to qualify for three successive rounds of European funding. As we know, the then First Minister—or First Secretary, as he was then—Rhodri Morgan described the first award in June 2000 as a once-in-a-generation opportunity. As a result of Welsh Labour's inability to utilise these funds, he was ultimately proved wrong. By the time the next Assembly term ends, west Wales and the Valleys may very well have qualified for four rounds of funding. I do not want this to happen, and I sincerely hope that nobody else in the Chamber wants that to happen. The EU has woken up to the sheer amount of waste in Wales; let us hope that the stronger conditionalities attached to funding mean that you will be forced to use private sector support to truly regenerate communities.

Mae Llywodraethau Llafur olynol yng Nghymru wedi caniatáu i fethiannau o'r fath ddod yn norm. Methiannau o'r fath sydd wedi gorfodi Cymru i fod yn gymwys ar gyfer tair rownd olynol o gyllid Ewropeaidd. Fel y gwyddom, disgrifiodd Rhodri Morgan, y Prif Weinidog ar y pryd-neu Brif Ysgrifennydd y Cynulliad fel yr oedd bryd hynny—y dyfarniad cyntaf ym mis Mehefin 2000 fel cyfle unwaith-mewn-cenhedlaeth. O ganlyniad i anallu Llafur Cymru i ddefnyddio'r arian hwn, cafodd ei brofi'n anghywir yn y pen draw. Erbyn y daw tymor nesaf y Cynulliad i ben, mae'n bosibl iawn y bydd gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi bod yn gymwys ar gyfer pedair rownd o gyllid. Nid wyf am i hyn ddigwydd, ac rwy'n mawr obeithio nad oes neb arall yn y Siambr eisiau i hynny ddigwydd. Mae'r UE wedi dechrau dod yn ymwybodol o'r gwastraff enfawr sydd yng Nghymru; gadewch i ni obeithio y bydd y amodoldebau cryfach sydd ynghlwm wrth y cyllid yn golygu y byddwch yn cael eich gorfodi i ddefnyddio cymorth sector preifat i adfywio cymunedau mewn gwirionedd.

Turning to the amendments, we will support an amendment 1 tabled in the name of Aled Roberts. We recognise the importance of the UK's continued membership of the European Union to make Wales a more prosperous, sustainable and secure place. The difference is that we want a sustainable and secure place in Europe through renegotiation and a renewed mandate from the British people. While we recognise the importance of the single market, and prefer to stay within it through membership of the EU, it is not unconditional, and we could survive as a country outside.

Gan droi at y gwelliannau, byddwn yn cefnogi gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd aelodaeth barhaus y DU o'r Undeb Ewropeaidd i wneud Cymru yn lle mwy ffyniannus, cynaliadwy a diogel. Y gwahaniaeth yw ein bod am gael lle cynaliadwy a diogel yn Ewrop drwy ail-drafod a mandad newydd gan bobl Prydain. Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd y farchnad sengl, a'i bod yn well gennym aros ynddi drwy ein haelodaeth o'r UE, nid yw'n ddiamod, a gallem oroesi fel gwlad y tu allan iddi.

We cannot support amendment 2 tabled in the name of Elin Jones—the assumption that it would be detrimental to the economy to withdraw is not something that we will sign up to.

Ni allwn gefnogi gwelliant 2 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones—nid yw'r dybiaeth y byddai tynnu'n ôl yn andwyol i'r economi yn rhywbeth y gallwn ei gefnogi.

We will support amendment 3 tabled in the name of Elin Jones. I want to see Wales's voice strengthened in European institutions while we are a member, and the easiest way to ensure that is for the people of Wales to vote Conservative on 22 May and to return Kay Swinburne and her team of Welsh Conservative MEPs. Members, that seems a good note to finish on.

Byddwn yn cefnogi gwelliant 3 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Rwyf am weld llais Cymru yn cael ei gryfhau mewn sefydliadau Ewropeaidd tra ein bod yn aelod, a'r ffordd hawsaf i sicrhau hynny yw i bobl Cymru bleidleisio i'r Ceidwadwyr ar 22 Mai a dychwelyd Kay Swinburne a'i thîm o ASEau Ceidwadol Cymreig. Aelodau, mae hynny i'w weld yn nodyn da i orffen arno.

15:06

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the three amendments to the motion. I call on Eluned Parrott to move amendment 1, which is tabled in the name of Aled Roberts.

Rwyf wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Eluned Parrott i gynnig gwelliant 1, sy'n cael ei gyflwyno yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Insert as new point 3 and renumber accordingly:*

*Yn cydnabod pa mor bwysig ydyw bod y DU yn parhau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd i wneud Cymru yn lle mwy llewyrchus, cynaliadwy a diogel.*

*Recognises the importance of the UK's continued membership of the European Union to make Wales a more prosperous, sustainable and secure place.*

15:07

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 1.

Cynigiaf welliant 1.

I would like to thank the Welsh Conservatives for bringing this very timely debate today, three weeks before the citizens of Europe go to elect its next Parliament. I recognise the points of detail that they raise in their motion today, although, in tabling my amendment to this debate, I want to recognise the context within which these issues exist: the very great value we all derive from our membership of the EU as the people of Wales, of Britain, and of Europe. Wales is demonstrably a more prosperous, sustainable and secure place as a direct result of our membership, and I will talk about some of these points in a moment.

Hoffwn ddiolch i'r Ceidwadwyr Cymreig am gyflwyno'r ddadl amserol iawn hon heddiw, dair wythnos cyn i ddinasyddion Ewrop fynd i ethol ei Senedd nesaf. Rwy'n cydnabod y manylion y maent yn eu codi yn eu cynnig heddiw, er fy mod, wrth gyflwyno fy ngwelliant i'r ddadl hon, yn awyddus i gydnabod y cyd-destun i'r materion hyn: gwerth mawr iawn ein haelodaeth o'r UE i ni i gyd fel pobl Cymru, Prydain, ac Ewrop. Mae Cymru yn amlwg yn lle mwy ffyniannus, cynaliadwy a diogel o ganlyniad uniongyrchol i'n haelodaeth, a byddaf yn siarad am rai o'r pwyntiau hyn mewn munud.

Before that, I want to reflect on what I believe is the greatest achievement of this partnership of nations, and that is 60 years of peace on a continent that has known almost 2,000 years of uninterrupted war. Yes, that peace has brought us prosperity, and, yes, that peace has brought us security, but let us not forget that that peace has meant something far more important: namely, that in those 60 years, we have not sent another generation of brave young men to fight and die in the mud of Flanders. Now, we work in partnership with our neighbours and friends to fight together for the principles of freedom and democracy that we all believe in.

Cyn hynny, hoffwn fyfyrio ar yr hyn y credaf yw llwyddiant mwyaf y bartneriaeth hon o genhedloedd, sef 60 mlynedd o heddwch ar gyfandir sydd wedi profi bron i 2,000 o flynyddoedd o ryfel ddi-dor. Do, daeth yr heddwch hwn â ffyniant i ni, a do, daeth yr heddwch hwn â diogelwch i ni, ond gadewch inni beidio ag anghofio fod yr heddwch hwn wedi golygu rhywbeth llawer pwysicach: sef nad ydym wedi anfon cenhedlaeth arall o ddynion ifanc dewr i ymladd a marw ym mwd Fflandrys yn ystod y 60 mlynedd hynny. Nawr, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'n cymdogion a'n ffrindiau i ymladd gyda'n gilydd dros egwyddorion rhyddid a democratiaeth rydym oll yn credu ynddynt.

Our membership of the European Union helps us to resolve our political differences through talking, not fighting; through political means. It is a precious thing, because just one life lost through conflict is one too many, and I am seriously disappointed that the Welsh Conservatives do not recognise the political dimension to what the European Union offers us.

Mae ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd yn ein helpu i ddatrys ein gwahaniaethau gwleidyddol drwy siarad, nid ymladd; drwy ddulliau gwleidyddol. Mae'n beth gwerthfawr, oherwydd mae colli un bywyd drwy wrthdaro yn un yn ormod, ac rwy'n wirioneddol siomedig nad yw'r Ceidwadwyr Cymreig yn sylweddoli dimensiwn gwleidyddol yr hyn y mae'r Undeb Ewropeaidd yn ei gynnig i ni.

15:08 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I take the points that the Member has given, but does she not accept that one of the big planks to securing peace in Europe has been NATO and the role of NATO in complementing the work of the European Union as well?

Rwy'n derbyn y pwyntiau y mae'r Aelod wedi'u gwneud, ond onid yw'n hi'n derbyn mai un cyfrwng mawr i sicrhau heddwch yn Ewrop yw NATO a rôl NATO yn ategu gwaith yr Undeb Ewropeaidd?

15:09 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Our membership of the European Union has been critical to establishing peace between a group of nations that had fought for hundreds and hundreds of years previously. Yes, the role of NATO is important to that on a global scale, but the partnership between—[Interruption.] Yes, thank you, Andrew.

Mae ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd wedi bod yn hanfodol i greu heddwch rhwng grŵp o genhedloedd a oedd wedi bod yn ymladd ers cannoedd a channoedd o flynyddoedd. Ydy, mae rôl NATO yn bwysig i hynny ar raddfa fyd-eang, ond mae'r bartneriaeth rhwng-[Torri ar draws.] Ie, diolch, Andrew.

15:09 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

He cannot ask you anything, so do not answer his questions.

Nid yw'n cael gofyn unrhyw beth i chi, felly peidiwch ag ateb ei gwestiynau.

15:09 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Llywydd.

Our partnership of nations in Europe means that we resolve conflicts between the nations of Europe politically and not through military intervention. That is something that I applaud, and it is something that I believe is very important to us. I believe that our generation not having to send young men to fight for narrow, jingoistic points of view is a great, great benefit to us all. In terms of the practicalities, membership of the European Union makes Wales a more prosperous, sustainable and secure place, because the European Union is not just about a marketplace. It is also about working together in partnership on the grand challenges that face us—grand challenges in terms of the environment. If we believe that climate change is a real thing and a real threat to humanity, then working together on a broader scale with a partnership of nations across Europe will help us to tackle it far more effectively than we could possibly hope to do as an individual nation within the partnership of nations that is the United Kingdom. If we believe that our safety and security in terms of policing is important, then we have to recognise that crime does not know national boundaries; crime requires us to work in partnership. Our partnership across Europe in things like the European arrest warrant is so important in allowing us to tackle, particularly, serious organised crime and make Wales, as part of the UK, as part of Europe and as part of the world, a safer place to live in.

Diolch i chi, Lywydd.

Mae ein partneriaeth o genhedloedd yn Ewrop yn golygu ein bod yn datrys gwrthdaro rhwng cenhedloedd Ewrop yn wleidyddol ac nid trwy ymyrraeth filwrol. Mae hynny'n rhywbeth rwy'n ei gymeradwyo, ac mae'n rhywbeth y credaf sy'n bwysig iawn i ni. Credaf fod y ffaith nad oes yn rhaid i'n cenhedlaeth ni anfon dynion ifanc i ymladd dros safbwyntiau cul, jingoistaidd o fudd mawr, mawr i ni i gyd. Yn ymarferol, mae bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd yn gwneud Cymru yn lle mwy ffyniannus, cynaliadwy a diogel, gan nad marchnad yn unig yw'r Undeb Ewropeaidd. Mae'n ymwneud hefyd â gweithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth ar yr heriau mawr sy'n ein hwynebu-heriau mawr o ran yr amgylchedd. Os ydym yn credu bod newid hinsawdd yn beth go iawn ac yn fygythiad gwirioneddol i ddynoliaeth, yna bydd gweithio gyda'n gilydd ar raddfa ehangach mewn partneriaeth o genhedloedd ar draws Ewrop yn ein helpu i fynd i'r afael â'r her yn llawer mwy effeithiol nag y gallem obeithio ei wneud fel cenedl unigol o fewn y bartneriaeth o genhedloedd sy'n creu'r Deyrnas Unedig. Os ydym yn credu bod ein diogelwch a'n sicrwydd o ran plismona yn bwysig, yna mae'n rhaid i ni gydnabod nad yw troseddu yn adnabod ffiniau cenedlaethol; mae troseddu yn ei gwneud yn ofynnol i ni i weithio mewn partneriaeth. Mae ein partneriaeth ar draws Ewrop mewn pethau fel y warant arestio Ewropeaidd mor bwysig wrth ganiatáu i ni fynd i'r afael â throseddau cyfundrefnol difrifol yn benodol, a gwneud Cymru, fel rhan o'r DU, fel rhan o Ewrop ac fel rhan o'r byd, yn lle mwy diogel i yn fyw ynddo.

The point that people make most commonly about the European Union is that our membership of it is access to a marketplace and that it is economically important to us. That is very true. However, not being able to stand up for what we believe, not being consistent in the messages that we give on our membership of Europe and being inconsistent in terms of our approach to our partners undermines us economically. It means that investors do not know whether they can rely on us. It means that our partners do not take our voice seriously in Europe. If you are serious about reform in Europe, you have to be serious about being in Europe to effect that reform.

Y pwynt y mae pobl yn ei wneud amlaf ynglŷn â'r Undeb Ewropeaidd yw bod ein haelodaeth ohoni'n cynnig mynediad i farchnad a'i bod yn economaidd bwysig i ni. Mae hynny'n ddigon gwir. Fodd bynnag, mae methu â sefyll dros yr hyn rydym yn ei gredu, methu â bod yn gyson o ran y negeseuon rydym yn eu rhoi ynglŷn â'n haelodaeth o Ewrop a bod yn anghyson o ran ein hymagwedd at ein partneriaid yn ein tanseilio'n economaidd. Mae'n golygu nad yw buddsoddwyr yn gwybod pa un a allant ddibynnu arnom. Mae'n golygu nad yw ein partneriaid yn cymryd ein llais o ddifrif yn Ewrop. Os ydych o ddifrif ynglŷn â diwygio Ewrop, rhaid i chi fod o ddifrif ynglŷn â bod yn Ewrop er mwyn sicrhau'r diwygiad hwnnw.

15:12

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Rhodri Glyn Thomas to move amendments 2 and 3, tabled in the name of Elin Jones.

Galwaf ar Rhodri Glyn Thomas i gynnig gwelliannau 2 a 3, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 2—Elin Jones*

*Amendment 2—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi pe byddai'r DU yn rhoi'r gorau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, mai dyna fyddai diwedd rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE ac y byddai'n niweidiol i'r economi.*

*Notes that UK withdrawal from the European Union would end Wales' role in the EU decision making process and be detrimental to the economy.*

*Gwelliant 3—Elin Jones*

*Amendment 3—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:*

*Calls on the Welsh Government to:*

*a) gweithio ar lefel Ewropeaidd i gryfhau rôl Pwyllgor y Rhanbarthau; a*

*a) work at European level to strengthen the role of the Committee of the Regions; and*

*b) ceisio cael llais cryfach i Gymru yn y Sefydliadau Ewropeaidd.*

*b) seek a greater voice for Wales in the European institutions.*

15:12

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'n bleser gen i gynnig gwelliannau 2 a 3 yn enw Elin Jones a dweud y byddwn yn cefnogi gwelliant 1 yn enw Aled Roberts. Cytunaf yn llwyr â'r hyn a ddywedodd Eluned Parrott yn awr ynglŷn â sefydlogrwydd yn y byd sydd ohoni a hefyd pwysigrwydd y farchnad Ewropeaidd ar gyfer economi Cymru. Rydym yn derbyn ysbryd y cynnig hwn gan y Ceidwadwyr ac yn hynny o beth—

It is my pleasure to move amendments 2 and 3, tabled in the name of Elin Jones, and also to say that we will be supporting amendment 1, tabled in the name of Aled Roberts. I agree completely with the words of Eluned Parrott as regards stability in today's world and also the importance of the European market for the economy of Wales. We accept the spirit of this motion by the Conservatives and in that regard—

15:12

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

15:12

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have only just started.

Newydd ddechrau ydw i.

Rydym yn derbyn ysbryd y cynnig hwn gan y Ceidwadwyr ac yn hynny o beth rydym yn gallu croesawu'r ffaith eu bod wedi gosod y cynnig hwn gerbron y prynhawn yma. Fodd bynnag, mae'r cynnig yn dangos camddealltwriaeth sylfaenol o'r Undeb Ewropeaidd ar ran y Blaid Geidwadol yng Nghymru a'r Blaid Geidwadol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r cynnig yn rhoi'r argraff mai'r unig ffordd y mae Cymru yn elwa o Ewrop yw drwy'r cronfeydd strwythurol, ond mae hynny'n gwbl anghywir. Rhan fach iawn o'r buddsoddiad yr ydym yn ei dderbyn o Ewrop sy'n dod drwy'r cronfeydd strwythurol. Rwy'n derbyn yr hyn y mae'r Ceidwadwyr yn ei ddweud—nid oes yr un ohonom am weld Cymru yn derbyn arian strwythurol ar ôl y cyfnod nesaf, ac rydym yn gobeithio y bydd yr economi wedi cryfhau erbyn hynny. Fodd bynnag, pan rydym yn sôn am fuddsoddiad yng Nghymru, mae'n swm bach iawn o arian.

We accept the spirit of this motion by the Conservatives and in that regard we can welcome the fact that they have brought forward this debate this afternoon. However, the motion shows an elementary misunderstanding of the European Union on behalf of the Welsh Conservatives and the Conservative Party in the United Kingdom. The motion gives the impression that the only way that Wales benefits from Europe is through the structural funds, and that is completely wrong. Only a very small part of the investment that we receive from Europe comes through the structural funds. We accept what the Conservatives are saying—none of us wants to see Wales having to receive structural funds after the next period, and we hope that the economy will be strengthened by then. However, when we talk about the whole economy of Wales, it is a very small sum of money.

Roedd hi'n ddiddorol nad oedd llefarydd y Ceidwadwyr yn gallu cyfeirio at unrhyw fuddsoddiad cyfalaf arall a oedd yn mynd i ddod i Gymru. Os yw'n sôn am y sector preifat, mae'r sector preifat yng Nghymru yn gwbl ddibynnol ar fuddsoddiad cyfalaf. Dyna pam y gwnaeth Llywodraeth Cymru'n Un dynnu i lawr buddsoddiadau cyfalaf yn gynamserol er mwyn sicrhau nad oedd y sector preifat yng Nghymru yn dioddef yn ormodol o ganlyniad i'r dirwasgiad. Os nad ydych yn gallu deall y ffaith sylfaenol honno, nid ydych yn deall unrhyw beth am economi Cymru ac nid ydych yn deall unrhyw beth am y sector preifat yng Nghymru. Y cwestiwn mawr, os ydym yn mynd i sôn am adfywiad economaidd yng Nghymru, yw o ble yn union y mae'r buddsoddiad hwnnw'n dod ac mae'n rhaid inni gydnabod mai o gyfeiriad Ewrop y mae'r buddsoddiad yn dod. Nid yw'n dod o'r cronfeydd strwythurol yn unig, er eu bod yn bwysig. Rydym yn sôn am y cynllun datblygu gwledig, y polisi amaethyddol cyffredinol—sy'n fuddsoddiad helaeth yn ardaloedd gwledig Cymru—ac mae'r buddsoddiad yno oherwydd bod yr Undeb Ewropeaidd yn derbyn nad oes modd i'r cymunedau gwledig hynny gystadlu'n economaidd. Mae'n cynnig y buddsoddiad er mwyn cynnal y diwydiant hollbwysig hwnnw, ac ystod o ddiwydiannau yn economi cefn gwlad, er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu parhau i fyw yn y cymunedau hynny ac i dderbyn y cyfle o waith.

It was very interesting that the Conservative spokesperson could not refer to any other capital investment that would be coming to Wales. If he is talking about the private sector, then the private sector in Wales is completely dependent on capital investment. That is why the One Wales Government drew down capital investments prematurely in order to ensure that the private sector in Wales did not suffer excessively as a result of the recession. If you do not understand that basic fact, you do not understand anything about the economy in Wales or the private sector in Wales. If we are going to talk about economic regeneration in Wales, the big question is where exactly that investment comes from, and we have to acknowledge that that investment comes from the direction of Europe. It does not just come from the structural funds, although they are important. We are talking about the rural development plan, the common agricultural policy—a significant investment in the rural areas of Wales—and the investment is there because the European Union accepts that it is not possible for those rural communities to compete economically. It offers the investment in order to sustain that crucially important industry, along with a range of industries in the rural economy, in order to ensure that people can continue to live in those communities and have employment opportunities there.

Y cwestiwn y mae'n rhaid i'r Ceidwadwyr ei ateb, os ydynt yn mynd i ailnegodi aelodaeth y Deyrnas Unedig o Ewrop, yw a ydynt yn gallu sicrhau y bydd gan Gymru'r cyfle i gystadlu yn y fasnach Ewropeaidd fel y mae ar hyn o bryd. Os gwnewch chi siarad â diwydianwyr ledled Cymru, byddant yn dweud wrthych nad yw hynny'n sicr a'u bod yn poeni'n fawr am unrhyw bosibilrwydd o ailnegodi'r berthynas.

The question that must be answered by the Conservatives, if they are going to renegotiate the UK's membership of Europe, is whether they can ensure that Wales will have the opportunity to compete in the European market as it stands at present. If you talk to industrialists across Wales, they will tell you that that is not a certainty and that they are very concerned about any possibility of renegotiation of the relationship.

*Antoinette Sandbach a gododd—*

*Antoinette Sandbach rose—*

15:16

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

He is not taking interventions at the moment.

Nid yw'n derbyn unrhyw ymyriadau ar y funud.

15:16

## Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Iawn.

Okay.

15:16

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Are you taking Nick Ramsay's intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad Nick Ramsay?

15:16 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, I am taking Antoinette's.

Na, derbyniaf ymyriad Antoinette.

15:16 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very grateful to Rhodri Glyn Thomas. The fact that I often receive complaints, for example, that New Zealand lamb is being imported into this country and undermining Welsh farmers shows that there is the ability to compete when you are outside the European Union. The great advantage is that you do not need to apply the same systems of grazing. They have much greater freedom in the systems they operate in New Zealand, and with the criteria. So, there are advantages and disadvantages.

Diolch i Rhodri Glyn Thomas. Mae'r ffaith fy mod yn aml yn derbyn cwynion, er enghraifft, fod cig oen Seland Newydd yn cael ei fewnforio i'r wlad hon ac yn tanseilio ffermwyr Cymru yn dangos bod gallu i gystadlu pan fyddwch y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd. Y fantais fawr yw nad oes angen i chi ddefnyddio'r un systemau pori. Mae ganddynt lawer mwy o ryddid o ran y systemau y maent yn eu gweithredu yn Seland Newydd, ac o ran y meini prawf. Felly, mae manteision ac anfanteision.

15:16 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n awgrymu eich bod yn mynd i siarad â diwydianwyr ledled Cymru a fyddai'n dweud wrthych, petai chi'n ailnegodi aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd, y byddai'n rhaid ichi ailnegodi pob un cytundeb o fewn y fasnach rydd hefyd o ran allforio o Gymru. Gyda llaw, rwy'n ddigon parod i dderbyn ymyrraeth Nick Ramsay os yw'n dymuno, ond nid oeddwn yn barod i wneud hynny yn fy mrawddeg gyntaf.

I suggest that you should talk to industrialists across Wales, who would tell you that if you were to renegotiate the UK's membership of the European Union, you would have to renegotiate every free trade agreement as regards exports from Wales. By the way, I am quite willing to take an intervention from Nick Ramsay if he so wishes, but I was not prepared to do that in my first sentence.

Y pwynt sylfaenol yw ein bod yn wynebu sefyllfa yng Nghymru lle mae'n rhaid inni ofyn y cwestiwn: o ble mae'r sicrwydd o fuddsoddiad yn dod? A yw'n dod o'r sefyllfa yr ydym ynddi yn Ewrop ar hyn o bryd, lle mae Cymru yn elwa? A ydym yn mynd i dderbyn y risg, petai'r cronfeydd hyn yn cael eu hailwladoli yn ôl dymuniad y Ceidwadwyr ac, fe ymddengys, y Blaid Lafur, o ran a fyddai'r Trysorlys yn San Steffan yn sicrhau'r un lefel o fuddsoddiad i Gymru? Nid wyf yn credu hynny, ac nid wyf am i bobl Cymru gymryd y risg honno.

The fundamental point is that we are facing a situation in Wales where we have to ask the question: where does the guarantee of investment come from? Is it coming from the situation that we are in at the moment in Europe, where Wales benefits? Are we going to accept the risk, if these funds were renationalised according to the wishes of the Conservatives and, it seems, the Labour Party, in terms of whether the Treasury at Westminster would guarantee the same level of investment for Wales? I do not think that that will happen, and I do not think that the people of Wales should take that risk.

15:17 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In my contribution I will try to address some of the problems that we feel are greatly associated with the reliance on structural funds. West Wales and the southern Valleys have become relatively poorer despite receiving billions in EU funding. Welsh Labour has forced, and continues to force, Wales to be dependent upon Europe irrespective of the arguments for or against the UK's continued membership of the EU. The Welsh Labour Government is ensuring that the Valleys have to constantly rely on such funding. West Wales and the Valleys have qualified for three successive rounds of European structural funds because the average GDP has not improved in real terms since 2000.

Yn fy nghyfraniad, ceisiaf fynd i'r afael â rhai o'r problemau y teimlwn eu bod yn gysylltiedig iawn â'r ddibyniaeth ar gronfeydd strwythurol. Mae Gorllewin Cymru a Chymoedd y de wedi mynd yn gymharol dlotach er eu bod wedi derbyn biliynau o bunnoedd o arian yr UE. Mae Llafur Cymru wedi gorfodi, ac yn parhau i orfodi, Cymru i fod yn ddibynnol ar Ewrop beth bynnag y bo'r dadleuon o blaid neu yn erbyn parhau aelodaeth y DU o'r UE. Mae Llywodraeth Llafur Cymru yn sicrhau bod y Cymoedd yn gorfod dibynnu'n barhaus ar arian o'r fath. Mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi bod yn gymwys ar gyfer tair rownd olynol o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd am nad yw'r CMC cyfartalog wedi gwella mewn termau real ers 2000.

There are a number of different funds available to Wales from being a member of the European Union. European structural funding is probably the most high-profile form of funding, alongside the common agricultural policy. The funds themselves are split into objectives and then further funds. There is a convergence objective and a competitiveness and employment objective. In each of these, there is a European regional development fund, a European social fund, and a cohesion fund. The convergence fund, formally known as Objective 1, is awarded to areas where average GDP is less than 75% of the EU average. Some countries of the EU see every region qualify for the convergence objective: Bulgaria, Croatia, Estonia, Latvia, Lithuania, Malta, Poland, Romania and Slovenia. For the 2007-13 period, 19 areas in the United Kingdom continued to qualify. Fifteen of the 22 authorities in Wales qualify for the convergence objective. In the UK, there are currently 19 authorities that are classed as having less than 75% of the EU average. Alongside the 15 authorities, the Highlands and Islands region of Scotland qualifies and is currently phasing out. In England, only Cornwall and the Isles of Scilly are fully implemented, with Merseyside and South Yorkshire phasing in. This means that 68% of Welsh authorities qualify, but only 0.7% of English authorities, and 3% of Scottish authorities. Quite frankly, I find these figures staggering. May I remind you of the population breakdown of the United Kingdom? England has 84% of the population, Scotland 8.5%, Wales 5% and Northern Ireland 3%. For the allocation of European structural funding to the United Kingdom, including both the convergence and competitiveness objectives, England receives 65%, Scotland 8%, Wales 22% and Northern Ireland 4%. Wales, therefore, has 5% of the UK population but receives 22% of European structural funding to the United Kingdom. Clearly, Welsh Labour is not doing enough.

Mae yna nifer o wahanol gronfeydd ar gael i Gymru o fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'n debyg mai arian strwythurol Ewropeaidd yw'r ffurf fwyaf amlwg o gyllid, ochr yn ochr â'r polisi amaethyddol cyffredin. Caiff y cronfeydd eu hunain eu rhannu'n amcanion, yna'n gronfeydd pellach. Ceir amcan cydgyfeirio ac amcan cystadleurwydd a chyflogaeth. Ym mhob un o'r rhain, ceir cronfa datblygu rhanbarthol Ewrop, cronfa gymdeithasol Ewrop, a chronfa cydlyniant. Mae'r gronfa gydgyfeirio, a elwir yn ffurfiol yn Amcan 1, yn cael ei dyfarnu i ardaloedd lle mae'r CMC cyfartalog yn llai na 75% o gyfartaledd yr UE. Mewn rhai o wledydd yr UE, mae pob rhanbarth yn gymwys ar gyfer yr amcan cydgyfeirio: Bwlgaria, Croatia, Estonia, Latfia, Lithwania, Malta, Gwlad Pwyl, Romania a Slofenia. Ar gyfer y cyfnod 2007-13, roedd 19 o ardaloedd yn y Deyrnas Unedig yn parhau i fod yn gymwys. Roedd pymtheg o'r 22 awdurdod yng Nghymru yn gymwys ar gyfer yr amcan cydgyfeirio. Yn y DU ar hyn o bryd, mae 19 o awdurdodau wedi'u dosbarthu fel rhai lle mae'r CMC cyfartalog yn llai na 75% o gyfartaledd yr UE. Ochr yn ochr â'r 15 awdurdod, mae rhanbarth Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban yn gymwys ac ar hyn o bryd yn graddol ddatgymhwyso. Yn Lloegr, dim ond Cernyw ac Ynysoedd Scilly sy'n gymwys ar gyfer yr amcan cydgyfeirio, gyda Glannau Mersi a De Swydd Efrog yn graddol gymhwyso. Golyga hyn fod 68% o awdurdodau Cymru yn gymwys, ond dim ond 0.7 % o awdurdodau Lloegr, a 3% o awdurdodau'r Alban. A dweud y gwir, rwy'n ystyried bod y ffigurau hyn yn syfrdanol. A gaf fi eich atgoffa o ganrannau poblogaeth y Deyrnas Unedig? Mae gan Loegr 84% o'r boblogaeth, Yr Alban 8.5%, Cymru 5% a Gogledd Iwerddon 3%. O ran dyraniad cyllid strwythurol Ewropeaidd i'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys amcanion cydgyfeirio a chystadleurwydd, mae Lloegr yn cael 65%, yr Alban 8%, Cymru 22% a Gogledd Iwerddon 4%. Mae gan Gymru, felly, 5% o boblogaeth y DU, ond mae'n derbyn 22% o'r cyllid strwythurol Ewropeaidd a ddaw i'r Deyrnas Unedig. Mae'n amlwg nad yw Llafur Cymru yn gwneud digon.

In the recent report published by the auditor general, it was established that the Welsh European Funding Office does not record the number or value of contracts awarded to Welsh businesses. Fortunately, that is now to be addressed.

Yn yr adroddiad diweddar a gyhoeddwyd gan yr archwilydd cyffredinol, sefydlwyd nad yw Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn cofnodi nifer na gwerth y contractau a ddyfarnwyd i fusnesau yng Nghymru. Yn ffodus, mae bwriad i fynd i'r afael â hyn bellach.

Prioritising economic regeneration is the basis of creating a sound environment to improve quality of life and tackle social deprivation. This will naturally lead to the social and environmental regeneration priorities. We agree with the Federation of Small Businesses, which says that qualifying for the highest level of support available is not something to be proud of, and that lessons to be learnt should note that there has been some concern in the private sector with the types of project on which previous objective money has been spent. The feeling among many is that, instead of creating a strong and sustainable economy, money has been ploughed into short-term community projects, whereas private enterprise can create wealth. The development of a grant-to-grant culture among organisations cannot be viable in the long term.

Blaenoriaethu adfywio economaidd yw'r sail ar gyfer creu amgylchedd cadarn i wella ansawdd bywyd a mynd i'r afael ag amddifadedd cymdeithasol. Bydd hyn yn arwain yn naturiol at y blaenoriaethau adfywio cymdeithasol ac amgylcheddol. Rydym yn cytuno â Ffederasiwn y Busnesau Bach, sy'n dweud nad yw cymhwyso ar gyfer y lefel uchaf o gymorth sydd ar gael yn rhywbeth i fod yn falch ohono, ac y dylai gwersi i'w dysgu nodi y bu rhywfaint o bryder yn y sector preifat ynglŷn â'r mathau o brosiectau y gwariwyd arian amcan blaenorol arnynt. Yn hytrach na chreu economi gref a chynaliadwy, y teimlad ymysg llawer yw bod arian wedi cael ei fuddsoddi mewn prosiectau cymunedol tymor byr, tra gall mentrau preifat greu cyfoeth. Ni all datblygu diwylliant o-grant-i-grant ymhlith sefydliadau fod yn hyfyw yn hirdymor.

Small and medium-sized enterprises are recognised as an intrinsic part of regenerating the economy. Given that the Welsh economy is dominated so much by public sector jobs, for Wales to be financially productive this balance needs to be redressed. Retail outlets, for example, are huge employers for individual traders as well as, potentially, for National Assembly-targeted groups such as women returning to work. Targeted training needs to be adequately available for all of these types of SMEs.

Cydnabyddir bod mentrau bach a chanolig eu maint yn rhan annatod o'r broses o adfywio'r economi. O gofio bod economi Cymru yn cael ei dominyddu cymaint gan swyddi sector cyhoeddus, er mwyn i Gymru fod yn gynhyrchiol yn ariannol, rhaid unioni'r cydbwysedd hwn. Mae siopau manwerthu, er enghraifft, yn gyflogwyr enfawr ar gyfer masnachwyr unigol yn ogystal â grwpiau wedi'u targedu gan y Cynulliad Cenedlaethol o bosibl, fel menywod sy'n dychwelyd i'r gwaith. Mae angen sicrhau bod digon o hyfforddiant wedi'i dargedu ar gael ar gyfer pob un o'r mathau hyn o fusnesau bach a chanolig.

It is a scandal that the Welsh Government is not using the funding that is available effectively. The Welsh Government has received 14 years of funding for west Wales and the Valleys. At no point during that period did the Welsh Government utilise the almost £4 billion-worth of money comprehensively to address the real problems of Wales. Now, west Wales and the Valleys have qualified for a further period of funding. It is absolutely pivotal that the Welsh Government ensures that this qualification does not become necessary in future.

Mae'n warthus nad yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r cyllid sydd ar gael yn effeithiol. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn 14 blynedd o gyllid ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Ni ddefnyddiodd Llywodraeth Cymru yr arian gwerth bron i £4 biliwn yn gynhwysfawr i fynd i'r afael â phroblemau go iawn yng Nghymru ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwnnw. Yn awr, mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gymwys i gael cyfnod pellach o gyllid. Mae'n gwbl allweddol fod Llywodraeth Cymru yn sicrhau na fydd angen cymhwyso yn y fath fodd yn y dyfodol.

Quite simply, the Welsh Government is clearly not implementing these funds successfully enough to ensure that we do not need to qualify time and again. In Ireland, when they joined the European Union, there were only a few miles of motorway. They put their money into infrastructure and higher education, and solved many of their problems—admittedly, it came back to haunt them later. However, we would ask the Welsh Government what everlasting legacy remains from all of this money.

Yn syml, mae'n amlwg nad yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r cronfeydd hyn yn ddigon llwyddiannus i sicrhau nad oes angen i ni gymhwyso dro ar ôl tro. Pan ymunodd Iwerddon â'r Undeb Ewropeaidd, dim ond ychydig filltiroedd o draffordd oedd ganddi. Aethant ati i fuddsoddi mewn seilwaith ac addysg uwch, a datrys llawer o'u problemau-rhaid cyfaddef, creodd hyn gryn aflonyddwch iddynt yn ddiweddarach. Fodd bynnag, byddem yn gofyn i Lywodraeth Cymru pa etifeddiaeth dragwyddol sy'n aros o'r holl arian hwn.

15:22

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

It is unusual for me to agree with the Liberal Democrats, but I agree with absolutely everything that Eluned Parrott said. I felt that Byron Davies's opening speech really missed an opportunity, given that he knows quite a lot about Europe; he really did approach this subject in a glass-half-empty manner rather than looking at some of the complexities posed by Europe. William Graham was much more measured in his approach, but I think that you have to understand that measuring gross domestic product and general value added is but one way in which we measure our success, and one in which we are not entirely masters of our own destiny.

Mae'n anarferol i mi gytuno gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol, ond rwy'n cytuno â phopeth a ddywedodd Eluned Parrott. Teimlwn fod araith agoriadol Byron Davies wedi colli cyfle, o ystyried ei fod yn gwybod cryn dipyn am Ewrop; ymdriniodd â'r pwnc o safbwynt gwydr-hanner-gwag yn hytrach nag edrych ar rai o'r cymhlethdodau y mae Ewrop yn eu creu. Roedd William Graham yn llawer mwy pwyllog, ond credaf fod yn rhaid i chi ddeall mai dim ond un ffordd o fesur ein llwyddiant yw mesur cynnyrch mewnwladol crynswth a gwerth ychwanegol yn gyffredinol, ac un lle nad ydym wedi llwyr feistroli ein tynged ein hunain.

You have to understand that economics and evaluation are as much art as science. Some of the things that we have to bear in mind include the fact that, for example, there is a huge amount of commuting between west Wales and the Valleys and east Wales and further afield into England, which does not get captured in terms of the value to the economy of west Wales; it only gets measured in terms of where that employment is. That is a very particular geographical aspect of Wales that makes it very challenging for us to meet those objectives in terms of no longer requiring convergence funding.

Mae'n rhaid i chi ddeall bod economeg a gwerthuso lawn cymaint o gelf ag ydynt o wyddoniaeth. Mae rhai o'r pethau y mae'n rhaid inni eu cadw mewn cof yn cynnwys, er enghraifft, fod llawer iawn o gymudo rhwng gorllewin Cymru a'r Cymoedd a dwyrain Cymru a thu hwnt i Loegr, rhywbeth nad yw'n cael ei gofnodi o ran y gwerth i economi gorllewin Cymru; dim ond yn nhermau lle mae'r gwaith y caiff ei fesur. Dyna agwedd ddaearyddol benodol iawn yng Nghymru sy'n ei gwneud yn anodd iawn i ni i gyflawni'r amcanion hynny o ran peidio â bod angen arian cydgyfeirio bellach.

Secondly, we have to endeavour to do the best that we can with the money, but the direct causal links between what we try to do and exactly what happens in the rest of the economy are well beyond our capacity. The Welsh Government and the Welsh European team did hugely well in addressing the challenges that arose out of the bankers' blowout in 2008 and in ensuring that the money was rechanneled—money for projects that were no longer going to be possible to deliver was then reinvested in other projects to ensure that we both salvaged jobs that would otherwise have been lost and created new jobs, which is obviously of huge benefit both to the individual and to the community in which they live.

Yn ail, mae'n rhaid i ni ymdrechu i wneud y gorau y gallwn gyda'r arian, ond mae creu'r cysylltiadau achosol uniongyrchol rhwng yr hyn rydym yn ceisio ei wneud a beth yn union sy'n digwydd yng ngweddill yr economi ymhell y tu hwnt i'n gallu. Gwnaeth Llywodraeth Cymru a thîm Cymru yn Ewrop yn hynod o dda yn mynd i'r afael â'r heriau a gododd o chwalfa'r bancwyr yn 2008 ac o ran sicrhau bod yr arian yn cael ei ailsianelu-arian ar gyfer prosiectau nad oedd yn mynd i fod yn bosibl eu darparu bellach-a'i ail-fuddsoddi mewn prosiectau eraill i sicrhau ein bod yn achub swyddi a fyddai wedi cael eu colli fel arall a chreu swyddi newydd, sy'n amlwg o fudd enfawr i unigolion ac i'r gymuned y maent yn byw ynddi.

We also have to bear in mind that we are absolutely not able to control what goes on in the eurozone. One of the things that we should be most grateful for is the fact that Gordon Brown refused to allow the UK to join the euro. The way in which the euro member countries perform in the future will of course influence the outcome of the prosperity of Europe across the piece, because it is our most important trading partner.

Mae'n rhaid i ni gofio hefyd nad ydym yn gallu rheoli'r hyn sy'n digwydd yn ardal yr ewro o gwbl. Un o'r pethau y dylem fod yn ddiolchgar iawn amdano yw'r ffaith fod Gordon Brown wedi gwrthod caniatáu i'r DU ymuno â'r ewro. Wrth gwrs, bydd perfformiad yr aelod-wladwriaethau'r ewro yn y dyfodol yn dylanwadu ar ffyniant Ewrop ym mhob dim, gan mai hi yw ein partner masnachu pwysicaf.

Therefore, voters have a really important choice to make on 22 May: whether they vote for the grow-your-way-out-of-depression offer of the social democratic block—and I am glad to say that that argument is gaining momentum, with the social democrats being top of the polls across Europe today—which is overtaking the centrist European People's Party approach of Angela Merkel, which means that countries that are struggling in the eurozone will be told to continue to eat grass, with austerity measures piling on the pain. Of course, the Tory group is not even a part of the Merkel-dominated group. You are part of a block that includes Poland's law and justice group. Therefore, it is a huge muddle in terms of what the Tories in Europe really stand for, because some of your voting patterns align with the British National Party on sexual and reproductive health for women, with people like Daniel Hannan voting even against measures to prevent human trafficking. Therefore, it is a huge confusion. Nevertheless, we cannot discount the people who plan to back the UK Independence Party, despite the fact that we have not a clue what UKIP really stands for, because even Mr Farage says that he does not wish to address what was in his last manifesto and that he thinks that it was all a pile of drivel. However, we need to address the reasons why people are thinking of voting UKIP, which is about whether or not politics—

Felly, bydd gan bleidleiswyr ddewis pwysig iawn i'w wneud ar 22 Mai: ai pleidleisio dros gynnig bloc y democratiaid cymdeithasol i dyfu eich ffordd allan o ddirwasgiad-ac rwy'n falch o ddweud fod y ddadl honno'n ennill momentwm, gyda'r democratiaid cymdeithasol ar frig y polau ar draws Ewrop heddiw-uwchben agweddau canolbleidiol Plaid Pobl Ewrop Angela Merkel, sy'n golygu y bydd gwledydd sy'n cael trafferth yn ardal yr ewro yn cael eu gorchymyn i barhau i fwyta glaswellt, a bydd mesurau caledi'n creu mwy o boen byth. Wrth gwrs, nid yw'r grŵp Torïaidd yn rhan o'r grŵp sy'n cael ei ddominyddu gan Merkel hyd yn oed. Rydych yn rhan o floc sy'n cynnwys grŵp cyfraith a chyfiawnder Gwlad Pwyl. Felly, mae yna ddryswch mawr o ran yr hyn y mae'r Torïaid yn Ewrop yn sefyll drosto mewn gwirionedd, gan fod rhai o'ch patrymau pleidleisio yn cyd-fynd â Phlaid Genedlaethol Prydain ar iechyd rhywiol ac atgenhedlol menywod, a phobl fel Daniel Hannan yn pleidleisio yn erbyn mesurau i atal masnachu pobl hyd yn oed. Felly, mae'n ddryswch enfawr. Serch hynny, ni allwn anwybyddu'r bobl sy'n bwriadu cefnogi Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig, er nad oes gennym syniad dros beth y mae UKIP yn sefyll mewn gwirionedd, gan fod hyd yn oed Mr Farage yn dweud nad yw'n dymuno mynd i'r afael â'r hyn oedd yn ei faniffesto diwethaf a'i fod yn credu mai llwyth o rwtsh oedd y cyfan. Fodd bynnag, mae angen inni fynd i'r afael â'r rhesymau pam y mae pobl yn ystyried pleidleisio dros UKIP pleidleisio, sy'n ymwneud â ph'un a yw gwleidyddiaeth—

15:27

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. That is bordering on the party political here, so can we kindly keep to the principle of the European question, please?

Trefn. Mae hynny'n ymylu ar wleidyddiaeth plaid, felly a gawn ni gadw at egwyddor y cwestiwn Ewropeaidd, os gwelwch yn dda?

15:27

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. I would just like to say that one of the most important ways in which we can make Europe feel more a part of our local community is for us to address the sort of benefits that Europe provides and ask ourselves the really clear questions about what is it that we are trying to do, how will we achieve it, and how we are going to measure whether what we have done has contributed to it.

Diolch yn fawr. Hoffwn ddweud mai un o'r ffyrdd pwysicaf y gallwn wneud i Ewrop deimlo'n fwy o ran o'n cymuned leol yw i ni fynd i'r afael â'r math o fanteision y mae Ewrop yn eu darparu a gofyn y cwestiynau gwirioneddol glir i ni'n hunain ynglŷn â beth rydym yn ceisio ei wneud, sut y gallwn ei gyflawni, a sut rydym am fesur a yw'r hyn a wnaethom wedi cyfrannu ato.

15:28 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is absolutely clear that there was a gross betrayal of the British people by Gordon Brown. When he signed the Treaty of Lisbon, he said that he would give us a referendum. It was a manifesto commitment, but he reneged on that manifesto commitment. The people of Britain want their say as to their membership of the European Union now. They were betrayed and were denied that opportunity. I have a lot of sympathy with what Eluned Parrott said in her contribution, and I know which side of the argument I would like to be on if there is a referendum, but I do not want to deny the people of Britain the opportunity to have their say on Europe.

Mae'n gwbl eglur fod Gordon Brown wedi bradychu pobl Prydain yn fawr. Pan lofnododd Gytuniad Lisbon, dywedodd y byddai'n rhoi refferendwm i ni. Roedd yn ymrwymiad maniffesto, ond torrodd yr ymrwymiad hwnnw. Mae pobl Prydain eisiau dweud eu dweud ynglŷn â'u haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd bellach. Cawsant eu bradychu ac ni roddwyd y cyfle hwnnw iddynt. Mae gen i lawer o gydymdeimlad â'r hyn a ddywedodd Eluned Parrott yn ei chyfraniad, ac rwy'n gwybod ar ba ochr i'r ddadl yr hoffwn fod os cynhelir refferendwm, ond nid wyf am wrthod y cyfle i bobl Prydain gael dweud eu dweud am Ewrop.

This debate is about Wales's delivery on the benefits that it receives from Europe, and its successive failure. I am glad that Rhodri Glyn Thomas sought to take the eye off the ball, because it does show that the fact that we have qualified for another successive round of convergence funding means that the One Wales Government failed.

Mae'r ddadl hon yn ymwneud â'r defnydd a wna Cymru o'r buddion y mae'n eu derbyn o Ewrop, a'i methiant dro ar ôl tro. Rwy'n falch fod Rhodri Glyn Thomas wedi tynnu ei lygad oddi ar y bêl, gan fod hynny'n dangos fod y ffaith ein bod wedi cymhwyso ar gyfer rownd arall eto o gyllid cydgyfeirio yn golygu bod Llywodraeth Cymru'n Un wedi methu.

15:29 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are you saying, then, that the Conservative Party is absolutely committed to an in/out referendum if it wins the next election, come what may, and, if not, under what circumstances?

A ydych yn dweud, felly, fod y Blaid Geidwadol wedi ymrwymo'n llwyr i refferendwm i mewn / allan os yw'n ennill yr etholiad nesaf, doed a ddelo, ac os nad yw, o dan ba amgylchiadau?

15:29 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is quite clear that David Cameron has said that he will offer people a choice on a renegotiated deal with Europe. I am a Welsh Conservative, Mick Antoniw, and I want to look at what has been delivered here by your Government and the way in which your Government and the failed One Wales Government did not deliver in using the funds. Look at what your Minister for agriculture has said. He stands up in this Chamber and he says, 'We want to create agriculture that is flexible, that is fit for the twenty-first century, and that is sustainable'. However, when you apply it to your own Government, it does not work, because you have not sought to do that.

Mae'n eithaf amlwg fod David Cameron wedi dweud y bydd yn cynnig dewis i bobl ynglŷn ag ail-drafod y fargen ag Ewrop. Ceidwadwr Cymreig wyf i, Mick Antoniw, ac rwyf am edrych ar yr hyn a gyflawnwyd yma gan eich Llywodraeth a'r ffordd y methodd eich Llywodraeth a Llywodraeth Cymru'n Un â chyflawni o ran y modd y cafodd y cronfeydd eu defnyddio. Edrychwch ar yr hyn y dywedodd eich Gweinidog amaethyddiaeth. Mae'n codi yn y Siambr hon ac mae'n dweud, 'Rydym am greu amaethyddiaeth sy'n hyblyg, sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, ac sy'n gynaliadwy'. Ond pan fyddwch yn cymhwyso hynny i'ch Llywodraeth eich hun, nid yw'n gweithio, am nad ydych wedi ceisio gwneud hynny.

The report of the Constitutional and Legislative Affairs Committee has made it clear. In his evidence to that committee, Dr Hywel Ceri Jones noted that it was the first time that he had seen an alignment of the Welsh political agenda for the next period with the EU political agenda. The committee made it quite clear that the Welsh Government's EU strategy identifies 14 broad policy areas, making this strategy aspirational, and that the targets or milestones by which success could be measured are absent. If you look on the WEFO site, and you look at the European projects, and you look at the targets that are there, you will see that most of them are under re-evaluation. The old targets are not available, and the new ones are not there.

Mae adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi egluro hyn. Yn ei dystiolaeth i'r pwyllgor, nododd Dr Hywel Ceri Jones mai hwn oedd y tro cyntaf iddo weld yr agenda wleidyddol yng Nghymru ar gyfer y cyfnod nesaf yn cyd-fynd ag agenda wleidyddol yr UE. Gwnaeth y pwyllgor yn gwbl glir fod strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr UE yn nodi 14 o feysydd polisi cyffredinol, gan wneud y strategaeth hon yn uchelgeisiol, a bod y targedau neu'r cerrig milltir y gellid mesur llwyddiant yn eu herbyn yn absennol. Os edrychwch ar safle WEFO, ac ar y prosiectau Ewropeaidd, a'r targedau sydd yno, byddwch yn gweld fod y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu hailwerthuso. Nid yw'r hen dargedau ar gael, ac nid yw'r rhai newydd yno.

15:31 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

15:31 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sorry, I have taken one already, Rhodri—I will see how much time I have.

Mae'n ddrwg gennyf, rwyf wedi cymryd un yn barod, Rhodri—caf weld faint o amser fydd gen i.

Dr Jones's evidence to the Constitutional and Legislative Affairs Committee also said that the next period to 2020 is the last-chance saloon with European money, and it is time that the Welsh Government wakes up to that. He did not say that last part—that is my comment. However, he said that it is the last-chance saloon.

Roedd tystiolaeth Dr Jones i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol hefyd yn dweud mai'r cyfnod nesaf hyd at 2020 yw'r cyfle olaf i wneud defnydd o arian Ewropeaidd, ac mae'n bryd i Lywodraeth Cymru sylweddoli hynny. Ni ddywedodd y rhan olaf-fy sylw i oedd hwnna. Fodd bynnag, dywedodd mai dyma'r cyfle olaf.

The biggest challenge is probably to get the private sector really engaged. I have to say that I think that it is shocking that only 1.1% of European funding went to the private sector—1.1%, or £21 million out of over £2 billion. It is shocking—it is absolutely shocking. I would hope that the Welsh Government would not be too arrogant to look at the recommendations that have been made by the Constitutional and Legislative Affairs Committee, and that it will accept, for example—

Yr her fwyaf, mae'n debyg, yw sicrhau ymgysylltiad llwyr y sector preifat. Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod yn credu ei bod yn syfrdanol mai dim ond 1.1% o'r cyllid Ewropeaidd a aeth i'r sector preifat-1.1%, neu £21 miliwn allan o dros £2 biliwn. Mae'n gywilyddus-mae'n gwbl gywilyddus. Byddwn yn gobeithio na fyddai Llywodraeth Cymru yn rhy haerllug i edrych ar yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ac y bydd yn derbyn, er enghraifft-

15:32 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

15:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

She has indicated that she is not taking any interventions. Oh, you are taking the intervention. I am sorry, you need to be consistent on these interventions—are you taking them or not?

Mae hi wedi dweud nad oedd yn cymryd unrhyw ymyriadau. O, rydych yn cymryd yr ymyriad. Mae'n ddrwg gennyf, mae angen i chi fod yn gyson ynghylch yr ymyriadau-a ydych yn eu cymryd neu beidio?

15:32 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am taking Rhodri Glyn Thomas's intervention.

Rwy'n cymryd ymyriad Rhodri Glyn Thomas.

15:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call Rhodri Glyn Thomas.

Galwaf ar Rhodri Glyn Thomas.

15:32 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You say that only 1% of private businesses in Wales received funding. Are you saying that farms are not private businesses? Are you—

Dywedwch mai dim ond 1% o fusnesau preifat yng Nghymru a gafodd arian. A ydych yn dweud nad yw ffermydd yn fusnesau preifat? A ydych yn-

15:32 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I can clarify that for you. The total amount of private sector funding received from the European social fund into Wales is 1.1%. It is ridiculous. I am sorry.

Gallaf egluro hynny i chi. Cyfanswm y cyllid sector preifat a gafodd Cymru o gronfa gymdeithasol Ewrop yw 1.1%. Mae'n chwerthinllyd. Mae'n ddrwg gennyf.

It was quite clear that recommendation 2 of the committee's report talked of the need to strengthen the Welsh presence in Brussels, by including representatives from the business and the third sectors. I hope that the Welsh Government will commit to that. It is vital that, without private sector involvement, and without a clear strategic direction, there is not a scatter-gun approach over 14 areas, but that it focuses—as the evidence before the Constitutional and Legislative Affairs Committee required—

Roedd yn eithaf amlwg bod argymhelliad 2 yn adroddiad y pwyllgor yn sôn am yr angen i gryfhau presenoldeb Cymru ym Mrwsel, drwy gynnwys cynrychiolwyr o'r sector busnes a'r trydydd sector. Rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i hynny. Heb ymwneud y sector preifat, a heb gyfeiriad strategol clir, mae'n allweddol nad yw'r dull o weithredu'n dameidiog dros 14 o ardaloedd, ond ei fod yn canolbwyntio—gan fod y dystiolaeth gerbron y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn galw am—

15:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Your time is up.

Mae eich amser ar ben.

15:33 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It must focus on the key areas that the Welsh Government wants to engage. Only by including those two measures can a measure of success come to Wales's best use of European funding.

Mae'n rhaid iddo ganolbwyntio ar y meysydd allweddol y mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gymryd rhan ynddynt. Dim ond drwy gynnwys y ddau ddull o fesur y gall Cymru lwyddo i wneud y defnydd gorau o gyllid Ewropeaidd.

15:33 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

My constituency has benefited considerably from European funding from a variety of sources, and I am sure that it is the same across the board. Around 6,000 jobs are linked to or have benefited from European funding in one way or another, and about 50,000 jobs across Wales. That is important. It is also important to note, and I think that it is an attribute of this Chamber, that, although we have many disagreements on European issues, we are, across the board, I think, fairly united in being pro-membership of the European Union. In my constituency, funding—part of which is European funding in respect of jobs growth, and in respect of apprenticeships—has led to a 30% increase this year in the number of apprenticeships. I do not believe that that sort of thing would have happened without European funding.

Mae fy etholaeth wedi elwa'n sylweddol o gyllid Ewropeaidd o amryw o ffynonellau, ac rwy'n siŵr fod yr un peth yn wir ym mhob man. Mae tua 6,000 o swyddi'n gysylltiedig â, neu wedi elwa, o gyllid Ewropeaidd mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, a thua 50,000 o swyddi ledled Cymru. Mae hynny'n bwysig. Hefyd, er ein bod yn anghytuno llawer ar faterion Ewropeaidd, mae'n bwysig nodi mai un nodwedd o'r Siambr hon yw ein bod, un ac oll, yn eithaf unedig o ran ein bod o blaid ein haelodaeth o'r Ewropeaidd undeb. Yn fy etholaeth i, mae cyllido—sef arian Ewropeaidd yn rhannol, mewn perthynas â chynnydd mewn swyddi a phrentisiaethau—wedi arwain at gynnydd o 30% eleni yn nifer y prentisiaethau. Nid wyf yn credu y byddai'r math yna o beth wedi digwydd heb gyllid Ewropeaidd.

We also have to understand why there are elements, particularly in some of the more right-wing parties—but there are also elements within the Conservative Party, and one or two others—that are opposed to Europe and talk about the repatriation of legislation. However, what they are essentially talking about is that legislation that has been in the areas of health and safety and the protection of workers and employment rights. We know, for example, of the importance of European directives in respect of health and safety and the acquired rights directive in respect of transfer of undertakings, which has given hundreds and thousands of workers protection.

Mae'n rhaid i ni ddeall hefyd pam y mae elfennau, yn enwedig yn rhai o'r pleidiau mwy adain dde—ond mae elfennau hefyd yn y Blaid Geidwadol, ac un neu ddau arall—sy'n wrthwynebus i Ewrop ac yn siarad am ail-wladoli deddfwriaeth. Fodd bynnag, yr hyn y maent yn siarad amdano yn y bôn yw'r ddeddfwriaeth a gafwyd ym maes iechyd a diogelwch, diogelu gweithwyr a hawliau cyflogaeth. Gwyddom, er enghraifft, am bwysigrwydd cyfarwyddebau Ewropeaidd yng nghyswllt iechyd a diogelwch a'r gyfarwyddeb hawliau caffaeledig mewn perthynas â throsglwyddo ymgymeriadau, sydd wedi rhoi diogelwch i gannoedd a miloedd o weithwyr.

These are the sorts of rights that organisations like UKIP in particular at the moment are focusing on as an attack on Europe. There is an attack on many of the rights for women, including rights during pregnancy and parental leave. Any parent with a child under five now has a right to a minimum of 13 weeks unpaid parental leave to be taken when they choose before the child's fifth birthday. Also, with regard to maternity rights, new law now requires that a woman working for 26 weeks for the same employer continuously into the fifteenth week before the baby is due qualifies for maternity rights, replacing the previous two-year waiting period. We have seen consistent year-on-year improvement across the board, across Europe, in terms of maintaining a level social platform as far as possible. Sometimes, in fact, Britain actually falls behind it. That is what many on the right of politics detest about Europe: they detest the fact that it has created a stable, positive and progressive protection for workers' rights within the whole of the European Union. This is exactly why UKIP wants to pull out and also why the right wing of the Conservatives wants to pull out.

Dyma'r math o hawliau y mae sefydliadau fel UKIP yn arbennig yn canolbwyntio arnynt ar hyn o bryd ar gyfer ymosod ar Ewrop. Ceir ymosodiad ar lawer o hawliau merched, gan gynnwys hawliau yn ystod beichiogrwydd ac absenoldeb rhiant. Erbyn hyn, mae gan unrhyw riant sydd â phlentyn dan bump oed hawl i isafswm o 13 wythnos o absenoldeb rhiant di-dâl i'w gymryd ar unrhyw adeg o'u dewis cyn pen-blwydd y plentyn yn bump oed. Hefyd, o ran hawliau mamolaeth, mae deddfwriaeth newydd bellach yn gwneud dynes sy'n gweithio am 26 wythnos i'r un cyflogwr yn barhaus hyd at y bymthegfed wythnos cyn dyddiad esgor y babi yn gymwys i gael hawliau mamolaeth, yn lle'r cyfnod aros o ddwy flynedd fel o'r blaen. Rydym wedi gweld gwelliant cyson flwyddyn ar ôl blwyddyn ym mhob maes, ar draws Ewrop, o ran cynnal llwyfan gwastad yn gymdeithasol cyn belled ag y bo modd. Mewn gwirionedd, mae Prydain weithiau ar ei hôl hi. Dyna beth y mae llawer ar yr adain dde'n wleidyddol yn ei gasáu am Ewrop: maent yn casáu'r ffaith fod Ewrop wedi creu diogelwch sefydlog, cadarnhaol a blaengar ar gyfer hawliau gweithwyr o fewn yr Undeb Ewropeaidd yn ei chyfanrwydd. Dyma'n union pam y mae UKIP eisiau tynnu allan a hefyd pam y mae asgell dde'r Blaid Geidwadol yn awyddus i dynnu allan.

15:36

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

15:36

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Are you taking an intervention?

A ydych yn derbyn ymyriad?

15:36

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will take an intervention.

Byddaf yn cymryd ymyriad.

15:36

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the Member for giving way. I object to the word 'detest'. At the end of the day, there are two points here. You have listed some very positive aspects of membership of the European Union and others will list a host of other reasons why we should not be in there. Why do you object therefore to offering those points in a referendum where the people can speak with one voice and say whether they want to be in or out? It is quite clear: do you support a referendum, yes or no?

Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am ildio. Rwyf yn gwrthwynebu'r gair 'casáu'. Mae dau bwynt yma mewn gwirionedd. Rydych wedi rhestru rhai agweddau cadarnhaol iawn o fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd a bydd eraill yn rhestru llu o resymau eraill pam na ddylem fod yn aelod. Felly pam rydych yn gwrthwynebu cynnig y pwyntiau hynny mewn refferendwm lle y gall pobl siarad ag un llais a dweud a ydynt eisiau bod yn aelodau ai peidio? Mae'n eithaf clir: a ydych yn cefnogi refferendwm, ydych neu nac ydych?

15:37

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not because we have a representative democracy and I thought that the Conservative Party supported representative democracy. It is worth noting as well that the Tories are not promoting a referendum. They are saying, 'Well, maybe in certain circumstances, on certain things, we may actually have a referendum'. Let us be clear about what this debate is actually about: it is about the Tories being scared of losing their votes to UKIP. That is why this is on the table; otherwise they would not be touching it with a bargepole. Let us be clear—

Nac ydw, oherwydd mae gennym ddemocratiaeth gynrychioliadol ac roeddwn yn credu bod y Blaid Geidwadol yn cefnogi democratiaeth gynrychioliadol. Mae'n werth nodi hefyd nad yw'r Torïaid yn hyrwyddo refferendwm. Maent yn dweud, 'Wel, efallai, mewn rhai amgylchiadau, ar rai pethau, gallem gael refferendwm'. Gadewch inni fod yn glir ynglŷn â'r hyn y mae'r ddadl hon yn ymwneud mewn gwirionedd: mae'n ymwneud â'r Torïaid yn ofni rhag colli eu pleidlais i UKIP. Dyna pam y mae hyn yn cael ei gynnig; fel arall, ni fyddent yn cyffwrdd pen eu bys â'r mater. Gadewch inni fod yn glir—

15:37

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

15:37

## Mick Antoniw Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No, I have taken one. Let us be clear about the position with regard to who will pay the price of pulling out of Europe. It is inconceivable that the Welsh economy or the UK economy could trade and deal with Europe without being part of the EU without tariffs and all forms of restrictions and regulations. Who would pay the price of that? We know who would pay the price; it would be Welsh workers who would pay the price of pulling out of Europe. They would be the ones who would suffer through lower wages and lower terms and conditions.

Na wnaf, rwyf eisoes wedi cymryd un. Gadewch inni fod yn glir ynghylch pwy fydd yn talu'r pris am dynnu allan o Ewrop. Mae'n annirnadwy y gallai economi Cymru neu economi'r DU fasnachu ac ymdrin ag Ewrop heb fod yn rhan o'r UE, heb dariffau a phob math o gyfyngiadau a rheoliadau. Pwy fyddai'n talu'r pris am hynny? Gwyddom pwy fyddai'n talu pris; gweithwyr Cymru fyddai'n talu'r pris am dynnu allan o Ewrop. Hwy fyddai'n dioddef oherwydd cyflogau is a thelerau ac amodau gwaeth.

Let us look at some of those UKIP polices: scrap the maternity rights of women in small companies; privatisation of the NHS by auctioning it off, and, in fact, the Ministry of Defence; a flat rate of tax of 20% and scrap the legal right to paid holidays. If we want to go a little bit further on it, we can look at some of the things that are actually being said as part of this debate, which are really quite frightening, and I think that there is a frightening political dimension to what is happening in this European debate. Listen to what Farage said,

Gadewch inni edrych ar rai o bolisïau UKIP: cael gwared ar hawliau mamolaeth menywod mewn cwmnïau bach; preifateiddio'r GIG drwy ei arwerthu, a'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn wir; cyfradd safonol treth o 20% a chael gwared ar yr hawl gyfreithiol i wyliau gyda thâl. Os ydym am fynd ychydig yn bellach, gallwn edrych ar rai o'r pethau sy'n cael eu dweud mewn gwirionedd yn rhan o'r ddadl hon, sy'n eithaf brawychus â dweud y gwir, ac rwy'n meddwl bod dimensiwn gwleidyddol arswydus i'r hyn sy'n digwydd yn y ddadl Ewropeaidd. Gwrandewch ar yr hyn a ddywedodd Farage,

'Come and join the people's army. Let's topple the establishment.'

'Come and join the people's army. Let's topple the establishment.'

'If UKIP should win the 2015 election, I think, frankly, when it comes to chaos, you ain't seen nothing yet.'

'If UKIP should win the 2015 election, I think, frankly, when it comes to chaos, you ain't seen nothing yet.'

'I think we need a proper gun licensing system. To a large extent, we already have it, but I think the ban on hand guns is ludicrous.'

'I think we need a proper gun licensing system. To a large extent, we already have it, but I think the ban on hand guns is ludicrous.'

Added to that, when asked who he admires most as a political leader he said,

Yn ychwanegol at hynny, pan ofynnwyd iddo pwy y mae'n ei edmygu fwyaf fel arweinydd gwleidyddol, meddai,

'Putin is the leader I admire most.'

'Putin is the leader I admire most.'

I tell you that there is a frightening and vindictive element creeping into this European debate, which is aiming at, targeting and victimising working-class people and victimising migrants.

Rwy'n dweud wrthych fod elfen frawychus a dialgar yn ymgripio i mewn i'r ddadl Ewropeaidd, sy'n targedu, yn erlid ac wedi'i hanelu at bobl dosbarth gweithiol ac ymfudwyr.

15:39

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful for the opportunity to contribute to this debate this afternoon and to highlight the Welsh Government's dismal failure to improve the economies of west Wales and the Valleys. Wales has now received over £4 billion of funding from the European Union. Yet, the Welsh Labour Government has squandered what it once called a 'once in a lifetime opportunity' to make a significant difference to the economies of our poor regions. Wales once again qualifies for convergence funding. It is a mark of Labour's failure that 15 out of 22 local authorities in Wales have an average gross domestic product of less than 75% of the European Union average, and therefore they meet the criteria for convergence funding. This is a sad indictment of the way that the Welsh Government has allocated this funding. We have to ask the question as to why so much has been spent to so little effect.

Diolch am y cyfle i gyfrannu at y ddadl y prynhawn yma ac i dynnu sylw at fethiant truenus Llywodraeth Cymru i wella economïau Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae Cymru bellach wedi cael dros £4 biliwn o arian gan yr Undeb Ewropeaidd. Eto i gyd, mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi gwastraffu'r hyn a alwodd unwaith yn gyfle 'unwaith mewn oes' i wneud gwahaniaeth sylweddol i economïau ein hardaloedd tlawd. Mae Cymru unwaith eto yn cymhwyso i gael cyllid cydgyfeirio. Mae'n arwydd o fethiant Llafur fod 15 allan o 22 o awdurdodau lleol Cymru â chyfartaledd cynnyrch mewnwladol crynswth o lai na 75% o gyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd, ac felly'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cael cyllid cydgyfeirio. Mae hyn yn adlewyrchiad trist o'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu'r cyllid hwn. Mae'n rhaid i ni ofyn y cwestiwn pam y mae cymaint wedi cael ei wario a chyn lleied o effaith i'w gweld.

The Wales Audit Office reported recently that European aid is now being well managed after lessons learned from earlier projects, although it went on to say that there was still too much red tape and that the targets set were too easy to maintain. The clear implication is that there were weaknesses in the management of previous projects that led to their failure. The Auditor General of Wales said that there are still areas where improvements can and should be made, and that the Welsh European Funding Office now has a better system in place for monitoring whether individual projects are successful. However, he said that WEFO needs to streamline its procedures for stakeholders as soon as possible, set realistic targets and get better information on projects from those involved.

Adroddodd Swyddfa Archwilio Cymru yn ddiweddar fod cymorth Ewropeaidd bellach yn cael ei reoli'n dda ar ôl y gwersi a ddysgwyd o brosiectau cynharach, er ei fod yn mynd ymlaen i ddweud fod gormod o fiwrocratiaeth o hyd a bod y targedau a osodwyd yn rhy hawdd i'w cynnal. Yr awgrym amlwg yw bod gwendidau rheoli wedi arwain at fethiant prosiectau blaenorol. Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol Cymru fod meysydd y gellid ac y dylid eu gwella yn dal i fodoli, a bod gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru well system ar waith ar gyfer monitro llwyddiant prosiectau unigol. Fodd bynnag, dywedodd fod angen i WEFO symleiddio ei gweithdrefnau ar gyfer rhanddeiliaid cyn gynted ag y bo modd, gosod targedau realistig a chael gwell gwybodaeth am brosiectau gan y rhai sy'n cymryd rhan.

The Calzaghe bridge in Newbridge and the regeneration of Cwmcarn forest in my south-east Wales region are examples of recent projects that have been backed and deserve to succeed. However, I believe that we have to ensure that the private sector is more engaged, particularly small and medium-sized firms. At present, EU structural funding has predominantly gone to third sector and public sector projects. These projects can often fail to become self-sustaining and are forced to stop when funding comes to an end.

Mae pont Calzaghe yn Nhrecelyn ac adfywio coedwig Cwmcarn yn fy rhanbarth yn y De-ddwyrain yn enghreifftiau o brosiectau a gefnogwyd yn ddiweddar ac maent yn haeddu llwyddo. Fodd bynnag, credaf fod yn rhaid inni sicrhau bod y sector preifat yn cymryd mwy o ran mewn gwaith o'r fath, yn enwedig cwmnïau bach a chanolig eu maint. Ar hyn o bryd, mae cyllid strwythurol yr UE wedi mynd yn bennaf at brosiectau trydydd sector a sector cyhoeddus. Yn aml, gall y prosiectau hyn fethu â chynnal eu hunain a chânt eu gorfodi i orffen pan ddaw'r cyllid i ben.

The Welsh European Funding Office lists 287 projects for the 2007-13 period. However, the private sector accounts for only 1.1%, which my honourable colleague has already mentioned and very strongly—

Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn rhestru 287 o brosiectau ar gyfer y cyfnod 2007-13. Fodd bynnag, dim ond 1.1% o'r cyllid sy'n mynd i'r sector preifat, ac mae fy nghydweithiwr anrhydeddus eisoes wedi crybwyll ac yn—

15:42

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

15:42

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, go on.

Gwnaf, ewch ymlaen.

15:42

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Mohammad Asghar. Would you not recognise that the private sector benefits hugely from the European programmes through the procurement processes that project sponsors go through? We cannot force the private sector to be project sponsors.

Diolch yn fawr iawn, Mohammad Asghar. Oni fyddech yn cydnabod bod y sector preifat yn elwa'n fawr yn sgîl y rhaglenni Ewropeaidd drwy'r prosesau caffael y bydd noddwyr prosiectau yn eu dilyn? Ni allwn orfodi'r sector preifat i fod yn noddwyr prosiectau.

15:43

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Jenny, I am afraid to say that the figure is only 1.1%; it is not me saying that, but the figures themselves. It shows that the Labour Government has failed to bring the private sector into it. That is one of the reasons why projects have not been fulfilled, and why the standard of life in Wales had not been brought up to the standard of European people's lives. That is the sad truth. Labour does not know how to run the financial system in the country.

Jenny, mae'n ddrwg gen i ddweud mai dim ond 1.1% yw'r ffigur; nid fi sy'n dweud hynny, ond y ffigurau eu hunain. Mae'n dangos bod y Llywodraeth Lafur wedi methu â dod â'r sector preifat i mewn i bethau. Dyna un o'r rhesymau pam nad yw'r prosiectau wedi cael eu cyflawni, a pham nad yw safon bywyd yng Nghymru yn cyrraedd safon bywyd pobl Ewrop. Dyna'r gwirionedd trist. Nid yw Llafur yn gwybod sut i redeg system ariannol y wlad.

However, the private sector accounts for only 1.1% of project spending and 3.5% of overall projects. This lack of engagement with the private sector has, in my opinion, been a significant factor in the failure to achieve long-term economic benefits from these programmes.

Fodd bynnag, y sector preifat sydd i gyfrif am 1.1% o'r gwariant prosiect, a 3.5% o brosiectau cyffredinol. Yn fy marn i, mae'r diffyg ymgysylltiad hwn â'r sector preifat wedi bod yn ffactor sylweddol yn y methiant i sicrhau manteision economaidd hirdymor o'r rhaglenni hyn.

It is vital therefore that the next round of funding utilises the expertise and experience of the private sector when developing funding schemes. The Welsh Government must as a matter of urgency learn the lessons of these past missed opportunities and develop a strategic and transparent plan for private sector involvement by focusing on business growth, infrastructure investment and skills development. By putting the emphasis on results, we can ensure that EU funding projects are worth while and bring lasting economic benefit for Wales, especially in the poorest regions.

Mae'n hanfodol felly fod y cylch cyllido nesaf yn defnyddio arbenigedd a phrofiad y sector preifat wrth ddatblygu cynlluniau ariannu. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddysgu gwersi ar frys o'r cyfleoedd a gollwyd yn y gorffennol a datblygu cynllun strategol a thryloyw ar gyfer cynnwys y sector preifat drwy ganolbwyntio ar dwf busnes, buddsoddi mewn seilwaith a datblygu sgiliau. Drwy roi pwyslais ar ganlyniadau, gallwn sicrhau bod prosiectau cyllid yr UE yn werth chweil ac yn dod â budd economaidd parhaol i Gymru, yn enwedig yn yr ardaloedd tlotaf.

15:44

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister for Finance to speak on behalf of the Government—Jane Hutt.

Galwaf ar y Gweinidog Cyllid i siarad ar ran y Llywodraeth —Jane Hutt.

15:44 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance*

Senedd.tv
Fideo Video

I welcome the opportunity to contribute to this debate and, in doing so, to underline how important EU funds are to Wales and how vital the UK membership of the EU is to our nation's prosperity. I would like to thank the Constitutional and Legislative Affairs Committee and all the partners involved in the inquiry into the way the Welsh Government pursues Welsh interests in Europe. As a Government, we are pleased with the generally positive and constructive views expressed in the committee's report. We look forward to responding to the recommendations ahead of the Plenary debate on the report later this year. Indeed, this debate provides the opportunity to say that our active participation at UK and EU levels in the development and implementation of EU policies and programmes contributes significantly to the achievement of the goals set out in our programme for government, securing the growth and jobs that Wales needs.

Rwy'n croesawu'r cyfle i gyfrannu at y ddadl hon ac wrth wneud hynny, i danlinellu pa mor bwysig yw arian yr UE i Gymru a pha mor hanfodol yw aelodaeth y DU o'r UE i ffyniant ein cenedl. Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r holl bartneriaid sy'n rhan o'r ymchwiliad i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo buddiannau Cymru yn Ewrop. Fel Llywodraeth, rydym yn falch o'r safbwyntiau cadarnhaol ac adeiladol ar y cyfan a fynegwyd yn adroddiad y pwyllgor. Edrychwn ymlaen at ymateb i'r argymhellion cyn y ddadl ar yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn yn nes ymlaen eleni. Yn wir, mae'r ddadl hon yn rhoi cyfle i ddweud bod ein cyfranogiad gweithgar ar lefel y DU a'r UE yn datblygu a gweithrediad polisïau a rhaglenni'r UE yn cyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r nodau a amlinellir yn ein rhaglen lywodraethu, gan sicrhau'r twf a'r swyddi sydd eu hangen ar Gymru.

The single market—as has been said this afternoon, the world's largest market in GDP terms and our largest single trading partner—has brought enormous benefits to Wales and Welsh businesses since its inception in 1992. More than 500 firms in Wales export more than £5 billion annually to other EU member states and some 150,000 jobs in Wales depend on that trade. Again, it is important that we put these figures on the record. In addition, more than 450 firms from other member states are located in Wales in your constituencies across Wales, providing some 50,000 jobs. Businesses across the globe—including in India, China and the USA—are telling us that access to the single market is absolutely key to their decision to invest in Wales.

Mae'r farchnad sengl—marchnad fwyaf y byd o ran CMC a'n partner masnachu sengl mwyaf fel y dywedwyd y prynhawn yma—wedi dod â manteision enfawr i Gymru a busnesau Cymreig ers ei sefydlu yn 1992. Mae mwy na 500 o gwmnïau yng Nghymru yn allforio gwerth mwy na £5 biliwn yn flynyddol i aelod-wladwriaethau eraill yr UE ac mae tua 150,000 o swyddi yng Nghymru yn ddibynnol ar y fasnach honno. Unwaith eto, mae'n bwysig ein bod yn cofnodi'r ffigurau hyn. Yn ogystal, mae mwy na 450 o gwmnïau o aelod-wladwriaethau eraill wedi'u lleoli yng Nghymru yn eich etholaethau ledled Cymru, gan ddarparu tua 50,000 o swyddi. Mae busnesau ar draws y byd—gan gynnwys India, Tsieina a'r UDA—yn dweud wrthym fod mynediad i'r farchnad sengl yn gwbl allweddol i'w penderfyniad i fuddsoddi yng Nghymru.

In support of Plaid Cymru's amendment 2, we can also turn to the reports issued by the CBI and more recently by City UK, which represents major UK banks and insurance firms. Together, they make clear the very significant risks of an EU exit—a damaging cocktail of higher unemployment and prices and lower household income and economic growth. I believe that the majority of Members here today in this Chamber recognise that UK membership of the EU brings vital investment to Wales through billions of pounds of EU funding, through the structural funds, the common agricultural policy, Horizon 2020, Erasmus and other programmes. Of course, the Enterprise and Business Committee has done a sterling and robust piece of work in assessing the impact of those funds and looking forward to new prospects.

I gefnogi gwelliant 2 Plaid Cymru, gallwn hefyd droi at yr adroddiadau a gyhoeddwyd gan y CBI ac yn fwy diweddar gan City UK, sy'n cynrychioli banciau a chwmnïau yswiriant mawr y DU. Gyda'i gilydd, maent yn dangos yn eglur beth yw'r peryglon sylweddol iawn o dynnu allan o'r UE—cyfuniad niweidiol o ddiweithdra, prisiau uwch, a llai o incwm aelwydydd a thwf economaidd. Credaf fod y rhan fwyaf o'r Aelodau yma heddiw yn y Siambr hon yn cydnabod bod aelodaeth y DU o'r UE yn dod â buddsoddiad hanfodol i Gymru drwy biliynau o bunnoedd o arian yr UE, drwy'r cronfeydd strwythurol, y polisi amaethyddol cyffredin, Horizon 2020, Erasmus a rhaglenni eraill. Wrth gwrs, mae'r Pwyllgor Menter a Busnes wedi gwneud gwaith rhagorol a chadarn yn asesu effaith y cronfeydd hynny ac yn edrych ymlaen at ragolygon newydd.

I am very glad that Byron Davies recognised in his opening remarks how important and what an impact—. It is the outcomes, is it not, of our Jobs Growth Wales programme? So far, it has created more than 12,400 job opportunities, with 9,700 young people filling these jobs. I am sure that when you all meet young people benefitting from Jobs Growth Wales you say, as I do, that it is Welsh Government and European social funding that enables them to be in that position and to have that opportunity.

Rwy'n falch iawn bod Byron Davies wedi cydnabod yn ei sylwadau agoriadol pa mor bwysig a pha effaith—. Dyma ganlyniad ein rhaglen Twf Swyddi Cymru, onide? Hyd yn hyn, mae wedi creu mwy na 12,400 o gyfleoedd gwaith, gyda 9,700 o bobl ifanc yn llenwi'r swyddi hyn. Pan fyddwch chi i gyd yn cwrdd â phobl ifanc sy'n elwa ar Twf Swyddi Cymru, rwy'n siŵr eich bod yn dweud, fel rwy'n ei wneud, mai Llywodraeth Cymru a chyllid cymdeithasol Ewropeaidd sy'n eu galluogi i fod yn y sefyllfa honno ac i gael cyfle o'r fath.

In respect of the structural funds, which have been a key focus of this afternoon's debate, I am pleased that a Wales Audit Office report published last week recognises that our programmes are progressing well and are well managed. Some of the report's headlines include that we have progressed well, made good progress in committing the available funds, and have met all EC expenditure targets; that there are early signs of the impact of the programmes; that project development support and project performance are better managed than under previous programmes; and that our monitoring and evaluation arrangements have been strengthened. Developments on implementing this report's recommendations are already at an advanced stage, and we will formally respond to the report soon. I urge Members to look at that report and to take account of it. Again, this is from the WAO—it is an independent assessment.

O ran y cronfeydd strwythurol a fu'n ffocws allweddol i'r ddadl y prynhawn yma, rwy'n falch bod adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf yn cydnabod bod ein rhaglenni yn gwneud cynnydd da ac yn cael eu rheoli'n dda. Mae rhai o benawdau'r adroddiad yn cynnwys y ffaith ein bod wedi symud ymlaen yn dda, wedi gwneud cynnydd da yn ymrwymo'r arian sydd ar gael, ac wedi cyrraedd holl dargedau gwariant y Comisiwn Ewropeaidd; bod arwyddion cynnar o effaith y rhaglenni; bod cymorth datblygu prosiect a pherfformiad prosiect yn cael eu rheoli'n well nag o dan raglenni blaenorol; a bod ein trefniadau monitro ac arfarnu wedi eu cryfhau. Mae datblygiadau ar weithredu argymhellion yr adroddiad hwn eisoes ar gam datblygedig, a byddwn yn ymateb yn ffurfiol i'r adroddiad cyn bo hir. Anogaf yr Aelodau i edrych ar yr adroddiad a'i ystyried. Unwaith eto, adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru yw hwn—mae'n asesiad annibynnol.

We can also be proud of what projects in Wales are achieving. Last month, I was pleased to announce and to take part in the ceremony when Wales won the prestigious EU RegioStars 2014 award for the BEACON project. This is Aberystwyth, Swansea and Bangor universities working together with businesses and making that impact in research and development and output in terms of business. Wales is the only region in Europe to have winners in these annual awards over four different years. It is important to see the impact of that investment and the outcomes in terms of business and development. It is important, as Jenny Rathbone has said this afternoon, that relative regional GDP per capita should not be the only measure of how well we manage or deliver the structural funds in terms of the impact. This economic indicator has well-known limitations, with Wales's relative performance being influenced by the rate of growth of other EU regions, UK production levels, large out-commuting flows, as has been said, and demographic issues, such as our older population.

Gallwn hefyd fod yn falch o'r hyn y mae prosiectau yng Nghymru yn eu cyflawni. Y mis diwethaf, roeddwn yn falch o gyhoeddi a chymryd rhan yn y seremoni pan enillodd Cymru wobr fawreddog RegioStars yr UE 2014 ar gyfer y prosiect BEACON, sef prifysgolion Aberystwyth, Abertawe a Bangor yn cydweithio gyda busnesau a chael effaith ym maes ymchwil a datblygu a chynnyrch o safbwynt busnes. Cymru yw'r unig ranbarth yn Ewrop i gael enillwyr yn y gwobrau blynyddol hyn dros bedair blynedd wahanol. Mae'n bwysig gweld effaith y buddsoddiad hwnnw a'r canlyniadau o ran busnes a datblygu. Fel y dywedodd Jenny Rathbone y prynhawn yma, nid CMC rhanbarthol cymharol y pen ddylai fod yr unig fesur o ba mor dda rydym yn rheoli neu'n sicrhau'r arian strwythurol o ran yr effaith. Mae cyfyngiadau cyfarwydd yn perthyn i'r dangosydd economaidd hwn, gyda pherfformiad cymharol Cymru yn cael ei effeithio gan gyfradd twf rhanbarthau eraill yr UE, lefelau cynhyrchiant y DU, llawer o bobl yn cymudo allan, fel y dywedwyd, a materion demograffig, fel ein poblogaeth hŷn.

We must measure success at different levels. At programme level, with strong indicators, defined goals and targets, we must look at EU projects under the 2007 to 2013 programmes. They have created, so far, 24,800 jobs and 8,200 businesses. That is a fact. That is what is happening in your constituencies across the whole of Wales. They have also helped 56,300 people into work and 173,000 to gain qualifications. These are not just numbers. These are people, these are jobs, these are businesses, this is the private sector, as well as, indeed, the beneficiaries. We are set to meet or exceed targets agreed with the Commission. So, we must recognise that we are going to build on this progress through the new £2 billion EU structural fund programmes, which we have now formally submitted to the Commission for approval. We did that at the earliest opportunity.

Mae'n rhaid i ni fesur llwyddiant ar wahanol lefelau. Ar lefel rhaglen, gyda dangosyddion cryf a nodau a thargedau diffiniedig, mae'n rhaid i ni edrych ar brosiectau'r UE o dan raglenni 2007-2013. Hyd yn hyn, maent wedi creu 24,800 o swyddi a 8,200 o fusnesau. Mae hynny'n ffaith. Dyna beth sy'n digwydd yn eich etholaethau ar draws Cymru gyfan. Maent hefyd wedi helpu 56,300 o bobl i mewn i waith a 173,000 i ennill cymwysterau. Nid rhifau'n unig yw'r rhain. Pobl yw'r rhain, swyddi yw'r rhain, busnesau yw'r rhain, dyma'r sector preifat, a'r buddiolwyr hefyd yn wir. Rydym ar y ffordd i gyrraedd neu ragori ar dargedau y cytunwyd arnynt gyda'r Comisiwn. Felly, rhaid inni gydnabod ein bod yn mynd i adeiladu ar y cynnydd hwn drwy'r rhaglenni newydd gwerth £2 biliwn o gronfa strwythurol yr UE a gyflwynwyd gennym yn ffurfiol bellach i'r Comisiwn eu cymeradwyo. Gwnaethom hynny ar y cyfle cyntaf.

15:51

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very grateful to the Minister for taking an intervention. Given what you have achieved with the relatively small investment in the private sector—in total, 1.1% investment—will you commit, in this round, to putting 50% of the funds in the private sector and seeing how you can grow it from there?

Diolch yn fawr iawn i'r Gweinidog am dderbyn ymyriad. O ystyried yr hyn rydych wedi'i gyflawni gyda buddsoddiad cymharol fach yn y sector preifat—buddsoddiad o 1.1% i gyd—a wnewch chi ymrwymo, yn y cylch hwn, i roi 50% o'r arian yn y sector preifat a gweld sut y gallwch ei dyfu?

15:51 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I think that the private sector would be very disappointed and disheartened by the very negative approach—in terms of its engagement and the way that it has benefitted from the structural funds—that has come forward, unfortunately, from some of the Welsh Conservative speakers today. It is very clear in terms of the private sector and the businesses that I talk to that not only their full engagement in terms of being beneficiaries, but their engagement in terms of the planning for the next round of structural funds, is key to them.

Wel, credaf y byddai'r sector preifat yn siomedig ac yn ddigalon iawn wrth weld agwedd mor negyddol—o ran ei ymgysylltiad a'r ffordd y mae wedi elwa o'r cronfeydd strwythurol—a gyflwynwyd, yn anffodus, gan rai o siaradwyr Ceidwadwyr Cymru heddiw. Mae'n amlwg iawn o ran y sector preifat a'r busnesau y siaradaf â hwy fod nid yn unig eu hymgysylltiad llawn o ran bod yn fuddiolwyr, ond hefyd eu hymwneud o ran cynllunio ar gyfer y cylch nesaf o gronfeydd strwythurol yn allweddol iddynt.

We will build on the success and the progress in the next round. Our programmes include investment proposals that we have developed in partnership over the last two years. We have had advanced, intensive and positive discussions in Europe and ongoing engagement with our Welsh partners on project planning. So, we will be able to kick-start the delivery of our programmes to provide further investment for people, communities and businesses across Wales.

Byddwn yn adeiladu ar y llwyddiant a'r cynnydd yn y cylch nesaf. Mae ein rhaglenni'n cynnwys cynigion buddsoddi rydym wedi'u datblygu mewn partneriaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Rydym wedi cael trafodaethau datblygedig, dwys a chadarnhaol yn Ewrop ac ymwneud parhaus â'n partneriaid Cymreig ar gynllunio prosiectau. Felly, byddwn yn gallu rhoi cychwyn ar gyflwyno ein rhaglenni er mwyn buddsoddi ymhellach ar gyfer pobl, cymunedau a busnesau ledled Cymru.

I support Plaid Cymru's amendment 3 on the important role of the Committee of the Regions. The Welsh Government is strongly committed to the European Union and to increasing its influence, including through a more effective Committee of the Regions, and being part of it, enabling us to have a greater voice in the EU institutions. I pay tribute to those Members—Mick Antoniw and Rhodri Glyn Thomas currently—who have recently played so important a part in the Committee of the Regions.

Rwy'n cefnogi gwelliant 3 Plaid Cymru ar rôl bwysig Pwyllgor y Rhanbarthau. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n gadarn i'r Undeb Ewropeaidd ac i gynyddu ei dylanwad, gan gynnwys drwy Bwyllgor Rhanbarthau mwy effeithiol, ac mae bod yn rhan ohono'n ein galluogi i gael mwy o lais yn sefydliadau'r UE. Rwy'n talu teyrnged i'r Aelodau hynny—Mick Antoniw a Rhodri Glyn Thomas ar hyn o bryd—sydd wedi chwarae rhan mor bwysig ym Mhwyllgor y Rhanbarthau yn ddiweddar.

In conclusion, Llywydd, I will be asking the Assembly to oppose the original motion while supporting all three amendments. I have to say that it is hard to dignify some of the contributions made by the Welsh Conservatives this afternoon. Why did Byron Davies join me at the event with Commissioner Andor alongside Jill Evans MEP and Kay Swinburne MEP and not recognise that it was Derek Vaughan MEP who secured that £2 billion for the next structural funds round?

I gloi, Lywydd, byddaf yn gofyn i'r Cynulliad wrthwynebu'r cynnig gwreiddiol a chefnogi pob un o'r tri gwelliant. Mae'n rhaid i mi ddweud ei bod yn anodd dirnad rhai o'r cyfraniadau a wnaed gan y Ceidwadwyr Cymreig y prynhawn yma. Sut y gallodd Byron Davies ymuno â mi yn y digwyddiad gyda'r Comisiynydd Andor ochr yn ochr â Jill Evans ASE a Kay Swinburne ASE a pheidio â chydnabod mai Derek Vaughan ASE a sicrhaodd £2 biliwn ar gyfer y cylch nesaf o gronfeydd strwythurol?

Let us support the Welsh Liberal Democrats' amendment by concluding together that Wales's proactive and positive engagement in Europe, the UK membership of the EU and EU funds, are vital to our prosperity and security.

Gadewch i ni gefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol Cymreig drwy gytuno fod ymwneud rhagweithiol a chadarnhaol Cymru yn Ewrop, aelodaeth y DU o'r UE ac arian yr UE, yn hanfodol i'n ffyniant a'n diogelwch.

15:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Nick Ramsay to reply to the debate.

Galwaf ar Nick Ramsay i ymateb i'r ddadl.

15:54 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that Byron Davies, my colleague, regrets very fully the fact that Derek Vaughan had to seek that £2 billion funding and that the Welsh Labour Government is constantly relying on it over and over again, because of its inability to spend the money that it got from Brussels over the last 15 years effectively enough to make sure that the Welsh economy is sustainable.

Credaf fod Byron Davies, fy nghydweithiwr, yn gresynu'n fawr fod Derek Vaughan wedi gorfod ceisio am y cyllid o £2 biliwn a bod Llywodraeth Lafur Cymru yn dibynnu'n gyson arno, drosodd a throsodd, oherwydd ei hanallu i wario'r arian a gafodd gan Frwsel dros y 15 mlynedd diwethaf yn ddigon effeithiol i wneud yn siŵr bod economi Cymru yn gynaliadwy.

However, I will start, if I may, by welcoming the work of the Constitutional and Legislative Affairs Committee mentioned by other Members in this vital area of EU decision making, and also make a general point that Assembly committees have done a pretty good job in participating in this process over the years. I am reminded of my time on the Enterprise and Business Committee when, throughout very many evidence sessions with European officials—many via the dreaded video link, which would often cause problems—and throughout our work on EU funding 2014 to 2020 and, indeed, on schemes such as Horizon 2020, the committees were complimented on the way that we engaged with Brussels, compared with other organisations. That is the work of the committees; let us hope that the Welsh Government can follow suit.

Fodd bynnag, rwyf am ddechrau, os caf, drwy groesawu gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a grybwyllwyd gan Aelodau eraill ym maes hanfodol penderfyniadau'r UE, a gwneud y pwynt cyffredinol hefyd fod pwyllgorau'r Cynulliad wedi gwneud gwaith go dda yn cymryd rhan yn y broses hon dros y blynyddoedd. Caf fy atgoffa o fy amser ar y Pwyllgor Menter a Busnes a'r holl sesiynau tystiolaeth gyda swyddogion Ewropeaidd—lawer ohonynt drwy'r cyswllt fideo bondigrybwyll a fyddai'n aml yn achosi problemau—a thrwy gydol ein gwaith ar gyllid yr UE 2014-2020 ac ar gynlluniau megis Horizon 2020, pan ganmolwyd y pwyllgorau am y ffordd y byddem yn ymwneud â Brwsel o gymharu â sefydliadau eraill. Dyna waith y pwyllgorau; gadewch inni obeithio y gall Llywodraeth Cymru ddilyn eu hesiampl.

If I may refer to some of the statements made by Members earlier in this debate, Byron Davies, in opening, referred to the need for a team Wales approach. He also spoke about the hard work of Kay Swinburne MEP in this area. That is as party political as I will get—do not worry, Presiding Officer. The private sector accounts for just 1% of all that funding that we received from Brussels. That point was made by Byron Davies and by other Members here this afternoon. You mentioned the Williams commission, Byron, which does not seek to merge areas that are currently receiving European funding, which must suggest that the Welsh Government fully intends that those areas will continue to receive that European funding, that competitive funding and that structural funding, for a significant amount of time to come.

Os caf fi gyfeirio at rai o'r datganiadau a wnaed gan Aelodau yn gynharach yn y ddadl hon, cyfeiriodd Byron Davies wrth agor at yr angen am ymagwedd 'tîm Cymru'. Soniodd hefyd am waith caled Kay Swinburne ASE yn y maes hwn. Dyna'r unig beth rwyf am ei ddweud sy'n ymylu ar fod yn wleidyddiaeth plaid—peidiwch â phoeni, Lywydd. Y sector preifat sydd i gyfrif am 1% yn unig o'r holl arian a gawsom o Frwsel. Gwnaed y pwynt gan Byron Davies a chan Aelodau eraill yma y prynhawn yma. Sonioch am Gomisiwn Williams, Byron, nad yw'n ceisio uno ardaloedd sydd ar hyn o bryd yn derbyn cyllid Ewropeaidd, sydd o reidrwydd yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn llwyr fwriadu i'r ardaloedd hynny barhau i dderbyn cyllid Ewropeaidd, cyllid cystadleuol a chyllid strwythurol o'r fath am gyfnod sylweddol o amser i ddod.

Eluned Parrott spoke passionately about the role of the European Union and international organisations in general. It was very timely in this year of the hundredth anniversary of the start of the great war. Yes, NATO, the western European Union, the United Nations and other organisations have played their part in securing peace over that time and since, indeed, the second world war. All of these have their part to play, but so has the European Union in its different guises, and there is certainly support for the role of organisations like the European Union across the Chamber, and I know that Rhodri Glyn mentioned that in his comments.

Siaradodd Eluned Parrott yn angerddol am rôl yr Undeb Ewropeaidd a sefydliadau rhyngwladol yn gyffredinol. Roedd yn amserol iawn eleni a hithau'n ganmlwyddiant dechrau'r rhyfel mawr. Do, chwaraeodd NATO, gorllewin yr Undeb Ewropeaidd, y Cenhedloedd Unedig a sefydliadau eraill oll eu rhan yn sicrhau heddwch dros y cyfnod hwnnw ac ers yr ail ryfel byd, yn wir. Mae gan y rhain i gyd eu rhan i'w chwarae, ond felly hefyd yr Undeb Ewropeaidd yn ei gwahanol ffurfiau. Yn sicr, ceir cefnogaeth i rôl sefydliadau fel yr Undeb Ewropeaidd ar draws y Siambr, a gwn fod Rhodri Glyn wedi crybwyll hynny yn ei sylwadau.

Rhodri Glyn, you did not allow me to intervene. To be fair to you, you did say that you would take my intervention in the last three seconds of your contribution, which was a little bit naughty of you. So, I did not have time to get up, but what I was going to say was that you fully agreed with Eluned Parrott's comments and so I assume that you also agree that the United Kingdom is a very effective partnership of nations and should not be weakened.

Rhodri Glyn, ni adawsoch i mi ymyrryd. I fod yn deg â chi, gwnaethoch ddweud y byddech yn cymryd fy ymyriad yn nhair eiliad olaf eich cyfraniad, oedd braidd yn ddigywilydd ar eich rhan. Felly, ni chefais amser i godi, ond yr hyn roeddwn yn mynd i'w ddweud oedd eich bod wedi cytuno'n llwyr â sylwadau Eluned Parrott, felly rwy'n cymryd yn ganiataol eich bod hefyd yn cytuno bod y Deyrnas Unedig yn bartneriaeth effeithiol iawn o genhedloedd ac na ddylid ei gwanhau.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:57.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:57.*

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

If you agree that the European Union is an effective partnership of nations, then you cannot say that the United Kingdom has not been the same either. I do find it ironic that so many Members—

Os ydych yn cytuno bod yr Undeb Ewropeaidd yn bartneriaeth effeithiol o genhedloedd, yna ni allwch ddweud nad yw'r Deyrnas Unedig wedi bod yr un fath. Mae'n eironig fod cynifer o Aelodau—

*Rhodri Glyn Thomas a gododd—*

*Rhodri Glyn Thomas rose—*

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

I will give you time right at the end of my contribution, Rhodri Glyn. I jest—I will give you time now. I do find it ironic that Members who want to support nations working together in forms such as the European Union and, indeed, the common market before then, want to blow the United Kingdom to pieces. I give way to Rhodri Glyn.

Byddaf yn rhoi amser i chi'n syth ar ôl fy nghyfraniad, Rhodri Glyn. Rwy'n cellwair—rhoddaf amser i chi nawr. Mae'n eironig fod Aelodau sydd am gefnogi cydweithio rhwng gwledydd er enghraifft drwy'r Undeb Ewropeaidd, a'r farchnad gyffredin cyn hynny'n wir, yn awyddus i chwalu'r Deyrnas Unedig yn ddarnau. Ildiaf i Rhodri Glyn.

15:57

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

What you fail to understand, Nick, of course, is that the European Union is made up of nations and regions throughout Europe. Wales, as a small nation within Europe, wants to play its full part within the European Union. It also wants to have parity within the United Kingdom and to ensure that we have a Government in Wales that is able to support the economy and the people of Wales.

Wrth gwrs, yr hyn rydych yn methu â deall, Nick, yw bod yr Undeb Ewropeaidd wedi'i chreu o wledydd a rhanbarthau ledled Ewrop. Mae Cymru, fel cenedl fach o fewn Ewrop, yn awyddus i chwarae ei rhan lawn o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Mae hefyd yn awyddus i gael cydraddoldeb o fewn y Deyrnas Unedig a sicrhau bod gennym Lywodraeth yng Nghymru sy'n gallu cefnogi economi a phobl Cymru.

15:58

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As usual, you speak sense, Rhodri Glyn Thomas, and, of course, we also want to play our full part within the United Kingdom, which you did not make clear earlier, but you have now, thank you.

Rydych yn siarad synnwyr fel arfer Rhodri Glyn Thomas, ac wrth gwrs, rydym hefyd yn awyddus i chwarae ein rhan yn llawn o fewn y Deyrnas Unedig, rhywbeth na wnaethoch yn glir yn gynharach, ond rydych chi wedi gwneud hynny nawr, diolch i chi.

Jenny Rathbone sought to justify the poor GVA figures. It is another Wednesday, it is another Conservative European debate and it is another attempt by the Welsh Government to defend these appalling GVA figures. It does not like GVA, does it? However, Jenny Rathbone did make an attempt to support those GVA figures by referring to the issue of commuting. Of course, commuting is a fact of life and must be factored into any assessment of the economic situation that we are in, but I really do not think that you can blame the inability to spend £4 billion over a significant number of years on the fact that people commute from one part of Wales to another. We are not a huge country, so I do not think, Jenny, that that made sense.

Ceisiodd Jenny Rathbone gyfiawnhau'r ffigurau Gwerth Ychwanegol Crynswth gwael. Mae'n ddydd Mercher arall, mae'n ddadl Ewropeaidd arall gan y Ceidwadwyr ac mae'n ymgais arall gan Lywodraeth Cymru i amddiffyn y ffigurau GYC trychinebus hyn. Nid yw'r Llywodraeth yn hoffi GYC, nac ydi? Fodd bynnag, gwnaeth Jenny Rathbone ymdrech i gefnogi'r ffigurau GYC hynny drwy gyfeirio at fater cymudo. Wrth gwrs, mae cymudo yn un o ffeithiau bywyd ac mae'n rhaid ei gynnwys mewn unrhyw asesiad o'r sefyllfa economaidd rydym ynddi, ond wir, nid wyf yn credu y gallwch chi feio'r anallu i wario £4 biliwn dros nifer sylweddol o flynyddoedd ar y ffaith fod pobl yn cymudo o un rhan o Gymru i'r llall. Nid ydym yn wlad anferth, felly nid wyf yn credu, Jenny, fod hynny'n gwneud synnwyr.

15:59

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

15:59

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In one moment. I did, however, agree with you completely when you mentioned Gordon Brown and how he did not take Britain into the euro. I agree completely. It is a good thing that we did not go into European monetary union—we had that option thanks to John Major's opt-out in the 1990s—because we would be in an even worse financial mess than we are in now had the last Labour Government cemented its problems by taking us into the euro.

Mewn eiliad. Fodd bynnag, roeddwn yn cytuno'n llwyr â chi pan sonioch am Gordon Brown a'r ffaith na adawodd i Brydain ymuno â'r ewro. Cytunaf yn llwyr. Mae'n beth da nad aethom yn rhan o undeb ariannol Ewrop—cawsom y dewis hwnnw, diolch i'r ffaith fod John Major wedi optio allan yn y 1990au—oherwydd byddem mewn llanast ariannol hyd yn oed yn waeth na nawr pe bai'r Llywodraeth Lafur ddiwethaf wedi smentio'i phroblemau drwy adael i ni ymuno â'r ewro.

15:59 **Jenny Rathbone** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am not saying that it is not an indicator; it is an indicator, and it is the primary indicator that the European Union uses, so we have to accept that that is one of the ways that we are going to get measured, but we also have to be realistic about whether or not we are going to be able to achieve getting out of being 75% by 2020. I, more than anybody, want to do that; it is just that we have to be grounded as to whether that is actually achievable.

Nid wyf yn dweud nad yw'n ddangosydd; mae'n ddangosydd, a dyma'r prif ddangosydd y mae'r Undeb Ewropeaidd yn ei ddefnyddio, felly mae'n rhaid i ni dderbyn mai dyma un o'r ffyrdd y cawn ein mesur, ond rhaid inni hefyd fod yn realistig ynglŷn ag a allwn ni ddod allan o fod yn 75% erbyn 2020 ai peidio. Rwyf i eisiau gwneud hynny'n fwy na neb; ond mae'n rhaid inni fod yn gadarn ynglŷn â pha mor gyraeddadwy yw hynny mewn gwirionedd.

16:00 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

You put that very sensibly. I am sure that we will have this discussion over many weeks and months to come.

Rydych chi wedi rhoi'r peth yn synhwyrol iawn. Rwy'n siŵr y byddwn yn cael y drafodaeth hon dros nifer o wythnosau a misoedd i ddod.

I will just turn to Antoinette Sandbach's comments. I completely agree with Antoinette that the Welsh Conservatives are the only party committed to giving people a chance to have their say on the future of our membership of the European Union. Many younger people have never had that say. What is wrong with saying to the people of this country that there are positive arguments for being part of the European Union? Also, what is wrong with saying that we want to negotiate and get the best deal that we possibly can? You may well say that the glass is half full for the Welsh Conservatives, but I am proud that I am part of a party that does actually want to give people a say. I do not think that we should be shying away from having these discussions. I am also proud that we want to make sure that we get the best deal from Europe all round, without rolling over and accepting everything that comes across the water from Brussels.

Rwyf am droi at sylwadau Antoinette Sandbach. Rwy'n cytuno'n llwyr ag Antoinette mai'r Ceidwadwyr Cymreig yw'r unig blaid sydd wedi ymrwymo i roi cyfle i bobl leisio'u barn ar ddyfodol ein haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Mae llawer o bobl iau nad ydynt wedi cael cyfle i fynegi eu barn. Beth sydd o'i le ar ddweud wrth bobl y wlad fod dadleuon cadarnhaol dros fod yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd? Hefyd, beth sydd o'i le ar ddweud ein bod am drafod a chael y fargen orau y gallwn ei chael? Efallai y byddwch yn dweud fod y gwydr yn hanner llawn i'r Ceidwadwyr Cymreig, ond rwy'n falch fy mod yn rhan o blaid sydd am roi llais i bobl mewn gwirionedd. Nid wyf yn credu y dylem ochel rhag y trafodaethau hyn. Rwyf hefyd yn falch ein bod eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn cael y fargen orau o Ewrop i bawb, heb blygu pen a derbyn popeth sy'n dod ar draws y dŵr o Frwsel.

I will just turn very briefly to Mick Antoniw. You mentioned receiving funding from the EU. Yes, as I have said, you have said that over and over again. You also said mentioned my party and our plans for a referendum. It was not the Welsh Conservatives that wanted to withdraw from the European Union in the 1980s, was it? It was not the Welsh Conservatives that wrote the longest suicide note in history, which I am sure that you want to forget. Back in the 1980s you did, when my party was building the foundations—

Rwyf am droi at Mick Antoniw yn fyr iawn. Sonioch am dderbyn cyllid gan yr UE. Do, fel rwy'n dweud, rydych wedi dweud hynny drosodd a throsodd. Rydych chi wedi sôn hefyd am fy mhlaid a'n cynlluniau ar gyfer refferendwm. Nid y Ceidwadwyr Cymreig oedd eisiau tynnu'n ôl o'r Undeb Ewropeaidd yn y 1980au, nage? Nid y Ceidwadwyr Cymreig a ysgrifennodd y nodyn hunanladdiad hwyaf mewn hanes, y byddai'n well gennych ei anghofio, rwy'n siŵr. Yn ôl yn y 1980au, pan oedd fy mhlaid yn adeiladu sylfeini—

*Mick Antoniw a gododd—*

*Mick Antoniw rose—*

16:01 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I do not have time. We were building the foundations upon which this country's economy is now based. Unfortunately, people in your party were not doing that. I know that Alun Davies is grinning because he was not part of it at the time.

Nid oes gennyf amser. Roeddem yn adeiladu'r sylfeini y mae economi'r wlad hon yn seiliedig arnynt nawr. Yn anffodus, nid oedd y bobl yn eich plaid yn gwneud hynny. Gwn fod Alun Davies yn gwenu am nad oedd yn rhan ohoni ar y pryd.

I think that we have had a very positive debate this afternoon. We want to get the best EU deal possible. We want to give people their chance, and we are more than happy to work with the Minister for Finance to make sure that Wales does get that best deal possible. Please take on the recommendations of the Constitutional and Legislative Affairs Committee; they are very good recommendations. Let us not squander the next set of European funding in the same way that too much money has been squandered from Europe over the past 15 years. [Assembly Members: 'Hear, hear'.]

Credaf ein bod wedi cael dadl gadarnhaol iawn y prynhawn yma. Rydym yn awyddus i gael y fargen orau bosibl o'r UE. Rydym am roi cyfle i bobl, ac rydym yn fwy na hapus i weithio gyda'r Gweinidog Cyllid i wneud yn siŵr fod Cymru yn cael y fargen orau bosibl. Rwy'n gofyn i chi ystyried argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol; maent yn argymhellion da iawn. Gadewch inni beidio â gwastraffu'r cylch nesaf o arian Ewropeaidd yn yr un modd ag y gwastraffwyd gormod o arian o Ewrop dros y 15 mlynedd diwethaf. [Aelodau'r Cynulliad: 'Clywch, clywch'.]

16:02

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? As there is objection I defer all voting under this item to voting time.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gan fod gwrthwynebiad, gohiriaf yr holl bleidleisio o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Tafarnau

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Elin Jones, a gwelliannau 3 a 4 yn enw Aled Roberts.*

## Welsh Conservatives Debate: Public Houses

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Elin Jones, and amendments 3 and 4 in the name of Aled Roberts.*

16:02

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Janet Finch-Saunders i gynnig y cynnig.

I call on Janet Finch-Saunders to move the motion.

Cynnig NDM5494 Paul Davies

Motion NDM5494 Paul Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi'r effaith economaidd a chymdeithasol gadarnhaol y mae'r dafarn yn ei chael ar gymunedau lleol.

1. Notes the positive economic and social impact the pub has on local communities.

2. Yn nodi ymhellach y gwaith nodedig sy'n cael ei wneud gan gynlluniau fel Pub is The Hub, ledled Cymru a Lloegr, o ran sicrhau y gall tafarnau ganolbwyntio mwy ar y gymuned.

2. Further notes the impressive work being done by schemes such as Pub is The Hub, across Wales and England, in ensuring pubs can become more community focused.

3. Yn cydnabod bod yr astudiaethau achos gan grwpiau ymgyrchu, fel Pub is The Hub a'r Campaign for Real Ale, yn astudiaethau pwysig i ddysgu ohonynt.

3. Recognises the case studies by campaign groups, such as Pub is The Hub and the Campaign for Real Ale, as important studies to learn from.

4. Yn gresynu bod ystadegau diweddar y Campaign for Real Ale yn awgrymu bod tair tafarn yr wythnos yn cau yng Nghymru.

4. Regrets the recent Campaign for Real Ale statistics that suggest three pubs are closing a week in Wales.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n fwy effeithiol gyda'r diwydiant tafarnau yng Nghymru i sicrhau llwyddiant parhaus tafarnau Cymru.

5. Calls on the Welsh Government to work more effectively with the pub industry in Wales to ensure the continued success of Welsh pubs.

16:02

### Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

Today's debate is about supporting your local pub. It is about noting the positive, economic and social impact that the pub has on our own local communities. It is about recognising the impressive work done by schemes such as the Pub is The Hub and the Campaign for Real Ale, and their important studies that we can learn from, while acknowledging that, sadly, three pubs a week are closing in Wales currently. It is about us calling on the Welsh Government to support and work more effectively with our pub industry in Wales to ensure their future sustainability and success.

Mae dadl heddiw'n ymwneud â chefnogi eich tafarn leol. Mae'n ymwneud â nodi effaith gadarnhaol, economaidd a chymdeithasol y dafarn ar ein cymunedau lleol. Mae'n ymwneud â chydnabod y gwaith trawiadol a wneir gan gynlluniau fel Pub is The Hub a'r Ymgyrch dros Gwrw Go Iawn, a'u hastudiaethau pwysig y gallwn ddysgu oddi wrthynt, tra'n cydnabod bod tair tafarn yr wythnos yn cau yng Nghymru ar hyn o bryd, yn anffodus. Mae'n ymwneud â galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi a gweithio'n fwy effeithiol gyda'n diwydiant tafarnau yng Nghymru i sicrhau eu cynaliadwyedd a'u llwyddiant yn y dyfodol.

I would also like to highlight the immense success of the community right to bid, which again supports those within our communities fighting to save their very own pub and hub. We do call on the Welsh Government to end its opposition to the right to bid in order to sustain our local pubs. The right covers private as well as public assets: the village shop, community centre, children's centre, allotment, library, cinema, recreation ground and the pub. Local authorities are required to keep a list of all of these assets of community value. If an owner of a listed asset wants to sell it, they have to notify the local authority and, in turn, they have to notify any interested party. The community right to bid came into effect on 21 September 2012, and over 3,500 people have used the right to date.

Hoffwn dynnu sylw hefyd at lwyddiant aruthrol hawl y gymuned i wneud cais, sydd unwaith eto'n cefnogi'r rhai o fewn ein cymunedau sy'n ymladd i achub eu tafarn a'u canolfan eu hunain. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi terfyn ar ei gwrthwynebiad i'r hawl i wneud cais er mwyn cynnal ein tafarndai lleol. Mae'r hawl yn cynnwys asedau preifat yn ogystal ag asedau cyhoeddus: siop y pentref, canolfan gymunedol, canolfan blant, rhandiroedd, llyfrgell, sinema, tir hamdden a'r dafarn. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gadw rhestr o bob un o'r asedau hyn sydd o werth cymunedol. Os yw perchennog ased a restrir yn awyddus i werthu, rhaid iddynt roi gwybod i'r awdurdod lleol ac yn eu tro, rhaid iddynt hysbysu unrhyw barti sydd â diddordeb. Daeth hawl y gymuned i wneud cais i rym ar 21 Medi 2012, ac mae dros 3,500 o bobl wedi defnyddio'r hawl hyd yn hyn.

With its List your Local campaign, CAMRA—the Campaign for Real Ale—has set a challenge of getting 300 pubs listed as assets of community value by the end of the year. Well-run pubs play an invaluable role at the heart of our local communities, often providing a safe, regulated and sociable environment in which people can enjoy a drink responsibly and interact with people from different backgrounds. Despite their popularity pubs are currently under threat as never before. A combination of factors has led to more and more pub owners shutting down pubs and seeking to convert the buildings to other uses. However, there are many examples of communities successfully fighting to save their local pub and winning. CAMRA's own research shows that 84% of people believe that a pub is as essential to community life as a shop or post office. Listing your local as an asset of community value provides communities with the power to stop the clock. Using the right to bid when faced with a pub going up for sale earns valuable time for local people to explore options to save the pub. Brandon Lewis, the Minister for community pubs, announced at the Great British Beer Festival 2013 that 100 pubs have now been listed. If you love your local pub and think that it adds lots of value to your community, you now have the opportunity to give it extra protection from developers and you can list it with the council as an asset for community value—but not in Wales, you cannot. That is across the border in England. The Ivy House pub campaigners were successful in listing the pub and raising the finances to buy the Ivy House for the community. Local people now have shares in the pub. In Scotland, a recent report says that men—but I would hope women, too—now have the perfect excuse to sneak off for a crafty pint with their mates. Research has found that going down the pub can be good for mental health. The study revealed that men drinking with friends in the pub reported positive effects on their mental wellbeing, allowing them to open up and talk about their emotions—traditionally a masculine taboo in Scotland. Sharing a round of drinks also helped them look out for each other and lifted their spirits, according to research in the west of Scotland.

Gyda'i hymgyrch List your Local, mae CAMRA-yr Ymgyrch dros Gwrw Go Iawn—wedi gosod her o gael 300 o dafarndai wedi'u rhestru fel asedau o werth cymunedol erbyn diwedd y flwyddyn. Mae tafarndai sy'n cael eu cadw'n dda yn chwarae rhan amhrisiadwy ynghanol ein cymunedau lleol, sy'n aml iawn yn amgylchedd diogel, cymdeithasol, wedi'i reoli lle gall pobl fwynhau diod yn gyfrifol ac ymwneud â phobl o wahanol gefndiroedd. Er gwaethaf eu poblogrwydd, mae tafarndai dan fygythiad na welwyd ei debyg o'r blaen. Mae cyfuniad o ffactorau wedi peri i berchnogion tafarndai gau mwy a mwy o dafarndai a cheisio addasu'r adeiladau at fathau eraill o ddefnydd. Fodd bynnag, ceir llawer o enghreifftiau o gymunedau'n ymladd yn llwyddiannus i achub eu tafarn leol, ac ennill. Dengys ymchwil CAMRA ei hun fod 84% o bobl yn credu bod tafarn yr un mor hanfodol i fywyd y gymuned â siop neu swyddfa bost. Mae rhestru eich tafarn leol fel ased o werth cymunedol yn rhoi pŵer i gymunedau stopio'r cloc. Mae defnyddio'r hawl i wneud cais pan fo tafarn yn mynd ar werth yn ennill amser gwerthfawr i bobl leol archwilio opsiynau ar gyfer achub y dafarn. Yng Ngŵyl Gwrw Fawr Prydain 2013, cyhoeddodd Brandon Lewis, y Gweinidog dros dafarndai cymunedol, fod 100 o dafarnau bellach wedi'u rhestru. Os ydych yn hoffi eich tafarn leol a'n meddwl ei bod yn ychwanegu llawer o werth i'ch cymuned, dyma eich cyfle nawr i'w gwarchod ymhellach rhag datblygwyr a gallwch ei rhestru gyda'r cyngor fel ased o werth cymunedol—ond yng Nghymru, nid yw'n bosibl gwneud hynny. Ar draws y ffin yn Lloegr y mae hynny'n digwydd. Llwyddodd ymgyrchwyr dros dafarn Ivy House i restru'r dafarn a chodi arian i brynu'r dafarn ar gyfer y gymuned. Bellach, mae gan bobl leol gyfranddaliadau yn y dafarn. Yn yr Alban, mae adroddiad diweddar yn dweud bod dynion—a merched hefyd, gobeithio—ag esgus perffaith bellach i sleifio allan am beint bach gyda'u ffrindiau. Canfu ymchwil fod mynd i'r dafarn yn gallu bod yn llesol i iechyd meddwl. Dangosodd yr astudiaeth fod dynion sy'n yfed gyda ffrindiau yn y dafarn yn sôn am effeithiau cadarnhaol ar eu lles meddyliol, drwy eu galluogi i fod yn fwy agored a siarad am eu hemosiynau—tabŵ gwrywaidd traddodiadol yn yr Alban. Hefyd, roedd rhannu rownd o ddiodydd yn eu helpu i edrych ar ôl ei gilydd a chodi eu hysbryd, yn ôl ymchwil yng ngorllewin yr Alban.

Our motion is about the principle of giving people more power over what happens in their own neighbourhoods—not just about place-making, but about the product, the experience and the socioeconomic benefits of looking before we lose these great institutions. In recent years, we have seen growth in microbreweries across Wales, such as Conwy Brewery, Great Orme Brewery and Monty's Brewery, which I had better mention with my colleague Russell here. That is to name but three of a total of some 60 local breweries that are spawning numerous annual beer festivals, all helping the local economy and all contributing to the 'Vibrant and Viable Places' agenda. The multi-award-winning Albion Ale House in the vibrant historic town of Conwy, where we launched our Support your Local Pub campaign, has had new life breathed into it, with hard-working, enthusiastic owners, supported by three microbreweries, providing a wide variety of unique-tasting and speciality ales. However, the Albion is just one pub locally known as the place to be, the place to meet, the place to chat and the place to drink responsibly.

Mae ein cynnig yn ymwneud â'r egwyddor o roi mwy o bŵer i bobl dros yr hyn sy'n digwydd yn eu cymdogaethau eu hunain—nid o ran creu lle'n unig, ond o ran y cynnyrch, y profiad a'r manteision economaidd-gymdeithasol sy'n deillio o ofalu rhag inni golli'r sefydliadau gwych hyn. Yn y blynyddoedd diwethaf, gwelsom gynnydd yn nifer y microfragdai ledled Cymru, megis Bragdy Conwy, Bragdy'r Gogarth a Bragdy Monty, y mae'n well i mi gyfeirio atynt gan fod fy nghydweithiwr Russell yn bresennol, i enwi dim ond tri o'r cyfanswm o tua 60 o fragdai lleol. Mae'r rhain yn cynnal nifer o wyliau cwrw blynyddol, a phob un yn helpu'r economi leol ac yn cyfrannu at agenda 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid '. Mae Albion Ale House yn nhref hanesyddol fywiog Conwy, lle lansiwyd ein hymgyrch Cefnogwch eich Tafarn Leol, wedi ennill sawl gwobr ac wedi cael ail fywyd gan berchnogion gweithgar a brwd a chefnogaeth tri bragdy, sy'n darparu amrywiaeth fawr o gwrw unigryw ac arbenigol. Fodd bynnag, dim ond un dafarn yw'r Albion sydd ag enw lleol fel y lle i fod, y lle i gyfarfod, y lle i sgwrsio a'r lle i yfed yn gyfrifol.

Sadly, however, we do not have a consistent approach across our local authorities in Wales as to how they support small businesses, and, in particular, our pubs. Business rates are a nightmare. One such example is the rate for a traditional pub in Llandudno, at £22,000. A shop of that size would be considerably less. As Welsh Conservatives, our message is simple: support your local; support your pub. The recent budget, for the second year running, saw a penny off the pint. This measure, by the UK Government, was to help our local pubs and those working in them. Beer duty was cut by 1p.

Yn anffodus, er hynny, nid oes cysondeb yn y modd y mae ein hawdurdodau lleol yng Nghymru yn mynd ati i gefnogi busnesau bach, a'n tafarnau'n benodol. Mae ardrethi busnes yn hunllef. Un enghraifft o'r fath yw'r gyfradd ar gyfer tafarn draddodiadol yn Llandudno, sef £22,000. Byddai siop o'r un faint yn talu gryn dipyn yn llai. Fel Ceidwadwyr Cymreig, mae ein neges yn syml: cefnogwch eich tafarn leol. Am yr ail flwyddyn yn olynol, tynnodd y gyllideb ddiweddar geiniog oddi ar bris peint. Cyflwynwyd hyn gan Lywodraeth y DU i helpu ein tafarndai lleol a'r rhai sy'n gweithio ynddynt. Torrwyd 1g oddi ar y doll gwrw.

16:08 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Can you name me any pub that reduced the price of a pint of beer by 1p following that change?

A allwch enwi unrhyw dafarn a dorrodd 1g oddi ar bris peint o gwrw yn dilyn y newid?

16:08 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

What I know is that this is the second year running, so it is now actually 2p cheaper. The escalator for all alcohol duties has been frozen, and duties on ordinary cider, whisky and other spirits have been frozen. The duty escalator for wine has been frozen. With pubs closing at a rate of 18 every week in Britain as a whole, CAMRA is working harder than ever to support local pubs through these difficult times. Through the community right to bid, there are many examples of communities successfully fighting to save their local pubs, and winning.

Yr hyn rwy'n ei wybod yw mai dyma'r ail flwyddyn yn olynol, felly mae cwrw 2g yn rhatach bellach mewn gwirionedd. Cafodd pob toll gynyddol ar alcohol ei rhewi, ac mae tollau cynyddol ar seidr cyffredin, wisgi a gwirodydd eraill wedi'u rhewi. Rhewyd y doll gynyddol ar win. Gyda thafarndai'n cau ar gyfradd o 18 bob wythnos ym Mhrydain, mae CAMRA yn gweithio'n galetach nag erioed i gefnogi tafarndai lleol yn ystod y cyfnod anodd hwn. Drwy hawl y gymuned i wneud cais, ceir llawer o enghreifftiau o gymunedau'n ymladd yn llwyddiannus i achub eu tafarndai lleol, ac ennill.

Many, but sadly not all, changes of use need planning permission. The planning system often represents the best chance to save a pub from oblivion. If the local planning authority is on your side, this campaigning becomes much easier, so it is said. That needs greater consistency here in Wales. Despite all the threat to pubs, the good news is that, thanks to the UK Government and the community right to bid, there are numerous pubs up and down the UK now thriving, which left would now be private houses or possible heaps of rubble, but for the efforts too of local campaigns. The Welsh Conservatives believe that our pubs are an important part of local life in all communities, protecting jobs. Many pubs are sourcing local Welsh produce and, again, are supporting our Welsh food tourism industry. In August last year, the UK Government announced grants for saving local pubs, and the good news is that many pubs that were threatened with closure have been saved through this and through effective local campaigns. In its eagerness to support those campaigning to save their local pub, CAMRA states:

Mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer llawer o geisiadau newid defnydd, er nad pob un yn anffodus. Yn aml, y system gynllunio yw'r cyfle gorau i achub tafarn rhag diflannu. Os yw'r awdurdod cynllunio lleol o'ch plaid, mae ymgyrchu'n mynd i fod yn llawer haws yn ôl y sôn. Mae angen mwy o gysondeb yma yng Nghymru. Er gwaethaf yr holl fygythiad i dafarndai, y newyddion da, diolch i Lywodraeth y DU a hawl y gymuned i wneud cais, yw bod nifer o dafarndai ar hyd a lled y DU bellach yn ffynnu. Byddai'r rhain, o fod wedi'u gadael fel roeddynt, bellach yn dai preifat neu'n bentyrrau o rwbel o bosibl, oni bai am ymdrechion ymgyrchoedd lleol. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu bod ein tafarndai yn rhan bwysig o fywyd lleol ym mhob cymuned ac yn diogelu swyddi. Mae llawer o dafarndai yn defnyddio cynnyrch lleol Cymru ac unwaith eto, yn cefnogi ein diwydiant twristiaeth bwyd yng Nghymru. Ym mis Awst y llynedd, cyhoeddodd Llywodraeth y DU grantiau ar gyfer achub tafarndai lleol, a'r newyddion da yw bod llawer o dafarnau a oedd dan fygythiad o gau wedi eu hachub drwy hyn a thrwy ymgyrchu lleol effeithiol. Yn ei awydd i gefnogi'r rheini sy'n ymgyrchu i achub eu tafarn leol, dywed CAMRA:

'If a particular pub is under threat in your area you can also contact your local MP and ask them for help'.

'If a particular pub is under threat in your area you can also contact your local MP and ask them for help'.

Well, as Assembly Members, we should have the same ability, and Wales should have the same power in order to protect our pubs. That is why I urge the Minister to look again at the localism agenda that is working so well across the border. Cherry-picking some parts, without analysing the overall benefits is holding Wales back. I strongly urge you to fully recognise the benefits of the community rights agenda and, in particular, the community right to bid. It is about putting back power, putting back choice and putting back the chance for those wanting to do so to save their own local pub and hub.

Wel, fel Aelodau Cynulliad, dylem gael yr un gallu, a dylai Cymru gael yr un grym i warchod ein tafarnau. Dyna pam rwy'n annog y Gweinidog i edrych eto ar agenda lleoliaeth sy'n gweithio mor dda yr ochr draw i'r ffin. Mae dewis a dethol rhai rhannau, heb ddadansoddi'r manteision cyffredinol yn dal Cymru yn ôl. Rwy'n eich annog yn gryf i gydnabod manteision yr agenda hawliau cymunedol yn llawn, a hawl y gymuned i wneud cais yn arbennig. Mae'n ymwneud â rhoi grym, dewis a chyfle yn ôl i'r rhai sydd am achub eu tafarn i wneud hynny, ac achub canolfan leol ar yr un pryd.

16:11

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwyf wedi dethol y pedwar gwelliant i'r cynnig. Galwaf Rhun ap Iorwerth i gynnig gwelliannau 1 a 2, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

I have selected the four amendments to the motion. I call on Rhun ap Iorwerth to move amendments 1 and 2, tabled in the name of Elin Jones.

*Gwelliant 1—Elin Jones*

*Amendment 1—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu cronfa mentrau cymunedol er mwyn i gymunedau allu prynu tafarnau sydd mewn perygl o gau.*

*Calls on the Welsh Government to create a community enterprise fund for community buyouts of pubs facing closure.*

*Gwelliant 2—Elin Jones*

*Amendment 2—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar y posibilrwydd o gefnogi tafarnau cymunedol drwy ddefnyddio pwerau rhyddhad ardrethi busnes.*

*Calls on the Welsh Government to explore the potential of supporting community pubs through the use of business rate relief powers.*

16:11

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Cynigiaf welliannau 1 a 2.

I move amendments 1 and 2.

Diolch i'r Ceidwadwyr am gyflwyno'r cynnig heddiw. Rwy'n falch o gael y cyfle i siarad am fater sy'n agos iawn at fy nghalon, ac nid sôn yn unig am dafarndai ydw i, ond sôn am ddatblygiadau cymunedol—datblygiadau sy'n gallu cadw cymunedau ynghyd pan fo grymoedd economaidd pur, os mynnir, efallai wedi gwneud busnes yn anodd ei gynnal yn fasnachol er mwyn elw.

I thank the Conservatives for introducing this debate today. I am pleased to have the opportunity to talk about a matter that is very close to my heart, and I am not just talking about pubs, but about community developments—developments that can keep communities together when sheer economic forces, if you like, have perhaps made businesses difficult to sustain in order to make a profit on a commercial basis.

Mae'r sector cwrw a thafarndai yn cynhyrchu dros £800 miliwn mewn GVA, ac yn talu dros £0.5 biliwn yn flynyddol mewn cyflogau i ryw 50,000 o weithwyr yng Nghymru. Mae hefyd yn cyfrannu rhyw £1 biliwn at y pwrs cyhoeddus. Mae'n amlwg yn sector pwysig iawn o ran cynhyrchiant, ac fel y mae Plaid Cymru wedi bod yn dadlau ers tro erbyn hyn, cynhyrchiant yw'r sialens bwysicaf i'r Llywodraeth o ran yr economi. Mae'n hollbwysig, felly, ein bod yn sicrhau dyfodol y sector hwn, ac mae'r hyn sydd ym mhwynt 4 yn y cynnig, sef bod tri thafarndy yn cau bob wythnos yng Nghymru, yn beth trist iawn ac yn fater a ddylai ddenu sylw'r Gweinidog ar frys.

The beer and pub sector creates over £800 million in GVA, and pays over £0.5 billion every year in wages to some 50,000 people in Wales. It also contributes some £1 billion to the public purse. It is obviously a very important sector in terms of productivity, and as Plaid Cymru has been saying for a long time by now, productivity is the most important challenge for the Government in terms of the economy. It is vital, therefore, that we ensure the future of this sector, and what is contained within point 4 of the motion, which is that three pubs close every week in Wales, is very sad and is an issue that the Minister should urgently look at.

Mae gwelliannau Plaid Cymru, a gynigiwyd gennyf yn enw Elin Jones, yn canolbwyntio ar sut y gallwn ni helpu'r sector ac, yn benodol, sut y gallwn ni helpu cymunedau i achub eu tafarndai a'u troi, gobeithio, yn fusnesau ffyniannus. Mae enghreifftiau ledled Cymru, a llawer yn eich etholaethau chi, rwy'n siŵr, lle mae cymunedau wedi dod ynghyd i achub eu tafarndai a'u troi'n fusnesau llwyddiannus. Un o'r rhai diweddaraf yw'r Glan Llyn Inn yn Nghlawddnewydd—tafarn 100 mlwydd oed a fu ar gau ers y llynedd. Mae wedi cael ei hadnewyddu erbyn hyn gan y gymuned leol ac y mae yn awr yn fusnes proffidiol ac, wrth gwrs, mae'n dechrau creu swyddi yn yr ardal. Mae hyd yn oed siop y gymuned wedi symud i'r dafarn erbyn hyn. Mae'n ganolbwynt pwysig eto i'r gymuned ac i ysbryd cymunedol. Wrth gwrs, nid yw prosesau fel hyn yn brosesau hawdd iawn. Mae'r broses yn yn yr achos hwn wedi cymryd misoedd lawer o godi arian, wrth reswm, llawer o gyfarfodydd â mudiadau, megis Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r Ganolfan Cydweithredol Cymru, a chafwyd llawer iawn o waith caled gan nifer o bobl weithgar iawn yn eu cymuned. Mae'n gwelliannau ni yn galw am gymorth i'r grwpiau hyn sy'n gweithredu dros eu cymunedau i sicrhau dyfodol i adnoddau a swyddi lleol yn eu cymunedau.

Plaid Cymru's amendments, which I moved in the name of Elin Jones, concentrate on how we can help this sector and, specifically, how we can help communities to save their pubs and turn them, hopefully, into successful businesses. There are examples from across Wales, and many in your constituencies, I am sure, where communities have come together to save their pubs and to turn them into successful businesses. One of the most recent ones is Glan Llyn Inn in Clawddnewydd—a 100-year-old pub that had been closed since last year. It has been renovated by the local community and it is now a profitable business and, of course, it is starting to create jobs in the area. The shop in that community has even moved into the pub by now. It is a very important centre for that community and for community spirit. Of course, these processes are not very easy. The process in this regard took many months of fundraising, which stands to reason, many meetings with organisations, such as the Wales Council for Voluntary Action and the Wales Co-operative Centre, and a lot of hard work put in by many hard-working people in their community. Our amendments call for support for these groups that work on behalf of their communities and want to ensure the future of resources and jobs in their communities.

Rydym yn gofyn yn gyntaf am greu cronfa ar gyfer y math hwn o weithredu i helpu i ariannu prosiectau a fydd yn achub swyddi ac yn achub yr ysbryd cymunedol hwnnw. Byddai cronfa o'r fath yn gwneud y math hwn o lwyddiant yn fwy posibl ledled Cymru ac yn annog cymunedau i ail-greu llwyddiant y Glan Llyn Inn ac enghreifftiau eraill ledled Cymru.

We ask first of all for a fund for this type of action to help to fund projects that will save jobs and that community spirit. Such a fund would make this type of success more possible throughout Wales and would encourage communities to repeat the success of Glan Llyn Inn and other examples from across Wales.

Mae ein hail welliant yn galw am gymorth mwy hirdymor i sicrhau bod tafarndai cymunedol, o gael eu hagor, yn gallu goroesi. Rydym yn galw am gymorth penodol i dafarndai cymunedol gyda'u trethi busnes. Mae Plaid Cymru wedi hen alw am ddatganoli trethi busnes ac, o'r diwedd, mae Llywodraeth San Steffan wedi penderfynu cytuno â ni, felly bydd y cyfle yno inni weithredu. Mae'r posibiliadau i ddiwygio'r system trethi busnes yn eang, a newid eithaf bach, mewn difri, fyddai cynnig cymorth i dafarndai cymunedol.

Our second amendment calls for longer-term support to ensure that community pubs, after being opened, can survive. We are calling for specific support for community pubs with their business rates. Plaid Cymru has long called for the devolution of business rates and, finally, the Westminster Government has decided to agree with us, so the opportunity will be there for us to act. The possibilities for reform of the business rates system are wide-ranging, and it would be quite a small change, to all intents and purposes, to offer support for community pubs.

Fe wnaf i sôn i gloi am bentref sydd wedi colli'r swyddfa bost yn barod. Pentref yw hwn yn fy etholaeth i sydd wedi colli'r post yn barod, dim ond un siop sydd ar ôl yno, ac mae un o'r capeli wedi cael ei werthu hefyd. Rŵan, mae'r dafarn ar werth. Mae'r gymuned yn ystyried beth y gall ei wneud i'w hachub ac fe wnaf i chwarae pa bynnag ran fach y gallaf i'w helpu. Rwyf am ei gwneud yn glir nad wyf yn cynnig fy nghymorth oherwydd enw'r dafarn: enw'r dafarn ym Mryngwran yw'r Iorwerth Arms. Dylai fod gan bawb ohonom ddiddordeb mewn helpu cefnogwyr yr Iorwerth Arms, fel llu o dafarndai cymunedol eraill. Mae gennym gyfle yn y fan hon, ac mae gan y Llywodraeth gyfle i ddangos bod rhoi'r cymorth hwnnw yn flaenoriaeth.

I will conclude by referring to a village that has lost its post office already. This is a village in my constituency that has already lost its post office, only one shop remains, and one of the chapels has been sold. Now, the pub is for sale. The community is considering what it can do to save the pub, and I will play whatever small part I can to help it. I want to make it clear that I am not offering my support because of the pub's name: the pub in Bryngwran is called the Iorwerth Arms. All of us should have an interest in helping the supporters of the Iorwerth Arms, just as we should in the case of many other community pubs. We have an opportunity here, and the Government has an opportunity to show that giving this support is a priority.

16:16

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar William Powell i gynnig gwelliannau 3 a 4, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

I call on William Powell to move amendments 3 and 4, tabled in the name of Aled Roberts.

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Amendment 3—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i newid y system gynllunio fel na ellir dymchwel yr un tafarn neu newid ei ddefnydd heb gael caniatâd cynllunio.*

*Calls on the Welsh Government to change the planning system so that no pub can be demolished or undergo a change of use without planning permission.*

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i greu dosbarth defnydd ar wahân ar gyfer tafarnau cymunedol.*

*Calls on the Welsh Government to create a separate use class for community pubs.*

16:16

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr. I am very pleased to have the opportunity to take part in this important debate today. I am grateful to the Welsh Conservative group for bringing it forward. I rise also to move formally amendments 3 and 4 in the name of Aled Roberts.

Diolch yn fawr. Rwy'n falch iawn o'r cyfle i gymryd rhan yn y ddadl bwysig hon heddiw. Diolch i grŵp y Ceidwadwyr Cymreig am ei chyflwyno. Rwy'n codi hefyd i gynnig gwelliannau 3 a 4 yn ffurfiol yn enw Aled Roberts.

In rural areas especially, the local pub is an important social centre and a meeting point for residents in villages across Wales. Community-owned pubs in particular have the potential to become far more than this, however, developing into a genuine central hub, offering a range of activities and services, particularly as other shops and enterprises—post offices and other facilities—are withdrawn from the community. Rather than simply drinking establishments, they can become community centres, offering a whole range of services, including, of course, accommodation—as we have seen in some cases—for playgroups and a whole range of other organisations, including the Women's Institute. Presently, it is the case that they are entirely at the mercy of the landlord or owner, who decides, usually on a purely financial basis, whether to close the doors on that particular business. While this is entirely their right, I believe that when this pub is the only one left in a particular community, that community is entitled to have its say on the future of that precious asset.

Mewn ardaloedd gwledig yn arbennig, mae'r dafarn leol yn ganolfan gymdeithasol bwysig ac yn fan cyfarfod ar gyfer trigolion mewn pentrefi ledled Cymru. Mae gan dafarndai sy'n eiddo i'r gymuned, yn enwedig, botensial i fod yn llawer mwy na hyn fodd bynnag, a datblygu i fod yn ganolbwynt canolog go iawn, gan gynnig ystod o weithgareddau a gwasanaethau, yn enwedig wrth i gymunedau golli siopau a mentrau eraill—swyddfeydd post a chyfleusterau eraill. Yn hytrach na bod yn ddim ond mannau yfed, gallant ddod yn ganolfannau cymunedol, a chynnig amrywiaeth eang o wasanaethau, gan gynnwys bod yn lleoliad, fel y gwelsom mewn rhai enghreifftiau, ar gyfer grwpiau chwarae ac ystod eang o sefydliadau eraill, megis Sefydliad y Merched. Ar hyn o bryd, mae'n wir eu bod yn llwyr ar drugaredd y landlord neu'r perchennog, sy'n penderfynu, ar sail ariannol yn unig fel arfer, a ddylid cau'r drws ar y busnes dan sylw. Er bod perffaith hawl ganddynt i wneud hyn, os mai'r dafarn honno yw'r unig un ar ôl mewn cymuned benodol, rwyf o'r farn bod gan y gymuned hawl i fynegi barn ar ddyfodol ased gwerthfawr o'r fath.

Currently, community clubs are classed along with other drinking establishments as category A4. While planning permission is required for a change of use to, for example, a block of flats or for other residential purposes, there remains a whole range of changes that can be made without having to seek planning permission. For example, a pub can be converted into a shop, a hairdressing establishment, a dry cleaners, a bank, or even, in certain circumstances, an undertakers, without requiring specific planning permission. While all of these uses are valid and play an important part in community life, it should surely be for the community to have a greater direct say in what happens in their own locality.

Ar hyn o bryd, caiff clybiau cymunedol eu dosbarthu gyda sefydliadau yfed eraill fel rhai categori A4. Er bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd bloc o fflatiau, er enghraifft, neu at ddibenion preswyl eraill, mae ystod eang o newidiadau y gellir eu gwneud o hyd heb orfod gofyn am ganiatâd cynllunio. Er enghraifft, gellir newid tafarn yn siop, sefydliad trin gwallt, siop sychlanhau, banc, neu hyd yn oed ymgymerwyr angladdau mewn rhai amgylchiadau, heb fod angen caniatâd cynllunio penodol. Er bod pob un o'r mathau o ddefnydd hyn yn ddilys ac yn chwarae rhan bwysig ym mywyd y gymuned, 'does bosibl na ddylai'r gymuned gael mwy o lais uniongyrchol ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd yn eu hardal eu hunain.

As we have already heard, in England, thanks to provisions that were made under the Localism Act 2011, which the Liberal Democrats, within the coalition, have introduced, around 300 pubs have been listed as assets of community value. That is surely something to celebrate. This gives communities time to explore the options that they have and to try to come up with a viable business model, where there is an asset that is under threat of closure. It is a shame that communities in Wales do not currently have the same right, as the proposer of the motion rightly said. There seems, at the moment, little prospect that the Welsh Government will concede on this point but, nevertheless, there may be room for manoeuvre in the context of the planning Bill that is coming forward. Let us hope that the Minister for Regeneration and Planning will have his listening equipment fully tuned on that occasion. We would like to see a change in planning law so that pubs cannot undergo any change of use without having specifically to apply for permission for change of use. This would give communities a greater direct opportunity to look at what has been proposed, and to weigh up the options that are open to them. A separate classification for community-use pubs, along with relevant guidance, would give them greater protection as the valued assets they most certainly are. They would not be allowed to simply disappear and residents would have their say in the process.

Fel y clywsom eisoes, diolch i ddarpariaethau Deddf Lleoliaeth 2011 a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol o fewn y glymblaid, rhestrwyd tua 300 o dafarnau yn Lloegr fel asedau o werth cymunedol. Mae hynny'n sicr yn rhywbeth i'w ddathlu. Mae hyn yn rhoi amser i gymunedau edrych i weld pa opsiynau sydd ganddynt a cheisio dod o hyd i fodel busnes hyfyw os yw ased yn wynebu bygythiad o gau. Fel y dywedodd y cynigydd, mae'n drueni nad yw'r un hawl ar gael i gymunedau yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'n ymddangos ar hyn o bryd nad oes llawer o obaith y bydd Llywodraeth Cymru yn ildio ar y pwynt hwn ond gallai fod lle i weithredu yng nghyd-destun y Bil cynllunio sydd ar y ffordd. Gadewch inni obeithio y bydd y Gweinidog Adfywio a Chynllunio yn gwrando'n astud ar yr achlysur hwnnw. Hoffem weld newid yn y gyfraith gynllunio fel na ellir newid defnydd tafarndai heb fynd ati'n benodol i wneud cais am ganiatâd i newid defnydd. Byddai hyn yn rhoi mwy o gyfle uniongyrchol i gymunedau edrych ar yr hyn sydd wedi'i gynnig, a phwyso a mesur yr opsiynau sydd ar gael iddynt. Byddai dosbarth ar wahân ar gyfer tafarndai at ddefnydd y gymuned, yn ogystal â chanllawiau perthnasol, yn rhoi mwy o amddiffyniad fel asedau o werth. Ni fyddent yn cael eu gadael i ddiflannu a byddai trigolion yn cael llais yn y broses.

Of course, we cannot stop the closure of all community pubs, but we do believe that there is much that can be done to afford protection. Turning to Plaid Cymru's amendments today, we support the second, but not the first. In England, to go along with the assets of community value scheme, organisations do have access to a community assets and services grants programme, which is currently available from the Department for Communities and Local Government. It is open for applications on all community assets, but not exclusively for pubs. While we support the premise that such pubs should have access to support, we do not see the need for a separate scheme. However, we are strongly supportive of the second amendment, with the additional support around business rates, and we understand the importance of that. We will be supporting the motion as a whole, and I am extremely pleased to have had the opportunity to make a small contribution today.

Ni allwn atal pob tafarn gymunedol rhag cau, wrth gwrs, ond credwn fod llawer y gellir ei wneud i'w gwarchod. Gan droi at welliannau Plaid Cymru heddiw, rydym yn cefnogi'r ail welliant, ond nid y cyntaf. Yn Lloegr, er mwyn bod yn rhan o'r cynllun asedau o werth cymunedol, gall sefydliadau fanteisio ar raglen grantiau asedau a gwasanaethau cymunedol, sydd ar gael drwy'r Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol ar hyn o bryd. Mae'n agored i geisiadau ar gyfer pob math o ased cymunedol, nid tafarndai'n unig. Er ein bod yn cefnogi'r rhagdybiaeth y dylid rhoi cymorth i dafarndai o'r fath, ni welwn fod angen cynllun ar wahân. Fodd bynnag, rydym yn gryf o blaid yr ail welliant, a'r gefnogaeth ychwanegol o ran ardrethi busnes, ac rydym yn deall pwysigrwydd hynny. Byddwn yn cefnogi'r cynnig yn ei gyfanrwydd, ac rwy'n hynod o falch o fod wedi cael y cyfle i wneud cyfraniad bach heddiw.

16:21

## Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n falch o gael y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon y prynhawn yma, ac i nodi fy nghefnogaeth i'r diwydiant dafarnau yng Nghymru, yn enwedig tafarnau gwledig sy'n chwarae rhan bwysig mewn ardaloedd yn sir Benfro. Rwy'n siŵr bod llawer o Aelodau ar draws y Siambr, fel minnau, wedi derbyn sylwadau pryderus gan etholwyr ynghylch tafarnau yn cau a'r effaith y mae hynny'n ei chael ar gymunedau lleol. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi'r diwydiant dafarnau yng Nghymru, a bod llywodraethau ar bob lefel yn cymryd camau priodol i helpu diogelu tafarnau cymaint â phosibl.

I am pleased to have the opportunity to participate in this debate this afternoon, and to record my support for the pub industry in Wales, particularly for rural pubs that play such an important part in areas of Pembrokeshire. I am sure that many Members across the Chamber, like me, have received representations from constituents worried about pub closures and the impact that those closures are having on local communities. Therefore, it is vital that we do everything we can to support the pub industry in Wales, and that governments at all levels take appropriate action to help safeguard pubs as far as possible.

Rwy'n siŵr y bydd Aelodau'n cytuno â fi fod tafarnau Cymreig yn elfen graidd o'n brand twristiaeth ac yn bwysig o ran profiad y bobl sy'n ymweld â Chymru. Fel mae pawb yn ymwybodol, mae'r diwydiant twristiaeth yn sir Benfro yn hynod o bwysig i'r economi leol ac, yn wir, i economi Gymru, gyda thafarnau'n rhan hanfodol o hynny. Yn anffodus, fel dywedodd yr Aelod dros Aberconwy, yn ôl yr ystadegau diweddaraf yr Ymgyrch ar gyfer Cwrw Go Iawn, mae tri thafarn yn cau yng Nghymru bob wythnos. Os bydd hyn yn parhau, bydd hyn yn cael effaith enfawr ar y diwydiant twristiaeth nid yn unig yn sir Benfro, ond ar draws Cymru gyfan.

I am sure that Members will agree with me that Welsh pubs are a core element of our tourism brand and are important in terms of the visitor experience in Wales. As everyone is aware, the tourism industry in Pembrokeshire is extremely important to the local economy and, indeed, to the economy of Wales, and pubs have a crucial role in that. Unfortunately, as the Member for Aberconwy said, according to the latest statistics of the Campaign for Real Ale, there are three pub closures in Wales every week. If this continues, this will have a huge impact on the tourism industry not only in Pembrokeshire, but across the whole of Wales.

Mae llawer o'n tafarnau ledled Cymru yn gwerthu mwy a mwy o fwyd a diod o ffynonellau lleol gan roi cyfle i ymwelwyr gael blas go iawn o'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig. Wrth gwrs, rwy'n lwcus iawn oherwydd bod sir Benfro'n lle arbennig iawn pan ddaw hi i dwristiaeth fwyd; twristiaeth ac amaethyddiaeth yw'r ddau ddiwydiant mwyaf amlwg yn yr ardal, ac felly mae gennym ddigon o fwyd a diod lleol ar gael. Mae'r tafarnau felly yn darparu bwyd lleol ac yn rhoi cyfle i gynhyrchwyr diodydd a bwyd i ymgysylltu â phobl newydd drwy eu cynnyrch. Mae hyn yn help i gadw busnesau bwyd, yn enwedig busnesau bach, mewn busnes. Mae caffael bwyd a diod gan dafarnau yn helpu i gryfhau cadwyni cyflenwi lleol, yn cefnogi busnesau lleol eraill, a hefyd yn helpu i greu brand unigryw, sy'n eithriadol o bwysig i'n diwydiant twristiaeth. Mae tafarnau hefyd yn gallu bod yn gyflogwyr da, yn enwedig i fyfyrwyr ac i bobl gyda theuluoedd sy'n edrych i weithio'n rhan amser, neu sydd eisiau gweithio rhai sifftiau yn unig. Mae hyn yn aml yn bwysig mewn ardaloedd gwledig lle mae cyfleoedd gwaith yn gallu bod yn gyfyngedig. Yn wir, yn ôl Cymdeithas Cwrw a Thafarnau Prydain, mae tua 270,000 o swyddi gwledig ym Mhrydain yn dibynnu ar fragu a thafarnau, gyda dros £3.5 biliwn yn cael eu talu mewn cyflogau gwledig. Felly, yn amlwg, mae'r diwydiant tafarnau yn gyflogwr sylweddol mewn ardaloedd gwledig.

Many of our pubs across Wales are now offering more food and drink from local sources, giving visitors the opportunity to have a true taste of Wales. Of course, I am very fortunate because Pembrokeshire is a very special area when it comes to food tourism; tourism and agriculture are the two most prominent industries in the area, and therefore we have plenty of locally produced food and drink available. The pubs therefore provide locally produced food and drink and give producers an opportunity to link with a new market through their products. This assists in keeping food businesses afloat, particularly small businesses. Food and drink procurement by pubs helps to strengthen local supply chains, supports other local businesses, and helps to create a unique brand, which is extremely important for our tourism industry. Pubs can also be good employers, particularly for students and for people with families who are looking to work part time, or who want to work a shift pattern. This is often important in rural areas where employment opportunities can be few and far between. Indeed, according to the British Beer and Pub Association, some 270,000 rural jobs in Britain depend upon brewing and pubs, with more than £ 3.5 billion paid in salaries in rural areas. So, clearly, the pub industry is a significant employer in rural areas.

Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod unrhyw bolisïau sy'n effeithio ar y sector yn gydgysylltiedig, gan wneud yn siŵr bod holl adrannau Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau nad yw tafarnau a'r diwydiant yn cael eu hesgeuluso. Mae rhai landlordiaid yr wyf yn siarad â nhw yn teimlo, weithiau, nad yw eu barn, neu farn y diwydiant, yn cael ei hystyried bob amser. Felly, mae'n rhaid cael proses ymgysylltu lawn ac agored gyda'r diwydiant fel y gall Llywodraeth Cymru gadw ei bys ar y pwls a bod barn y diwydiant yn cael ei chlywed.

It is crucially important that the Welsh Government ensures that any policies affecting the sector are properly co-ordinated, ensuring that all Welsh Government departments collaborate to ensure that pubs and the industry are not neglected. Some landlords that I speak to sometimes feel that their views, or the views of the industry, are not always taken into account. Therefore, we must have a full and open process of engagement with the industry so that the Welsh Government can keep its finger on the pulse and so that the views of the industry are properly heard.

Wrth gwrs, mae'n amlwg bod tafarnau yn adnoddau cymunedol pwysig. Nid dim ond lle i gael diod gyda ffrindiau a theulu yw tafarn; mae tafarn leol yn wirioneddol yn gallu gweithredu fel canolbwynt cymunedol a chanolfan i gymuned. Mae tafarn leol yn wirioneddol yn gyfleuster lleol. Y dyddiau hyn, mae tafarnau yn gwneud hyd yn oed mwy. Mewn rhai achosion, maent yn dyblu i fyny fel llyfrgelloedd a gellir gweld hyd yn oed swyddfeydd post yn gweithredu oddi mewn iddynt.

Of course, it is clear that pubs are important community resources. A pub is not just a place to enjoy a drink with friends and family; the local pub truly can be a community hub and a community centre. The local pub truly is a local resource. These days, pubs are doing even more. In some cases, they double up as libraries and, in other cases, they house the local post office.

Yn dilyn siopau a swyddfeydd post yn cau mewn rhai ardaloedd gwledig, gall tafarnau fod yn un o'r cyfleusterau olaf sydd ar ôl, yn enwedig yn ein cymunedau llai. Nid yw tafarnau o fudd cymdeithasol ac economaidd sylweddol i gymunedau lleol yn unig, ond maent hefyd yn bwysig yn ddiwylliannol, ac, mewn rhai achosion, maent yn gallu bod yn atyniadau hanesyddol. Mae nifer o dafarnau yn fy etholaeth i sy'n chwarae'r rôl hon; er enghraifft, mae Tafarn Sinc yn Rosebush yn dafarn unigryw sydd wedi'i gwneud o haearn galfanedig, sy'n rhoi tafell o hanes cymdeithasol a diwydiannol i ymwelwyr â'i leoliad ar lethrau bryniau'r Preseli.

Following the closure of post offices and shops in rural areas, pubs can be one of the last remaining facilities, particularly in some of our smaller communities. Pubs not only provide social and economic benefits to local communities, but they are important culturally, and, in some cases, they can be historical attractions. There are a number of pubs in my constituency that fulfil this role; for example, Tafarn Sinc in Rosebush is a unique pub made of galvanised iron and which provides a slice of social and industrial history to visitors to its setting on the slopes of the Preseli mountains.

Mae'n bwysig ein bod yn gwneud pob peth yn ein gallu i ddiogelu a chefnogi tafarnau gwledig. Felly, rwy'n annog Aelodau i gefnogi ein cynnig y prynhawn yma.

It is important that we do everything we can to safeguard and support rural pubs. Therefore, I encourage Members to support our motion this afternoon.

16:26

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I will be supporting my local pub tomorrow night—the Fountain Inn in Morriston—for the quiz. Public houses and chapels were the backbone of Welsh communities until the 1980s. Since then, we have seen the large-scale closure of both. In Morriston, where I live, in the past five years, six pubs and two clubs have closed. For television fans, programmes such as 'Coronation Street' with the Rovers Return Inn, 'EastEnders' with The Queen Vic and 'Pobol y Cwm' with Y Deri Arms use the pub as the focus for the community.

Byddaf yn cefnogi fy nhafarn leol—y Fountain Inn yn Nhreforys—nos yfory ar gyfer y cwis. Tafarndai a chapeli oedd asgwrn cefn cymunedau Cymru tan y 1980au. Ers hynny, rydym wedi gweld cau'r ddau fath o sefydliad ar raddfa fawr. Yn Nhreforys, lle rwy'n byw, yn y pum mlynedd diwethaf, caeodd chwe thafarn a dau glwb. Gŵyr pawb sy'n gwylio teledu fod rhaglenni fel 'Coronation Street' â'i Rovers Return, 'Eastenders' â'i Queen Vic a 'Pobol y Cwm' â'i Deri Arms yn defnyddio'r dafarn fel canolbwynt ar gyfer y gymuned.

We have seen two different things happening in recent years. First, we have seen the growth of large pub chains and, secondly, we have seen the sale of cheap alcohol in supermarkets and other shops.

Rydym wedi gweld dau beth gwahanol yn digwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn gyntaf, gwelsom dwf y cadwyni tafarn mawr ac yn ail, gwelsom alcohol yn cael ei werthu'n rhad mewn archfarchnadoedd a siopau eraill.

There have been two types of pub chains—the large pub companies that rent out pubs to licensees and the large managed pubs, often in city centre locations, where the serving of food is often more important than the serving of drink. I am surprised that the Conservatives have raised this as a debate today, because the cause of the problem goes back to the last time that we had a majority Conservative Government. For decades, breweries had owned pubs, and it was in their interest to sell beer through their pubs. Then, one of Friedman's free-market disciples decided that that was a bad thing for competition—we needed to bring in competition. So, large breweries had to decide to be either brewers or pub owners. They all decided to remain brewers, and the pubs were sold off to pub companies, such as Punch Taverns, the pub company that owns one in eight British pubs, and Enterprise Inns. The breweries no longer had an economic reason to sell most of their beer through pubs. In terms of distribution, it became much easier for them to sell cans through supermarkets than barrels via pubs.

Cafwyd cadwyni tafarn o ddau fath—cwmnïau tafarn mawr sy'n rhentu tafarndai i ddalwyr trwydded a thafarndai mawr wedi'u rheoli, yn aml mewn safleoedd ynghanol dinasoedd lle mae gweini bwyd yn aml yn bwysicach na gweini diod. Rwy'n synnu bod y Ceidwadwyr wedi codi'r ddadl hon heddiw am fod achos y broblem yn deillio o'r tro diwethaf roedd gennym Lywodraeth Geidwadol fwyafrifol. Ers degawdau, roedd y bragdai wedi bod yn berchen ar dafarndai, ac roedd hi'n fuddiol iddynt werthu cwrw drwy eu tafarnau. Yna, penderfynodd un o ddisgyblion marchnad rydd Friedman fod hynny'n beth drwg ar gyfer cystadleuaeth—roedd angen i ni gyflwyno cystadleuaeth. Felly, bu'n rhaid i'r bragdai mawr benderfynu ai bragwyr neu berchnogion tafarn oeddynt am fod. Penderfynodd pob un ohonynt barhau'n fragwyr, a gwerthwyd y tafarnau i gwmnïau tafarn, megis Punch Taverns, y cwmni tafarn sy'n berchen ar un o bob wyth tafarn ym Mhrydain, ac Enterprise Inns. Nid oedd gan y bragdai reswm economaidd bellach i werthu'r rhan fwyaf o'u cwrw drwy dafarndai. O ran dosbarthu, daeth yn llawer haws iddynt werthu caniau drwy archfarchnadoedd na chasgenni drwy dafarndai.

To quote the Campaign for Real Ale:

I ddyfynnu'r Ymgyrch dros Gwrw Go Iawn:

'Around a third of pubs in the UK are owned by Pub Companies—large property companies who lease pubs out to tenants to run as their own business. These pubs are contractually obliged to buy their beer only from the Pubco; preventing pub licensees buying on the open market. This is known as the beer tie...Pubcos make huge excess profits by using the beer tie to force licensees and ultimately the consumer to pay high prices. Licensees can pay up to 50% more for beer than a free-of-tie publican. Alongside this pubco licensees often find themselves paying above market value rents and have no independent adjudicator to settle disputes.'

'Around a third of pubs in the UK are owned by Pub Companies—large property companies who lease pubs out to tenants to run as their own business. These pubs are contractually obliged to buy their beer only from the Pubco; preventing pub licensees buying on the open market. This is known as the beer tie...Pubcos make huge excess profits by using the beer tie to force licensees and ultimately the consumer to pay high prices. Licensees can pay up to 50% more for beer than a free-of-tie publican. Alongside this pubco licensees often find themselves paying above market value rents and have no independent adjudicator to settle disputes.'

So, publicans ended up tied to a supplier and paying more than some supermarkets and cash-and-carry stores are selling drink for. It costs a number of pubs more per pint to buy beer in barrels than large supermarkets and a number of other places are actually selling beer for in cans. That is certainly not something that is going to make pubs successful.

Felly, y diwedd fu i dafarnwyr gael eu clymu wrth gyflenwr a thalu mwy am ddiod na phris gwerthu rhai archfarchnadoedd a siopau talu a chario. I lawer o dafarnau, mae'n costio mwy y peint i brynu cwrw mewn casgenni na phris gwerthu cwrw mewn caniau mewn archfarchnadoedd mawr a nifer o leoedd eraill. Yn bendant, nid yw hynny'n rhywbeth sy'n mynd i wneud tafarndai'n llwyddiannus.

I am a regular visitor to pubs and clubs; I met my wife and two best friends in Morriston pubs. [Laughter.] I believe in the pub being the hub of the community. There is tremendous benefit in going to pubs and meeting people.

Rwy'n ymwelydd rheolaidd â thafarndai a chlybiau; cyfarfûm â fy ngwraig a dau ffrind gorau yn nhafarnau Treforys. [Chwerthin.] Credaf fod y dafarn yn ganolbwynt i'r gymuned. Mae mantais aruthrol mewn mynd i dafarndai a chwrdd â phobl.

16:29

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

16:29

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Certainly.

Wrth gwrs.

16:29

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you support our calls to introduce a community right to bid to protect the very pubs that you are talking about?

A wnewch chi gefnogi ein galwad i gyflwyno hawl y gymuned i wneud cais er mwyn gwarchod yr union dafarnau rydych yn siarad amdanynt?

16:29

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that I would ask Janet Finch-Saunders when the last time that she was in a pub was. That is not the solution. The problem with pubs—I think that anyone who knows about pubs will tell you—is that the price of beer is so much higher than in the supermarket. Supermarkets are selling pints of beer at about 65p to 75p each. In a pub, the cheapest I know you can get it is £2.25, and most are around £2.85 to £3.10. That is the difference. That is the problem. People are buying and drinking at home far more than they did when I was younger, and that has left pubs without people.

Credaf y byddwn yn gofyn i Janet Finch-Saunders pa bryd oedd y tro diwethaf iddi hi fod mewn tafarn. Nid dyna'r ateb. Y broblem gyda thafarnau—fel y credaf y byddai unrhyw un sy'n gwybod am dafarndai yn ei ddweud wrthych—yw bod pris cwrw cymaint uwch nag y mae yn yr archfarchnad. Mae archfarchnadoedd yn gwerthu cwrw am oddeutu 65c i 75c y peint. Mewn tafarn, y mae'r peint rhataf y gwn amdano yn £2.25, ac mae'r rhan fwyaf oddeutu £2.85 i £3.10. Dyna'r gwahaniaeth. Dyna'r broblem. Mae pobl yn prynu ac yn yfed gartref lawer mwy nag y gwnaent pan oeddwn yn iau, ac mae hynny'n golygu nad yw pobl yn mynd i dafarnau.

16:30

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thanks for taking an intervention. Do you accept that, with regard to the description you have just given of pubs being exploited by the breweries, in many cases they are forcing publicans out of business, are forcing them to buy beer and also imposing huge fines upon them for, effectively, imagined slights, and that is causing a lot of pubs to close?

Diolch am dderbyn ymyriad. A ydych yn derbyn, o ran y disgrifiad rydych newydd ei roi o dafarndai'n cael eu hecsbloetio gan y bragdai, eu bod mewn llawer o achosion yn gorfodi tafarnwyr allan o fusnes, yn eu gorfodi i brynu cwrw a hefyd yn gosod dirwyon enfawr arnynt am dramgwyddau dychmygol i bob pwrpas, a hynny'n peri i lawer o dafarndai gau?

16:30 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I agree with you entirely. In fact, if I can get on to my next bit, I am sure that that is what you will hear me say.

Rwy'n cytuno'n llwyr â chi. Yn wir, os caf symud ymlaen, rwy'n siŵr mai dyna beth fyddwch yn fy nghlywed yn dweud.

We need to rebalance the current unfair relationship between the giant property companies and their licensees. This rebalance must include an option for lessees to become free of tie and be accompanied by an open market rent review, so that they can buy beer on the open market. This could potentially save each pub business tens of thousands of pounds every year. Those who choose to remain tied should be given the opportunity to buy one real ale as a guest beer outside any beer tie. That is not my view, but that of the Campaign for Real Ale. CAMRA is also calling for an independent adjudicator to be established that would have the power to carry out investigations, impose financial penalties, protecting thousands of licensees struggling to make a fair and sustainable living. The beer tie itself is not harmful; it existed before, when we had pubs buying from the brewery, but the brewery had an interest in the pub being successful.

Mae angen i ni ail-gydbwyso'r berthynas annheg bresennol rhwng y cwmnïau eiddo mawr a'u deiliaid trwydded. Rhaid i'r ail-gydbwyso gynnwys opsiwn i lesddeiliaid beidio â bod dan rwymedigaeth a chael adolygiad rhent y farchnad agored, fel y gallant brynu cwrw ar y farchnad agored. O bosibl, gallai hyn arbed degau o filoedd o bunnoedd bob blwyddyn i bob busnes tafarn. Dylai'r rhai sy'n dewis parhau'n rhwymedig gael cyfle i brynu un cwrw go iawn fel cwrw gwadd y tu allan i unrhyw rwymau gwerthu cwrw. Nid fy marn i yw honno ond barn yr Ymgyrch dros Gwrw Go Iawn. Mae CAMRA hefyd yn galw am bennu dyfarnwr annibynnol a fyddai â phŵer i gynnal ymchwiliadau a gosod cosbau ariannol gan ddiogelu miloedd o drwyddedigion sy'n ei chael yn anodd gwneud bywoliaeth deg a chynaliadwy. Nid yw'r rhwymau ar werthu cwrw yn niweidiol ynddynt eu hunain; roeddynt yn bodoli o'r blaen pan oedd tafarndai'n prynu gan y bragdy ond bryd hynny roedd gan y bragdy ddiddordeb yn llwyddiant y dafarn.

Finally, I would like to say that we need a minimum price for alcohol so that pubs can compete fairly with the supermarkets.

Yn olaf, hoffwn ddweud bod arnom angen isafswm pris ar gyfer alcohol fel y gall tafarndai gystadlu'n deg â'r archfarchnadoedd.

16:31 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There are some fantastic pubs in Wales, and it is critical that we give them the support they need. They are hugely important to the social fabric of our nation and people care about them. During a recent visit to north Wales, I was made aware of the Raven Inn at Llanarmon-yn-Ial in Denbighshire. It originally closed in 2009 and was earmarked for housing. However, the local community was approached by the makers of the television programme 'Save our Boozer', who offered help, if they took the pub on and did not mind being filmed. The enterprise is a success, and this led to a company limited by guarantee, Raven Mad Limited, being established around the pub. Supported by Cadwyn Clwyd, Pub is The Hub and others, the pub is now thriving.

Mae rhai tafarndai gwych yng Nghymru, ac mae'n hanfodol ein bod yn rhoi'r cymorth y maent ei angen iddynt. Maent yn hynod o bwysig i wead cymdeithasol ein cenedl ac mae pobl yn malio amdanynt. Yn ystod ymweliad diweddar â'r Gogledd, cefais wybod am y Raven Inn yn Llanarmon-yn-iâl yn Sir Ddinbych. Caeodd yn wreiddiol yn 2009 a chafodd y safle ei glustnodi fel man ar gyfer adeiladu tai. Fodd bynnag, cysylltodd gwneuthurwyr y rhaglen deledu, 'Save our Boozer', â'r gymuned leol yn cynnig cymorth iddynt pe baent yn rhedeg y dafarn a'n fodlon cael eu ffilmio. Mae'r fenter yn llwyddiant ac arweiniodd hyn at sefydlu cwmni cyfyngedig drwy warant, Raven Mad Limited, mewn perthynas â'r dafarn. Mae'r dafarn yn cael ei chefnogi gan Cadwyn Clwyd, Pub is The Hub ac eraill, ac mae'n ffynnu bellach.

The Raven Inn is staffed by volunteers, apart from a full-time chef and waiting staff on busy nights. Any profits earned are ploughed back into the Raven Inn, which is now being developed to provide accommodation for visitors and even hosts the village post office, which was nearly lost following the closure of the village shop. In fact, the community spirit that has grown out of the pub project has spurred on local residents to go out and do other projects. The village shop, which had closed, has now also been reopened, and new services, such as a weekly older people's lunch, have been established. There are even plans for a brewery to be established in Llanarmon-yn-Ial. The Raven Inn has been taken back to being a traditional country pub serving real ales and good food. It was local CAMRA pub of the year in 2011 and features in the 2013 'Good Beer Guide'. A committee of nine runs the pub on a day-to-day basis, with sub-groups responsible for various elements, such as cellar management, accounts and a wine club.

Gwirfoddolwyr yw staff Raven Inn, ar wahân i gogydd amser llawn a staff gweini ar nosweithiau prysur. Caiff unrhyw elw ei fuddsoddi'n ôl i mewn i'r Raven Inn, sy'n cael ei datblygu bellach i ddarparu llety ar gyfer ymwelwyr ac mae'n gartref i'r swyddfa bost y bu'r pentref bron â'i cholli ar ôl i siop y pentref gau. Yn wir, mae'r ysbryd cymunedol sydd wedi tyfu o brosiect y dafarn wedi ysgogi trigolion lleol i ymgymryd â phrosiectau eraill. Mae siop y pentref, a oedd wedi cau, bellach wedi ailagor hefyd a sefydlwyd gwasanaethau newydd, megis cinio wythnosol i bobl hŷn. Mae fel cinio wythnosol i bobl hŷn. Mae cynlluniau ar y gweill hyd yn oed i sefydlu bragdy yn Llanarmon-yn-Iâl. Adferwyd y Raven Inn i fod yn dafarn wledig draddodiadol sy'n gweini cwrw go iawn a bwyd da. Enillodd wobr tafarn leol y flwyddyn CAMRA yn 2011 ac mae wedi'i chynnwys yn y 'Good Beer Guide 2013'. Mae pwyllgor o naw yn rhedeg y dafarn o ddydd i ddydd gydag is-grwpiau'n gyfrifol am wahanol elfennau, megis rheoli'r seler, cyfrifon a chlwb gwin.

I would also like to take this opportunity to mention the Glan Llyn Inn in Clawddnewydd, near Ruthin. The inn was purchased by the local community association last month after a three-month fundraising campaign was supported by a £90,000 loan from the Wales Council for Voluntary Action's community investment fund. It is a 100-year-old village pub that went into receivership that is now being staffed by a team of volunteers and is set to undergo refurbishment that will see the community shop relocated to the premises and three new jobs created. Since the community took ownership, the pub has returned to profitability and trading will be expanded in the coming months. The community is fully behind this pub, which made a big event of the Wales rugby games during the RBS 6 Nations championship, serving pizza for the Italy game, coq au vin for the game against France and roast beef for the England match. The community association tells me that it is all in good fun and that trade has been excellent. Those who run the Raven Inn and the Glan Llyn Inn are an inspiration to others, and we need to do everything we can to support their efforts and see this being replicated in other towns and villages across Wales.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i sôn am y Glan Llyn Inn yng Nghlawddnewydd, ger Rhuthun. Prynwyd y dafarn gan y gymdeithas gymunedol leol y mis diwethaf ar ôl i ymgyrch godi arian dros dri mis gael ei chefnogi gan fenthyciad o £90,000 o gronfa buddsoddi cymunedol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Tafarn bentref 100 oed yw hi, a aeth i ddwylo'r derbynwyr, ond sydd bellach yn cael ei rhedeg gan dîm o wirfoddolwyr. Mae ar fin cael ei hadnewyddu er mwyn adleoli'r siop gymunedol ar y safle a chreu tair swydd newydd. Ers iddi ddod yn eiddo i'r gymuned, mae'r dafarn wedi ailddechrau gwneud elw a bydd yn ehangu ei busnes yn y misoedd nesaf. Mae'r gymuned yn gwbl gefnogol i'r dafarn ac roedd gemau rygbi Cymru yn ystod pencampwriaeth RBS y 6 Gwlad yn ddigwyddiadau pwysig—gweinwyd pizza ar gyfer gêm yr Eidal, coq au vin ar gyfer y gêm yn erbyn Ffrainc a chig eidion rhost adeg gêm Lloegr. Mae'r gymdeithas gymunedol yn dweud wrthyf fod y cyfan yn hwyl a bod gwerthiant wedi bod yn ardderchog. Mae'r rhai sy'n rhedeg y Raven Inn a'r Glan Llyn Inn yn ysbrydoliaeth i eraill ac mae angen inni wneud popeth a allwn i gefnogi eu hymdrechion a sicrhau bod hyn yn cael ei ailadrodd mewn trefi a phentrefi eraill ledled Cymru.

More recently, I was delighted to be present at the reopening of the Red Lion in Black Hall Street in Caerleon after its recent closure, and that, too, is going from success to success.

Yn fwy diweddar, pleser o'r mwyaf oedd bod yn bresennol yn ail-agoriad y Red Lion yn stryd Black Hall yng Nghaerllion ar ôl ei chau yn ddiweddar, ac mae'r fenter honno hefyd yn mynd o nerth i nerth.

16:34

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It may seem strange for some of my colleagues here, as I a Muslim, that I am speaking in this debate supporting the pub in Wales. However, my thinking of the pub as a hub is in a totally different dimension. I believe that if people with different faiths, of different ethnicities or of different religions were to go to the pub where I go, enjoyed drinks such as orange juice and lemonade, and food, that would save millions of pounds of this country's expenditure on race relations. That is one thing.

Efallai ei bod yn ymddangos yn rhyfedd i rai o fy nghydweithwyr yma fy mod, fel Mwslim, yn siarad yn y ddadl hon i gefnogi'r dafarn yng Nghymru. Fodd bynnag, mae fy marn am y dafarn fel canolfan mewn dimensiwn hollol wahanol. Yn fy marn i, pe bai pobl â gwahanol gredoau ac o gefndiroedd ethnig a chrefyddol gwahanol yn mynd i'r dafarn lle rwy'n mynd, yn mwynhau diodydd fel sudd oren a lemonêd, a bwyd, byddai hynny'n arbed miliynau o bunnoedd o wariant y wlad hon ar gysylltiadau hiliol. Dyna un peth.

The second thing is that during a campaign, after exams or for sporting events, the pub is the place where we relax. I will give you an example. Recently, I went to Anglesey for the first time as there was some local election. My colleague Nick Ramsay and I were campaigning in the morning, we were really tired and out of nowhere there was a pub called the Black Lion. [Laughter.] We ended up there, and guess what? The male membership of a major political party were all there doing their strategic campaigning in that pub. Also, in this country, there may be thousands of people—not hundreds of thousands—

Yr ail beth yw mai'r dafarn yw'r fan lle y byddwn yn ymlacio yn ystod ymgyrch, ar ôl arholiadau neu i fynd i weld digwyddiadau chwaraeon. Rhoddaf enghraifft i chi. Yn ddiweddar, euthum i Ynys Môn am y tro cyntaf gan fod rhyw etholiad lleol yn digwydd yno. Roedd fy nghydweithiwr Nick Ramsay a minnau wedi bod yn ymgyrchu yn y bore ac roeddem yn flinedig iawn. Yn sydyn, ymddangosodd tafarn o'r enw'r Llew Du. [Chwerthin.] Aethom i mewn iddi, a wyddoch chi beth? Roedd aelodau gwrywaidd un blaid wleidyddol fawr i gyd yno'n gwneud eu hymgyrchu strategol yn y dafarn honno. Hefyd, yn y wlad hon, efallai y bydd miloedd o bobl—nid cannoedd o filoedd—

16:36

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that what the Member is trying to say is that we accidentally walked into Plaid Cymru's headquarters in north Wales, but they were very welcoming; it was a lovely pub and we will go back some time. [Laughter.]

Credaf mai'r hyn y mae'r Aelod yn ceisio ei ddweud yw ein bod yn ddamweiniol wedi cerdded i mewn i bencadlys Plaid Cymru yn y Gogledd, ond roeddynt yn groesawgar iawn; roedd hi'n dafarn hyfryd a byddwn yn sicr o ddychwelyd rywdro. [Chwerthin.]

16:36 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you very much, Nick. The pub is basically also a meeting point. I bet that hundreds of thousands, if not tens of thousands of people, met socially in the pub and they were engaged in the knots and the rings, in the pubs and in the church or the partnership for life. We forget that that is the culture of this nation. This is a great culture. It is true that the pub plays a vital role in local communities as a centre for economic, social and cultural life, whether it is in a pub quiz league, darts tournament or as a venue for live entertainment. People go there to watch all the sporting events on Sky TV. That is another social event where you get together and understand not only sports, but also each other and talk about your own—. It is a social place to meet and improve your relationships. That is what the pub is there for.

Diolch yn fawr iawn, Nick. Yn y bôn, mae'r dafarn yn fan cyfarfod hefyd. Rwy'n siŵr bod cannoedd o filoedd, os nad degau o filoedd o bobl, wedi cwrdd yn gymdeithasol yn y dafarn ac wedi cymryd rhan yn y clymau a'r cylchoedd, yn y tafarndai ac yn yr eglwys neu'r bartneriaeth am oes. Rydym yn anghofio mai dyna ddiwylliant y genedl hon. Mae hwn yn ddiwylliant gwych. Mae'n wir fod y dafarn yn chwarae rhan allweddol mewn cymunedau lleol fel canolfan ar gyfer bywyd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol, boed fel lleoliad ar gyfer timau cwis tafarn, twrnamaint dartiau neu fel lleoliad ar gyfer adloniant byw. Mae pobl yn mynd yno i wylio'r holl ddigwyddiadau chwaraeon ar Sky TV. Mae hynny'n ddigwyddiad cymdeithasol arall lle rydych yn dod at eich gilydd ac nid yn unig yn dod i ddeall chwaraeon, ond hefyd eich gilydd a siarad am eich-. Mae'n lle cymdeithasol i gwrdd a gwella eich perthynas ag eraill. Dyna beth yw pwrpas tafarn.

Many pubs have diversified into the restaurant trade and have been awarded stars and rosettes as an indication of the quality of food provided. Some are also historic buildings such as the Robin Hood Inn in Monmouth, Ye Olde Murenger House in Newport and the Kings Arms in Abergavenny. They are all able to trace their history back for many centuries. They are historic buildings. They should not be destroyed. They should not be abandoned. They must not be left empty, which would be a crime. Those buildings have not only served the nation, but have also served our soldiers. During the wars—we are changing the history here—the pubs played a great part in the first and second world wars. Our soldiers came to these pubs and enjoyed not only a drink, but also the strategic way they had to fight the war when they were doing their other businesses in the pub. The pub was a planning place in many places. The history is there. Every pub has a history.

Mae llawer o dafarndai wedi arallgyfeirio i'r fasnach dai bwyta ac wedi derbyn sêr a rhosedau fel arwydd o ansawdd y bwyd a ddarperir. Mae rhai hefyd yn adeiladau hanesyddol fel y Robin Hood Inn yn Nhrefynwy, Ye Olde Murenger House yng Nghasnewydd a'r Kings Arms yn y Fenni. Gall y rhain oll olrhain eu hanes yn ôl dros ganrifoedd lawer. Maent yn adeiladau hanesyddol. Ni ddylid eu dinistrio. Ni ddylid eu gadael i fynd yn segur. Ni ddylid eu gadael yn wag: byddai hynny'n drosedd. Mae'r adeiladau hyn nid yn unig wedi gwasanaethu'r genedl, ond hefyd wedi gwasanaethu ein milwyr. Yn ystod y rhyfeloedd —rydym yn newid yr hanes yn y fan hon—chwaraeodd y tafarndai ran fawr yn y rhyfel byd cyntaf a'r ail ryfel byd. Daeth ein milwyr i'r tafarnau hyn a mwynhau nid yn unig y ddiod, ond hefyd y ffordd strategol roedd yn rhaid iddynt ymladd y rhyfel pan fyddent yn cynnal busnes arall yn y dafarn. Roedd y dafarn yn lleoliad ar gyfer cynllunio mewn sawl man. Mae hanes yno. Mae gan bob tafarn ei hanes.

The Skirrid Mountain Inn near Abergavenny claims to be the oldest pub in the United Kingdom. I do not think that many people know about it: the oldest pub in the United Kingdom is in Abergavenny. In the past, it was used as a courthouse with convicted prisoners being executed on its premises. It gives a whole new meaning to the phrase, 'No hanging around the bar'. That is actually written on the bar there. [Laughter.] So, it is important, in my view, that we do everything we can to allow our pubs to grow and thrive.

Mae Skirrid Mountain Inn ger y Fenni yn honni mai hi yw'r dafarn hynaf yn y Deyrnas Unedig. Nid wyf yn credu bod llawer o bobl yn gwybod amdani: mae tafarn hynaf y Deyrnas Unedig yn y Fenni. Yn y gorffennol, cafodd ei defnyddio fel llys a châi carcharorion euog eu dienyddio ar y safle. Mae'n rhoi ystyr cwbl newydd i'r ymadrodd, 'Dim hongian o gwmpas y bar'. Mae hynny wedi'i ysgrifennu ar y bar yno. [Chwerthin.] Felly, yn fy marn i, mae'n bwysig ein bod yn gwneud popeth a allwn i adael i'n tafarndai dyfu a ffynnu.

The pubs should be covered by the protection of rate relief. That is another point. Actually, I have not read my pages; I am just talking about my own feelings—

Dylai'r tafarndai gael eu cynnwys mewn gwarchodaeth rhyddhad ardrethi. Pwynt arall yw hynny. A dweud y gwir, nid wyf wedi darllen fy mhapur; rwy'n siarad o fy nheimlad fy hun—

16:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

You are running out of time.

Rydych yn rhedeg allan o amser.

16:39 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I need extra time that is not given by others. So, the pub—

Rwyf i angen amser ychwanegol nad yw'n cael ei roi gan eraill. Felly, y dafarn—

16:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Time, gentlemen, please. [Laughter.] [Applause.]

Amser, foneddigion, os gwelwch yn dda. [Chwerthin.] [Cymeradwyaeth.]

16:40

## Mohammad Asghar [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Thank you very much.

Diolch yn fawr iawn i chi.

16:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, Alun Davies.

I call the Minister for Natural Resources and Food, Alun Davies.

16:40

## Alun Davies [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. I have been asked to reply to this debate. I am very pleased to be able to respond on behalf of the Government to a debate that has been held in such good humour. May I say that, as somebody who takes this subject quite seriously, I recognise the description of many of the pubs by Members on the Conservative benches today? William Graham spoke about the Raven Inn. I remember a very convivial evening in the Raven Inn with your colleague Darren Miller. It is in his constituency, and I thoroughly enjoyed the opportunity to spend, as you said, an evening in a community pub with good food, good beer and good company. It was a very enjoyable time we had. The Skirrid Inn is well known. It is somewhere that many of us enjoy spending time of an afternoon or evening. Certainly, the history of that place is well known to all of us. Do you know, it is an extraordinarily important part of—.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Rwyf wedi cael cais i ymateb i'r ddadl hon. Rwy'n falch iawn o allu ymateb ar ran y Llywodraeth i ddadl sydd wedi cael ei chynnal mewn hwyliau mor dda. A gaf fi ddweud, fel rhywun sy'n cymryd y pwnc hwn yn gyfan gwbl o ddifrif, fy mod yn adnabod llawer o'r tafarnau a ddisgrifiwyd gan yr Aelodau ar feinciau'r Ceidwadwyr heddiw? Siaradodd William Graham am y Raven Inn. Rwy'n cofio noson hwyliog iawn yn y Raven Inn gyda'ch cydweithiwr Darren Miller. Y mae yn ei etholaeth, a mwynheais y cyfle i dreulio noson, fel y dywedoch, mewn tafarn gymunedol â bwyd da, cwrw da a chwmni da. Cawsom amser pleserus iawn. Mae'r Skirrid Inn yn adnabyddus. Mae'n rhywle y mae llawer ohonom yn mwynhau treulio prynhawn neu gyda'r nos. Yn sicr, mae hanes y lle'n gyfarwydd i bawb ohonom. A wyddoch chi ei bod hi'n rhan eithriadol o bwysig o—.

This afternoon, we have talked mainly about rural communities and villages, but it is also an extraordinarily important part of urban life as well. When we talk about the pubs in urban Wales, we should also talk about the clubs, which are certainly as important in my constituency as the pubs themselves in terms of providing gathering places, places where people can socialise, but also places where we can express the culture of where we are and of our local community, whether that is in Tredegar or other places. Certainly, with regard to Tafarn Sinc, you are absolutely right in what you say—it reflects and represents not only what we see today in Rosebush, but the history of that community as well. It is absolutely essential that we do and are able to maintain the integrity of what the pub offers and provides to people across and throughout Wales.

Y prynhawn yma, rydym wedi siarad yn bennaf am gymunedau a phentrefi gwledig, ond mae hefyd yn rhan eithriadol o bwysig o fywyd trefol hefyd. Pan fyddwn yn sôn am y tafarndai yn y Gymru drefol, dylem siarad hefyd am y clybiau, sydd yn sicr yr un mor bwysig yn fy etholaeth i â'r tafarndai eu hunain o ran bod yn lleoedd i bobl ddod at ei gilydd, mannau lle y gall pobl gymdeithasu, ond lleoedd hefyd lle y gallwn fynegi diwylliant ble rydym a'n cymuned leol, boed hynny yn Nhredegar neu fannau eraill. Yn sicr, o ran Tafarn Sinc, rydych yn hollol gywir yn yr hyn a ddywedwch—mae'n adlewyrchu ac yn cynrychioli nid yn unig yr hyn a welwn heddiw yn Rosebush, ond hanes y gymuned honno'n ogystal. Mae'n gwbl hanfodol ein bod yn cynnal anian yr hyn y mae'r dafarn yn ei gynnig ac yn ei ddarparu i bobl ledled Cymru.

Members on different sides of the Chamber have spoken about the economic value of the pub and the place of the pub in our wider social environment. One of the first things I did, as a Deputy Minister at the time, was to establish a drinks working group. We held what we called a drinks summit in Aberystwyth, led by the industry. The now Deputy Presiding Officer welcomed our commitment to viniculture in Wales, and we also launched support there for all the microbreweries and small beer producers in Wales. Many of those that have been mentioned this afternoon were a part of that, led by Buster in the Brecon Brewery, which has done a tremendous job in providing industry support and leadership for the support that Government can provide. I hope that, when we come to determine what we will be delivering through the new rural development plan, we will be able to provide continued support for the small brewers and the vineyards of Wales. I certainly give my personal commitment to that and my personal commitment to continuing to do all I can to support that industry.

Mae aelodau ar wahanol ochrau'r Siambr wedi siarad am werth economaidd y dafarn a lle'r dafarn yn ein hamgylchedd cymdeithasol ehangach. Un o'r pethau cyntaf a wneuthum fel Dirprwy Weinidog ar y pryd oedd sefydlu gweithgor diodydd. Cynhaliwyd yr hyn a alwyd gennym yn uwchgynhadledd ddiodydd yn Aberystwyth, wedi'i harwain gan y diwydiant. Croesawodd y Dirprwy Lywydd presennol ein hymrwymiad i dyfu gwinwydd yng Nghymru a lansiwyd ein cefnogaeth yno i'r holl ficrofragdai a chynhyrchwyr cwrw bach yng Nghymru. Roedd llawer o'r rhai sydd wedi cael eu crybwyll y prynhawn yma'n rhan o hynny, dan arweiniad Buster ym Mragdy Aberhonddu, sydd wedi gwneud gwaith ardderchog o ran darparu cefnogaeth ac arweiniad o'r diwydiant i'r cymorth y gall y Llywodraeth ei ddarparu. Pan ddaw'n bryd i ni benderfynu beth fyddwn yn ei gyflwyno drwy'r cynllun datblygu gwledig newydd, rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu rhoi cefnogaeth barhaus i fragwyr bach a gwinllannoedd Cymru. Rwy'n sicr yn rhoi fy ymrwymiad personol i hynny ynghyd â fy ymrwymiad personol i barhau i wneud popeth o fewn fy ngallu i gefnogi'r diwydiant hwnnw.

I also wish to say that, again, one of the things I tried to do as a Deputy Minister, and which I continue to do now, was to ensure that Pub is The Hub had the support of the rural development plan. It will continue to have the support of the rural development plan. I see that Darren Miller has returned to the Chamber now; I think that the Raven Inn is a good example of a community pub and what it can produce and deliver for a community. What we need to do is ensure that we have a context for that to provide the facilities that a community requires in terms of shops and post offices, and so that we can look to develop how those facilities and communities can deliver services in a particular way that is required, as well as to use the place of the pub in the community—not only its physical place, but its place in the culture of the community and in the heart of the community. I hope that we will be able to do that.

Hoffwn ddweud unwaith eto hefyd mai un o'r pethau y ceisiais ei wneud fel Dirprwy Weinidog, ac un o'r pethau rwy'n parhau i wneud nawr, oedd sicrhau bod Pub is The Hub yn cael cefnogaeth y cynllun datblygu gwledig. Bydd yn parhau i gael cefnogaeth y cynllun datblygu gwledig. Gwelaf fod Darren Miller wedi dychwelyd i'r Siambr nawr; credaf fod y Raven Inn yn enghraifft dda o dafarn gymunedol a'r hyn y gall ei gynhyrchu a'i gynnig i gymuned. Yr hyn sydd angen inni ei wneud yw sicrhau bod gennym gyd-destun i hynny er mwyn darparu'r cyfleusterau sydd eu hangen ar gymuned o ran siopau a swyddfeydd post, ac er mwyn i ni allu ceisio datblygu'r modd y gall y cyfleusterau a'r cymunedau hynny ddarparu gwasanaethau mewn ffordd benodol sydd ei hangen, yn ogystal â defnyddio lle'r dafarn yn y gymuned—nid yn unig ei lle yn yr ystyr ffisegol, ond ei lle yn niwylliant y gymuned ac yn galon i'r gymuned. Rwy'n gobeithio y gallwn wneud hynny.

I also hope that we will be able to ensure that we understand the potential and the possibilities for ensuring that pubs are able to change to meet the demands of a different age. Sometimes, we talk about pub closures and about the decline that we have seen in the absolute numbers of pubs, but I think we also need to understand and to recognise that pubs in the future will perform a different role to those in the past, and that we should not —. I hold pubs in great affection, but I do not think that we should fight for every single last public house. We need to ensure that we have public houses, pubs, that are fit for the future and provide a place where people and families—I stress families—can feel comfortable and can enjoy either food or a drink in the future.

Rwy'n gobeithio hefyd y gallwn sicrhau ein bod yn deall y potensial a'r posibiliadau ar gyfer sicrhau bod tafarndai yn gallu newid i gwrdd â gofynion oes wahanol. Weithiau, rydym yn siarad am gau tafarnau ac am y dirywiad a welsom yn niferoedd absoliwt tafarndai, ond credaf fod angen i ni ddeall a chydnabod hefyd y bydd tafarndai yn y dyfodol yn chwarae rôl wahanol i rai'r gorffennol, ac na ddylem—. Rwy'n hoff iawn o dafarndai ond nid wyf yn credu y dylem ymladd dros bob un tŷ tafarn sy'n bod. Mae angen i ni sicrhau bod gennym dafarndai sy'n addas ar gyfer y dyfodol ac yn darparu lle i bobl a theuluoedd—rwy'n pwysleisio teuluoedd—allu teimlo'n gyfforddus a mwynhau bwyd neu ddiod yn y dyfodol.

I have done my time in various pubs in different places, as people know—[Laughter.]—and there are some places where I would not take my family and some that I would not visit again, quite frankly. So, simply saying that we have to maintain every single pub in the country as it is and as it was I do not think is either realistic or viable, and I do not think that it is what people want either. So, I hope that we will be able to continue to almost reinvent the pub and to ensure that the pub remains something that it can be in the future.

Rwyf wedi treulio fy siâr o amser mewn amryw o dafarndai mewn gwahanol leoedd, fel y gŵyr pobl— [Chwerthin.] —ac mae rhai lleoedd na fyddwn yn mynd â fy nheulu yno ac eraill na fyddwn yn ymweld â hwy eto, a bod yn hollol onest. Felly, nid wyf yn credu bod dweud yn syml fod yn rhaid inni gadw pob un dafarn yn y wlad fel y mae ac fel yr oedd yn realistig nac yn ymarferol, ac nid wyf yn credu mai dyna beth y mae pobl ei eisiau chwaith. Rwy'n gobeithio felly y gallwn barhau i ailddyfeisio'r dafarn bron ac i sicrhau bod y dafarn yn parhau i fod yn rhywbeth y gall fod yn y dyfodol.

Certainly the Welsh Government remains committed, and, as a Minister, I will remain completely committed, to ensuring that we do what we can to ensure that pubs do have a future, and, of course, clubs, in different parts of Wales. We have ensured that investment has taken place through, as I said, the community enterprise fund. I know that my colleague the Minister for Communities and Tackling Poverty is looking at the issue of pubs as community assets and he will be returning to that when he has the opportunity to do so.

Yn sicr mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod wedi ymrwymo, ac fel Gweinidog, byddaf yn parhau i fod yn llwyr ymroddedig i sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn a allwn i sicrhau bod dyfodol i dafarndai, ac i glybiau mewn gwahanol rannau o Gymru hefyd, wrth gwrs. Rydym wedi sicrhau bod buddsoddi wedi digwydd drwy'r gronfa menter gymunedol, fel y dywedais. Gwn fod fy nghydweithiwr, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, yn edrych ar fater tafarndai fel asedau cymunedol a bydd yn dychwelyd at hynny pan gaiff gyfle i wneud hynny.

We also know that the business rate relief scheme has ensured that pubs will qualify for relief, and that will provide a welcome boost for pubs. The decision taken by my colleague the Minister for Economy, Science and Transport to cap business rates at 2% will save many pubs a great deal of money and will ensure that pubs will be more viable in future. We are ensuring, with the complete devolution of business rates to Wales—I recognise the point made by Rhun ap Iorwerth on this—that pubs will have the full opportunity to benefit from that in terms of what we are able to do.

Rydym hefyd yn gwybod bod y cynllun rhyddhad ardrethi busnes wedi sicrhau y bydd tafarndai yn gymwys i gael rhyddhad, a bydd hynny'n rhoi hwb i'w groesawu i dafarndai. Bydd penderfyniad fy nghydweithiwr, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i gapio ardrethi busnes ar 2% yn arbed llawer o arian i lawer o dafarndai a bydd yn sicrhau y bydd tafarndai'n fwy hyfyw yn y dyfodol. Gyda datganoli ardrethi busnes yn llawn i Gymru—rwy'n cydnabod y pwynt a wnaed gan Rhun ap Iorwerth ar hyn—bydd cyfle llawn i dafarndai elwa o hynny o ran yr hyn y gallwn ei wneud.

I also know that the Minister for Housing and Regeneration is looking at how the planning system can be used to support pubs in the future, so that, when there are proposals to change the use of a pub, there are opportunities for that to be challenged and that there is potential for community pubs to have a separate use class for those. There are a number of significant issues about how they are legally defined for the purposes of falling into that class and it might be difficult to differentiate between, for example, community pubs and ordinary pubs. However, it is important to recognise that there is a commitment on behalf of the Government to look at all of these matters.

Rwyf hefyd yn gwybod bod y Gweinidog Tai ac Adfywio yn edrych i weld sut y gellir defnyddio'r system gynllunio i gefnogi tafarndai yn y dyfodol, er mwyn sicrhau, pan fo cynigion i newid defnydd tafarn, fod cyfle i herio hynny a bod potensial i osod tafarndai cymunedol mewn dosbarth defnydd ar wahân ar gyfer hynny. Mae yna nifer o faterion o bwys yn codi ynglŷn â sut y cânt eu diffinio'n gyfreithiol er mwyn perthyn i'r dosbarth hwnnw a gallai fod yn anodd gwahaniaethu rhwng tafarndai cymunedol a thafarndai cyffredin er enghraifft. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod yna ymrwymiad ar ran y Llywodraeth i edrych ar yr holl faterion hyn.

Deputy Presiding Officer, you have been very generous to me and I will not press your generosity any further, but I will say in closing that I welcome very much the debate that we have had this afternoon and the tone and the tenor of that debate. I understand that the leader of the opposition will be responding to the debate this afternoon. I hope that we can continue, on all sides of the Chamber, to support our local pub and that all of us take time out to ensure that the pub is something that we support, not only when we are here on official business, but when we have time and an opportunity to relax with our families as well.

Ddirprwy Lywydd, rydych wedi bod yn hael iawn tuag ataf ac ni wnaf fynnu rhagor o'ch haelioni, ond hoffwn ddweud wrth gloi fy mod yn croesawu'n fawr y ddadl a gawsom y prynhawn yma a naws y ddadl honno. Rwy'n deall y bydd arweinydd yr wrthblaid yn ymateb i'r ddadl y prynhawn yma. Rwy'n gobeithio y gallwn barhau, ar bob ochr i'r Siambr, i gefnogi ein tafarn lleol a bod pob un ohonom yn rhoi amser i sicrhau bod y dafarn yn rhywbeth rydym yn ei gefnogi, nid yn unig pan rydym ni yma ar fusnes swyddogol, ond pan fydd gennym amser a chyfle i ymlacio gyda'n teuluoedd hefyd.

16:49

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar Andrew R.T. Davies i ymateb i'r ddadl.

I call Andrew R.T. Davies to reply to the debate.

16:49

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I welcome the opportunity to sum up the debate today and, in particular, welcome the way the debate was conducted, in good spirits, and also how it reflected on the importance of the pub in many of our communities.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Croesawaf y cyfle i grynhoi'r ddadl heddiw ac yn arbennig, i groesawu'r ffordd y cafodd y ddadl ei chynnal, mewn hwyliau da, a hefyd y modd y rhoddodd sylw i bwysigrwydd y dafarn yn llawer o'n cymunedau.

Janet Finch-Saunders opened the debate by mapping out the scenario in her own constituency, and, in particular, mentioned The Albion public house, which is a good example of a pub that came under threat, closed, and was reopened by the community coming together and by local microbreweries coming together to support that enterprise.

Agorodd Janet Finch-Saunders y ddadl drwy osod y senario yn ei hetholaeth ei hun a soniodd yn benodol am dafarn yr Albion, sy'n enghraifft dda o dafarn a wynebodd fygythiad o gau ac a gafodd ei hailagor wrth i'r gymuned ddod at ei gilydd a chan ficrofragdai lleol yn dod at ei gilydd i gefnogi'r fenter honno.

That is what this debate is about. It is about looking to try to find some of the solutions that the pub industry and the licensed industry are highlighting to us. We can all be rather jovial in this Chamber, but, in fairness, a lot of licensed premises across Wales—you only need to look at many of the auction sites to see that many of them are listed for sale or boarded up and closed—are under huge business pressure in terms of their future and fighting for their very existence.

Ymwneud â hynny y mae'r ddadl hon. Mae'n ymwneud â cheisio dod o hyd i rai o'r atebion y mae'r diwydiant tafarnau yn tynnu ein sylw atynt. Gallwn oll fod yn eithaf llawen yn y Siambr hon ond a bod yn deg, dim ond edrych ar lawer o'r safleoedd arwerthu sydd angen i chi ei wneud i weld bod llawer ohonynt yn cael eu rhestru ar gyfer eu gwerthu neu eu bordio a'u cau. Mae llawer o safleoedd trwyddedig ledled Cymru o dan bwysau busnes enfawr o ran eu dyfodol ac yn ymladd am eu bodolaeth.

There is much that the Welsh Government could do, and I will certainly touch on it as I sum up later on, but I would just like to touch on some of the contributions that people have made here today. First of all, to the Member for Plaid Cymru who spoke to and moved Plaid Cymru's amendments, we will be abstaining on amendment 1, not because we disagree with it, but because we are a little uncertain as to what sort of money you are talking about, if you were to set up such a community fund, and exactly what the parameters of that fund would be. I have to say that I am none the wiser after the Member's contribution today, so I look forward to more details coming forward on that. We are happy to support amendment 2, we will be supporting amendment 3, and, on amendment 4 in the name of Aled Roberts, moved by William Powell, we will again be abstaining. Again, it is not that we disagree with the point, but we are not quite clear exactly what you are saying with regard to a separate use class for community pubs. I do think that to gain support and to try to bring that forward, it needs more fleshing out, but I appreciate the sentiment behind the amendment today, and that is why we have tried to be constructive in what we have tried to say in the whole debate.

Mae llawer y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud, a byddaf yn sicr yn cyffwrdd ar hynny wrth i mi grynhoi nes ymlaen, ond hoffwn sôn rhywfaint am rai o'r cyfraniadau a wnaed yma heddiw. Yn gyntaf oll, i'r Aelod dros Blaid Cymru a siaradodd am welliannau Plaid Cymru, byddwn yn ymatal ar welliant 1, nid oherwydd ein bod yn anghytuno ag ef, ond oherwydd ein bod braidd yn ansicr ynglŷn â faint o arian sydd gennych mewn golwg pe baech yn sefydlu cronfa gymunedol o'r fath, a beth yn union fyddai paramedrau'r gronfa honno. Mae'n rhaid i mi ddweud nad wyf ronyn callach ar ôl cyfraniad yr Aelod heddiw, felly rwy'n edrych ymlaen at weld mwy o fanylion am hynny. Rydym yn hapus i gefnogi gwelliant 2, byddwn yn cefnogi gwelliant 3, a hefyd o ran gwelliant 4 yn enw Aled Roberts, a gynigiwyd gan William Powell, byddwn yn ymatal. Unwaith eto, nid ydym yn anghytuno â'r pwynt, ond nid ydym yn hollol glir ynglŷn â beth yn union rydych yn ei ddweud o ran dosbarth defnydd ar wahân ar gyfer tafarndai cymunedol. Er mwyn denu cefnogaeth a cheisio symud hynny yn ei flaen, credaf fod angen ymhelaethu arno, ond rwy'n gwerthfawrogi'r teimlad sy'n sail i'r gwelliant heddiw a dyna pam rydym wedi ceisio bod yn adeiladol yn yr hyn rydym wedi ceisio ei ddweud drwy gydol y ddadl.

Mohammad Asghar touched on the important point of the roles that pubs have played within our communities over generations, going back to the wars, for example, in being focal points for organisation. He also humorously touched on the oasis that he and Nick Ramsay found when they were travelling around Anglesey, especially at lunchtime, and then it turned out to be the party headquarters for Rhun ap Iorwerth's successful election. Obviously, our fifth column operation did not work very successfully that day, did it? However, again, that just shows, as Mohammad Asghar outlined, the vital community role that pubs have played throughout the generations, and not just in the present day, but throughout history. There were the important examples that he listed in Abergavenny, in Newport and Monmouthshire, which epitomise the roles that pubs had over the years, so much so that a courthouse to a capital punishment destination were all within one enterprise—quite a feat, I would suggest.

Cyffyrddodd Mohammad Asghar ar bwyntiau pwysig ynghylch y rolau y mae tafarnau wedi'u chwarae yn ein cymunedau dros genedlaethau, yn mynd yn ôl at y rhyfeloedd er enghraifft, drwy fod yn fannau canolog ar gyfer trefniadaeth. Soniodd yn ddoniol am y werddon y daeth ef a Nick Ramsay o hyd iddi wrth deithio o gwmpas Ynys Môn, yn enwedig amser cinio, a'i bod yn ymddangos mai hon oedd pencadlys y blaid adeg etholiad llwyddiannus Rhun ap Iorwerth. Yn amlwg, nid oedd ein pumed golofn yn gweithio'n llwyddiannus iawn y diwrnod hwnnw, oedd hi? Ond unwaith eto, roedd hynny'n dangos, fel y dywedodd Mohammad Asghar, y rôl gymunedol hanfodol y mae tafarndai wedi'i chwarae ar hyd y cenedlaethau, ac nid dim ond heddiw, ond drwy gydol hanes. Roedd yr enghreifftiau pwysig a restrodd yn y Fenni, yng Nghasnewydd a Sir Fynwy, yn ddrych bendigedig o rolau tafarndai dros y blynyddoedd, cymaint felly fel bod darpariaeth llys i gyrchfan y gosb eithaf oll o fewn un fenter-tipyn o gamp, buaswn yn awgrymu.

Mike Hedges pressed the point about how we could move this debate forward, given that we reformed the pub trade back in the early 1990s. I would suggest that we are in a completely different environment today, Mike. Frankly, if you are trying to compare the environment that pubs are competing in today with that of 20 or 25 years ago, it is completely different. The way that people shop, the way that people live and the way that people consume alcohol now mean that it is a different ball game today to what it was 20 or 25 years ago. It is time now for the Government to be more proactive in the planning system and with regard to business rates in particular. This is a point that we have put forward since early 2007-08. I can remember the Deputy Presiding Officer, when he was our business and enterprise spokesman, moving many debates in this Chamber about a business rate relief scheme that would see businesses with a rateable value of up to £12,000 exempt.

Pwysleisiodd Mike Hedges y pwynt ynghylch sut y gallem symud y ddadl hon yn ei blaen o gofio ein bod wedi diwygio’r fasnach dafarn yn ôl yn y 1990au cynnar. Buaswn yn awgrymu ein bod mewn amgylchedd cwbl wahanol heddiw, Mike. A dweud y gwir, os ydych yn ceisio cymharu’r amgylchedd y mae tafarndai’n cystadlu ynddo heddiw â’r hyn oedd 20 neu 25 mlynedd yn ôl, mae’n hollol wahanol. Mae’r ffordd y mae pobl yn siopa, y ffordd y mae pobl yn byw a’r ffordd y mae pobl yn yfed alcohol bellach yn golygu fod pethau’n wahanol iawn heddiw i’r hyn ydoedd 20 neu 25 mlynedd yn ôl. Mae’n bryd bellach i’r Llywodraeth fod yn fwy rhagweithiol o fewn y system gynllunio ac o ran ardrethi busnes yn benodol. Mae hwn yn bwynt rydym wedi bod yn ei gyflwyno ers dechrau 2007-08. Gallaf gofio’r Dirprwy Lywydd, pan oedd yn llefarydd menter a busnes ar ein rhan, yn cyflwyno nifer o ddadleuon yn y Siambr hon am gynllun rhyddhad ardrethi busnes a fyddai’n eithrio busnesau ag iddynt werth ardrethol o hyd at £12,000.

My colleague Paul Davies from Pembrokeshire made the point about pubs in his community and their link with tourism. I think that Pembrokeshire is a good example, because since May 2011 16 pubs have shut in Pembrokeshire and the average rateable value of those pubs was £12,072. So, if the Conservative policy on business rates had been in place, many of those businesses would not have paid any business rates at all, and that would have allowed those pubs to have a viable future. It might not have saved all of them, but it certainly would have given them an opportunity to be viable businesses.

Mae fy nghydweithiwr, Paul Davies, o Sir Benfro wedi gwneud y pwynt ynglŷn â thafarndai yn ei gymuned a’u cysylltiad â thwristiaeth. Credaf fod Sir Benfro yn enghraifft dda, oherwydd ers mis Mai 2011, mae 16 tafarn wedi cau yn Sir Benfro a gwerth ardrethol cyfartalog y tafarndai hynny oedd £12,072. Felly, pe bai polisi’r Ceidwadwyr ar ardrethi busnes wedi bod ar waith ni fyddai llawer o’r busnesau hynny wedi talu unrhyw ardrethi busnes o gwbl a byddai hynny wedi rhoi dyfodol hyfyw i’r tafarnau hynny. Efallai na fyddai wedi achub pob un ohonynt, ond byddai’n sicr wedi rhoi cyfle iddynt fod yn fusnesau hyfyw.

16:53

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Would you not accept that it is the rent that is the real problem for most pubs, and having to pay that to the pub company, much more than the rates?

Oni fyddech yn derbyn mai’r rhent yw’r broblem go iawn i’r rhan fwyaf o dafarnau, a gorfod talu hwnnw i’r cwmni tafarnau, yn llawer mwy na’r ardrethi?

16:53

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I accept that there is a basket of issues that need to be tackled here, but that does not mean that the Welsh Government, just because it is not within its competence, should not do more to proactively support the pub trade within Wales. As I have said, the policy and the announcement that we made recently about business rates and around planning issues, because planning is a completely devolved issue, especially on the change of use of many of the facilities, would be a game changer for many businesses, which could make modest changes within their businesses, such as to host a post office, host a village shop or to change dining arrangements, just to expand into another income stream that would support the retention of the public house in that area.

Rwy’n derbyn bod cyfuniad o faterion y mae angen mynd i’r afael â hwy yn hyn o beth, ond nid yw hynny’n golygu na ddylai Llywodraeth Cymru fynd ati’n fwy rhagweithiol i gefnogi’r diwydiant tafarn yng Nghymru, ddim ond am nad yw hynny o fewn ei chymhwysedd. Fel y dywedais, byddai’r polisi a’r cyhoeddiad a wnaethom yn ddiweddar ynglŷn ag ardrethi busnes ac am faterion cynllunio, oherwydd bod cynllunio yn fater sydd wedi’i ddatganoli’n llwyr—yn enwedig o ran newid defnydd llawer o’r cyfleusterau—yn newid pethau i lawer o fusnesau, a allai wneud newidiadau bychain o fewn eu busnesau, megis cynnal swyddfa bost, cynnal siop bentref neu newid trefniadau bwyta, dim ond i ehangu i ffrwd incwm arall a fyddai’n cefnogi cadw’r dafarn yn yr ardal honno.

What we are saying is that we accept that there is no silver bullet, and we take the point that the Minister made in his address today that we cannot look back, misty eyed, to an era that most probably will never come back, where there was this big drinking culture. The pub needs to be a welcoming environment for the family and for the individual. With the explosion, I would suggest, in microbreweries, I would suggest that there is a huge opportunity to tap into a local brewing market while supporting the historical importance of pubs, which people, when they are on tourist ventures, try to explore in order to find out more about the community that they are visiting. So, there is a bright future, but the Welsh Government can be more proactive in what it is doing.

Yr hyn rydym yn ei ddweud yw ein bod yn derbyn nad oes un ateb sy’n datrys pob dim, ac rydym yn derbyn y pwynt a wnaeth y Gweinidog yn ei anerchiad heddiw na allwn edrych yn ôl yn hiraethus at oes nad yw’n debygol o ddychwelyd, pan oedd diwylliant yfed yn gryf. Mae angen i’r dafarn fod yn amgylchedd croesawgar i deuluoedd ac unigolion. Gyda’r cynnydd mawr yn nifer y microfragdai, byddwn yn awgrymu bod yna gyfle enfawr i fanteisio ar farchnad fragu leol tra’n cefnogi pwysigrwydd hanesyddol tafarndai y bydd pobl ar berwyl twristaidd yn ceisio’i archwilio er mwyn darganfod mwy am y gymuned y maent yn ymweld â hi. Felly, mae’r dyfodol yn ddisglair, ond gall Llywodraeth Cymru fod yn fwy rhagweithiol o ran yr hyn y mae’n ei wneud.

I very much hope that the Government and the Minister, in particular, will work with colleagues—whether it is the Minister for business and enterprise or the Minister for planning—to bring forward a more favourable business rates policy and a more favourable planning regime, but, above all, as Janet Finch-Saunders opened with today, the community right-to-buy aspect in the Localism Act 2011 would be a vital supporting plank to our pub trade and could offer a breathing space. So, if the threat of closure is there, and a big supermarket or one of the multiples wants to come in, the community can have that breathing space to step in and raise the funds to buy and maintain that enterprise. As I think that Janet Finch-Saunders quite rightly put it, it would stop the clock and give that opportunity. So, I hope that the Minister has listened to what we have said today. I hope that the Chamber will support the motion before it, because it is laid with the best intentions, and it is laid with the intention of supporting one of our most important parts of community support, which is the public house.

Rwy’n mawr obeithio fod y Llywodraeth, a’r Gweinidog yn enwedig, yn gweithio gyda chydweithwyr—y Gweinidog menter a busnes neu’r Gweinidog cynllunio—i gyflwyno polisi ardrethi busnes mwy ffafriol a threfn gynllunio fwy ffafriol, ond yn anad dim, fel y soniodd Janet Finch-Saunders wrth agor heddiw, byddai elfen gymunedol hawl-i-brynu yn Neddf Lleoliaeth 2011 yn gynhaliad allweddol i’n masnach dafarn a gallai gynnig lle anadlu. Felly, os oes bygythiad i gau a bod archfarchnad fawr neu un o’r siopau cadwyn yn awyddus i ddod i mewn, bydd lle i anadlu gan y gymuned er mwyn camu i mewn a chodi arian i brynu a chynnal y fenter. Fel y dywedodd Janet Finch-Saunders yn gwbl briodol, byddai’n stopio’r cloc ac yn cynnig cyfle o’r fath. Rwy’n gobeithio felly fod y Gweinidog wedi gwrando ar yr hyn rydym wedi’i ddweud heddiw. Rwy’n gobeithio y bydd y Siambr yn cefnogi’r cynnig ger ei fron, gan mai’r bwriadau gorau sy’n sail iddo, yn cynnwys y bwriad o gefnogi un o’n cyfryngau cymorth cymunedol pwysicaf, sef y dafarn.

16:56

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Nid oes gwrthwynebiad, felly derbynnir y cynnig heb ei ddiwygio yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

The question is that the motion be agreed unamended. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion as unamended is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

# Dadl Plaid Cymru: Cyflogaeth Ieuenctid

# Plaid Cymru Debate: Youth Employment

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 4 yn enw Aled Roberts, a gwelliant 3 yn enw Paul Davies. Ni ddetholwyd gwelliant 2.*

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 4 in the name of Aled Roberts, and amendment 3 in the name of Paul Davies. Amendment 2 not selected.*

16:56

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Rhun ap Iorwerth to move the motion.

Cynnig NDM5495 Elin Jones

Motion NDM5495 Elin Jones

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi bod y gyfradd ddiweithdra ymhlith ieuenctid yn 21.3%—y lefel uchaf o blith pedair gwlad y DU;

1. Notes that the youth unemployment rate stands at 21.3%—the highest level of all the four UK nations;

2. Yn gresynu bod diweithdra hirdymor ymhlith pobl ifanc wedi cynyddu bedair gwaith ers ffurfio'r Llywodraeth Cymru bresennol;

2. Regrets that long-term youth unemployment has quadrupled since the current Welsh Government took office;

3. Yn cydnabod gwerth pobl ifanc i economi Cymru; a

3. Recognises the value of young people to the Welsh economy; and

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau ar unwaith i wella rhagolygon economaidd pobl ifanc.

4. Calls on the Welsh Government to take immediate steps to enhance the economic prospects of young people.

16:56

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Cynigiaf y cynnig.

I move the motion.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Diolch am y cyfle i gyflwyno dadl Plaid Cymru y prynhawn yma. Mae hi'n ddadl sydd yn rhoi sylw i gyfran o'r boblogaeth sydd wedi cael ei tharo'n waeth na neb yng nghwymp ariannol y blynyddoedd diwethaf, ac a all deimlo ei bod yn cael ei gadael ar ôl wrth i ni, yn araf bach, gobeithio, yn dechrau dod allan o'r cwymp, sef ein pobl ifanc.

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. Thank you for the opportunity to introduce the Plaid Cymru debate this afternoon. It is a debate that will give attention to a section of the population that has been hit harder than anyone else in the financial depression of the past few years, and that could feel that it is being left behind as we, slowly, hopefully, start to come out of the recession, and that is our young people.

Mae sicrhau bod pobl ifanc yn gallu chwarae rhan lawn yn yr economi yn gwbl allweddol, wrth gwrs, ac yn rhywbeth dylai fod yn flaenoriaeth i unrhyw Weinidog dros yr economy mewn unrhyw Lywodraeth. Os ydym am greu economi sydd yn gryf ac yn gynaliadwy, mae'n rhaid sicrhau bod ein pobl ifanc mewn gwaith neu hyfforddiant a bod ganddynt y sgiliau cywir er mwyn llwyddo a chwarae rhan o fewn economi heddiw ac economi'r dyfodol. Cawn glywed mwy am sgiliau ac addysg gan rai o'm nghyd-Aelodau yn nes ymlaen. Clywn am rai o'r problemau sydd yn wynebu pobl ifanc yn sgîl diffyg sgiliau a diweithdra, o broblemau tai i drafferthion trin arian, ond gwnaf ganolbwyntio ar graidd y mater, os caf, sef diweithdra ei hun.

Ensuring that young people can play a full part in the economy is completely key, of course, and is something that should be a priority for any Minister for the economy in any Government. If we are to create an economy that is strong and sustainable, we have to ensure that our young people are in employment or training and have the correct skills to be able to succeed and play their part in the economy today and in the future. We will hear more about skills and education from some of my colleagues later. We will hear about some of the problems that young people face as a result of a lack of skills and unemployment, from housing problems to difficulties managing money, but I will concentrate on the core issue, which is unemployment itself.

Mae'n fater o gryn bryder bod 21.3% o bobl ifanc Cymru yn ddi-waith—canran uwch nac mewn unrhyw wlad arall yn y Deyrnas Gyfunol. Mae'n ffigur gwbl annerbyniol. Yr hyn sydd hefyd yn gwbl annerbyniol yw'r ffaith bod y Llywodraeth yn y fan hon yn benderfynol o ddefnyddio ffigurau answyddogol, arbrofol, er mwyn creu darlun sydd rhywsut yn trio cuddio'r ystadegau swyddogol, gan wadu bodolaeth, i bob pwrpas, ffigurau sydd, yn amlwg, yn niweidiol iddi yn wleidyddol. Dywedais yn ddiweddar yn y Siambr fy mod yn gobeithio yn wir fod y Llywodraeth yn iawn, ac rwyf yn meddwl hynny—wrth gwrs fy mod i. Fodd bynnag, mae arnaf ofn bod yn rhaid i'r Llywodraeth dderbyn yr hyn y mae ONS yn ei ddweud. Cydnabod maint y broblem sydd yn bwysig, a mynd i'r afael â'r sefyllfa, nid trio mowldio'r ffigurau er mwyn trio creu'r argraff bod popeth yn iawn. Nid yw'r Llywodraeth yn cuddio ei phen yn y tywod yn helpu'r un person ifanc sydd yn ddi-waith ac yn trio ei gorau i symud o golofn ystadegol nifer y ddi-waith i golofn y cyfrannwyr economaidd, lle maent i gyd yn haeddu bod.

It is a matter of great concern that 21.3% of Welsh young people are unemployed—a higher percentage than in any other country in the United Kingdom. It is a completely unacceptable figure. What is also completely unacceptable is the fact that the Government here is determined to use unofficial, experimental figures in order to create a picture that is somehow trying to hide the official figures, denying the existence, to all intents and purposes, of figures that are, clearly, going to affect it politically. I did say recently in the Chamber that I was truly hoping that the Government was correct, and I mean that—of course I do. However, I am afraid that the Government has to accept what the ONS says. It is important to recognise the size of the problem and to address the situation, rather than trying to mould the figures in order to create the impression that everything is okay. The Government burying its head in the sand does not help any unemployed young person trying their best to move from the statistical column of the unemployed to that of the economically active, where they all deserve to be.

Fel y dywedais, mae'r ffigurau swyddogol yn dangos bod 21.3% o bobl ifanc Cymru yn ddi-waith. Maent hefyd yn dangos bod pobl ifanc yn cael eu gadael ar ôl ers i Lafur gymryd drosodd gan Blaid Cymru ar yr economi. Mae'r ganran o bobl ifanc sydd wedi bod yn hawlio budd-dal diweithdra am fwy na blwyddyn wedi ei chynyddu dros 400% ers i'r Blaid Lafur ffurfio'r Llywodraeth bresennol.

As I said, the official figures show that 21.3% of Welsh young people are unemployed. They also show that young people are being left behind since Labour took over from Plaid Cymru on the economy. The percentage of young people that have been claiming unemployment benefit for over a year has increased by over 400% since the Labour Party formed the current Government.

Dylai'r ystadegyn hwnnw, yn amlwg, anfon ias i lawr gefn y Gweinidog a deffro pawb sy'n eistedd y tu ôl iddi.

That statistic should, obviously, send a shiver down the spine of the Minister and awaken everyone who is sitting behind her.

Gadewch inni edrych ar y gweithlu yn ehangach. Rydym yn gwybod mai'r categori oedran pwysig i'r economi yw'r categori 16 i 64 oed. Mae cael y boblogaeth sy'n cwympo i mewn i'r categori mawr hwnnw yn gweithio, yn ennill pres ac yn cynhyrchu twf economaidd yn hanfodol bwysig. Fodd bynnag, er mwyn gallu gwneud hynny yn llawn, mae'n rhaid inni sicrhau bod gwaelod y categori hwnnw—ein pobl ifanc ni, rhwng 16 a 24 oed—yn gallu dod o hyd i waith, a hwnnw'n waith da, sy'n talu'n briodol ac yn ychwanegu at ein heconomi, er mwyn bwydo i mewn i'r darlun cyfan hwnnw, gan osod patrymau o weithgarwch economaidd a fydd, rwy'n gobeithio, yn aros gyda nhw drwy gydol eu hoes.

Let us look at the wider workforce. We know that the important age category for the economy is the 16 to 64 age category. Having the population that falls into that large category working, earning money and creating economic growth is vital. However, in order to be able to do that fully, we have to ensure that the bottom end of that category—our young people, between the ages of 16 and 24—can find employment, and good employment at that, which pays appropriately and adds to our economy, in order to feed into the complete picture, setting the patterns of economic activity that will, I hope, stay with them for the rest of their lives.

Data show that creating employment in itself has historically not been Wales's problem. This is something that I have said before. Rather, the problem of creating the right kind of employment has held Wales back. A report by the UK Commission for Employment and Skills shows that GVA growth between 2000 and 2010 was 0.9% in Wales, compared with 1.5% across the UK. Employment growth over the same period was 0.7% in Wales, compared with 0.4% across the UK. Projections for the 2010-20 period show pretty much the same pattern. It is low productivity that we need to tackle—something that this Government seems unable to grasp. It is something that frequently gets ignored by the UK Government as well. Yesterday's GDP figures are another example of that. Yes, GDP increased by 0.8%, but we do not ever hear the Government talk about GDP per head. If the economy grows by 0.8% but the population grows, GDP is not quite as useful as a tool. We want economic growth to bring benefits to the people who live and work in our communities. Creating better employment, raising wages, bringing high-skills industries to Wales and, crucially, upskilling our young people so that these opportunities are open to them is what will make a difference to people's lives and convert economic growth into increases in quality of life, which is what we are all after. This is why Plaid Cymru made securing higher level apprenticeships a priority when we had the opportunity during the 2013-14 budget negotiations. Thanks to that Plaid Cymru intervention, the Government was then in a position to make 5,000 new apprenticeship placements available, with over 2,000 of those at level 4 or above. That is what we want to hear.

Dengys y data nad creu cyflogaeth ynddo'i hun yw problem Cymru wedi bod yn hanesyddol. Mae hyn yn rhywbeth rwyf wedi'i ddweud o'r blaen. Yn hytrach, mae'r broblem o greu'r math iawn o gyflogaeth wedi dal Cymru yn ôl. Mae adroddiad gan Gomisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau yn dangos bod twf Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) rhwng 2000 a 2010 yn 0.9% yng Nghymru, o'i gymharu â 1.5% ar draws y DU. Roedd twf cyflogaeth dros yr un cyfnod yn 0.7% yng Nghymru, o'i gymharu â 0.4% ar draws y DU. Mae amcanestyniadau ar gyfer y cyfnod 2010-20 yn dangos patrwm rywbeth yn debyg. Cynhyrchiant isel sydd angen inni fynd i'r afael ag ef—rhywbeth nad yw'n ymddangos bod y Llywodraeth hon yn ei ddeall. Yn aml, mae'n rhywbeth sy'n cael ei anwybyddu gan Lywodraeth y DU hefyd. Mae ffigurau cynnyrch mewnwladol crynswth (CMC) ddoe yn enghraifft arall o hynny. Do, cynyddodd CMC 0.8%, ond nid ydym yn clywed y Llywodraeth yn siarad am CMC y pen byth. Os yw'r economi'n tyfu 0.8% ond bod y boblogaeth yn tyfu, nid yw CMC yn fesur llawn mor ddefnyddiol. Rydym eisiau i dwf economaidd greu manteision i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn ein cymunedau. Creu gwell cyflogaeth, codi cyflogau, denu diwydiannau sgiliau uchel i Gymru ac yn hollbwysig, uwchsgilio ein pobl ifanc fel bod y cyfleoedd hyn yn agored iddynt yw'r hyn fydd yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ac yn trosi twf economaidd yn welliannau i ansawdd bywyd, sef yr hyn rydym i gyd yn ei ddeisyfu. Dyma pam y rhoddodd Plaid Cymru flaenoriaeth i sicrhau prentisiaethau lefel uwch pan gawsom gyfle i wneud hynny yn ystod y trafodaethau ar y gyllideb 2013-14. Diolch i ymyriad Plaid Cymru, roedd y Llywodraeth wedyn mewn sefyllfa i gynnig 5,000 o brentisiaethau newydd, gyda thros 2,000 o'r rheini ar lefel 4 neu uwch. Dyna'r hyn rydym am ei glywed.

Young people taking advantage of these schemes will have in-demand skills, making them highly employable and attractive not only to existing employers but also to potential investors, who might well base decisions on where to locate on the skills base on offer. The success of the Plaid Cymru-driven apprenticeships deal is evident, in that the apprenticeships are heavily oversubscribed. I know that my colleagues will be referring to what further steps we would like to see being taken in that area in this debate this afternoon.

Bydd pobl ifanc sy'n manteisio ar y cynlluniau hyn yn ennill sgiliau y mae galw amdanynt, gan eu gwneud yn gyflogadwy ac yn ddeniadol iawn nid yn unig i gyflogwyr presennol ond hefyd i ddarpar fuddsoddwyr a allai'n hawdd fod yn seilio'u penderfyniadau ynglŷn â ble i leoli ar y sylfaen sgiliau sy'n cael ei chynnig. Mae llwyddiant y prentisiaethau a ysgogwyd gan Blaid Cymru yn amlwg, gan fod llawer mwy o geisiadau na nifer y prentisiaethau sydd ar gael. Rwy'n gwybod y bydd fy nghydweithwyr yn cyfeirio at y camau pellach y byddem yn hoffi eu gweld yn cael eu cymryd yn y maes hwnnw yn y ddadl y prynhawn yma.

To summarise, what Plaid Cymru is calling for is a genuine and honest assessment by the Government of the challenge that it faces and the worsening picture, as far as long-term youth unemployment is concerned, over the period since it came to power, and a recognition that the Government must strive for better, as well as more numerous, employment opportunities for young people.

I grynhoi, yr hyn y mae Plaid Cymru yn galw amdano yw asesiad dilys a gonest gan y Llywodraeth o'r her y mae'n ei hwynebu a'r darlun sy'n gwaethygu o ran diweithdra hirdymor ymhlith pobl ifanc dros y cyfnod ers iddi ddod i rym, a chydnabyddiaeth fod yn rhaid i'r Llywodraeth ymdrechu am well cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc, yn ogystal â mwy o gyfleoedd o'r fath.

Rwyf yn falch iawn o gael cyflwyno'r cynnig hwn gerbron y Cynulliad heddiw. Rwyf yn ffyddiog y byddwch yn ei gefnogi.

I am very pleased to be able to move this motion before the Assembly today. I am confident that you will support it.

17:04

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected amendments 1, 3 and 4 to the motion. I have not selected amendment 2 for debate. I call on Eluned Parrott to move amendments 1 and 4, tabled in the name of Aled Roberts.

Rwyf wedi dethol gwelliannau 1, 3 a 4 i'r cynnig. Nid wyf wedi dethol gwelliant 2 ar gyfer dadl. Galwaf ar Eluned Parrott i symud gwelliannau 1 a 4, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Ym mhwynt 3, ar ôl 'Cymru' rhoi 'ac yn gresynu mai dim ond 60% o raddedigion gradd gyntaf cyflogedig, llawn amser o Sefydliadau Addysg Uwch Cymru a arhosodd yng Nghymru i weithio chwe mis ar ôl graddio.'*

*In point 3, after 'economy' insert 'and regrets that only 60% of employed, full-time, first-degree graduates from Welsh HEIs remained in Wales for employment six months after graduation'.*

*Gwelliant 4—Aled Roberts*

*Amendment 4—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gasglu gwell data er mwyn cyfrannu at bolisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i allu cydweddu cyfleoedd hyfforddi a graddedigion yng Nghymru yn well.*

*Calls on the Welsh Government to collect improved data in order to inform evidence-based policies to better match training opportunities and graduates in Wales.*

17:04

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendments 1 and 4 in the name of Aled Roberts.

Cynigiaf welliannau 1 a 4 yn enw Aled Roberts.

I would like to thank Plaid Cymru for bringing this debate today, and I welcome the opportunity to drill into our labour market statistics here in Wales. I share some of the concerns that have been raised by the opening speaker today. While the top-level International Labour Organization unemployment data show that joblessness in Wales is moving in the right direction, I believe that we need to have a better understanding of the structure of the labour market in Wales underneath that, if we are going to ensure that everyone has the opportunity to raise their fortunes as the economy continues to grow. In fact, only this week, we have seen the announcement of UK growth of 0.8% in the first quarter of this year. It is a fantastic rate and a fifth consecutive quarter of growth, and I am sure that it is something that we all welcome, but we do not yet know whether that growth is being seen here in Wales at the same pace, as we do not have gross domestic product (expenditure) data for Wales. So, I would encourage the Deputy Minister to press his colleagues to do what the Scottish Government does, which is to commission the growth data, the GDP€ data, from the Office for National Statistics, because it is important to the understanding of how our economy is faring, and it is important for us to be timely in the way that we respond to it.

Hoffwn ddiolch i Blaid Cymru am gyflwyno'r ddadl hon heddiw, a chroesawaf y cyfle i fynd at wraidd ein hystadegau ar y farchnad lafur yma yng Nghymru. Rwy'n rhannu rhai o'r pryderon a godwyd gan y siaradwr agoriadol heddiw. Er bod data diweithdra safon uchaf y Sefydliad Llafur Rhyngwladol yn dangos bod diweithdra yng Nghymru yn symud i'r cyfeiriad iawn, credaf fod angen i ni gael gwell dealltwriaeth o strwythur y farchnad lafur yng Nghymru o dan hynny os ydym yn mynd i sicrhau bod pawb yn cael cyfle i wella'u ffortiwn wrth i'r economi barhau i dyfu. Mewn gwirionedd, yr wythnos hon gwelsom gyhoeddi twf yn y DU o 0.8% yn chwarter cyntaf y flwyddyn hon. Mae'n gyfradd ardderchog a dyma'r pumed chwarter yn olynol o dwf. Rwy'n siŵr ei fod yn rhywbeth rydym i gyd yn ei groesawu, ond ni wyddom eto a yw'r twf hwn yn digwydd yma yng Nghymru ar yr un cyflymder, gan nad oes gennym ddata cynnyrch mewnwladol crynswth (gwariant) ar gyfer Cymru. Felly, byddwn yn annog y Dirprwy Weinidog i bwyso ar ei gydweithwyr i wneud yr hyn y mae Llywodraeth yr Alban yn ei wneud, sef comisiynu'r data twf, y data CMC€, gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, am ei fod yn bwysig er mwyn deall sut y mae ein heconomi'n gwneud, ac mae'n bwysig i ni fod yn amserol o ran y ffordd rydym yn ymateb iddo.

I say that because it is growth that ultimately delivers sustainable jobs for people, and, of course, there is an important role for Government intervention, particularly in supporting those who face barriers to getting into work or training. However, without growth, we know that there will be no sustainable jobs in the private sector, so we need to see that and we need to understand the interrelationship between growth in the UK as a whole and growth in Wales. It is also to ensure that our policies tackle those areas where we have particular challenges, and it is important then to scratch beneath the surface of the higher-level statistics that we use so often, to make sure that we understand how the labour market is performing across a range of other indicators as well.

Dywedaf hynny am mai twf sy'n darparu swyddi cynaliadwy i bobl yn y pen draw, ac wrth gwrs, mae rôl bwysig i ymyrraeth ar ran y Llywodraeth, yn enwedig wrth gefnogi rhai sy'n wynebu rhwystrau rhag cael gwaith neu hyfforddiant. Fodd bynnag, heb dwf, gwyddom na fydd unrhyw swyddi cynaliadwy yn y sector preifat, felly mae angen gweld hynny a deall y gydberthynas rhwng twf yn y DU yn gyfan a thwf yng Nghymru. Gwneir hynny hefyd i sicrhau bod ein polisïau'n ymdrin â'r meysydd hynny lle mae gennym heriau penodol, ac mae'n bwysig crafu o dan wyneb yr ystadegau lefel uwch a ddefnyddiwn mor aml i wneud yn siŵr ein bod yn deall sut y mae'r farchnad lafur yn perfformio ar draws ystod o ddangosyddion eraill hefyd.

So, while I am of course glad that unemployment is falling by that measure, I am concerned that Wales has the joint-highest youth unemployment rate with Northern Ireland: 21.3%. I am even more concerned that, in analysing the labour market data available from the Nomis website from the Office for National Statistics, we find that, even more worryingly, Wales has a higher long-term youth unemployment rate than either England or Scotland—some 12% higher than the GB average. It worries me that I found those data on the Nomis website—the UK Government website—and not on the Welsh Government's StatsWales website. I wonder whether the Deputy Minister will confirm whether long-term youth unemployment statistics are published by StatsWales directly and how those data are then used by Government. As of last month, there were 3,305 people aged between 18 and 24 in Wales who had been unemployed, seeking work and claiming jobseeker's allowance for more than 12 months. We need to know the scale and the geographical spread of these kinds of problems if we are going to be able to tackle them effectively.

Felly, er fy mod yn falch fod diweithdra'n gostwng yn ôl y mesur hwnnw wrth gwrs, rwy'n pryderu bod Cymru'n rhannu'r safle uchaf gyda Gogledd Iwerddon o ran cyfradd diweithdra ymhlith pobl ifanc, sef 21.3 %. Wrth ddadansoddi data'r farchnad lafur ar wefan Nomis y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, rwy'n pryderu mwy fyth o weld fod cyfradd diweithdra hirdymor ymhlith pobl ifanc Cymru yn uwch na Lloegr a'r Alban—tua 12% yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Prydain Fawr. Mae'n fy mhoeni mai ar wefan Nomis y cefais hyd i'r data hwn—gwefan Llywodraeth y DU—nid ar wefan StatsCymru Llywodraeth Cymru. Tybed a wnaiff y Dirprwy Weinidog gadarnhau a yw ystadegau diweithdra hirdymor ymhlith pobl ifanc yn cael eu cyhoeddi gan StatsCymru yn uniongyrchol a sut y caiff y data hwnnw ei ddefnyddio wedyn gan y Llywodraeth. Y mis diwethaf, roedd 3,305 o bobl rhwng 18 a 24 oed yng Nghymru wedi bod yn ddi-waith, yn chwilio am waith ac yn hawlio lwfans ceisio gwaith ers dros 12 mis. Mae angen i ni wybod beth yw maint a lledaeniad daearyddol y mathau hyn o broblemau os ydym yn mynd i allu mynd i'r afael â hwy yn effeithiol.

The issue of geographical spread was, I think, highlighted in the publication of the new not in education, employment or training figures today. Of course, the figures are improving for those aged 18 to 24, and I am sure that we all welcome that, but the figures are not great for those leaving school at 16, who perhaps have the greatest barriers to tackle as they go into the jobs market. While the overall figure for Wales is down 0.5% on last year for 16-year-olds leaving school, which, as I say, is wonderful news, the figures have risen in nine of our 22 local authorities, including most of the areas in north Wales. So, the geographical element is important, and we have to know how that is working across other statistics, too.

Credaf fod mater lledaeniad daearyddol wedi cael sylw wrth gyhoeddi ffigurau newydd am bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant heddiw. Wrth gwrs, mae'r ffigurau yn gwella ar gyfer rhai rhwng 18 a 24 oed, ac rwy'n siŵr ein bod i gyd yn croesawu hynny, ond nid yw'r ffigurau'n wych ar gyfer rhai sy'n gadael yr ysgol yn 16 oed sydd efallai yn wynebu'r rhwystrau mwyaf wrth iddynt fynd i mewn i'r farchnad swyddi. Er bod y ffigur cyffredinol ar gyfer Cymru wedi gostwng 0.5% ers y llynedd ar gyfer rhai sy'n gadael ysgol yn 16 oed, sy'n newyddion gwych fel y dywedais, mae'r ffigurau wedi codi mewn naw o'n 22 awdurdod lleol, gan gynnwys y rhan fwyaf o ardaloedd y Gogledd. Felly mae'r elfen ddaearyddol yn bwysig ac mae'n rhaid i ni wybod sut y mae'n gweithio ar draws ystadegau eraill, hefyd.

Yes, of course, there has been a recession, and, yes, Wales has been hit very badly by it, but as the economy grows, we need to ensure that our support evolves to meet our changing needs, and it is these 3,300 people who need help, motivation and guidance from the Welsh Government, regardless, Deputy Minister, of whether they live in a Communities First cluster or not. Given that it is in nine of the 22 local authorities, including north Wales, that the NEET figure is not improving, I would suggest that, as only one of the Lift clusters is in north Wales, there are eight local authorities that need targeted help that are not currently receiving it.

Wrth gwrs bod dirwasgiad wedi bod a do, cafodd Cymru ergyd drom yn ei sgîl, ond wrth i'r economi dyfu, mae angen i ni sicrhau bod ein cefnogaeth yn esblygu i ddiwallu ein hanghenion sy'n newid, a bydd y 3,300 o bobl hyn angen cymorth, cymhelliant ac arweiniad gan Lywodraeth Cymru, Ddirprwy Weinidog, pa un a ydynt yn byw mewn clwstwr Cymunedau yn Gyntaf neu beidio. O gofio mai mewn naw o'r 22 awdurdod lleol yn cynnwys y Gogledd yr oedd y ffigur NEET yn methu â dangos gwelliant, gan mai dim ond un o'r clystyrau Esgyn sydd yn y Gogledd, byddwn yn awgrymu mai wyth awdurdod lleol sydd angen cymorth wedi'i dargedu nad ydynt yn ei dderbyn ar hyn o bryd.

There is an economic cost to this disengagement, of course, and we talk about it a lot, but I think that it is the personal cost to individuals that is the most appalling thing. It affects their health and wellbeing. It undermines their self-worth, and it even has an impact on the life chances of their children. If that disengagement begins early in life, it becomes very difficult to break. So, I thank Plaid Cymru for focusing on this issue today.

Mae cost economaidd i ymddieithriad o'r fath wrth gwrs, ac rydym yn siarad llawer am y peth, ond credaf mai'r gost bersonol i unigolion yw'r peth mwyaf ofnadwy. Mae'n effeithio ar eu hiechyd a'u lles. Mae'n tanseilio eu hunanwerth a hyd yn oed yn cael effaith ar gyfleoedd bywyd eu plant. Os yw ymddieithriad o'r fath yn dechrau'n gynnar mewn bywyd, mae'n mynd yn anodd iawn i'w ddadwneud. Felly, rwy'n diolch i Blaid Cymru am ganolbwyntio ar y mater hwn heddiw.

Turning to the amendments, we will support all of the amendments tabled. As I say, thank you for bringing the debate.

Gan droi at y gwelliannau, byddwn yn cefnogi pob un o'r gwelliannau a gyflwynwyd. Fel y dywedais, diolch i chi am gyflwyno'r ddadl.

17:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on William Graham to move amendment 3, tabled in the name of Paul Davies.

Galwaf ar William Graham i gynnig gwelliant 3, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 3—Paul Davies*

*Amendment 3—Paul Davies*

*Ym mhwynt 4, dileu 'gymryd camau ar unwaith' a rhoi yn ei le 'weithio ar y cyd gyda Llywodraeth y DU'.*

*In point 4 delete 'take immediate steps' and replace with 'work jointly with the UK Government'.*

17:09

## William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendments 2 and 3, in the name of—

Cynigiaf welliannau 2 a 3, yn enw-

17:09

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. You must move amendment 3.

Trefn. Mae'n rhaid i chi gynnig gwelliant 3.

17:09 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am so sorry; I do apologise. I move amendment 3 only.

Mae'n ddrwg iawn gennyf; rwy'n ymddiheuro. Cynigiaf welliant 3 yn unig.

I welcome this motion, as it allows us to consider the issue of lifting our young people away from the onerous burden of some of the Welsh Government's policies, recognising the skills and commitment they offer to increasing and sustaining our future economic prosperity. We all share the aspiration that our young people should gain the academic and vocational skills to meet the demands of the global economic and employment markets. We all acknowledge the need to invest in our young people to allow them the opportunities to gain higher skills levels. In this investment, we both demonstrate that we value their contribution and how to grow our economy together. However, we must also acknowledge and address the fact that we are currently not fully delivering on basic skills levels. Amendment 3 builds on recommendation 9 of Silk part 2—a theme taken up by the Secretary of State for Wales during the Wales Office job summit programme. The UK Government is firmly committed to working with the Welsh Government to ensure that young people have the opportunity to engage in the labour market in order to advance their career prospects, reduce the risk of long-term unemployment and welfare dependency and encourage social mobility and economic growth. It is clear that the United Kingdom is a major player in the labour market and that the necessity of a commitment to a clearer and co-ordinated approach to employment and training policies, defined in recommendation 9 of Silk part 2, is not only a Wales-England commitment, but a commitment involving all of the nations of the United Kingdom. United, we can create the widest opportunities to grow and sustain our economy. The statistics highlighted in the motion are factual and we are all aware of the hardship, hopelessness and wastefulness that they describe.

Croesawaf y cynnig hwn am ei fod yn caniatáu i ni ystyried y mater o godi beichiau rhai o bolisïau Llywodraeth Cymru oddi ar ysgwyddau ein pobl ifanc, a chydnabod y sgiliau a'r ymroddiad y maent yn eu cynnig i gynyddu a chynnal ein ffyniant economaidd yn y dyfodol. Rydym oll yn rhannu'r dyhead y dylai ein pobl ifanc ennill y sgiliau academaidd a galwedigaethol sydd eu hangen i ateb gofynion y marchnadoedd economaidd a chyflogaeth fyd-eang. Rydym oll yn cydnabod yr angen i fuddsoddi yn ein pobl ifanc i roi cyfle iddynt ennill sgiliau lefel uwch. Drwy'r buddsoddiad hwn, rydym yn dangos ein bod yn gwerthfawrogi eu cyfraniad a sut i dyfu ein heconomi gyda'n gilydd. Fodd bynnag, rhaid inni hefyd gydnabod a mynd i'r afael â'r ffaith nad ydym yn cyflawni'n llawn o ran sgiliau lefel sylfaenol ar hyn o bryd. Mae gwelliant 3 yn adeiladu ar argymhelliad 9 o ran 2 Silk—thema a fabwysiadwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ystod rhaglen uwchgynhadledd swyddi Swyddfa Cymru. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo'n bendant i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfle i gymryd rhan yn y farchnad lafur er mwyn datblygu eu rhagolygon gyrfa, lleihau'r risg o ddiweithdra hirdymor a dibyniaeth ar les ac annog symudedd cymdeithasol a thwf economaidd. Mae'n amlwg fod y Deyrnas Unedig yn chwarae rhan bwysig yn y farchnad lafur a bod yr angen am ymrwymiad i ddull cliriach a chydgysylltiedig o lunio polisïau cyflogaeth a hyfforddiant, a ddiffinnir yn argymhelliad 9 o ran 2 Silk, nid yn unig yn ymrwymiad rhwng Cymru a Lloegr, ond hefyd yn ymrwymiad sy'n cynnwys holl wledydd y Deyrnas Unedig. Gyda'n gilydd, gallwn greu'r cyfleoedd ehangaf ar gyfer tyfu a chynnal ein heconomi. Mae'r ystadegau a amlygwyd yn y cynnig yn ffeithiol ac rydym oll yn ymwybodol o'r caledi, yr anobaith a'r gwastraff y maent yn eu disgrifio.

We support amendment 1, which supports an issue that we all want to be resolved. Rather than allocating blame, it is about how to lift people from hardship or give them hope for the future. Leading the United Kingdom Government, the Conservatives have laid the foundation for future economic growth. The reality is that all nations in the United Kingdom will benefit from their actions. Our amendment today reflects the future opportunities that are opening up for us day by day. We want all our young people, our middle-aged people and people of a mature age to be able to seize these growing opportunities.

Rydym yn cefnogi gwelliant 1 sy'n cefnogi mater rydym oll am weld ei ddatrys. Yn hytrach na gweld bai, mae'n ymwneud â sut i dynnu pobl allan o galedi neu roi gobaith iddynt ar gyfer y dyfodol. Wrth arwain Llywodraeth y Deyrnas Unedig, mae'r Ceidwadwyr wedi gosod y sylfaen ar gyfer twf economaidd yn y dyfodol. Y realiti yw y bydd yr holl wledydd y Deyrnas Unedig yn elwa ar eu gweithredoedd. Mae ein gwelliant heddiw yn adlewyrchu'r cyfleoedd sy'n agor o'n blaenau o ddydd i ddydd ar gyfer y dyfodol. Rydym eisiau i'n holl bobl ifanc, ein pobl canol oed a'n pobl hŷn allu manteisio ar y cyfleoedd cynyddol hyn.

We shall also be supporting amendment 4. It is vital that we make evidence-based policies to match training opportunities that meet the requirements of local employers and allow Welsh graduates to achieve their aspirations. We understand the requirement to restructure our skills base, to engage fully with employers and to ensure that they are able to employ the skilled workforce that they truly need. The Welsh Conservatives not only monitor and scrutinise progress, but also offer support for those initiatives that we believe will achieve our common aim of a highly skilled, fully competitive workplace that can only sustain economic prosperity for Wales.

Byddwn hefyd yn cefnogi gwelliant 4. Mae'n hanfodol ein bod yn llunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gyd-fynd â chyfleoedd hyfforddi sy'n bodloni gofynion cyflogwyr lleol ac yn caniatáu i raddedigion Cymru gyflawni eu dyheadau. Rydym yn deall y gofyniad i ad-drefnu ein sylfaen sgiliau, i ymgysylltu'n llawn â chyflogwyr ac i sicrhau eu bod yn gallu cyflogi'r gweithlu medrus sydd ei angen arnynt mewn gwirionedd. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig nid yn unig yn monitro a chraffu ar gynnydd, ond hefyd rydym yn cynnig cymorth ar gyfer y mentrau hynny y credwn y byddant yn cyflawni ein nod cyffredin o sicrhau gweithle medrus iawn a chwbl gystadleuol er mwyn cynnal ffyniant economaidd Cymru.

17:12 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

There will be significant consequences for us if we fail to improve the economic situation of our young people. There is no doubt that home ownership is an aspiration for many of them. The high cost of rent, widespread poor conditions and the insecurity of living in the private rented sector mean that many young people hope to be able to buy their own home one day. However, for a large proportion, this aspiration remains no more than a dream, and a distant one at that, with the average first-time buyer age now being 37. Half of those living in the private rented sector would like to buy their own home but do not believe that they could ever afford to do so. Research suggests that those young people who hope to buy their own home by their mid-30s are not saving enough and a quarter of them are not saving anything at all. This is a shame for those who could afford a mortgage but cannot find the deposit.

Bydd canlyniadau sylweddol yn ein hwynebu os methwn â gwella sefyllfa economaidd ein pobl ifanc. Nid oes amheuaeth fod perchen eu tai eu hunain yn ddyhead i lawer ohonynt. Mae rhenti uchel, amodau gwael yn gyffredinol a'r ansicrwydd o fyw yn y sector rhentu preifat yn golygu bod llawer o bobl ifanc yn gobeithio gallu prynu eu cartref eu hunain rhyw ddydd. Fodd bynnag, i gyfran fawr ohonynt, dim ond breuddwyd yw'r dyhead hwn o hyd a dyna fydd hi am gyfnod hir gan fod cyfartaledd oedran pobl sy'n prynu tŷ am y tro cyntaf bellach yn 37. Byddai hanner y rhai sy'n byw yn y sector rhentu preifat yn hoffi prynu eu cartref eu hunain, ond nid ydynt yn credu y gallent fforddio gwneud hynny byth. Mae ymchwil yn awgrymu nad yw pobl ifanc sy'n gobeithio prynu eu cartref eu hunain erbyn cyrraedd canol eu 30au yn cynilo digon ac nid yw eu chwarter yn cynilo o gwbl. Mae hyn yn drueni i'r rhai a allai fforddio morgais ond na allant fforddio'r blaendal.

The current generation of young people who can find work face an employment culture of casual, short-term, poorly paid work that makes long-term financial planning impossible. This is particularly true of those working under exploitative zero-hours contracts who find their earnings varying hugely over time. Even those who have been to university and would, in the past, have found themselves in secure, well-paid professional careers after graduation, find themselves in a cycle of unpaid internships and short-term contracts. It is, for them, impossible to save for the future.

Mae'r genhedlaeth bresennol o bobl ifanc sy'n gallu dod o hyd i waith yn wynebu diwylliant cyflogaeth o waith achlysurol, byrdymor, ar gyflog gwael sy'n gwneud cynllunio ariannol hirdymor yn amhosibl. Mae hyn yn arbennig o wir am rai sy'n gweithio ar gontractau dim oriau ecsbloetiol ac enillion sy'n amrywio'n aruthrol dros amser. Mae hyd yn oed rhai a fu yn y brifysgol ac a fyddai, yn y gorffennol, wedi dechrau mewn gyrfaoedd proffesiynol diogel sy'n talu'n dda ar ôl graddio, yn cael eu hunain mewn cylch o interniaethau di-dâl a chontractau tymor byr. Mae'n amhosibl i'r rhain gynilo ar gyfer y dyfodol.

In some areas of Wales, young people find themselves priced out of their local areas by property prices that are pushed up by second-home ownership and buy-to-let investors. In England, the help-to-buy scheme is an attempt to help to boost the property market but it has also served as a subsidy for second-home buyers and has been credited with contributing to what is thought to be a new property bubble in the south-east. In Wales, I think that the scheme has been somewhat better, but I have concerns. Why is Help to Buy limited to new-build properties? If the aim of the scheme is truly to help buyers onto the property ladder and not just to act as a subsidy for the construction industry, restricting the eligibility of properties seems to be counterproductive. It would make sense to extend the scheme to cover properties in communities where people want to stay or develop something new. I would welcome the Minister's views on how we can help young people to buy older homes that are more suitable for them. After all, new properties can be more prone to negative equity if prices fluctuate, and I think young people can enjoy the challenge that an older property can sometimes represent. Perhaps that is a rather old-fashioned, romantic view of life—to be able to find an affordable, settled home in the community that should be within your financial reach.

Mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, mae prisiau eiddo sy'n cael eu gwthio i fyny gan berchnogion ail gartrefi a buddsoddwyr prynu-i-osod yn golygu na all pobl ifanc brynu eiddo yn eu hardaloedd lleol. Yn Lloegr, mae'r cynllun cymorth-i-brynu yn ymgais i roi hwb i'r farchnad eiddo ond mae hefyd wedi gweithredu fel cymhorthdal i brynwyr ail gartrefi a bu'n gyfrifol am gyfrannu at yr hyn y credir ei fod yn fwrlwm newydd yn y farchnad eiddo yn y de-ddwyrain. Yng Nghymru, rwy'n credu bod y cynllun wedi bod ychydig yn well ond mae gennyf bryderon. Pam y mae'r cynllun Cymorth i Brynu wedi'i gyfyngu i dai wedi'u hadeiladu o'r newydd? Os mai gwir nod y cynllun yw helpu prynwyr i gychwyn dringo'r ysgol eiddo, yn hytrach na bod yn ddim mwy na chymhorthdal i'r diwydiant adeiladu, ymddengys bod cyfyngu ar gymhwysedd eiddo'n wrthgynhyrchiol. Byddai'n gwneud synnwyr ymestyn y cynllun i gynnwys eiddo mewn cymunedau y mae pobl eisiau aros ynddynt neu ddatblygu rhywbeth newydd. Byddwn yn croesawu barn y Gweinidog ar sut y gallwn helpu pobl ifanc i brynu cartrefi hŷn sy'n fwy addas ar eu cyfer. Wedi'r cyfan, gall eiddo newydd fod yn fwy agored i ecwiti negyddol os yw prisiau'n amrywio ac rwy'n meddwl y gallai pobl ifanc fwynhau'r her sy'n deillio o eiddo hŷn weithiau. Efallai fod hon yn olwg braidd yn hen ffasiwn a rhamantus ar fywyd—gallu dod o hyd i gartref fforddiadwy, sefydlog yn y gymuned a ddylai fod o fewn eich cyrraedd yn ariannol.

For all those on low incomes, and particularly for young people who lack savings and financial security, buying a property, I am sure, is a huge gamble. If a sale falls through, the buyer loses a substantial sum of money given all the costs associated with buying a house. In Scotland, if a sale falls through the costs fall to the seller and not the buyer. If this became the policy in Wales, it might mitigate the risk and encourage more young people to buy, and, with greater powers, we could consider this approach.

I bawb sydd ar incwm isel, ac yn enwedig i bobl ifanc heb gynilion a sicrwydd ariannol, rwy'n siŵr bod prynu eiddo yn gambl enfawr. Os yw gwerthiant yn methu, bydd y prynwr yn colli swm sylweddol o arian o ystyried yr holl gostau sy'n gysylltiedig â phrynu tŷ. Yn yr Alban, os yw gwerthiant yn methu, y gwerthwr nid y prynwr sy'n ysgwyddo'r costau. Pe bai hyn yn dod yn bolisi yng Nghymru, gallai liniaru'r risg ac annog mwy o bobl ifanc i brynu, a chyda rhagor o bwerau, gallem ystyried y dull hwn.

To close, ensuring that young people in Wales have access to affordable housing in their local area should be a priority for us all.

I gloi, dylai sicrhau bod tai fforddiadwy ar gael i bobl ifanc Cymru yn eu hardaloedd lleol fod yn flaenoriaeth i ni i gyd.

17:16

## Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

For eight years I was leader of Caerphilly County Borough Council, and one day I was visiting a school in the upper Rhymney valley and I spoke to a little boy who was about seven or eight. As you do, I asked him, 'What do you want to be when you leave school?', and his reply was, 'Me? I'm going to be nothing'. I found that very sad indeed. I think there are perhaps too many young Welsh people who must feel very badly let down by politicians, really—that is, us. I do not blame them, sometimes, for not voting, if they have no qualifications and no job—or if they do get a job, it is likely to be low paid. What incentive is that to go out and vote? I hope some of them will vote at every election, obviously, because it is important.

Am wyth mlynedd, roeddwn yn arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac un diwrnod, roeddwn yn ymweld ag ysgol yng Nghwm Rhymni Uchaf. Siaredais â bachgen bach tua saith neu wyth oed. Fel y bydd rhywun yn ei wneud, gofynnais iddo, 'Beth wyt ti am fod ar ôl gadael yr ysgol? ', A'i ateb oedd,'Fi? Dydw i ddim yn mynd i fod yn ddim byd'. Roeddwn i'n gweld hynny'n drist iawn. Rwy'n credu efallai fod gormod o bobl ifanc yng Nghymru sy'n teimlo mewn gwirionedd bod gwleidyddion wedi'u bradychu-hynny yw, ni. Ni allaf eu beio weithiau am beidio â phleidleisio, os nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau na swydd-neu os ydynt yn cael swydd, mae'n debygol mai swydd ar gyflog isel fydd hi. Pa gymhelliad yw hynny i fynd allan i bleidleisio? Rwy'n gobeithio y bydd rhai ohonynt yn pleidleisio ym mhob etholiad, wrth gwrs, am fod hynny'n bwysig.

I hear too many young people where I live saying, 'Well, I am qualified, but I cannot get a job around here', and that is said. I was going to mention how Plaid Cymru's commitment, with the Welsh Government, at the last budget was supporting apprenticeships, but my colleague Rhun ap Iorwerth has quite rightly mentioned that, and good for him. However, there is still a lot to be done. We know that the Young Recruits programme and shared apprenticeship pilots have been successful in increasing employers' demand for apprenticeships, and especially in the construction and engineering sectors. That is positive. Schemes such as the Young Recruits programme, I believe, need to be expanded to increase the number of apprenticeships available for young people in Wales. As well as apprenticeships, we need to create opportunities for young people to gain at least some work experience. Nowadays, a university degree does not guarantee a job. I was recently in a supermarket—I will not name it—and I was talking to the checkout operator. She is a qualified schoolteacher. What is she doing being a checkout operator? It is a catch-22 situation. Employers often prefer applicants with some work experience, but how can young people gain work experience in the first place? Andy Bevan, from the Institute of Welsh Affairs, calls the idea of work experience 'citizen service'. I quite like that idea, although I do not want young people to work for nothing. Far too many 16 to 24-year-olds in Wales are not in education, employment or training, and the work experience programme supported by Welsh Government could help young people to gain experience in the public, private or third sector. We need to streamline and refocus support for the unemployed young people by developing higher apprenticeships to increase their prospects of some employment.

Rwy'n clywed gormod o bobl ifanc lle rwy'n byw yn dweud, 'Wel, mae gen i gymwysterau ond ni allaf gael swydd yn yr ardal hon', ac mae hynny'n cael ei ddweud. Roeddwn i'n mynd i sôn sut oedd ymrwymiad Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru adeg y gyllideb ddiwethaf yn cefnogi prentisiaethau ond mae fy nghydweithiwr Rhun ap Iorwerth wedi crybwyll hynny, a hynny'n briodol. Fodd bynnag, mae llawer i'w wneud o hyd. Gwyddom fod y Rhaglen Recriwtiaid Newydd a chynlluniau peilot rhannu prentisiaeth wedi llwyddo i gynyddu galw cyflogwyr am brentisiaethau yn enwedig yn y sector adeiladu a'r sector peirianneg. Mae hynny'n gadarnhaol. Rwyf o'r farn bod angen ehangu cynlluniau fel y Rhaglen Recriwtiaid Newydd er mwyn cynyddu nifer y prentisiaethau sydd ar gael i bobl ifanc yng Nghymru. Yn ogystal â phrentisiaethau, mae angen inni greu cyfleoedd i bobl ifanc ennill rhywfaint o brofiad gwaith. Y dyddiau hyn, nid yw gradd brifysgol yn gwarantu swydd. Yn ddiweddar, roeddwn mewn archfarchnad—ni wnaf ei henwi—ac yn siarad â'r ferch wrth y til. Mae hi'n athrawes gymwysedig. Beth oedd hi'n ei wneud yn gweithio ar y til? Mae'n sefyllfa amhosibl. Yn aml, mae'n well gan gyflogwyr ymgeiswyr sydd wedi cael rhywfaint o brofiad gwaith ond sut y gall pobl ifanc gael profiad gwaith yn y lle cyntaf? Mae Andy Bevan o'r Sefydliad Materion Cymreig yn galw'r syniad o brofiad gwaith yn 'wasanaeth y dinesydd'. Rwy'n eithaf hoff o'r syniad hwnnw er nad wyf am i bobl ifanc weithio am ddim. Mae llawer gormod o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant a gallai'r rhaglen profiad gwaith a gefnogir gan Lywodraeth Cymru helpu pobl ifanc i gael profiad yn y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r trydydd sector. Mae angen inni symleiddio ac ailgyfeirio cymorth i bobl ifanc di-waith drwy ddatblygu prentisiaethau uwch i wella eu rhagolygon gwaith.

The idea of work experience and apprenticeships ties in with the intention in the education system to place more emphasis on measuring young people's skills that can actually be transferred to the world of work. Too many employers, for example, report taking on young people with good qualifications but who seriously lack literacy and numeracy skills. I hope that Wales's dismal record in the PISA tests will be actively addressed by the Welsh Government. Plaid Cymru wants to see more small businesses being helped to take on new recruits; more opportunities for young people in our rural areas to gain access to apprenticeships and, indeed, any work experience; greater opportunities for young people to take apprenticeships through the medium of their own language—of course, Welsh; and more higher skilled apprenticeships as a valuable alternative maybe to a college or degree course. Public bodies, including local authorities, have a vital role to play. Very few of their staff nowadays are under the age of 25.

Mae'r syniad o brofiad gwaith a phrentisiaethau yn cyd-fynd â bwriad y system addysg i roi mwy o bwyslais ar fesur sgiliau pobl ifanc y gellir eu trosglwyddo i fyd gwaith. Mae gormod o gyflogwyr, er enghraifft, yn sôn eu bod wedi cyflogi pobl ifanc â chymwysterau da ond yn brin ddifrifol o sgiliau llythrennedd a rhifedd. Rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael yn weithredol â record ddigalon Cymru yn y profion PISA. Mae Plaid Cymru eisiau gweld mwy o fusnesau bach yn cael eu helpu i gyflogi recriwtiaid newydd; mwy o gyfleoedd i bobl ifanc yn ein hardaloedd gwledig i gael prentisiaethau ac unrhyw brofiad gwaith yn wir; mwy o gyfleoedd i bobl ifanc ddilyn prentisiaethau drwy gyfrwng eu hiaith eu hunain—Cymraeg wrth gwrs; a phrentisiaethau yn y sgiliau uwch fel dewis yn lle coleg neu gwrs gradd efallai. Mae cyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, â rhan allweddol yn hyn. Ychydig iawn o'u staff y dyddiau hyn sydd o dan 25 oed.

When I left school in 1970, just like the little boy in the upper Rhymney valley—I was living in the lower Rhymney valley—I was unsure what I was going to do. So, I went along to the careers office. They looked at their list, they sent you to an employer, you had your interview and you got your job. If you did not like it, you went back to the careers office the following week. Well, it just is not that easy today. There are times, I am afraid, when, despite my bus pass, I am glad that I am the age that I am—I really am. We, as politicians, owe it to that little boy, and all little boys and girls in Wales, to give him the opportunity so that, next time someone asks him, 'What are you going to be when you grow up and leave school?', he is not going to say, 'Me? I am going to be nothing'. Next time, he has to say, 'Me? I am going to be something, I am going to be somebody and I am going to be good at it'.

Pan adewais yr ysgol yn 1970, yn union fel y bachgen bach yn Nghwm Rhymni Uchaf—roeddwn i'n byw yng Nghwm Rhymni Isaf—roeddwn yn ansicr ynglŷn â beth oeddwn i'n mynd i'w wneud. Felly, euthum i'r swyddfa gyrfaoedd. Byddent yn edrych ar eu rhestr, yn eich anfon at gyflogwr, byddech yn cael cyfweliad ac yna byddech yn cael swydd. Os nad oeddech yn hoffi'r swydd, byddech yn dychwelyd i'r swyddfa yrfaoedd yr wythnos ganlynol. Wel, nid yw hi mor hawdd â hynny heddiw. Er gwaethaf fy nhocyn bws, rwy'n ofni fod yna adegau pan wyf fi'n falch fy mod i'r oed wyf i—o ddifrif calon. Mae arnom ni'r gwleidyddion ddyletswydd i'r bachgen bach hwnnw, fel i bob bachgen a merch yng Nghymru. Y tro nesaf fydd rhywun yn gofyn 'Beth wyt ti am fod ar ôl tyfu'n hŷn a gadael yr ysgol? ', ein lle ni yw sicrhau nad yw'n ateb,' Fi? Dydw i ddim yn mynd i fod yn ddim byd'. Y tro nesaf, mae'n rhaid iddo ddweud, 'Fi? Rwy'n mynd i fod yn rhywbeth, rwy'n mynd i fod yn rhywun ac rwy'n mynd i wneud hynny'n dda'.

17:21

## Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn trafod hyn heddiw, yn enwedig yng nghyd-destun y ffaith ein bod wedi cael trafodaeth yma heddiw ynglŷn ag Ewrop. Yn sicr, mae nifer y swyddi y mae Ewrop wedi'u rhoi o ran mesurau strwythurol wedi helpu pobl ifanc yng Nghymru i gael mynediad i'r byd gwaith.

I think it is hugely important that we are discussing this issue today, particularly in the context of the fact that we have had a discussion here today on Europe. Certainly, the number of jobs that Europe has secured in terms of the structural funds has assisted young people in Wales to access the jobs market.

Fodd bynnag, rwy'n cydymdeimlo â'r hyn y mae Lindsay Whittle wedi'i ddweud, oherwydd, trwy'r broses o siarad â phobl ifanc yng nghyd-destun fy Mil cynhwysiant ariannol, mae nifer o bobl ifanc wedi bod yn dweud wrthyf nad ydynt yn credu eu bod yn cael yr adnoddau er mwyn iddynt allu mynd allan i'r byd gwaith a byw ar eu pen eu hunain, gan nad ydynt yn derbyn yr addysg honno yn yr ysgol. Yr hyn sy'n bwysig i ni ym Mhlaid Cymru, felly, yw sicrhau bod pobl ifanc yn cael y sgiliau hynny yn yr ysgol fel y gallant fynd allan i'r byd gwaith ac adeiladu economi Cymru pan fyddant yn cael yr adnoddau hynny.

However, I sympathise with what Lindsay Whittle had to say, because, through the process of speaking to young people in terms of my financial literacy Bill, many young people have been telling me that they do not believe that they have the resources in order to enter the workforce and to live independently, because they do not get that education in our schools. Therefore, what is important to us in Plaid Cymru is to ensure that young people are taught those skills in school so they can enter the world of work and we can build the Welsh economy when they have those resources available to them.

Pan gynhaliais weithdy gyda GoCompare gwpwl o wythnosau yn ôl fel rhan o'r Bil cynhwysiant ariannol yr wyf yn ymgymryd ag ef ar hyn o bryd, clywais fod un ferch ifanc wedi gorfod cymryd un o'r cwmnïau mawr yma—Wonga—i'r llys oherwydd y ffaith ei fod wedi gofyn iddi gael arian ganddo cyn iddi fod yn 16 mlwydd oed. Roedd y ferch ifanc hon, felly, wedi gorfod dadlau trwy'r llysoedd ynglŷn â pham nad oedd yn gallu talu'r arian hwn yn ôl i Wonga, a hynny mewn sefyllfa deuluol anodd iawn. Dywedodd hi wrthyf, 'Pe taswn i wedi cael y sgiliau yma yn yr ysgol—pe taswn i wedi cael yr addysg yma yn yr ysgol—ni fyddwn wedi cael yr arian hwnnw gan Wonga. Byddwn wedi gallu mynd at undeb credyd, er enghraifft, a mynd am gyngor ychwanegol'.

When I organised a workshop with GoCompare a couple of weeks ago as part of the financial literacy Bill that I am currently promoting, I heard that one young woman had to take one of these major companies—Wonga—to court because it had provided her with a loan before she was 16 years of age. This young girl, therefore, had to argue through the courts as to why she was unable to pay this money back to Wonga, and in a very difficult family situation. She told me, 'If I had been taught these skills at school—if I had had this education at school—I would not have taken that loan from Wonga. I would have been able to go to a credit union, for example, and I would have sought additional advice'.

Dyna pam, felly, y mae hi mor bwysig, yn fy marn i, fod y Bil hwn yn llwyddiant, oherwydd, er bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi dweud wrthyf mewn nifer o lythyrau nad oes angen deddfwriaeth, fy nadl i yn ôl yw fy mod i ddim ond yn gallu cymryd ei gair hi am hynny, oherwydd mae ystadegau ac adroddiadau'r OECD yn dangos nad yw ein haddysg yn ein hysgolion yn ddigonol ar hyn o bryd. Mae'r ymchwil y mae fy swyddfa i wedi ymgymryd ag ef wedi dangos bod gwahaniaeth enbyd rhwng yr addysg ariannol y mae pobl wahanol yn ei derbyn—mae oriau o wersi mewn un ardal o Gymru a dim byd o gwbl mewn ardal arall.

That is why, then, it is so important, in my opinion, that this Bill does succeed, because, although the Welsh Government has already told me in correspondence on a number of occasions that legislation is not necessary, my argument would be that I can only take its word for that, because statistics and the OECD reports show that our education in our schools is inadequate at present. The research undertaken by my office has demonstrated that there are huge variations in terms of the financial education provided—some areas of Wales provide many hours of lessons whereas in other areas there is nothing provided.

Nid yw hynny'n dderbyniol, yn fy marn i, o feddwl ein bod ni am sicrhau bod pobl ifanc yn ein hardaloedd lleol—yn enwedig ardaloedd difreintiedig—yn gallu meithrin y sgiliau eu hunain fel eu bod yn teimlo'r pŵer hwnnw i fynd allan i'r byd gwaith. Maent eisoes yn teimlo eu bod y tu ôl i'r agenda. Fel mae Lindsay Whittle wedi'i ddweud, mae pobl yn San Steffan yn dweud wrthynt am fynd ar y bws a mynd ar y beic o ardaloedd fel Merthyr i Gaerdydd. Buasent yn gwneud hynny pe baent yn teimlo'r hyder ac yn cael y sgiliau i allu mynd o ardaloedd y Cymoedd i Gaerdydd i ffeindio gwaith—os yw'r gwaith hwnnw'n bodoli.

That is not acceptable, in my view, bearing in mind that we want to ensure that young people in our localities—particularly in more deprived areas—can develop these skills themselves so that they feel empowered to enter the world of work. They already feel that they are behind the curve. As Lindsay Whittle has already said, people in Westminster are telling them to get on the bus and to get on their bikes and to go from areas such as Merthyr to Cardiff. They would do that if they had the confidence and the skills to enable them to move from Valleys areas to find work in Cardiff—if that work were available.

Mae Cymru wedi dioddef am flynyddoedd yn sgîl toriadau swyddi—diwydiant yn mynd i ardaloedd eraill ac i wledydd eraill, fel yr ydym wedi'i weld yn Abertawe gyda Visteon, Linamar a TRW. Rydych chi i gyd ag enghreifftiau fel y rhain yn eich ardaloedd, felly mae'n rhaid inni feddwl am sut y gallwn drawsnewid yr economi mewn ffordd wahanol ar gyfer y dyfodol fel nad ydym yn dweud ymhen 10 mlynedd, 'O wel, mae ein pobl ifanc ni wedi cael eu methu; beth ydym yn mynd i'w wneud am y peth?' Mae'n rhaid inni ennyn pobl ifanc drwy addysg ariannol yn eu hysgolion i sefydlu eu cwmnïau eu hunain. Nid oes raid iddynt fod yn gyfalafwyr mawr i fod arnynt eisiau sefydlu cwmni; gallant sefydlu cwmni bach ac annog ysgolion eraill i brynu eu nwyddau. Gwn fod hynny'n digwydd mewn nifer o ysgolion drwy Gymru. Mae'n rhaid i ni wneud iddynt feddwl o oedran ifanc ei fod yn bosibl iddynt ehangu eu gorwelion a'r hyn sy'n bosibl iddynt o fewn y sector penodol hwnnw.

Wales has suffered over many years as a result of job cuts—industries have gone to other areas and to other countries, as we have seen in Swansea with Visteon, Linamar and TRW. You all have such examples in your own areas and, therefore, we have to think about how we can transform the economy and think differently for the future, so that we are not saying in 10 years' time, 'Oh well, our young people have been failed; what are we going to do about it?' We need to encourage young people through financial education in their schools to establish their own companies. They do not have to be major capitalists in order to want to establish a business; they can establish a small company and encourage other schools to buy their goods. I know that that is happening in many schools throughout Wales. We must make them think from a young age that it is possible for them to broaden their horizons and what is possible for them within that particular sector.

Felly, rwy'n erfyn ar bobl i feddwl am y weledigaeth yr ydym yn ei dymuno i Gymru. Dylem feddwl am addysg gynhwysiant ariannol mewn modd creadigol er mwyn sicrhau nad ydym yma unwaith eto, yn y dyfodol, yn trafod pam mae pobl ifanc wastad yn cael eu trin yn israddol i bawb arall yn ein cymdeithas.

Therefore, I urge people to think about the vision that we need in Wales. We should think about financial inclusion education in creative way in order to ensure that we are not here again, in the future, discussing why young people are always treated worse than everyone else in our society.

17:26

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister for Skills and Technology, Ken Skates.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, Ken Skates.

17:26

## Kenneth Skates Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

Thank you, Deputy Presiding Officer. There is no doubt that the subject of this debate is one of the most serious matters facing the western world. However, I would like to begin with a tribute to Christine Chapman, if I may, who last week declared that she will be standing down as an Assembly Member at the next election but who has been a champion for young people throughout her career. I am sure that Members across the Chamber will join me in thanking Chris for the tireless hard work she has done to combat youth unemployment and, indeed, enhance the future prospects of young people.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Nid oes amheuaeth fod pwnc y ddadl hon yn un o'r materion mwyaf difrifol sy'n wynebu'r byd gorllewinol. Fodd bynnag, hoffwn ddechrau, os caf fi, drwy dalu teyrnged i Christine Chapman a ddywedodd yr wythnos diwethaf y bydd yn rhoi'r gorau i fod yn Aelod Cynulliad yn yr etholiad nesaf ond sydd wedi hyrwyddo lles pobl ifanc drwy gydol ei gyrfa. Rwy'n siŵr y gwnaiff Aelodau ar draws y Siambr ymuno â mi i ddiolch i Chris am y gwaith caled a diflino a wnaeth ar fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc ac yn wir, ar wella rhagolygon pobl ifanc ar gyfer y dyfodol.

I would like to turn the clock back to late spring 2010. Back then, the people of Britain had decided that no single party should govern our country, so the Tories and Liberal Democrats formed a coalition and embarked on the deepest, most drastic austerity programme in our country. Within weeks of clawing into power, they had jack-knifed on the education maintenance allowance, abandoned young people over tuition fees, they had abolished the Future Jobs fund and pulled the plug on huge capital investment programmes. The message from these measures was clear: the coalition would stand up for bankers, billionaires, Lamborghini-driving seniors, while abandoning the hopes and aspirations of an entire generation of young people.

Hoffwn droi'r cloc yn ôl i ddiwedd gwanwyn 2010. Bryd hynny, roedd pobl Prydain wedi penderfynu na ddylai ein gwlad gael ei rheoli gan un blaid yn unig, felly ffurfiodd y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol glymblaid a chychwyn ar y rhaglen galedi drylwyraf a mwyaf difrifol yn ein gwlad. O fewn wythnosau i grafu grym, roeddynt wedi crebachu'r lwfans cynhaliaeth addysg, wedi bradychu pobl ifanc mewn perthynas â ffioedd dysgu, wedi diddymu cronfa Swyddi'r Dyfodol a thynnu'r plwg ar raglenni buddsoddi cyfalaf enfawr. Roedd neges y mesurau hyn yn glir: byddai'r glymblaid yn sefyll dros y bancwyr, y biliwnyddion a'r crach mewn Lamborghinis, gan droi cefn ar obeithion a dyheadau cenhedlaeth gyfan o bobl ifanc.

The result has been devastating for young people. Since they took power, long-term youth unemployment across the UK has risen by almost 100%, according to Office for National Statistics figures. This figure is bad enough, but it conceals the particular plight of young people in specific areas of the UK. For example, in the Prime Minister's own constituency, the rise has been more than 300% since he entered Downing Street. [Interruption.] I am coming to the First Minister of Wales. The rise in the Deputy Prime Minister's constituency has also been above the national average. In parts of England that have traditionally reflected the economic performance of Wales, the rise has been even more devastating. For example, in parts of Leeds, long-term youth unemployment has risen by more than 800%. In the Calder Valley, it is 1,900%, and in parts of Bradford, the rise has been more than 3,000%.

Mae'r canlyniad wedi bod yn ergyd drom i bobl ifanc. Ers iddynt ddod i rym, mae diweithdra hirdymor ymhlith pobl ifanc ar draws y Deyrnas Unedig wedi codi bron 100% yn ôl ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r ffigur hwn yn ddigon drwg ond mae'n cuddio profiadau penodol pobl ifanc mewn ardaloedd arbennig o'r DU. Er enghraifft, yn etholaeth y Prif Weinidog ei hun, mae'r cynnydd wedi bod dros 300% ers iddo gyrraedd Stryd Downing. [Torri ar draws.] Rwy'n dod at Brif Weinidog Cymru. Mae'r cynnydd yn etholaeth y Dirprwy Brif Weinidog hefyd wedi bod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mewn rhannau o Loegr sydd yn draddodiadol wedi adlewyrchu perfformiad economaidd Cymru, mae'r cynnydd wedi bod hyd yn oed yn fwy dinistriol. Er enghraifft, mewn rhannau o Leeds, mae diweithdra hirdymor ymhlith pobl ifanc wedi codi dros 800%. Yn Calder Valley, roedd y cynnydd yn 1,900%, ac mewn rhannau o Bradford, gwelwyd cynnydd o dros 3,000%.

While the Tory-Lib Dem coalition abandoned young people in England, here in Wales, Labour has prioritised the prospects of our future generations. I can reveal that, compared with a rise of almost 100% across the UK between May 2010 and this year, here in Wales, we have not just broken free of mirroring those parts of England that we have traditionally reflected, but the rise here during the same period has been approximately 40% lower than the national average. Let me put that into context. In the Prime Minister's constituency, the rise has been 300%; in our First Minister's constituency, the rise has been almost 240% lower. In Chester, the rise has been 400%, but just over the border in Wrexham, the increase has been almost 340% lower. Where there has been a 400% increase in the UK Minister for employment's constituency, in the constituency of our Minister for Economy, Science and Transport, there has been a drop of 43% in long-term youth unemployment. Deputy Presiding Officer, we all know why. It is because of Jobs Growth Wales, the most successful youth employment programme in Europe. It is because of the success of Welsh apprenticeships. I can reveal to Members that not only have we had a record number of starts in apprenticeships; we have now opened up a record gap with England in terms of success rates as well. It is because we have retained the education maintenance allowance. It is because we have protected young people from crippling university debt, and it is because we have invested record sums in capital projects. It is because employment in Wales has risen 14.7% under Labour since devolution, compared with 12.1% across the UK.

Er bod y glymblaid rhwng y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi bradychu pobl ifanc yn Lloegr, yma yng Nghymru mae Llafur wedi rhoi blaenoriaeth i ragolygon cenedlaethau'r dyfodol. O'i gymharu â chynnydd o bron i 100% ar draws y DU rhwng Mai 2010 ac eleni, yma yng Nghymru gallaf ddatgelu nid yn unig ein bod wedi torri'n rhydd rhag bod yn ddrych o'r rhannau hynny o Loegr rydym wedi bod yn eu hadlewyrchu'n draddodiadol, ond bu'r cynnydd yma yn ystod yr un cyfnod tua 40% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Gadewch i mi roi hynny yn ei gyd-destun. Yn etholaeth Prif Weinidog y DU, roedd y cynnydd yn 300%; yn etholaeth ein Prif Weinidog ni, roedd y cynnydd bron 240% yn is. Yng Nghaer, gwelwyd 400% o gynnydd, ond ychydig dros y ffin yn Wrecsam, roedd y cynnydd bron 340% yn is. Lle cafwyd cynnydd o 400% yn etholaeth Gweinidog dros Gyflogaeth y DU, yn etholaeth ein Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, bu gostyngiad o 43% mewn diweithdra hirdymor ymhlith pobl ifanc. Ddirprwy Lywydd, rydym i gyd yn gwybod pam. Mae'n deillio o Twf Swyddi Cymru, y rhaglen gyflogaeth ieuenctid fwyaf llwyddiannus yn Ewrop. Mae'n deillio o lwyddiant prentisiaethau yng Nghymru. Gallaf ddatgelu i'r Aelodau ein bod wedi gweld y nifer uchaf erioed o bobl ifanc yn dechrau prentisiaethau; nid yn unig hynny, ond rydym bellach wedi ymestyn ein mantais dros Loegr o ran ein cyfraddau llwyddiant hefyd. Mae'n deillio o'r ffaith ein bod wedi cadw'r lwfans cynhaliaeth addysg. Mae'n deillio o'r ffaith ein bod wedi gwarchod pobl ifanc rhag dyledion prifysgol andwyol ac mae'n deillio o'r ffaith ein bod wedi buddsoddi mwy o arian nag erioed mewn prosiectau cyfalaf. Mae'n deillio o'r ffaith fod cyflogaeth yng Nghymru wedi codi 14.7% o dan Lafur ers datganoli o'i gymharu â 12.1% ar draws y DU.

As a consequence of these indisputable successes, we will not support the motion today. First, it fails completely to recognise the fact that youth unemployment has been falling faster here than across the UK. The motion claims that the youth unemployment rate stands at 21.3% and that it is the highest of any UK region. However, the latest labour force survey shows the rate to be lower than the UK average, lower than the EU average and falling faster than the UK and almost every other part of Europe. No wonder all eyes are on Wales for the answers to the youth unemployment crisis.

O ganlyniad i'r llwyddiannau diamheuol hyn, ni fyddwn yn cefnogi'r cynnig heddiw. Yn gyntaf, mae'n methu'n llwyr â chydnabod y ffaith bod diweithdra ymhlith pobl ifanc wedi bod yn gostwng yn gyflymach yma nag ar draws y DU. Mae'r cynnig yn honni bod cyfradd ddiweithdra ymhlith pobl ifanc yn 21.3% a'i fod yn uwch nag unrhyw ranbarth arall yn y DU. Fodd bynnag, mae'r arolwg diweddaraf o'r llafurlu yn dangos bod y gyfradd yn is na chyfartaledd y DU, yn is na chyfartaledd yr UE ac yn gostwng yn gyflymach na chyfartaledd y DU a bron pob rhan arall o Ewrop. Nid yw'n rhyfedd fod llygaid pawb yn troi at Gymru am yr atebion i argyfwng diweithdra ymysg pobl ifanc.

I must challenge Plaid's claims over official figures. Plaid has a struggle with basic numeracy. One month, Simon Thomas—this is in the past six months—issued a statement saying that long-term youth unemployment in Wales in 2011 was 870. The next month, it was 1,200. In the last six months, in press releases over Jobs Growth Wales, Simon Thomas was quoted as saying that the success rate was 75%. Rhun ap Iorwerth was quoted as saying that the success rate was 45%. In another statement, Simon Thomas said that the success rate was less than half. Another statement by Rhun ap Iorwerth said that the success rate was two thirds or 66%. The problem is that Plaid Cymru does not like good news about the success of Labour in dealing with youth unemployment. Secondly, it is determined to let the Tory Government in Westminster off the hook, as it is unwilling to stand up for Wales.

Rhaid i mi herio honiadau Plaid Cymru ynglŷn â'r ffigurau swyddogol. Mae'r Blaid yn cael trafferth gyda rhifedd sylfaenol. Un mis, cyhoeddodd Simon Thomas ddatganiad—digwyddodd hyn yn y chwe mis diwethaf—yn dweud bod diweithdra hirdymor ymhlith pobl ifanc yng Nghymru yn 2011 yn 870. Y mis wedyn, roedd y ffigur yn 1,200. Yn ystod y chwe mis diwethaf, mewn datganiadau i'r wasg ynghylch Twf Swyddi Cymru, dyfynnwyd Simon Thomas yn dweud bod y gyfradd llwyddo yn 75%. Dyfynnwyd Rhun ap Iorwerth yn dweud bod y gyfradd llwyddo yn 45%. Mewn datganiad arall, dywedodd Simon Thomas fod y gyfradd llwyddo yn llai na hanner. Dywedodd datganiad arall gan Rhun ap Iorwerth fod y gyfradd llwyddo yn ddwy ran o dair neu 66%. Y broblem yw nad yw Plaid Cymru yn hoffi newyddion da am lwyddiant y Blaid Lafur yn ymdrin â diweithdra ymhlith pobl ifanc. Yn ail, mae'n benderfynol o roi rhwydd hynt i'r Llywodraeth Dorïaidd yn San Steffan gan nad yw'n barod i sefyll dros Gymru.

In terms of what Plaid Cymru did when it had the levers of economic power here, let us look at that for a moment. Young Welsh people experiencing long-term unemployment as a proportion of the whole of the UK was 8.4% in May 2010. As a result of us taking control, that figure has dropped to 6.7%. That is the success of Labour in Wales. I am delighted to report that figures released this morning show an astonishing drop in the proportion of year 11 leavers not in education, employment or training to just 3.7%.

Beth am i ni edrych ar yr hyn a wnaeth Plaid Cymru pan oedd hi'n dal awenau grym economaidd yma. Nifer y bobl ifanc yng Nghymru a oedd yn ddi-waith yn hirdymor fel cyfran o gyfanswm y DU oedd 8.4% ym mis Mai 2010. Wedi i ni gymryd rheolaeth, disgynnodd y ffigur hwnnw i 6.7%. Dyna yw llwyddiant y Blaid Lafur yng Nghymru. Mae'n bleser gen i adrodd bod y ffigurau a ryddhawyd y bore yma'n dangos gostyngiad syfrdanol yng nghyfran y bobl ifanc sy'n gadael ysgol ar ôl blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i ddim ond 3.7%.

Turning to the Liberal Democrats and their amendments, the fact is that 73% of full-time first-degree Welsh-domiciled qualifiers are likely to remain or return to Wales—a figure that is higher than all but one of the English regions outside of Europe.

Gan droi at y Democratiaid Rhyddfrydol a'u gwelliannau, mae'n ffaith fod 73% o'r myfyrwyr amser llawn sydd â chymhwyster gradd gyntaf ac sy'n hanu o Gymru yn debygol o aros neu ddychwelyd i Gymru—ffigur sy'n uwch na phob un ond un o ranbarthau Lloegr y tu allan i Ewrop.

17:33 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention there?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

17:33 **Kenneth Skates** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In closing, I would like to say a little something about the European Council's youth employment initiative. This could and should have made an even bigger impact on youth unemployment in Wales. Members will be interested to learn that the UK Government had the option to move up to 10% of the UK youth employment initiative allocation to other areas of high employment. Areas in Wales that would have benefited include Swansea, Cardiff, the Vale of Glamorgan, the Gwent Valleys and the central Valleys. We made the strongest case possible for this to happen, but the UK Government decided not to pursue this option; instead, it retained the money for England and Scotland only. This is yet more evidence of the Tory war on Wales, a war that Plaid has refused to fight back against and in which the Liberal Democrats are complicit. We take no pleasure in witnessing the heart-breaking plight of young people in England who have been abandoned by a coalition Government disinterested in the future. In Wales, Labour is proud to stand up for young people and to ensure that as the economy improves, we are leaving nobody behind.

Wrth gloi, hoffwn ddweud rhywbeth bach am fenter cyflogaeth ieuenctid y Cyngor Ewropeaidd. Gallai, a dylai, hyn gael effaith hyd yn oed yn fwy ar ddiweithdra ymysg pobl ifanc yng Nghymru. Bydd gan yr Aelodau ddiddordeb mewn gwybod fod Llywodraeth y DU wedi cael yr opsiwn o symud hyd at 10% o ddyraniad menter cyflogaeth ieuenctid y DU i ardaloedd cyflogaeth uchel eraill. Roedd yr ardaloedd yng Nghymru a fyddai wedi elwa yn cynnwys Abertawe, Caerdydd, Bro Morgannwg, Cymoedd Gwent a'r Cymoedd canolog. Aethom ati i lunio'r achos cryfaf posibl i wneud i hyn ddigwydd ond penderfynodd Llywodraeth y DU beidio â mynd ar drywydd yr opsiwn hwn; yn lle hynny, cadwodd yr arian ar gyfer Lloegr a'r Alban yn unig. Dyma dystiolaeth eto o ryfel y Torïaid yn erbyn Cymru, rhyfel y mae Plaid Cymru wedi gwrthod ei hymladd a rhyfel y mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ei hymladd ar ochr y Torïaid. Nid oes pleser o gwbl mewn tystio i brofiadau torcalonnus pobl ifanc yn Lloegr sydd wedi cael eu bradychu gan Lywodraeth glymblaid heb unrhyw ddiddordeb yn y dyfodol. Yng Nghymru, mae Llafur yn falch o sefyll dros bobl ifanc a sicrhau bod yr economi'n gwella. Nid ydym yn gadael neb ar ôl.

17:34 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Rhun ap Iorwerth to reply to the debate.

Galwaf ar Rhun ap Iorwerth i ymateb i'r ddadl.

17:34 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

On a positive note, may I also take this opportunity to wish Christine Chapman well in the future, following her announcement last week? Turning straight away to what we have been hearing from the Deputy Minister today, may I say how disappointed I am that, on such an important subject, as the Deputy Minister said, not one Labour backbencher thought it necessary to stand up and speak for the young people of Wales in this debate today?

Ar nodyn cadarnhaol, a gaf fi hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i ddymuno'n dda i Christine Chapman yn y dyfodol yn dilyn ei chyhoeddiad yr wythnos diwethaf? Gan droi ar unwaith at yr hyn rydym wedi bod yn ei glywed gan y Dirprwy Weinidog heddiw, a gaf fi ddweud pa mor siomedig wyf i nad oes un aelod o'r meinciau cefn Llafur yn credu bod angen codi i siarad ar ran pobl ifanc Cymru yn y ddadl hon heddiw, a hwn, fel y dywedodd y Dirprwy Weinidog, yn bwnc mor bwysig.

I will start with statistics. I will just quote to you what the Office for National Statistics, itself, says about the figures that the Government still continues to use, as opposed to the statistics that we are using—the figure of 21.3% for long-term unemployed young people in Wales, which puts us at the highest figure in the UK. Due to the relatively small sample size, says the Office for National Statistics, the figures that the Government is quoting should be used with caution and are designated as experimental statistics. This means that the statistics do not meet the criteria for national statistics. That is the ONS, itself, speaking.

Rwyf am ddechrau gydag ystadegau. Dyfynnaf yr hyn y mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ei hun yn ei ddweud am y ffigurau y mae'r Llywodraeth yn dal i'w defnyddio yn hytrach na'r ystadegau rydym ni'n eu defnyddio—y ffigur o 21.3% o bobl ifanc yn ddi-waith yn hirdymor yng Nghymru, sy'n golygu mai ni sydd â'r ffigur uchaf yn y DU. Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, oherwydd bod maint y sampl yn gymharol fach dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r ffigurau y mae'r Llywodraeth yn eu dyfynnu a dynodwyd mai ystadegau arbrofol ydynt. Mae hyn yn golygu nad yw'r ystadegau yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ystadegau cenedlaethol. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol ei hun sy'n dweud hyn.

As I said in the debate earlier today, I hope that you are right, because I am not looking to play down our young people in Wales. I want to see the figures falling. I want to see our young people in Wales seeing their way back into work, but the figures that we are given by the Office for National Statistics suggest that that is not happening.

Fel y dywedais yn y ddadl yn gynharach heddiw, rwy'n gobeithio eich bod yn iawn gan nad wyf yn ceisio gwneud cam â'n pobl ifanc yng Nghymru. Rwyf am weld y ffigurau'n gostwng. Rwyf am weld ein pobl ifanc yng Nghymru yn mynd yn ôl i mewn i waith, ond mae'r ffigurau a roddir inni gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn awgrymu nad yw hynny'n digwydd.

On Jobs Growth Wales, yes, of course we welcome it as part of the mix, but you cannot hide behind Jobs Growth Wales as your one effort to tackle this most important factor. Young people largely considered employable are the ones who have found work at the end of Jobs Growth Wales work experience placements. It also does not address the issue of those without skills, because we need to increase the skills of our young people. It is productivity that we need to concentrate on. Neither does Jobs Growth Wales look at addressing the issue of the right kinds of jobs that we need for the Welsh economy in order to make sure that our young people have positive long-term prospects. Just over 50% is the figure that I am using today for young people who have been on Jobs Growth Wales placements who have found work. People in another cohort have found themselves on apprenticeship schemes. Many of those could have gone on the apprenticeship schemes from day 1 and probably found themselves with better long-term prospects. So, of course we are not playing down what is being achieved through Jobs Growth Wales, but you cannot be a one-trick-pony Government when it comes to an issue as important as tackling the problem of young people and long-term unemployment in Wales.

O ran Twf Swyddi Cymru, wrth gwrs ein bod yn ei groesawu fel rhan o'r ateb ond ni allwch guddio y tu ôl i Twf Swyddi Cymru fel eich unig ymdrech i fynd i'r afael â'r ffactor hollbwysig hon. Y bobl ifanc sy'n cael eu hystyried yn gyflogadwy at ei gilydd yw'r rhai sydd wedi cael gwaith ar ddiwedd lleoliadau profiad gwaith Twf Swyddi Cymru. Nid yw ychwaith yn mynd i'r afael â phobl ifanc heb sgiliau, oherwydd mae angen inni gynyddu sgiliau ein pobl ifanc. Mae angen i ni ganolbwyntio ar gynhyrchiant. Nid yw Twf Swyddi Cymru ychwaith yn edrych ar fynd i'r afael â'r mathau cywir o swyddi sydd eu hangen arnom ar gyfer economi Cymru er mwyn sicrhau bod rhagolygon hirdymor cadarnhaol ar gyfer ein pobl ifanc. Ychydig dros 50% yw'r ffigur rwy'n ei ddefnyddio heddiw ar gyfer pobl ifanc sydd wedi bod ar leoliadau Twf Swyddi Cymru a ddaeth o hyd i waith. Dilynodd carfan arall o bobl gynlluniau prentisiaeth. Gallai llawer o'r rheini fod wedi dilyn cynlluniau prentisiaeth o'r fath o'r diwrnod cyntaf ac mae'n debyg y byddai eu rhagolygon hirdymor wedi bod yn well. Felly, wrth gwrs nad ydym yn tanbrisio'r hyn a gyflawnwyd drwy Twf Swyddi Cymru ond ni allwch fod yn Llywodraeth 'un tric' ar fater mor bwysig â mynd i'r afael â phroblem diweithdra hirdymor ymysg pobl ifanc yng Nghymru.

Statistics are one thing. You concentrated on statistics. You did not talk about what we heard from Jocelyn Davies, what we heard from Lindsay Whittle and what we heard from other Members in the Chamber today, which is that this is about far more than statistics. This is about people—young people in Wales—and the personal cost to young people in Wales of long-term unemployment and a failure to get on the employment ladders that they should be able to expect to get onto after, hopefully, going through the sorts of skills opportunities and training they should be able to be offered. So, again, you cannot hide behind statistics and you cannot hide behind the failure of the Government to look in a broader way than just Jobs Growth Wales at what needs to be done and done in the long term for the good of the Welsh economy.

Un peth yw ystadegau. Rydych wedi canolbwyntio ar ystadegau. Ni siaradoch am yr hyn a glywsom gan Jocelyn Davies, yr hyn a glywsom gan Lindsay Whittle a'r hyn a glywsom gan Aelodau eraill yn y Siambr heddiw, sef bod hyn yn ymwneud â llawer mwy nag ystadegau. Mae'n ymwneud â phobl-pobl ifanc Cymru-a'r gost bersonol i bobl ifanc yng Nghymru sy'n deillio o ddiweithdra hirdymor a methiant i fynd ar ysgol cyflogaeth y dylent allu disgwyl ei hesgyn, gobeithio, ar ôl cael y mathau o gyfleoedd sgiliau a hyfforddiant y dylid gallu eu cynnig iddynt. Felly, unwaith eto, ni allwch guddio y tu ôl ystadegau ac ni allwch guddio y tu ôl i fethiant y Llywodraeth i edrych mewn ffordd ehangach, yn hytrach na dim ond drwy Twf Swyddi Cymru, ar yr hyn y mae angen ei wneud nawr ac yn hirdymor er lles economi Cymru.

Gan droi at y gwelliannau, Aled Roberts, rwy'n cefnogi gwelliant 1, sy'n pwysleisio'r angen i sicrhau ein bod yn cadw gafael ar ein pobl ifanc mwyaf galluog. O ran gwelliant 3 yn enw Paul Davies, nid ydym yn cefnogi hwn achos er, wrth gwrs, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru weithio efo pob Llywodraeth a phob asiantaeth a sector i wella rhagolygon pobl Cymru, nid ydym am dynnu i ffwrdd yr elfen o frys yr ydym am ei gweld yng ngweithredu'r Llywodraeth. O ran gwelliant 4 Aled Roberts, yr ydym yn cefnogi'r galw am well data, fel y clywsom yr achos yn cael ei gyflwyno gan Eluned Parrott. Rwyf yn croesawu, serch hynny, y datganiad yr ydym wedi ei dderbyn gan y Llywodraeth heddiw, gan y Gweinidog Cyllid, y bydd hi'n edrych eto ar ddarparu rhagor o ddata yn y dyfodol ac y cawn ni adroddiad cyn yr haf.

Turning to the amendments, Aled Roberts, I support amendment 1, which emphasises the need to ensure that we keep hold of our most talented young people. On amendment 3 in the name of Paul Davies, we are not supporting this one because although, of course, the Welsh Government has to work with all Governments and all agencies and sectors to improve the prospects of people in Wales, we do not want to remove the urgency that we want to see in Government action. On amendment 4 in the name of Aled Roberts, we support the demand for improved data, the case for which was put forward by Eluned Parrott. However, I welcome the statement we have received from the Government today, in which the Minister for Finance says that she is to look again at providing further data in future and that we will receive a report before the summer.

I welcome the fact that there will be a review of the kind of data that are available to us. May I also make an appeal to this Government? This is not something that has happened overnight—this request for more up-to-date and more relevant data in order for us to be able to map for the future economy of Wales. Please can we not have review after review? We need action on this and I stress the need for the Government now to go away and make an early decision on bringing forward more relevant and useful decisions for us.

Rwy'n croesawu'r ffaith y bydd adolygiad yn cael ei gynnal o'r math o ddata sydd ar gael i ni. A gaf fi hefyd wneud apêl i'r Llywodraeth hon? Nid yw hyn yn rhywbeth sydd wedi digwydd dros nos—y cais hwn am ddata mwy cyfredol a mwy perthnasol er mwyn i ni allu mapio dyfodol economi Cymru. A gawn ni beidio â chael un adolygiad ar ôl y llall, os gwelwch yn dda? Mae angen gweithredu ar hyn ac rwy'n pwysleisio'r angen i'r Llywodraeth fynd ati nawr i wneud penderfyniad cynnar ar gyflwyno penderfyniadau mwy perthnasol a defnyddiol i ni.

I am sure that many of us have seen recent studies showing that people born in the 1960s and 1970s face becoming the first generation since the second world war who will be worse off than their parents in retirement. Let us make a pledge now to ensure that the next generation of young people here in Wales must have it better than the last. We must do much more to help young people of today get on the employment ladder in good jobs and make sure that we put the right mechanisms in place, so that the disastrous increase in long-term youth unemployment that happened under this Labour Government is not repeated again in the future. Diolch yn fawr iawn.

Rwy'n siŵr bod llawer ohonom wedi gweld astudiaethau diweddar yn dangos mai pobl a anwyd yn y 1960au a'r 1970au fydd y genhedlaeth gyntaf ers yr ail ryfel byd i fod yn waeth eu byd na'u rhieni wrth ymddeol. Gadewch i ni wneud addewid yn awr i sicrhau bod yn rhaid i'r genhedlaeth nesaf o bobl ifanc yma yng Nghymru fod yn well eu byd na'r un o'i blaen. Mae'n rhaid i ni wneud llawer mwy i helpu pobl ifanc heddiw esgyn yr ysgol gyflogaeth mewn swyddi da a gwneud yn siŵr ein bod yn rhoi'r systemau cywir ar waith fel na fydd y cynnydd trychinebus mewn diweithdra hirdymor ymhlith pobl ifanc a ddigwyddodd o dan y Llywodraeth Lafur hon yn digwydd eto yn y dyfodol. Diolch yn fawr.

17:41

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? There is objection, therefore I defer all voting under this item until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae yna wrthwynebiad, felly gohiriaf yr holl bleidleisio o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Voting time now follows. Before I conduct the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not, so we will proceed.

Bydd yr amser pleidleisio yn dilyn nawr. Cyn i mi gynnal y bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes, felly awn ymlaen.

# Cyfnod Pleidleisio

# Voting Time

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5493.

Result of the vote on motion NDM5493.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 10, Yn erbyn 35, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 10, Against 35, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5493.

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5493.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 45, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 45, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5493.

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5493.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 35, Yn erbyn 10, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 35, Against 10, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5493.

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5493.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 45, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 45, Against 0, Abstain 0.*

Cynnig NDM5493 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5493 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi argymhellion adroddiad diweddar y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE.

1. Notes the recommendations of the recent Constitutional and Legislative Affairs Committee report into Wales' role in the EU decision-making process.

2. Yn nodi ymhellach bod Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn cael eu dyfarnu i ranbarthau â chynnyrch mewnwladol crynswth o lai na 75% o gyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd ac yn gresynu bod Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gymwys am drydedd rownd o gyllid.

2. Further notes that European Structural Funding is awarded to regions with a GDP of less than 75% of the European Union average and regrets that West Wales and the Valleys has qualified for a third round of funding.

3. Yn cydnabod pa mor bwysig ydyw bod y DU yn parhau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd i wneud Cymru yn lle mwy llewyrchus, cynaliadwy a diogel.

3. Recognises the importance of the UK's continued membership of the European Union to make Wales a more prosperous, sustainable and secure place.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cynlluniau a gyllidir gan yr UE yn cael eu diweddaru yn fwy cynhwysfawr ac yn fwy rheolaidd drwy WEFO.

4. Calls on the Welsh Government to ensure that EU-funded schemes are more comprehensively, and more regularly, updated through WEFO.

5. Yn gresynu at fethiant dramatig prosiectau proffil uchel gan gynnwys Genesis 2 Cymru.

5. Regrets the dramatic failure of high-profile projects including Genesis 2 Cymru.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y cyllid ar gyfer y cyfnod 2014-2020 yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i sicrhau nad yw Cymru yn gymwys am bedwaredd rownd.

6. Calls on the Welsh Government to ensure that the funding for the 2014-2020 period is utilised effectively to ensure that Wales does not qualify for a fourth round.

7. Yn nodi pe byddai'r DU yn rhoi'r gorau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd, mai dyna fyddai diwedd rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE ac y byddai'n niweidiol i'r economi.

7. Notes that UK withdrawal from the European Union would end Wales' role in the EU decision making process and be detrimental to the economy.

8. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

8. Calls on the Welsh Government to:

a) gweithio ar lefel Ewropeaidd i gryfhau rôl Pwyllgor y Rhanbarthau; a

a) work at European level to strengthen the role of the Committee of the Regions; and

b) ceisio cael llais cryfach i Gymru yn y Sefydliadau Ewropeaidd.

b) seek a greater voice for Wales in the European institutions.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5493 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5493 as amended.

*Gwrthodwyd cynnig NDM5493 fel y'i diwygiwyd: O blaid 12, Yn erbyn 33, Ymatal 0.*

*Motion NDM5493 as amended not agreed: For 12, Against 33, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5495.

Result of the vote on motion NDM5495.

*Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 8, Yn erbyn 37, Ymatal 0.*

*Motion not agreed: For 8, Against 37, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5495.

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5495.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 22, Yn erbyn 23, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 22, Against 23, Abstain 0.*

*Ni ddetholwyd gwelliant 2.*

*Amendment 2 not selected.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5495.

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5495.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 14, Yn erbyn 31, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 14, Against 31, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5495.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 22, Yn erbyn 23, Ymatal 0.*

Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5495.

*Amendment not agreed: For 22, Against 23, Abstain 0.*

17:45

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will those Members who are leaving the Chamber, please do so quickly and quietly?

Os gwelwch yn dda, a wnaiff yr Aelodau sy'n gadael y Siambr wneud hynny'n gyflym ac yn dawel?

17:45

# Dadl Fer: 200,000 o Blant Tawel?

# Short Debate: 200,000 Silent Children?

Senedd.tv Fideo Video

## Christine Chapman Bywgraffiad Biography

Could I mention that Julie Morgan, Peter Black and Jocelyn Davies have asked to contribute to my debate?

A gaf fi sôn bod Julie Morgan, Peter Black a Jocelyn Davies wedi gofyn am gael cyfrannu at fy nadl?

Joe has never forgotten the day when the police turned up. They searched his house and arrested his mother. Peter and his sister Jade were told initially that their father had gone away to work on an oil rig until being taunted by schoolmates that he had, indeed, gone to prison. My debate today, '200,000 Silent Children?', considers the specific needs of children like Joe, Peter and Jade, affected by parental imprisonment.

Nid yw Joe erioed wedi anghofio'r diwrnod pan ddaeth yr heddlu i'r tŷ. Aethant ati i chwilio'r tŷ ac arestio'i fam. Dywedwyd wrth Peter a'i chwaer Jade i gychwyn fod eu tad wedi mynd i ffwrdd i weithio ar rig olew nes iddynt gael eu gwawdio gan ffrindiau ysgol mai wedi mynd i'r carchar oedd eu tad mewn gwirionedd. Mae fy nadl heddiw, '200,000 o Blant Tawel?', yn ystyried anghenion penodol plant fel Joe, Peter a Jade, sy'n wynebu effeithiau yn sgîl carchariad eu rhieni.

Figures suggest that 7% of children across England and Wales have parents in prison, but part of the problem is that we do not have accurate, definitive data. Two hundred thousand is an estimate only, based on the research put forward by the Ministry of Justice, and relates to both England and Wales. We also do not have accurate Wales-specific data. Rather, figures obtained from the National Offender Management Service suggest that 2,000 children in Wales are affected by parental imprisonment, but, again, we do not really know.

Mae ffigurau'n awgrymu bod 7% o blant ledled Cymru a Lloegr â rhiant yn y carchar, ond rhan o'r broblem yw nad oes gennym ddata cywir, diffiniol. Amcangyfrif yn unig yw dau gan mil, yn seiliedig ar yr ymchwil a gyflwynwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ac sy'n ymwneud â Chymru a Lloegr gyda'i gilydd. Nid oes gennym ddata penodol a chywir ar gyfer Cymru ychwaith. Yn hytrach, mae ffigurau a gafwyd gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yn awgrymu bod 2,000 o blant yng Nghymru yn cael eu heffeithio yn sgîl carcharu eu rhieni, ond unwaith eto, nid ydym yn gwybod mewn gwirionedd.

Prisons are, of course, a matter for the UK Government, but the wellbeing of children is clearly a matter for this Assembly. As such, it is our responsibility to scrutinise the Welsh Government if there are shortfalls in the system resulting in any child in Wales being disadvantaged. This, I believe, accords with our commitment to the rights of the child under the United Nations Convention on the Rights of the Child. If you are a child like Joe, Peter or Jade, having your dad or mam sent to prison can be catastrophic. For a start, it is difficult for children to stay in touch with an imprisoned parent. Offenders are generally placed far away from home, making it difficult for family visits. It is no wonder then that 45% of prisoners lose touch with their families as a result. There is also the psychological impact of children not knowing where parents have gone or suffering the disruption of a released parent going back to prison.

Mater i Lywodraeth y DU yw carchardai, wrth gwrs, ond mae lles plant yn amlwg yn fater i'r Cynulliad hwn. Fel y cyfryw, ein cyfrifoldeb ni yw craffu ar Lywodraeth Cymru os oes diffygion yn y system sy'n gosod unrhyw blentyn yng Nghymru dan anfantais. Credaf fod hyn yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i hawliau'r plentyn o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. I blant fel Joe, Peter neu Jade, gallai cael tad neu fam sy'n cael eu hanfon i'r carchar fod yn brofiad trychinebus. I ddechrau, mae'n anodd i blant gadw mewn cysylltiad â rhiant yn y carchar. Yn gyffredinol, caiff troseddwyr eu lleoli'n bell o gartref gan wneud ymweliadau teuluol yn anodd. Nid yw'n syndod felly fod 45% o garcharorion yn colli cysylltiad â'u teuluoedd o ganlyniad i hynny. Hefyd, mae peidio â gwybod i ble mae rhieni wedi mynd neu ddioddef aflonyddwch wrth i riant a ryddhawyd fynd yn ôl i garchar yn cael effaith seicolegol ar blant.

In the short term, children of offenders are particularly vulnerable to being bullied or becoming bullies. Children of prisoners are approximately three times more likely to be involved in delinquent activity than their peers. Also, having been told that they are not to tell anyone what has happened or finding themselves having to take on caring roles, anecdotal evidence suggests that many children find it easier simply not to attend school. We also know that 12% go into care.

Yn y tymor byr, mae plant troseddwyr yn arbennig o agored i gael eu bwlio neu i ddatblygu'n fwlis. Mae plant carcharorion tua thair gwaith yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgarwch tramgwyddus na'u cyfoedion. Hefyd, ar ôl cael gwybod nad ydynt i fod i ddweud wrth unrhyw un beth sydd wedi digwydd neu orfod ymgymryd â rolau gofalu, mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod llawer o blant yn ei chael yn haws rhoi'r gorau i fynd i'r ysgol. Rydym hefyd yn gwybod bod 12% ohonynt yn mynd i mewn i ofal.

In the long term, evidence shows that boys who have a parent who has been in prison are, by the age of 48, three times more likely to have had a history of poor housing, relationship difficulties, poor employment, heavy alcohol and drug use, anxiety, depression and offending, and 65% of boys with a convicted father will themselves go on to offend. In addition, they face particular challenges in terms of poverty, because, as a consequence of imprisonment, there is an estimated additional monthly cost to the family of the prisoner of £175, which can push an already overstretched family budget to breaking point. That figure includes the loss of any income or benefit associated with the prisoner, the cost of visiting and also providing money for that prisoner.

Yn y tymor hir, mae tystiolaeth yn dangos bod bechgyn sydd â rhiant sydd wedi bod yn y carchar dair gwaith yn fwy tebygol, erbyn iddynt gyrraedd 48 oed, o fod wedi cael hanes o fyw mewn tai gwael, o gael anawsterau perthynas, o gael hanes cyflogaeth gwael, o wneud defnydd trwm o alcohol a chyffuriau, o bryder ac iselder a throseddu, a bydd 65% o fechgyn â thad a gafwyd yn euog yn mynd ymlaen i droseddu eu hunain. Yn ogystal, maent yn wynebu heriau penodol o ran tlodi, gan fod cost fisol amcangyfrifiedig ychwanegol i deulu carcharor o £175 o ganlyniad i garchariad, sy'n gallu gwthio cyllideb teulu sydd eisoes dan bwysau dros y dibyn. Mae'r ffigur hwnnw'n cynnwys colli incwm neu fudd-dal sy'n gysylltiedig â'r carcharor, costau ymweld a darparu arian ar gyfer y carcharor.

Parental imprisonment affects not only the immediate family, but the whole of society. While reoffending costs between £9.5 billion and £13 billion a year, for the victims of crime and the families and children of offenders, the cost can be life-changing and long-lasting. Bearing all that in mind, what I would ask is: can we afford, as a society, not to address this? We also need to think about the long term, how we reduce re-offending rates, and steer the next generation away from the criminal justice system. We really do need to break the cycle.

Bydd carchariad rhiant yn effeithio nid yn unig ar y teulu agos, ond ar y gymdeithas gyfan. Er bod aildroseddu'n costio rhwng £9.5 biliwn a £13 biliwn y flwyddyn, i ddioddefwyr troseddau a theuluoedd a phlant troseddwyr, gall y gost newid bywydau a phara am amser hir. Gan gadw hyn mewn cof, yr hyn y byddwn yn ei ofyn yw: fel cymdeithas, a allwn fforddio peidio â mynd i'r afael â hyn? Mae angen inni feddwl hefyd am y tymor hir, sut y mae gostwng cyfraddau aildroseddu a llywio'r genhedlaeth nesaf i ffwrdd oddi wrth y system cyfiawnder troseddol. Mae gwir angen inni dorri'r cylch.

I am pleased that, in Wales, there is some excellent work going on, maintaining meaningful links between prisoners and their children. The Parc prison Invisible Walls project is one such example. Just before Christmas I visited the Invisible Walls project at Parc prison. Again, I pay tribute to the staff at the prison, and also to Barnardo's, which is involved in this project. Underpinning the whole project is the belief that a prisoner's life does not stop when they are inside, and that their punishment should not apply to their families, especially their children. The three main aims of the project are to reduce the risk of reoffending and returning to prison, to reduce the risk of intergenerational offending, and to increase family and community cohesion. The project is running for four years and involves 20 families that are in need of critical support in which the father has a minimum of six months left to serve and that person is drug-free and undergoing regular testing. Prisoners are based in a dedicated family intervention unit. We know that Parc Supporting Families has taken over the running of the visitors' department, changing the visiting experience from simply being about security to being about actually engaging with the family. Within the visiting area—it was really good to see this facility—there is a cafe and a dedicated children's play area. Walls are decorated with prisoners' and children's artwork, and fathers are encouraged to build a relationship with their children. There is also a homework club, which enables prisoners to know about what their children are learning at school so that they can get involved with their school work during visits. Bedtime stories can also be recorded so that children maintain that link with their father at home.

The whole family is supported for up to a year before release, and up to six months after release. The project works in partnership with Bridgend County Borough Council, the Wales Probation Trust, and Barnardo's Cymru. I am pleased to see Tim Ruscoe in the public gallery along with his colleague, Laura Tranter. This has been an excellent project. It also works in partnership with Harp Resettlement Ltd, Gwalia Housing and many others, and has received £50,000 in funding from the Big Lottery Fund.

While this is an exemplary project, the shame is that it is not more widespread, which means that other prisoners and children who could benefit are not. Also, there is the fact that only a few organisations, whether providing children's services or services aimed at adult prisoners, actually ask whether a family member has been imprisoned or whether a prisoner has children. The probation service is not required to ask whether children are involved as part of the pre-sentencing of offenders, and schools rarely know whether their pupils are affected in this way. Any information that does exist is held in pockets, without a central database of information.

We do want to take this further after today and I am very pleased that, with the support of Barnardo's, we are setting up a cross-party group, which wants to make progress on this. I am pleased that Assembly Members Jocelyn Davies, Suzy Davies and Aled Roberts are already involved and want to be part of this group. Obviously, I welcome everyone else who wants to get involved.

Rwy'n falch bod peth gwaith rhagorol yn digwydd yng Nghymru ar gynnal cysylltiadau ystyrlon rhwng carcharorion a'u plant. Mae prosiect Invisible Walls carchar y Parc yn un enghraifft o'r fath. Ychydig cyn y Nadolig, ymwelais â phrosiect Invisible Walls yng ngharchar y Parc. Unwaith eto, rwy'n talu teyrnged i staff y carchar a hefyd i Barnardo's, sy'n rhan o'r prosiect. Yn sail i'r prosiect cyfan, mae'r gred nad yw bywyd carcharorion yn dod i ben pan fyddant yn y carchar ac na ddylai eu cosb gosbi eu teuluoedd, yn enwedig eu plant. Tri phrif nod y prosiect yw lleihau'r risg o aildroseddu a dychwelyd i'r carchar, lleihau'r risg o droseddu o un genhedlaeth i'r llall, a chynyddu cydlyniant teuluoedd a chymunedau. Cynhelir y prosiect am bedair blynedd ac mae'n cynnwys 20 o deuluoedd sydd angen cymorth dwys, lle mae gan y tad o leiaf chwe mis ar ôl yng ngharchar, yn rhydd o gyffuriau ac yn cael profion rheolaidd. Caiff y carcharorion eu lleoli mewn uned ymyrraeth deuluol bwrpasol. Rydym yn gwybod bod gwasanaeth Cefnogi Teuluoedd carchar y Parc wedi ysgwyddo'r gwaith o redeg adran yr ymwelwyr, gan newid profiadau ymweld o fod yn ddim mwy na mater o ddiogelwch i ymwneud go iawn â'r teulu. Yn yr ystafell ymweld—roedd yn dda gweld y cyfleuster hwn—mae yna gaffi ac ardal bwrpasol i blant chwarae. Mae'r waliau wedi'u haddurno gan waith celf carcharorion a phlant, a chaiff tadau eu hannog i feithrin perthynas â'u plant. Mae clwb gwaith cartref yno hefyd sy'n galluogi carcharorion i wybod beth y mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol fel y gallant gymryd rhan yn eu gwaith ysgol yn ystod ymweliadau. Mae modd recordio straeon amser gwely fel bod plant yn cynnal y cysylltiad gyda'u tad yn y cartref.

Mae'r teulu cyfan yn cael ei gefnogi am hyd at flwyddyn cyn eu rhyddhau, a hyd at chwe mis ar ôl eu rhyddhau. Mae'r prosiect yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Ymddiriedolaeth Prawf Cymru, a Barnardo's Cymru. Rwy'n falch o weld Tim Ruscoe a'i gydweithiwr, Laura Tranter, yn yr oriel gyhoeddus. Mae hwn wedi bod yn brosiect ardderchog. Mae hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Harp Resettlement Ltd, Tai Gwalia a llawer o rai eraill, ac mae wedi derbyn £50,000 o gyllid gan y Gronfa Loteri Fawr.

Er bod hwn yn brosiect rhagorol, y cywilydd yw nad yw'n digwydd yn fwy eang, sy'n golygu nad yw carcharorion a phlant eraill a allai gael budd ohono'n ei gael. Hefyd, dim ond ychydig o sefydliadau, boed yn darparu gwasanaethau plant neu wasanaethau wedi'u hanelu at garcharorion sy'n oedolion, sy'n gofyn a oes aelod o'r teulu wedi'i garcharu neu a oes gan garcharor blant. Nid yw'n ofynnol i'r gwasanaeth prawf ofyn yn rhan o broses cyn-dedfrydu troseddwyr pa un a oes plant yn gysylltiedig, ac anaml y bydd ysgolion yn gwybod a yw eu disgyblion yn cael eu heffeithio yn y ffordd hon. Cedwir unrhyw wybodaeth sy'n bodoli mewn ffordd dameidiog, heb gronfa ddata ganolog o wybodaeth.

Rydym am fynd â hyn ymhellach ar ôl heddiw ac rwy'n falch iawn ein bod, gyda chefnogaeth Barnardo's, yn sefydlu grŵp trawsbleidiol sydd am symud hyn yn ei flaen. Rwy'n falch bod Aelodau'r Cynulliad, Jocelyn Davies, Suzy Davies ac Aled Roberts eisoes yn rhan o'r gwaith ac yn awyddus i fod yn rhan o'r grŵp. Yn amlwg, rwy'n croesawu pawb arall sydd am gymryd rhan.

To conclude, I think that there are a number of actions that the Welsh Government needs to take if it wants to avoid such children falling through the cracks and to enable them to have a better future. First, the Welsh Government needs to look carefully at the research that is being undertaken at the Welsh Centre for Crime and Social Justice. That evaluation is due next year. The Welsh Government also needs to discuss with the Westminster Government how it monitors and collates data relating to the number of children affected so that we can get a clear picture of what is happening in Wales. The Welsh Government also needs to work to embed awareness of the needs of these children across Welsh society so that schools, local authorities, charities and other services are aware of their needs and how they can support them. There is some good practice out there, as I said. For example, in my own area of Rhondda Cynon Taf, the needs of these children are central to the education and lifelong learning wellbeing strategy action plan part of the council, but we must ensure that this becomes the norm, not the exception. In conclusion, I would like to thank Barnardo's, Tim Ruscoe and Laura Tranter for the excellent work that they are undertaking on behalf of these children. I referred at the start of my contribution to 200,000 silent children. I think that these children are often crying out for our help; they are rendered silent only because no one is listening.

I gloi, rwy'n meddwl fod yna nifer o gamau y mae angen i Lywodraeth Cymru eu rhoi ar waith os yw am osgoi esgeuluso plant o'r fath a'u galluogi i gael dyfodol gwell. Yn gyntaf, mae angen i Lywodraeth Cymru edrych yn ofalus ar yr ymchwil sy'n cael ei wneud yng Nghanolfan Trosedd a Chyfiawnder Cymdeithasol Cymru. Disgwylir y gwerthusiad hwnnw y flwyddyn nesaf. Hefyd, mae angen i Lywodraeth Cymru drafod gyda Llywodraeth San Steffan sut y mae'n monitro ac yn coladu data sy'n ymwneud â nifer y plant yr effeithir arnynt fel y gallwn gael darlun clir o'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru. Mae angen hefyd i Lywodraeth Cymru weithio i ymgorffori ymwybyddiaeth o anghenion y plant hyn ar draws y gymdeithas yng Nghymru fel bod ysgolion, awdurdodau lleol, elusennau a gwasanaethau eraill yn ymwybodol o'u hanghenion a sut y gallant eu cefnogi. Ceir rhywfaint o arfer da eisoes, fel y dywedais. Er enghraifft, yn fy ardal fy hun yn Rhondda Cynon Taf, mae anghenion y plant hyn yn ganolog yng nghynllun gweithredu strategaeth lles addysg a dysgu gydol oes y cyngor, ond rhaid inni sicrhau bod hyn yn datblygu'n norm, nid yn eithriad. I gloi, hoffwn ddiolch i Barnardo's, Tim Ruscoe a Laura Tranter am y gwaith rhagorol y maent yn ei wneud ar ran y plant hyn. Cyfeiriais ar ddechrau fy nghyfraniad at 200,000 o blant tawel. Rwy'n meddwl bod y plant hyn yn aml yn crefu am ein cymorth; yr unig reswm y cânt eu galw'n dawel yw am nad oes neb yn gwrando.

17:55

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I would like to congratulate Christine Chapman on putting forward this debate. It illustrates her commitment to children, and I know that we will miss her very much in the Assembly when she goes. The problems experienced by prisoners' children are invisible, as Christine has said. This reinforces my view that imprisonment should be absolutely the last resort, and that is particularly true of women. Many mothers are in prison who are not a risk to society and who are there because of continuous offending and for crimes that do not put others at risk. So, my contribution to this debate is to say that, given the huge disruption caused to families by imprisonment, particularly of mothers, far more use should be made of community sentences. I would like the Welsh Government to work with the justice system to ensure that those are available in Wales.

Hoffwn longyfarch Christine Chapman ar gyflwyno'r ddadl hon. Mae'n dangos ei hymrwymiad i blant ac rwy'n gwybod y byddwn yn gweld ei cholli'n fawr yn y Cynulliad pan fydd hi'n mynd. Mae'r problemau y mae plant carcharorion yn eu dioddef yn anweledig, fel y dywedodd Christine. Mae hyn yn atgyfnerthu fy marn mai dewis olaf yn llwyr ddylai carchar fod ac mae hynny'n arbennig o wir am fenywod. Mae llawer o famau yn y carchar nad ydynt yn berygl i gymdeithas ac sydd yno oherwydd troseddu parhaus a throseddau nad ydynt yn rhoi pobl eraill mewn perygl. Felly, fy nghyfraniad i'r ddadl hon yw dweud y dylid gwneud llawer mwy o ddefnydd o ddedfrydau cymunedol o ystyried yr aflonyddwch enfawr sy'n cael ei achosi i deuluoedd drwy garcharu, yn enwedig mamau. Hoffwn i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r system gyfiawnder i sicrhau bod dedfrydau o'r fath ar gael yng Nghymru.

17:56 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I also congratulate Christine Chapman on this debate, and I wish her well when she leaves the Assembly in two years' time. We have plenty more of you yet, Chris, before then. This is a very important debate, and some of the statistics are quite frightening. One Home Office study showed that, for 85% of mothers in prison, prison was the first time that they had been separated from their children for any significant length of time. It also showed that 65% of mothers in prison were serving their first custodial sentence. One of the problems, particularly in terms of women, is that there is no women's prison in Wales. In 2009, there were 753 women held over 100 miles from their homes. If you do not hold female prisoners in particular—but male prisoners as well—in their local communities and close to their families, you will have problems exacerbated as part of that. My contribution to this debate is that we need to address the prison estate to try to resolve that issue, although I agree with Julie Morgan that, particularly in terms of women, prison should be a last resort.

Rwyf hefyd yn llongyfarch Christine Chapman ar y ddadl hon ac rwy'n dymuno'n dda iddi pan fydd yn gadael y Cynulliad ymhen dwy flynedd. Cawn lawer mwy ohonoch eto cyn hynny, Chris. Mae hon yn ddadl bwysig iawn ac mae rhai o'r ystadegau yn eithaf brawychus. Dangosodd un astudiaeth gan y Swyddfa Gartref y ffaith ganlynol: i 85 % o'r mamau sydd yn y carchar, y carchariad oedd y tro cyntaf iddynt gael eu gwahanu oddi wrth eu plant am gyfnod sylweddol o amser. Dangosodd hefyd mai eu dedfryd gyntaf o garchar oedd eu carchariad i 65% o'r mamau a oedd yno. Un o'r problemau, yn enwedig o ran merched, yw nad oes carchar i fenywod yng Nghymru. Yn 2009, roedd 753 o fenywod wedi'u carcharu dros 100 milltir o'u cartrefi. Os na chaiff carcharorion benywaidd yn enwedig-ond dynion hefyd-eu carcharu yn eu cymunedau lleol ac yn agos at eu teuluoedd, bydd problemau'n gwaethygu yn sgîl hynny. Fy nghyfraniad i'r ddadl hon yw bod angen inni roi sylw i'r ystâd garchardai er mwyn ceisio datrys y mater hwnnw, er fy mod yn cytuno â Julie Morgan mai dewis olaf ddylai carchar fod yn enwedig mewn perthynas â menywod.

17:57 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

My concern is also with women, and I agree wholeheartedly with the idea that they should not be sent to prison. When women go to prison, their children, in over 80% of cases, not only lose that parent but also lose their homes. That is not the case with men. In fact, the comparable figure is 5%, because mothers will normally still be in the household in the man's absence. When women come out of prison, they have no home, and, without it, they cannot regain their children. So, generally, I think the consequences of prison for women with children are more extreme than for men. Government policy should certainly try to mitigate that.

Ymwneud â menywod y mae fy mhryder innau hefyd ac rwy'n cytuno'n llwyr â'r syniad na ddylent gael eu hanfon i'r carchar. Pan fydd menywod yn mynd i'r carchar, mewn dros 80% o achosion, bydd eu plant nid yn unig yn colli rhiant ond hefyd yn colli eu cartrefi. Nid yw hynny'n wir yn achos dynion. Mewn gwirionedd, y ffigur cymharol yw 5% gan y bydd mamau fel arfer yn dal i fod yn y cartref pan fydd y dyn yn absenoldeb. Pan fydd menywod yn dod allan o'r carchar, nid oes ganddynt gartref, a heb gartref, ni allant gael eu plant yn ôl. Yn gyffredinol, felly, credaf fod canlyniadau carchar i fenywod sydd â phlant yn fwy eithafol nag ar gyfer dynion. Yn sicr dylai polisi'r llywodraeth geisio lliniaru hynny.

17:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister for Tackling Poverty to reply to the debate—Vaughan Gething.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi i ymateb i'r ddadl—Vaughan Gething.

17:58 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi / The Deputy Minister for Tackling Poverty*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I am grateful to Christine Chapman for bringing this short debate forward today and for the opportunity to respond. I am sure that not just myself but Members across the Chamber will miss this founding Member of the National Assembly for Wales when she goes on to a different form of activity in life. I am fairly sure that she will not be retiring from all forms of useful and interesting activity. I am pretty sure that we will still see plenty of Christine.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n ddiolchgar i Christine Chapman am gyflwyno'r ddadl fer hon heddiw ac am y cyfle i ymateb. Rwy'n siŵr y bydd Aelodau ar draws y Siambr, a minnau yn eu plith, yn gweld colli'r Aelod a oedd yn un o aelodau gwreiddiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrth iddi adael i fynd ymlaen at weithgaredd o fath gwahanol mewn bywyd. Rwy'n weddol siŵr na fydd hi yn ymddeol o bob math o weithgaredd defnyddiol a diddorol. Rwy'n eithaf siŵr y byddwn yn dal i weld digon o Christine.

The rights of children and young people continue to be a priority for this Government. Yesterday, we debated and approved the Welsh Government's updated children's rights scheme, and tomorrow sees the commencement of the second part of the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011. Both of these are groundbreaking, both in a global context and across the UK. Very few countries have taken this proactive and positive approach to embedding the UN Convention on the Rights of the Child into the development of legislation, policymaking and delivery. However, we recognise that we will ensure that the rights of children and young people are protected only if we can ensure that there are appropriate programmes and interventions in place to support children and their families to achieve improved outcomes.

Mae hawliau plant a phobl ifanc yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Ddoe, cawsom ddadl ar ddiweddariad Llywodraeth Cymru o'r cynllun hawliau plant, a'i gymeradwyo, ac yfory bydd ail ran y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn dechrau. Mae'r ddau o'r rhain yn arloesol, mewn cyd-destun byd-eang ac ar draws y DU. Ychydig iawn o wledydd sydd wedi mabwysiadu'r ymagwedd ragweithiol a chadarnhaol hon tuag at ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth ddatblygu deddfwriaeth, polisïau a darpariaeth. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod mai dim ond os gallwn sicrhau bod rhaglenni ac ymyriadau priodol ar waith i gefnogi plant a'u teuluoedd i gael gwell canlyniadau y gallwn sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn.

I am pleased to note the comments made by Christine Chapman in relation to the work that has taken place at Parc prison. That is encouraging because we want children and young people to continue to have access to their parents. I note the points that are made on the impact of the continuing relationship, which I will return to later on. Families with a parent in prison, as described by Christine Chapman, face particular challenges. Often, the parent in custody is some distance away from the family. Families face financial difficulties, again outlined in the opening debate. There are debts and there is housing disruption, and there may be mental or physical health problems caused by additional stress. In addition, the children themselves face significant individual challenges, which is where we started off the initial debate: the increased levels of anxiety and stress; the reality of increased instances of bullying as a result of their family situation; an increase in truancy; and the reality that children often feel lonely and isolated. We also understand that changes in the family structure, especially where the main parental carer—who is almost always the mother, or a single-parent family—is in custody, lead to different care arrangements, either through the extended family or, potentially, through the care system itself. We recognise that this significant turbulence in a child's life will have an impact, often for worse rather than for better.

Rwy'n falch o nodi'r sylwadau a wnaed gan Christine Chapman yng nghyswllt y gwaith sydd wedi digwydd yng ngharchar y Parc. Mae hynny'n galonogol oherwydd ein bod eisiau i blant a phobl ifanc barhau i allu cadw mewn cysylltiad â'u rhieni. Nodaf y pwyntiau sy'n cael eu gwneud ar effaith y berthynas barhaus, y byddaf yn dychwelyd atynt yn nes ymlaen. Fel y mae Christine Chapman yn disgrifio, mae teuluoedd sydd â rhiant yn y carchar yn wynebu heriau penodol. Yn aml, bydd y rhiant wedi'i garcharu gryn bellter i ffwrdd oddi wrth y teulu. Mae teuluoedd yn wynebu anawsterau ariannol, eto fel yr amlinellwyd yn y ddadl agoriadol. Mae yna ddyledion a tharfu o ran lle mae'r plentyn yn byw a gallai fod problemau iechyd meddwl neu gorfforol wedi'u hachosi gan straen ychwanegol. Yn ogystal, mae'r plant eu hunain yn wynebu heriau unigol sylweddol, sy'n dod â ni'n ôl at y ddadl gychwynnol: lefelau cynyddol o bryder a straen; y realiti o fwy o achosion o fwlio o ganlyniad i'w sefyllfa deuluol; cynnydd mewn triwantiaeth; a'r realiti fod plant yn aml yn teimlo'n unig ac yn ynysig. Rydym hefyd yn deall bod newidiadau yn strwythur y teulu, yn enwedig pan fo'r rhiant sy'n brif ofalwr yn y carchar—sef y fam bron yn ddieithriad, neu deulu un rhiant—yn arwain at drefniadau gofal gwahanol, naill ai drwy gyfrwng y teulu estynedig neu drwy'r system ofal ei hun o bosibl. Sylweddolwn y bydd aflonyddwch sylweddol o'r fath ym mywyd plentyn yn cael effaith er gwaeth yn hytrach nag er gwell yn aml.

As I said earlier, I was pleased to hear Christine Chapman make reference to the Barnardo's-sponsored project Invisible Walls at Parc prison. We know that it continues to work with prisoners and their families, and, again, we look forward to seeing some of the evidence base for the outcomes from the project as it continues. I am also aware that, in conjunction with the Wales probation service, integrated family support services—a programme funded by the Welsh Government—worked closely to support those children and their families who are affected where a parent is in the criminal justice system.

Fel y dywedais yn gynharach, roeddwn yn falch o glywed Christine Chapman yn cyfeirio at y prosiect Invisible Walls a noddir gan Barnardo's yng ngharchar y Parc. Rydym yn gwybod ei fod yn parhau i weithio gyda charcharorion a'u teuluoedd, ac unwaith eto, edrychwn ymlaen at weld peth o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y canlyniadau o'r prosiect wrth iddo barhau. Rwyf hefyd yn ymwybodol bod gwasanaethau cymorth i deuluoedd integredig—rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru—wedi gweithio'n agos, ar y cyd â gwasanaeth prawf Cymru, i gefnogi'r plant a'u teuluoedd sy'n cael eu heffeithio pan fo rhiant yn y system cyfiawnder troseddol.

The all-Wales reducing reoffending strategy, which was launched last month, recognises that strong and supportive family relationships are important factors in preventing reoffending. Prisoners receiving family visits have been found to be much less likely to reoffend and be more likely to have positive outcomes when they leave custody. The strategy also sets out to establish what constitutes the most effective practice in work with children, young people and families of offenders, and to share that learning among key delivery partners, a number of which are not, of course, devolved agencies.

Mae'r strategaeth lleihau aildroseddu ar gyfer Cymru gyfan a lansiwyd fis diwethaf yn cydnabod bod perthynas deuluol gref a chefnogol yn ffactorau pwysig ar gyfer atal aildroseddu. Gwelwyd bod carcharorion sy'n cael ymweliadau teulu yn llawer llai tebygol o aildroseddu ac yn fwy tebygol o gael canlyniadau cadarnhaol ar ôl cael eu rhyddhau. Mae'r strategaeth hefyd yn bwrw ati i bennu beth yw'r arfer mwyaf effeithiol mewn gwaith gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd troseddwyr ac i rannu'r gwersi hynny ymysg partneriaid darparu gwasanaethau allweddol, er nad yw nifer ohonynt yn asiantaethau datganoledig wrth gwrs.

In terms of some of the particular asks that Christine Chapman has made, I would be very happy to consider the research that she referred to towards the end of her contribution. I also take account of the challenge over the number of children affected, because we do not have entirely reliable data. Some of the estimates appear, on face value, to be larger than we would otherwise expect. The point is that we need to understand more about the scale of the problem or issue and where the issue exists. So, I would be happy to contact the relevant UK Government Minister to try to gain some greater clarity over what the position currently is, especially as we recognise that this issue is complicated by where the parent could be serving their sentence. We certainly understand that a number of parents of children regularly domiciled in Wales will be serving a sentence outside Wales, and the issue of not having a women's prison is well understood and well made.

O ran rhai o'r pethau penodol y mae Christine Chapman wedi gofyn amdanynt, byddwn yn hapus iawn i ystyried y gwaith ymchwil y cyfeiriodd ato tuag at ddiwedd ei chyfraniad. Rwyf hefyd yn tynnu sylw at yr her o ran nifer y plant sy'n cael eu heffeithio, gan nad oes gennym ddata cwbl ddibynadwy. Mae rhai o'r amcangyfrifon yn ymddangos, ar yr wyneb, i fod yn fwy nag y byddem yn ei ddisgwyl. Y pwynt yw bod angen i ni ddeall mwy am faint y broblem a lle mae'r broblem. Felly, byddwn yn hapus i gysylltu â'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth y DU i geisio sicrhau mwy o eglurder ynghylch beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd, yn enwedig gan ein bod yn cydnabod y gallai ble y mae'r rhiant wedi'i garcharu gymhlethu'r mater. Rydym yn sicr yn deall y bydd nifer o rieni plant sydd fel arfer yn byw yng Nghymru yn bwrw'u dedfryd y tu allan i Gymru, a bod y pwynt nad oes carchar i fenywod yma wedi'i ddeall a'i gyflwyno'n dda.

Protecting the rights of all children and young people in Wales will remain our priority. In particular, we will continue to focus our efforts on the children and young people who are most vulnerable. I note the future work that will be undertaken in relation to the needs of children and young people who are affected by parental imprisonment, and I look forward to seeing the conclusions of the task and finish group that Christine Chapman referred to. I will be happy to receive that report and to discuss its outcomes with Christine, and to discuss how the Welsh Government could and should respond, and how that response needs to take account of different responsibilities in different portfolios. So, I look forward to having this issue raised with me again at the end of the task and finish group's work to see what we can do here in Wales in devolved responsibilities.

Bydd gwarchod hawliau pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni. Yn benodol, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ein hymdrechion ar y plant a'r bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed. Nodaf y gwaith a wneir yn y dyfodol mewn perthynas ag anghenion plant a phobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan garchariad rhieni ac edrychaf ymlaen at weld casgliadau'r grŵp gorchwyl a gorffen y cyfeiriodd Christine Chapman ato. Byddaf yn hapus i dderbyn yr adroddiad ac i drafod ei ganlyniadau â Christine, a hefyd i drafod sut y gallai ac y dylai Llywodraeth Cymru ymateb a sut y mae angen i ymateb o'r fath ystyried gwahanol gyfrifoldebau mewn portffolios gwahanol. Felly, rwy'n edrych ymlaen at godi'r mater eto ar ôl i'r grŵp gorchwyl a gorffen gwblhau ei waith er mwyn gweld beth y gallwn ei wneud yma yng Nghymru o fewn ein cyfrifoldebau datganoledig.

18:04

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Minister. That concludes today's business.

Diolch i chi, Ddirprwy Weinidog. Dyna ddiwedd busnes heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:04.*

*The meeting ended at 18:04.*